



Cyfarfod

CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR

Dyddiad ac Amser

1.00 y.h., DYDD IAU, 1AF HYDREF, 2020

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol - Zoom

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWYD Dydd Mercher, 23 Medi 2020)

DYDD MERCHER, 23 MEDI 2020

Annwyl Gyngorydd,

CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 1 HYDREF 2020

FE'CH GWYSIR TRWY HYN i gyfarfod rhithiol drwy Zoom o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU, 1AF HYDREF, 2020**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Dewi Sillan". The signature is written in a cursive style with a large initial 'D'.

Prif Weithredwr

RHAGLEN

1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynu ar ethol Cadeirydd ar gyfer 2020/21.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynu ar ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2020/21.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. COFNODION

6 - 23

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 5 Mawrth, 2020 fel rhai cywir (ynghlwm).

5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

7. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

8. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

9. CWESTIYNAU

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.9 o'r Cyfansoddiad.

10. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2019/20 24 - 101

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor (ynghlwm).

11. PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

[Yn unol a gofynion adran 14 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y Cyngor Llawn sydd i benodi cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac ni all benodi aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth.]

12. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2019/20 102 - 134

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Craffu (ynghlwm).

13. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2019/20 135 - 179

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol (ynghlwm).

14. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR 180 - 185

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

15. ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR 186 - 187

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

16. RHYBUDDION O GYNNIG

(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD GLYN DANIELS

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cyngorydd Glyn Daniels yn cynnig fel a ganlyn:-

“Rwy'n cynnig fod Cyngor Gwynedd, mewn cydweithrediad â Parc Cenedlaethol Eryri, yn ymchwilio ar frys i'r posibilrwydd o godi tâl ar ymwelwyr sy'n ymweld â rhannau o'r Parc, yn arbennig felly ar, ac o amgylch, yr Wyddfa ei hun.

Credaf y buasai hyn yn fanteisiol mewn mwy nag un ffordd:-

a) Buasai codi tâl sylweddol am gael mynd i gopa'r Wyddfa yn gallu chwyddo coffrau Cyngor Gwynedd a'r Parc ar adeg pan mae ansicrwydd economaidd yn ein wynebu oherwydd sgil-ffeithiau Covid-19.

b) O ganlyniad i'r uchod, mae lle i gredu y buasai camau o'r fath yn gallu cyfrannu at leihau y problemau difrifol o ormodedd o geir yn

cronni ac yn creu tagfeydd a pheryglon ar ffyrdd y cylch.”

(B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD GRUFFYDD WILLIAMS

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cyngorydd Gruffydd Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

“Bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i newid y Ddeddf Gynllunio fel ei bod yn orfodol cael hawl cynllunio i drosi tŷ anedd yn dŷ haf /uned wyliau, ac yn addasu'r fframwaith bolisi i ganiatáu gosod trothwyon o ran uchafswm niferoedd o dai haf mewn unrhyw ardal i ffigur na ddylai fod yn uwch nag oddeutu 5% o'r stoc dai.”

(C) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD GARETH THOMAS

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cyngorydd Gareth Thomas yn cynnig fel a ganlyn:-

“Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth y DU i greu deddfwriaeth i reoli cerbydau dŵr personol ar y môr yn yr un modd a beiciau modur ar y tir. Hynny yw bod pob cerbyd dŵr personol yn gorfod cael trwydded ac yswiriant cyn ei ddefnyddio ar y môr a bod pob gyrrwr yn cael prawf ar ei allu i drin y peiriant ac ei wybodaeth o reolau mordrwyo.”

Y CYNGOR DYDD IAU, 5 MAWRTH 2020

Yn bresennol: Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Simon Glyn (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Menna Baines, Freya Hannah Bentham, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Steve Collings, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Gareth Wyn Griffith, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Gareth Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dafydd Owen, W.Roy Owen, Jason Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

Hefyd yn bresennol: Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol / Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth), Rhun ap Iarll (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith), Eirwyn Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) (ar gyfer eitem 8), Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) (ar gyfer eitem 9), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol) (ar gyfer eitem 13) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Anwen Davies, Selwyn Griffiths, Charles W.Jones, Aeron Jones, Linda Ann Jones, Dewi Owen, Peter Read ac Angela Russell.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr, 2019 fel rhai cywir.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Swyddog Monitro fuddiant personol yn eitem 8 - Adolygiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor 2020/21 - ar ran y prif swyddogion oedd yn bresennol gan fod yr adroddiad yn ymwneud â'u cyflogau.

'Roedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, gadawodd y Swyddog Monitro'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Y Cynghorydd Linda Ann Jones ar golli ei gŵr yn ddiweddar;
- Y Cynghorydd Angela Russell ar golli ei thad yn ddiweddar;
- Teulu Bob Daimond, cyn-gyfarwyddwr Priffyrdd Cyngor Gwynedd, a fu farw'n ddiweddar.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

Croesawyd y Cynghorydd Linda Morgan i'r cyfarfod yn dilyn anhwylder diweddar.

Dymunwyd yn dda i'r canlynol:-

- Y Cynghorydd Charles W. Jones, oedd yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd.
- Y Cyngorwyr Aeron Jones, yn dilyn anhwylder diweddar.

Llongyfarchwyd Elfyn Evans ar fod y Prydeiniwr cyntaf i ennill Rali Sweden. Nodwyd ei fod yn arwain pencampwriaeth y byd ar y funud, a dymunwyd pob lwc iddo dros weddill y bencampwriaeth.

5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Dim i'w nodi.

6. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

7. CWESTIYNAU

(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau i'r aelodau ymlaen llaw.)

(1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Annwen Hughes

“Yn dilyn y cyhoeddiad diweddar y bydd niwed yn cael ei wneud i'r diwydiant amaeth ac economi cefn gwlad os bydd cynghorau sir yn parhau i werthu eu stoc o ffermydd, gofynnaf yma heddiw am sicrwydd nad oes gan y Cyngor hwn fwriad i feddwl am werthu'r mân-ddaliadau sydd yn ei berchnogaeth?”

Ateb gan yr Aelod Cabinet Tai, y Cynghorydd Craig ab Iago

“Mae'r Stad Manddaliadau yma yn rhoi grym i ni dros siapiau yr economi, yr amgylchedd a'r iaith yn yr ardaloedd yma, felly nid oes yna fwriad i wneud hynny o gwbl.”

Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Annwen Hughes

“Oes modd cael gwybod faint o incwm mae'r Cyngor yn wneud o'r manddaliadau hyn yn flynyddol?”

Ateb gan yr Aelod Cabinet Tai, y Cynghorydd Craig ab Iago

“10 mlynedd yn ôl, roeddem yn colli £17,000 y flwyddyn, a llynedd bu i ni ennill £31,000, rwy'n credu. Mae hyn i gyd oherwydd y gwaith da mae'r staff yn ei gyflawni, a hoffwn ddiolch yn fawr iddyn nhw am hynny.”

(2) Cwestiwn gan y Cyngorydd Dewi Roberts

“Pa gynlluniau sydd wedi'u darparu gan y Cyngor ynglŷn â Coronafeirws ac ydi'r cynlluniau hyn a'r wybodaeth ar gael i staff a chynghorwyr?”

Diolchodd yr aelod i'r Prif Weithredwr am yrru neges allan i'r cynghorwyr a'r staff ers iddo anfon ei gwestiwn i mewn.

Ateb gan yr Arweinydd, y Cyngorydd Dyfrig Siencyn

“Mae hwn yn amlwg yn gwestiwn amserol iawn ac mae hyn yn fater o drafodaeth a phryder i ni i gyd yn ddyddiol.

Bydd pob Aelod erbyn hyn wedi derbyn neges gan y Prif Weithredwr sy'n crynhoi ymdrechion y Cyngor i baratoi ac ymateb i ymlediad posibl Coronafeirws i Wynedd. Mae'r neges hwnnw yn pwysleisio mai lechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am ymateb i'r haint ac mai rôl cefnogi sydd gan y Cyngor hwn a phob awdurdod lleol arall.

Nodir bod y Cyngor wedi cymryd y camau canlynol hyd yma:

- Ymgynnull cyfarfod o benaethiaid / uwch swyddogion o bob adran er mwyn cyd-gordio ein paratodau ac ymateb - mae'r grŵp wedi cyfarfod ddwywaith yn barod a bydd yn cyfarfod yn wythnosol o hyn allan;
- Darparu arweiniad i reolwyr o ran beth i'w wneud os ydynt yn derbyn ymholiadau am y firws gan staff neu gan aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys doler i dudalennau lechyd Cyhoeddus Cymru ar y we;
- Mae gwbyodaeth wedi ei rannu gyda thrwy staff y Cyngor yn ogystal – gwnaethpwyd hyn drwy gyfryngau'r rhwydwaith rheolwyr, y fewnwyd, a grŵp Facebook staff a phosteri o gwmpas lleoliadau gwaith. Bydd ychwaneg o wybodaeth yn cael ei rhannu os a phryd caiff ei chyhoeddi gan lechyd Cyhoeddus Cymru

Manteisir ar y cyfle yma i'ch cyfeirio at wefan lechyd Cyhoeddus Cymru am y cyngor diweddaraf. Mae'r ddolen i'r wefan honno wedi'i chynnwys yn neges y Prif Weithredwr i chi.”

Cwestiwn Atodol gan y Cyngorydd Dewi Roberts

“Pryd fydd y cynllun argyfwng ar gael ynglŷn â'r Coronafeirws, ac ydi'r adnoddau sydd gan y Cyngor yn ddigon i ymateb i'r sefyllfa yn y dyfodol?”

Ateb gan yr Arweinydd, y Cyngorydd Dyfrig Siencyn

“Rydw i'n ymddiried yn ein penaethiaid i weithredu ar hwn a gall y Prif Weithredwr fanylu os ydi o'n teimlo fel gwneud hynny. Rydw i wedi bod yn rhan o drafodaethau rhwng awdurdodau lleol, drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac mae yna gydweithio ymysg cynhorau i ddeall beth rydym yn ei wneud. Mae'n faes newydd ac mae yna gwestiynau yn codi yn ddyddiol o safbwynt pwerau'r Cyngor a phwy sy'n gweithredu, ayyb. Un neges fyddwn yn ei rhoi fyddai mai dilyn arweiniad gwyddonol a meddygol yr arbenigwyr sydd angen wneud yn fan hyn, a bydd hwnnw'n glir i ni. Rwyf ar ddeall hefyd bod iechyd cyhoeddus Cymru yn cysylltu â'r Cyngor yn ddyddiol

i roi gwybodaeth i ni, ac fel mae'r peth yn datblygu, bydd raid i ni edrych ar y sefyllfa. Os ydym yn edrych ar y sefyllfa waethaf un, nid oes gennym ddigon o adnoddau yn y bôn, a bydd raid i ni wneud y gorau o'r hyn sydd gennym. Ond mae'n destun pryder sut ydym yn cynnal gwasanaethau sydd mor hanfodol i'r bobl fwyaf bregus. Mi fyddai rhagor o adnoddau ariannol o gymorth, ond yn y pen draw, nid oes gennym yr adnoddau dynol, mae'n debyg, i wneud y gwaith i gyd. Ond rwy'n credu mai'r neges yw i ni ei gymryd yn ddyddiol, cadw llygaid ar yr hyn sydd gennym, ar y gweithdrefnau sydd gennym, ac addasu fel mae'r clwy'n datblygu, gan obeithio wir nad ydym yn mynd i'r pellafion eithaf. Fel roeddwn yn dweud, mae yna gydweithio agos. Roeddwn yn derbyn poster heddiw gan un o'n penaethiaid, sef poster gan lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru, a byddwn yn rhannu'r math yma o wybodaeth fel mae'n dod i mewn."

Ateb pellach gan y Prif Weithredwr

"Mae'r cynllun argyfwng ar gael rwan os ydych yn dymuno ei weld. Hoffwn danlinellu mai cynllun gweithredol ydyw i ymateb i pandemig fflw mwy generig – nid yw'n sôn am y Coronafeirws, ond rydym, fel swyddogion, yn ail-ymweld ag o i'w brofi yn erbyn y cyngor rydym yn dderbyn gan y swyddogion gwyddonol er mwyn gweld a yw'n mynd i ddal i fyny i'r hyn rydym yn ddisgwyl. Gallwn drefnu i chi ac unrhyw aelod arall gael copi unrhyw adeg y byddech yn dymuno hynny."

(3) Cwestiwn gan y Cyngorydd Paul Rowlinson

"Yn Rhagfyr 2017, pasiodd y cyngor y cynnig canlynol:

"PENDERFYNwyd bod Cyngor Gwynedd yn galw am drefniant fel y bydd hanes Cymru yn cael blaenoriaeth mewn gwarsi hanes ym mhob ysgol yng Nghymru. Mae'r sefyllfa bresennol lle mae diffygion yn dysgu ein hanes a'n hunaniaeth i bob pwrpas yn annerbyniol. Mae datblygiad y cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus yn gyfle i unioni'r cam yma a bydd angen datblygu adnoddau angenrheidiol dwyieithog i alluogi i athrawon ddysgu hanes Cymru i'r plant. Felly galwn ar Lywodraeth Cymru i gymryd y camau angenrheidiol, yn cynnwys datblygu adnoddau dwyieithog, i gywiro'r diffyg hwn a hynny yn ddiymdroi."

A all yr Aelod Cabinet dros Addysg roi diweddariad i ni ar beth mae ein Cyfarwyddwr Addysg ni yn ei wneud a beth mae GwE yn ei wneud i sicrhau y bydd hanes Cymru yn cael lle teilwng yn y cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu a bod adnoddau priodol, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn cael eu datblygu'n amserol i alluogi i hyn ddigwydd?"

Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cyngorydd Cemlyn Williams

"Rwy'n croesawu'r sylwadau a'r cwestiwn, ac yn cytuno'n llwyr y dylai hanes Cymru gael blaenoriaeth mewn gwarsi hanes ymhob un ysgol yng Nghymru.

Nodaf, serch hynny, wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar y cwricwlwm newydd bryder mwy cyffredinol am ddiffyg gweithlu dwyieithog, ac na fydd modd addysgu hanes Cymru oni bai fod gennym nifer ddigonol o athrawon cyfrwng Gymraeg i addysgu, ac i sicrhau y byddwn drwy'r gyfundrefn addysg yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru yn ei nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Rydym yn ffodus iawn yng Ngwynedd gyda'r gyfundrefn addysg yn meddu ar weithlu dwyieithog medrus; gweithlu sydd yn awyddus i gynnal Cymreictod ac ymwybyddiaeth o hanes Cymru a hunaniaeth ymysg ein plant a'n pobl ifanc.

Yma yng Ngwynedd y cychwynnodd y Siarter Iaith a thân yn y bol dros hyrwyddo'r Gymraeg a hunaniaeth Gymreig ymysg ein plant gan godi ymwybyddiaeth o'n diwylliant a'n hanes, gan annog a chynyddu hyder ein plant i siarad Cymraeg.

Gobeithiaf weld hanes Cymru'n rhan greiddiol o'r cwricwlwm newydd pan ddaw i rym, ac edrychaf ymlaen at barhad gwaith caled gweithlu ein hysgolion i sicrhau Cymreictod ac ymwybyddiaeth o hunaniaeth Gymreig, hanes a threftadaeth ymysg ein plant a'n pobl ifanc."

Cwestiwn Atodol gan y Cyngorydd Paul Rowlinson

"Ydych yn cytuno â Phwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Cynulliad y dylid cynnwys canllaw sy'n nodi corff cyffredin o wybodaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n astudio hanes, ac a fyddwch chi'n pwysu ar y Gweinidog i dderbyn yr argymhelliad pwysig hwn, a hefyd yn ceisio cefnogaeth gan awdurdodau addysg eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru?"

Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cyngorydd Cemlyn Williams

"Mae'n gwbl amlwg i mi nad ydi'r Gweinidog yn gwerthfawrogi hanes Cymru, ac rwy'n bwriadu ysgrifennu at y Gweinidog a chymryd i ystyriaeth y sylw mae'r aelod wedi'i wneud."

(4) Cwestiwn gan y Cyngorydd Gareth Jones

"Bob blwyddyn mae Cyngor Gwynedd yn anfon ffurflen 'Ymholiad Aelwyd Blynyddol' i bob cartref i'r preswlydd wirio fod enwau'r rhai sydd yn byw yn y tŷ o oed pleidleisio yn gywir. Dan y pennawd 'Cenedligrwydd' printiwyd y gair 'Prydeinig'. Bob blwyddyn felly mae trigolion Gwynedd yn gorfod derbyn ' Prydeinig / British' neu dalu dirwy o £1,000. Yn ôl nifer o etholwyr sydd wedi cysylltu â mi mae'n hen bryd newid y drefn amhoblogaidd hon a chynnig dewis i bobl yn hytrach na gorfodi un ac oll i dderbyn yn wasaidd y label 'Prydeinig' .

Pa gamau mae Cyngor blaengar a chynhwysol Gwynedd yn eu cymryd i sicrhau y newidir y drefn bresennol a chydabod a pharchu'r amrywiaeth o bobl sydd yn byw yng Ngwynedd trwy roi dewis i'w dinasyddion i gofnodi eu hunaniaeth fel Cymro / Cymraes / Prydeiniwr / Prydeinwraig / Albanes / Ffrancwr / Gwyddeles /..... ? "

Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cyngorydd Nia Jeffreys

"Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, swydd statudol sydd gan y Prif Weithredwr, yn ymgymryd â chanfas statudol blynyddol ar gyfer cofrestru etholiadol. Gwneir hyn drwy'r Tîm Etholiadau yn y Gwasanaethau Cyfreithiol. Fel rhan o'r broses cyflwynir Ffurflen Ymholiad Aelwyd i bob eiddo anheddol yng Ngwynedd yn nodi beth sydd yn y gofrestr. Nid oes hawl gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol i ddiwygio cynnwys penodol y llythyr. Daw'r 'Prydeinig' yn syth oddi ar y Gofrestr Etholwyr sydd yn cael ei atgynhyrchu yn y ffurflen ac yn deillio o'r diffiniad statudol o genedligrwydd.

Mabwysiadwyd Rhybudd o Gynnig gan y Cyngor yn Hydref 2015 yn beirniadu ffurf y llythyr ac yn gofyn i lythyr gael ei anfon at y Gweinidog ar Gyfer Diwygio'r Cyfansoddiad ar y pryd, John Penrose AS, i ofyn am ddiwygio'r ddeddfwriaeth. Ni dderbyniwyd ateb i'r llythyr. Rwy'n meddwl fod hyn yn fater y dylid ei ddilyn fyny gyda'n Haelodau Seneddol, a byddaf yn gwneud hyn yn ddiymdroi."

Cwestiwn Atodol gan y Cyngorydd Gareth Jones

“Tra’n ddiolchgar o glywed bod gan y Cyngor gynlluniau pendant i ddal i bwysu am newid ar hen drefn annerbyniol, pa gynlluniau eraill a newydd sydd gan y Cyngor a’r Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am gydraddoldeb a chyfle cyfartal o fewn y Cyngor i roi llais a hawl i bobl sydd am ddatgan heb ragfarn eu hunaniaeth ar ffurflenni swyddogol, a hefyd yr hawl i nodi ‘Cymru’ fel gwlad ar basport a chynnwys y ddraig goch ar drwyddedau gyrru yng Nghymru?”

Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cyngorydd Nia Jeffreys

“Yn y bôn, symptom arall gwarthus o ddiffygion yn y gyfundrefn Brydeinig sy’n rheoli dros Gymru yw hyn ac mae’n sarhad ar ein pobl bod raid i ni ymgyrchu am hawl mor elfennol â’r hawl i ddweud bod ni’n Gymro neu’n Gymraes ar ffurflenni swyddogol. Rydym wedi llwyddo, gobeithio, drwy roi pwysau mawr ar y Swyddfa Ystadegau Gwladol i weld y Cyfrifiad yn newid, ond sut ar y ddaear oedd corff fel y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn meddwl ei bod yn dderbyniol yn y lle cyntaf i beidio gadael i bobl Cymraeg nodi hynny yn y lle cyntaf? Mae’n dorcalonnus i mi fod rhaid i ni ymgyrchu drosodd a throsodd er mwyn cael ein cydnabod hyd yn oed ar ffurflen gan San Steffan. Nid yw San Steffan yn gweithio i bobl Cymru, ac nid yw erioed wedi gweithio i bobl Cymru. Diolch byth, mae pobl Cymru, hen ac ifanc, ar draws ein gwlad yn deffro i hyn, ond yr unig ateb go iawn i’r sarhad yma yw annibyniaeth a bod pob penderfyniad am ffurflenni a phopeth arall sy’n effeithio arnom ni yng Nghymru yn cael ei wneud gan bobl Cymru. Felly, yr unig ateb go iawn i hyn, a’r unig ateb effeithiol a thymor hir i hyn, ydi Cymru rydd, a byddaf yn dal i ymgyrchu ar y pwynt penodol yma, ac yn ehangach ar y pwynt annibyniaeth i’n gwlad.”

(5) Cwestiwn gan y Cyngorydd Menna Baines

“Yr wythnos ddiwethaf fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth newydd yn ôl awdurdod lleol. Roedd y rhain yn awgrymu y bydd cynnydd bychan yn unig, sef 0.8%, ym mhoblogaeth Gwynedd yn y cyfnod 2018–2028; ac y bydd lleihad o 2.6% ym mhoblogaeth Môn yn ystod yr un cyfnod. Sut mae hyn yn cymharu efo’r amcanestyniadau sy’n sail i’r Cynllun Datblygu Lleol yn y ddwy sir?”

Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cyngorydd Gareth Griffith

“Pan oedd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLIC) yn cael ei baratoi, amcanestyniadau sail-2011 oedd yn berthnasol yr adeg hynny. Roedd rhain yn dangos i’r cyfnod 2011 i 2026, sef cyfnod y CDLIC, gynnydd o oddeutu 5% ym mhoblogaeth Gwynedd a lleihad o oddeutu 0.1% ym mhoblogaeth Môn.

O ganlyniad i hyn, mi fydd ystyriaeth yn cael ei roi i’r amcanestyniadau diweddaraf fel rhan o broses Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB) y CDLIC a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2020. Beth bynnag fydd canfyddiadau’r AMB 2020 ar sail y gofyniad i adolygu Cynllun Datblygu Lleol o fewn 4 mlynedd i’w fabwysiadu, fe fydd yna adolygiad o’r CDLIC yn cymryd lle yn 2021.”

8. ADOLYGIAD BLYNYDDOL – POLISI TÂL Y CYNGOR 2020/21

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion adroddiad yn argymhell i’r Cyngor gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu’r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2020/21.

PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu’r Datganiad o Bolisi Tâl drafft ar gyfer 2020/21 yn Atodiad 1 i’r adroddiad.

9. CYNLLUN Y CYNGOR 2018-23 – ADOLYGIAD 2020/21

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn gwahodd y Cyngor i fabwysiadu Cynllun y Cyngor 2018-23 (Adolygiad 2020/21).

Nodwyd y bwriedid cychwyn y broses o adolygu'r Cynllun yn gynharach y flwyddyn nesaf.

Nodwyd bod yr argyfwng llifogydd diweddar wedi pwysleisio rôl y Cyngor ac aelodau lleol. Diolchwyd am y gwaith a gyflawnwyd, a dymunwyd y gorau i'r trigolion a'r cymunedau oedd wedi dioddef llifogydd.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nodwyd, er y cydnabyddid bod gwireddu'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd yn gyfrifoldeb ar bob un o adrannau'r Cyngor (tud 53 o'r rhaglen), bod angen penodi un person i arwain ar y gwaith ar ran y Cyngor er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu. Mewn ymateb, nodwyd y bwriedid adrodd yn fuan i'r Cabinet ar waith yr is-grŵp sy'n edrych ar newid hinsawdd. O bosib' y byddai'r Cabinet yn sefydlu bwrdd gyda Chadeirydd a swyddog penodol yn gwasanaethu'r Bwrdd, fel bod y maes yn derbyn sylw ar yr un lefel â'r Bwrdd Adfywio a'r Bwrdd Cefnogi Pobl.
- Nodwyd bod uchelgais y Cyngor o weld trigolion Gwynedd yn ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd yn ganmoladwy, ond holwyd beth oedd y diffiniad o 'gyflog digonol' a pha mor gyraeddadwy ydoedd? Mewn ymateb, nodwyd bod y cynllun datblygu'r economi presennol yn diffinio swyddi cyflogaeth uchel fel rhai dros £26,000, ond bod y Cyngor, drwy ei waith datblygu'r economi, yn chwilio am swyddi gyda chyflogau llawer uwch na hynny. Ychydig o gyfleoedd cyflogaeth oedd ar gael mewn ardal wledig fel Gwynedd, ac roedd yn ofynnol parhau gyda'r gwaith o ddatblygu'r economi er mwyn anelu at y nod o sicrhau cyflogaeth dda i bobl yng Ngwynedd. Credid bod y nod yn gyraeddadwy yn y tymor hir. Ystyrid bod y Cyngor yn mynd i'r cyfeiriad iawn er gwaethaf amgylchiadau anodd eu goresgyn, ond roedd llawer o'r hyn oedd yn effeithio ar lefel tlodi yn ein hardaloedd yn dibynnu ar yr hyn oedd yn digwydd yn San Steffan.
- Holwyd a oedd y Cabinet wedi ystyried ail-gymryd tai cyngor drosodd gan fod yna arian ar gael a llog yn isel. Mewn ymateb, eglurwyd, er bod dadl, o bosib', dros gymryd y stoc tai yn ôl, nad oedd hynny'n flaenoriaeth i Wynedd, ac roedd gan y Cyngor rôl bwysig o ran datblygu syniadau gwahanol ac arloesol ar sut i ddarparu tai yn y llefydd iawn ac fel mae pobl eu hangen. Roedd yna amrywiaeth o ffyrdd o wneud hynny, ac edrychid ymlaen at weld y Cynllun Gweithredu Tai yn fuan.
- Croesawyd y Cynllun Merched mewn Arweinyddiaeth (Blaenoriaeth Gwella 3) a gofynnwyd i'r Aelod Cabinet ymhelaethu ar gynnydd y gwaith. Mewn ymateb, nodwyd bod dau weithdy - un ar gyfer merched a'r llall ar gyfer dynion, wedi amlygu mai diffyg hyder, cyfrifoldebau gofalu a chydbwysedd bywyd personol a gwaith oedd y prif rwystrau i ferched ymgeisio am swyddi uwch o fewn y Cyngor. Yn dilyn y gweithdai, datblygwyd cynllun gweithredu drafft ar y cyd, ac un o brif flaenoriaethau'r cynllun hwnnw fyddai cyflwyno rhaglen datblygu potensial i ferched. Roedd yna fwrriad hefyd i adolygu'r trefniadau recriwtio a phenodi er mwyn ystyried a oedd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r rhwystrau o ofalu am blant a pherthnasau wrth i ferched ystyried eu gyrfaoedd. Yn ogystal â hynny, bwriedid edrych yn fanylach ar y trefniadau gweithio'n hyblyg, absenoldeb tadolaeth a mamolaeth ayb, cyfrannu at waith Grŵp Prosiect Amodau Gwaith y Cyngor a chynnig arweiniad o bersbectif merched yn y gweithlu. Bwriedid hefyd creu Fforwm i ferched ac roedd yna rôl wleidyddol i'r Grŵp Cynghorwyr sy'n Ferched fod yn annog mwy o ferched i fod yn gynghorwyr.
- Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at rai o'r camau a gymerwyd o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd i ddod â'r argyfwng hinsawdd i mewn i

Gynllun y Cyngor. Manylwyd ar swyddogaeth statudol ac amserol Ymgynghoriaeth Gwynedd fel awdurdod llifogydd y sir. Cydymdeimlwyd yn ddwys â'r cymunedau hynny oedd wedi dioddef llifogydd yn ddiweddar a diolchwyd i weithwyr y Cyngor oedd wedi bod allan mewn amodau afiach yn ceisio sicrhau bod cymunedau'r sir yn aros yn ddiogel. Nodwyd bod yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol eisoes yn cyfrannu'n sylweddol at y gwaith o leihau allyriadau carbon yn y sir, megis drwy newid goleuadau stryd i oleuadau LED, edrych ar ddi-garboneiddio cerbydau, gan gynnwys ymchwilio i hydrogen fel tanwydd posib' ac edrych i mewn i'r potensial o gynnig defnydd cymunedol o'r fflyd. Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn debygol o gyrraedd ei darged ailgylchu o 64% erbyn diwedd y mis, a thros y flwyddyn nesaf, bwriedid datblygu strategaeth wastraff newydd fyddai'n rhoi'r pwyslais ar ail-ddefnyddio yn ogystal ag uchafu ailgylchu. Dymunid trafod syniadau gyda'r aelodau a'r cymunedau roeddent yn gynrychioli, ac roedd yna awydd hefyd i gymryd pob cyfle i uchafu pwysigrwydd bioamrywiaeth.

- Croesawyd dyfodiad cronfa Hunan Adeiladu Llywodraeth Cymru, ond nodwyd bod hynny'n gwrthdaro gyda'r trafferthion roedd rhai pobl ifanc yn ardal Llŷn wedi wynebu wrth fynd drwy'r broses gynllunio. Holwyd a oedd yna fwiad i ail-edrych ar y polisiâu er mwyn gweld a ellid cefnogi'r math yma o bobl i sicrhau cartrefi addas ac o safon o fewn eu cymunedau. Mewn ymateb, nodwyd bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei adolygu'n gyson, ac y byddai yna gyfle i'r aelodau edrych ar bob polisi o fewn y cynllun hwnnw. Er y bu cryn edrych ymlaen at ddyfodiad y gronfa hunan-adeiladu, roedd rhai o'r cyfyngiadau a osodwyd ar y gronfa gan y Llywodraeth yn golygu nad oedd mor hyblyg â hynny. Er hynny, roedd y Cyngor yn edrych ar bob cyfle i fanteisio ar y gronfa a deallid bod modd bwrw ymlaen gydag un cynllun o bosib'.

PENDERFYNWYD mabwysiadu Cynllun y Cyngor 2019-23 (Adolygiad 2020/21).

10. CYLLIDEB 2020/21

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid:-

- Adroddiad yn argymhell cyllideb i'r Cyngor ei chymeradwyo ar gyfer 2020/21;
- Penderfyniad drafft y Dreth Cyngor yn seiliedig ar argymhelliad y Cabinet i'r Cyngor (ar sail cynnydd o 3.9%) ynghyd â thablau yn dangos lefel y Dreth Cyngor a'r cynnydd fesul cymuned.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i staff yr Adran Gyllid, ac yn benodol yr Uwch Reolwr Cyllid a gweddill y tîm cefnogol, am eu holl waith yn absenoldeb y Pennaeth Cyllid am gyfnod.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nodwyd bod Fairbourne wedi dod yn adnabyddus dros y byd fel pentref heb ddyfodol, a bod effaith Cynllun Rheoli Traethlin y Cyngor yn golygu bod tai yn Fairbourne wedi colli bron i draean o'u gwerth. Roedd y Cyngor Cymuned yn flin bod y Dreth Gyngor yn parhau i godi, er bod y pentref wedi'i gondemnio gan Gyngor Gwynedd, ac yn galw am ostyngiad yn y Dreth. Mewn ymateb, nodwyd ei bod yn bwysig tanlinellu nad y Cyngor oedd wedi condemnio Fairbourne. Yn hytrach, roedd y Cyngor wedi amlygu'r risg roedd y pentref yn wynebu i'r dyfodol. O ran y Dreth Gyngor, yr unig ffordd o gael gostyngiad fyddai i'r Prisiwr edrych eto ar y bandiau, a rhoddwyd addewid y byddai'r Cyngor yn cysylltu â'r Prisiwr ar ran pobl Fairbourne i ofyn iddynt ddod yno i edrych ar y sefyllfa.
- Nodwyd bod y Cyngor wedi bod yn derbyn a derbyn toriadau ers 12 mlynedd bellach, a bod y codiadau parhaus yn y Dreth yn cael effaith ddifrifol ar y bobl hynny sydd ar gyflogau bychain. Holwyd pryd roedd y Cyngor am sefyll fel un yn erbyn y toriadau sy'n dod o Gaerdydd a San Steffan? Mewn ymateb, nodwyd y deallid y

sylwadau, ond bod rhaid i'r Cyngor osod cyllideb hafal, a'i fod, trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a nifer o gyrff eraill, yn lloio'n barhaus.

- Nodwyd bod y Dreth Gyngor ar Fand D yng Ngwynedd wedi codi o £889 yn 2004 i £1,699 yn 2018. Dim ond 5 Cyngor trwy Gymru oedd â lefel treth Band D uwch na Gwynedd, ac roedd gan y sir hon ardaloedd difreintiedig iawn. Nid oedd cyflogau pobl gyffredin Gwynedd wedi codi, ac er bod staff y Cyngor wedi derbyn codiad yn eu cyflog yn ddiweddar, roedd hynny'n cael ei gymryd yn ôl drwy'r codiad yn y dreth. Roedd effaith codi trethi, yn ogystal â chodi tâl am barcio yn y trefi, yn cael effaith enfawr ar fusnesau Gwynedd. Teimlid nad oedd unrhyw un yn cymryd cyfrifoldeb dros drethi yng Nghymru ac roedd Llywodraeth Cymru'n parhau gyda'r model o roi rhyddid i'r cynghorau godi'r dreth heb sylw i'r effaith ar bobl. Roedd llai o incwm gwario yn golygu bod llai o wariant yn digwydd yn ein heconomi, ac roedd hynny, yn ei dro, yn golygu llai o swyddi i bobl, llai o bobl yn talu trethi, ayb.
- Nodwyd bod prif wariant y Cyngor yn y maes gofal, yn enwedig yn y maes henoed, ac o ddeall hynny, na welid sut y gallai'r cyhoedd wrthwynebu'r cynnydd yn y Dreth Gyngor. Diolchwyd hefyd i'r swyddogion am wrando ar farn y craffwyr gofal a gwneud eu gorau dros bobl Gwynedd.
- Nodwyd bod y Cyngor wedi colli tua £70m dros y 10 mlynedd ddiwethaf, a bod gwaith mawr yn mynd ymlaen drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i geisio darbwyllo'r gwleidyddion sy'n gwneud y penderfyniadau yng Nghaerdydd o'r angen am gyllido priodol i lywodraeth leol. Roedd llywodraeth leol wedi bod ar waelod y rhestr bob tro, ond eleni, yn sgil cyflwyno achos cryf iawn i'r Llywodraeth, fe lwyddwyd i gael setliad grant ychydig fwy teg. Pwysleisiwyd y dylid ymfalchio yn effeithiolrwydd y Cyngor hwn a'i gadernid cyllidol, a nodwyd bod Cyngor Gwynedd yn cael ei gydnabod fel un o'r cynghorau mwyaf darbodus a chyfrifol yng Nghymru.
- Mewn ymateb i sylw bod yr argymhelliad i gynyddu'r dreth 3.9% yn dipyn uwch na lefel chwyddiant cyffredinol, oedd ychydig dros 2.5%, eglurwyd mai'r cynnydd yn y galw yn y meysydd plant ac oedolion oedd yn bennaf gyfrifol am hyn.
- Nodwyd nad oedd Llywodraeth San Steffan yn edrych ar ôl Cymru o gwbl. Cymru oedd â'r tlodi plant gwaethaf ym Mhrydain ac roedd chwarter poblogaeth Cymru yn byw mewn tlodi bellach. Pobl Cymru oedd â'r disgwyliad oes isaf a Chymru oedd y wlad fwyaf ddifreintiedig yn economaidd ym Mhrydain, gyda'r tai mwyaf llaith ac oer yn Ewrop. Roedd iechyd plant Cymru yn gwaethygu yn flynyddol ac roedd Cymru hefyd yn colli ei hiaith.
- Pwysleisiwyd na ddymunai neb weld cynnydd yn y Dreth Gyngor, ond nid oedd gan y Cyngor ddewis arall gan fod y Fformiwla Barnett yn rhoi Cymru ar waelod y pentwr bob tro. Nodwyd hefyd ei bod yn bwysig rhoi cyhoeddusrwydd ledled y sir i'r ffaith bod y Siambr hon a'r Cyngor hwn yn herio'r Fformiwla.
- Gan gyfeirio at fid cyfalaf 1 – Darpariaeth pwyntiau gwefru cerbydau cyhoeddus (Atodiad 2c i'r adroddiad), sylwyd nad oedd nifer o feysydd parcio yn gymwys am grant, a holwyd beth oedd y meini prawf ar gyfer cymhwyso ar gyfer hynny. Mewn ymateb, eglurwyd bod grant ar gael gan y Llywodraeth ar gyfer darparu rhwyfaint o bwntiau gwefru, ond roedd y Cyngor, a hefyd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn dymuno cyflenwi pwyntiau gwefru mewn mannau nad oedd yn gymwys am yr arian grant.
- Nodwyd y cafwyd trafodaeth hirfaith a buddiol yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ynglŷn â'r modd o osod y dreth, ac y daethpwyd i gytundeb bod 3.5% yn taro'r fargen. Yn fuan ar ôl hynny, daeth bid ychwanegol i mewn gan yr Adran Dai, a deallid mai hynny oedd y rheswm pam bod y cynnydd yn y Dreth a argymhellid bellach yn 3.9%, sef 0.4% yn uwch na'r hyn a argymhellwyd yn wreiddiol. Nid oedd yn glir beth oedd amcan y bid ychwanegol, ond ni chredid y byddai'n ddigon o gyfiawnhad i gefnogi cynnydd o 3.9% yn y Dreth. I'r diben hwnnw, nododd yr aelod a wnaeth y sylw y byddai'n cynnig cynnydd o 3.5%. Mewn ymateb, eglurwyd mai pwrpas bid yr Adran Tai oedd ariannu llety dros dro i bobl sy'n ddigartref, a phe na fyddai'r Cyngor yn ariannu'r bid, byddai'r bobl hynny'n

parhau'n ddigartref. Eglurwyd hefyd bod y bid wedi dod i law'r diwrnod ar ôl y gyntaf yn y gyfres o weithdai aelodau i drafod y gyllideb, a bod hynny wedi'i gyfathrebu drwy e-bost i'r aelodau fu yn y gweithdy cyntaf hwnnw erbyn dyddiad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, lle bu cefnogaeth i'r cynnig o gynnydd 3.9%. O ran cynnig gwelliannau i'r gyllideb a'r cynnydd yn y Dreth, eglurwyd bod y gyfundrefn yn gofyn am rybudd ysgrifenedig o 2 ddiwrnod i gynnig gwelliant, fel bod cyfle i ystyried yr ymhllygiadau.

- Nodwyd bod y Cyngor wedi pleidleisio'n unfrydol yn gynharach dros fabwysiadu Cynllun y Cyngor 2019-23 (Adolygiad 2020/21), felly byddai'n synhwyrol i'r aelodau bleidleisio dros y gyllideb fyddai'n caniatáu i'r Cyngor wireddu'r cynlluniau hynny.

Tra'n ategu'r pryderon sylweddol bod y Cyngor wedi gorfod torri flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac yn cytuno bod parhau i herio'r Llywodraethau yng Nghaerdydd a San Steffan yn gwbl angenrheidiol, mynegodd sawl aelod eu parodrwydd i gefnogi'r gyllideb, ond gyda chalon drom.

PENDERFYNWYD:

1. Cymeradwyo'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Cabinet, sef:-
 - (a) Sefydlu cyllideb o £261,837,750 ar gyfer 2020/21, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £187,579,040 a £74,258,710 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 3.9%.
 - (b) Sefydlu rhaglen gyfalaf o £44,247,260 yn 2020/21 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.
2. Nodi fod yr Aelod Cabinet dros Gyllid, drwy daflen benderfyniad dyddiedig 11 Tachwedd 2019, wedi cymeradwyo cyfrifiad y symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2020/21 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf"):-
 - (a) 51,917.91 yw'r swm a gyfrifwyd fel Sylfaen drethiannol Gwynedd yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd fel ei sylfaen Dreth Cyngor am y flwyddyn.
 - (b) Rhan o ardal y Cyngor – Sylfaen drethiannol Cymuned –

| | | | |
|--------------------|----------|------------------------|----------|
| Aberdaron | 547.61 | Llanddeiniolen | 1,832.47 |
| Aberdyfi | 981.63 | Llandderfel | 497.41 |
| Abergwyngregyn | 117.58 | Llanegryn | 162.93 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,154.44 | Llanelltyd | 292.05 |
| Arthog | 629.90 | Llanengan | 2,110.47 |
| Y Bala | 780.58 | Llanfair | 306.29 |
| Bangor | 3,844.14 | Llanfihangel y Pennant | 218.27 |
| Beddgelert | 306.63 | Llanfrothen | 224.99 |
| Betws Garmon | 134.95 | Llangelynnin | 413.24 |
| Bethesda | 1,664.32 | Llangywer | 137.48 |
| Bontnewydd | 437.65 | Llanllechid | 344.29 |
| Botwnnog | 444.04 | Llanllyfni | 1,405.19 |
| Brithdir | a | | |
| Llanfachreth | 419.04 | Llannor | 901.31 |
| Bryncrug | 337.30 | Llanrug | 1,124.21 |
| Buan | 224.70 | Llanuwchllyn | 307.41 |
| Caernarfon | 3,556.57 | Llanwnda | 796.76 |
| Clynnog Fawr | 449.14 | Llanycil | 193.56 |

| | | | |
|-----------------|----------|------------------|----------|
| Corris | 301.71 | Llanystumdwy | 866.96 |
| Criccieth | 944.20 | Maentwrog | 281.18 |
| Dolbenmaen | 618.47 | Mawddwy | 352.78 |
| Dolgellau | 1,224.77 | Nefyn | 1,453.53 |
| Dyffryn Ardudwy | 802.28 | Pennal | 220.28 |
| Y Felinheli | 1,146.20 | Penrhyndeudraeth | 781.77 |
| Ffestiniog | 1,735.84 | Pentir | 1,243.77 |
| Y Ganllwyd | 91.23 | Pistyll | 249.91 |
| Harlech | 775.51 | Porthmadog | 2,022.66 |
| Llanaelhaearn | 443.62 | Pwllheli | 1,736.18 |
| Llanbedr | 329.38 | Talsarnau | 327.52 |
| Llanbedrog | 720.23 | Trawsfynydd | 498.88 |
| Llanberis | 773.86 | Tudweiliog | 464.83 |
| Llandwrog | 1,033.56 | Tywyn | 1,617.43 |
| Llandygai | 996.31 | Waunfawr | 564.51 |

sef y symiau a gyfrifwyd fel symiau Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

3. Bod y symiau a ganlyn yn cael eu cyfrifo yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2020/21 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf:-

- (a) £392,527,390 Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf (gwariant gros).
- (b) £128,663,670 Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf (incwm).
- (c) £263,863,720 Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 3(a) uchod a chyfanswm 3(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn (cyllideb net).
- (ch) £187,100,978 Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir.
- (d) £1,478.54 Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3(ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn (treth Gyngor Gwynedd a threth cyfartalog cynghorau cymuned).
- (dd) £2,504,030 Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf (praeseptau'r cynghorau cymuned).
- (e) £1,430.31 Sef y swm yn 3(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3(dd) uchod â'r swm yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y

flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol (Band D ar gyfer treth Cyngor Gwynedd yn unig).

(f) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor –

| | | | |
|-----------------------|----------|------------------|----------|
| Aberdaron | 1,457.70 | Llanddeiniolen | 1,447.66 |
| Aberdyfi | 1,467.79 | Llandderfel | 1,448.40 |
| Abergwyngregyn | 1,455.82 | Llanegryn | 1,464.07 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,482.28 | Llanelltyd | 1,455.99 |
| Arthog | 1,450.15 | Llanengan | 1,456.37 |
| Y Bala | 1,462.34 | Llanfair | 1,482.55 |
| | | Llanfihangel | y |
| Bangor | 1,531.29 | Pennant | 1,482.08 |
| Beddgelert | 1,466.18 | Llanfrothen | 1,467.20 |
| Betws Garmon | 1,449.58 | Llangelynnin | 1,454.03 |
| Bethesda | 1,499.74 | Llangywer | 1,459.41 |
| Bontnewydd | 1,472.58 | Llanllechid | 1,473.88 |
| Botwnnog | 1,444.95 | Llanllyfni | 1,465.06 |
| Brithdir | a | | |
| Llanfachreth | 1,451.79 | Llannor | 1,450.46 |
| Bryncrug | 1,467.69 | Llanrug | 1,483.68 |
| Buan | 1,447.00 | Llanuwchllyn | 1,466.09 |
| Caernarfon | 1,486.12 | Llanwnda | 1,465.45 |
| Clynnog Fawr | 1,465.93 | Llanycil | 1,450.98 |
| Corris | 1,461.23 | Llanystumdwy | 1,451.07 |
| Criccieth | 1,474.79 | Maentwrog | 1,451.83 |
| Dolbenmaen | 1,459.41 | Mawddwy | 1,455.31 |
| Dolgellau | 1,487.46 | Nefyn | 1,481.91 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,492.63 | Pennal | 1,459.18 |
| Y Felinheli | 1,465.21 | Penrhyndeudraeth | 1,480.84 |
| Ffestiniog | 1,565.69 | Pentir | 1,470.51 |
| Y Ganllwyd | 1,463.19 | Pistyll | 1,476.33 |
| Harlech | 1,520.57 | Porthmadog | 1,461.25 |
| Llanaelhaearn | 1,486.66 | Pwllheli | 1,475.24 |
| Llanbedr | 1,475.85 | Talsarnau | 1,497.48 |
| Llanbedrog | 1,460.16 | Trawsfynydd | 1,470.40 |
| Llanberis | 1,469.08 | Tudweiliog | 1,447.52 |
| Llandwrog | 1,492.23 | Tywyn | 1,486.16 |
| Llandygai | 1,455.81 | Waunfawr | 1,451.57 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3(e) uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34(3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

(ff) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn Atodiad 1, sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3(f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir

yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.

4. Nodi ar gyfer y flwyddyn 2020/21 fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praecept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:

| Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|
| 193.74 | 226.03 | 258.32 | 290.61 | 355.19 | 419.77 | 484.35 | 581.22 | 678.09 |

5. Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3(ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn Atodiad 2 ar gyfer y Dreth Gyngor yn y flwyddyn 2020/21 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.

11. STRATEGAETH CYFALAF 2020/21

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid adroddiad yn rhoi trosolwg lefel uchel ar y modd y mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheolaeth trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol. 'Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o sut y rheolir risgiau cysylltiedig, a'r goblygiadau i gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2020/21.

12. DIWYGIO CYNLLUN HAWLIAU DIRPRWYEDIG SWYDDOGION

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad ar newidiadau i'r cynllun dirprwyo swyddogion yn dilyn sefydlu'r Adran Tai ac Eiddo.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

13. ADOLYGIAD O'R DOSBARTHADAU PLEIDLEISIO A'R MANNAU PLEIDLEISIO

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i ganlyniadau'r adolygiad o ddsbarthiadau pleidleisio a'r manau pleidleisio yn etholaethau seneddol Arfon a Dwyfor Meirionnydd.

PENDERFYNWYD cymeradwyo canlyniadau'r adolygiad o ddsbarthiadau pleidleisio a'r manau pleidleisio yn etholaethau seneddol Arfon a Dwyfor Meirionnydd.

14. CALENR PWYLLGORAU 2020/21

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd galendr ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2020/21.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2020/21.

15. YMATEB I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL

(A) YMATEB I RYBUDD O GYNNIG Y CYNGHORYDD OWAIN WILLIAMS

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Owain Williams i gyfarfod 19 Rhagfyr, 2019 ynglŷn â'r Anthem Genedlaethol.

(B) YMATEB I RYBUDD O GYNNIG Y CYNGHORYDD GRUFFYDD WILLIAMS

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – llythyrau gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Gruffydd Williams i gyfarfod 19 Rhagfyr, 2019 ynglŷn â'r Tiriogaethau Palesteinaidd.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.10 y.h.

CADEIRYDD

Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned
Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|-------------------------|---------------|---------------|---------------|---------------|---------------|---------------|---------------|---------------|---------------|
| Aberdaron | 971.80 | 1,133.77 | 1,295.73 | 1,457.70 | 1,781.63 | 2,105.57 | 2,429.50 | 2,915.40 | 3,401.30 |
| Aberdyfi | 978.53 | 1,141.61 | 1,304.70 | 1,467.79 | 1,793.97 | 2,120.14 | 2,446.32 | 2,935.58 | 3,424.84 |
| Abergwyngregyn | 970.55 | 1,132.30 | 1,294.06 | 1,455.82 | 1,779.34 | 2,102.85 | 2,426.37 | 2,911.64 | 3,396.91 |
| Abermaw (Barmouth) | 988.19 | 1,152.88 | 1,317.58 | 1,482.28 | 1,811.68 | 2,141.07 | 2,470.47 | 2,964.56 | 3,458.65 |
| Arthog | 966.77 | 1,127.89 | 1,289.02 | 1,450.15 | 1,772.41 | 2,094.66 | 2,416.92 | 2,900.30 | 3,383.68 |
| Y Bala | 974.89 | 1,137.38 | 1,299.86 | 1,462.34 | 1,787.30 | 2,112.27 | 2,437.23 | 2,924.68 | 3,412.13 |
| Bangor | 1,020.86 | 1,191.00 | 1,361.15 | 1,531.29 | 1,871.58 | 2,211.86 | 2,552.15 | 3,062.58 | 3,573.01 |
| Beddgelert | 977.45 | 1,140.36 | 1,303.27 | 1,466.18 | 1,792.00 | 2,117.82 | 2,443.63 | 2,932.36 | 3,421.09 |
| Betws Garmon | 966.39 | 1,127.45 | 1,288.52 | 1,449.58 | 1,771.71 | 2,093.84 | 2,415.97 | 2,899.16 | 3,382.35 |
| Bethesda | 999.83 | 1,166.46 | 1,333.10 | 1,499.74 | 1,833.02 | 2,166.29 | 2,499.57 | 2,999.48 | 3,499.39 |
| Bontnewydd | 981.72 | 1,145.34 | 1,308.96 | 1,472.58 | 1,799.82 | 2,127.06 | 2,454.30 | 2,945.16 | 3,436.02 |
| Botwnnog | 963.30 | 1,123.85 | 1,284.40 | 1,444.95 | 1,766.05 | 2,087.15 | 2,408.25 | 2,889.90 | 3,371.55 |
| Brithdir & Llanfachreth | 967.86 | 1,129.17 | 1,290.48 | 1,451.79 | 1,774.41 | 2,097.03 | 2,419.65 | 2,903.58 | 3,387.51 |
| Bryncrug | 978.46 | 1,141.54 | 1,304.61 | 1,467.69 | 1,793.84 | 2,120.00 | 2,446.15 | 2,935.38 | 3,424.61 |
| Buan | 964.67 | 1,125.44 | 1,286.22 | 1,447.00 | 1,768.56 | 2,090.11 | 2,411.67 | 2,894.00 | 3,376.33 |
| Caernarfon | 990.75 | 1,155.87 | 1,321.00 | 1,486.12 | 1,816.37 | 2,146.62 | 2,476.87 | 2,972.24 | 3,467.61 |
| Clynnog Fawr | 977.29 | 1,140.17 | 1,303.05 | 1,465.93 | 1,791.69 | 2,117.45 | 2,443.22 | 2,931.86 | 3,420.50 |
| Corris | 974.15 | 1,136.51 | 1,298.87 | 1,461.23 | 1,785.95 | 2,110.67 | 2,435.38 | 2,922.46 | 3,409.54 |
| Criccieth | 983.19 | 1,147.06 | 1,310.92 | 1,474.79 | 1,802.52 | 2,130.25 | 2,457.98 | 2,949.58 | 3,441.18 |
| Dolbenmaen | 972.94 | 1,135.10 | 1,297.25 | 1,459.41 | 1,783.72 | 2,108.04 | 2,432.35 | 2,918.82 | 3,405.29 |
| Dolgellau | 991.64 | 1,156.91 | 1,322.19 | 1,487.46 | 1,818.01 | 2,148.55 | 2,479.10 | 2,974.92 | 3,470.74 |
| Dyffryn Ardudwy | 995.09 | 1,160.93 | 1,326.78 | 1,492.63 | 1,824.33 | 2,156.02 | 2,487.72 | 2,985.26 | 3,482.80 |
| Y Felinheli | 976.81 | 1,139.61 | 1,302.41 | 1,465.21 | 1,790.81 | 2,116.41 | 2,442.02 | 2,930.42 | 3,418.82 |
| Ffestiniog | 1,043.79 | 1,217.76 | 1,391.72 | 1,565.69 | 1,913.62 | 2,261.55 | 2,609.48 | 3,131.38 | 3,653.28 |
| Y Ganllwyd | 975.46 | 1,138.04 | 1,300.61 | 1,463.19 | 1,788.34 | 2,113.50 | 2,438.65 | 2,926.38 | 3,414.11 |
| Harlech | 1,013.71 | 1,182.67 | 1,351.62 | 1,520.57 | 1,858.47 | 2,196.38 | 2,534.28 | 3,041.14 | 3,548.00 |
| Llanaelhaearn | 991.11 | 1,156.29 | 1,321.48 | 1,486.66 | 1,817.03 | 2,147.40 | 2,477.77 | 2,973.32 | 3,468.87 |
| Llanbedr | 983.90 | 1,147.88 | 1,311.87 | 1,475.85 | 1,803.82 | 2,131.78 | 2,459.75 | 2,951.70 | 3,443.65 |
| Llanbedrog | 973.44 | 1,135.68 | 1,297.92 | 1,460.16 | 1,784.64 | 2,109.12 | 2,433.60 | 2,920.32 | 3,407.04 |
| Llanberis | 979.39 | 1,142.62 | 1,305.85 | 1,469.08 | 1,795.54 | 2,122.00 | 2,448.47 | 2,938.16 | 3,427.85 |
| Llandwrog | 994.82 | 1,160.62 | 1,326.43 | 1,492.23 | 1,823.84 | 2,155.44 | 2,487.05 | 2,984.46 | 3,481.87 |
| Llandygai | 970.54 | 1,132.30 | 1,294.05 | 1,455.81 | 1,779.32 | 2,102.84 | 2,426.35 | 2,911.62 | 3,396.89 |
| Llanddeiniolen | 965.11 | 1,125.96 | 1,286.81 | 1,447.66 | 1,769.36 | 2,091.06 | 2,412.77 | 2,895.32 | 3,377.87 |
| Llandderfel | 965.60 | 1,126.53 | 1,287.47 | 1,448.40 | 1,770.27 | 2,092.13 | 2,414.00 | 2,896.80 | 3,379.60 |
| Llanegryn | 976.05 | 1,138.72 | 1,301.40 | 1,464.07 | 1,789.42 | 2,114.77 | 2,440.12 | 2,928.14 | 3,416.16 |
| Llanelltyd | 970.66 | 1,132.44 | 1,294.21 | 1,455.99 | 1,779.54 | 2,103.10 | 2,426.65 | 2,911.98 | 3,397.31 |
| Llanengan | 970.91 | 1,132.73 | 1,294.55 | 1,456.37 | 1,780.01 | 2,103.65 | 2,427.28 | 2,912.74 | 3,398.20 |
| Llanfair | 988.37 | 1,153.09 | 1,317.82 | 1,482.55 | 1,812.01 | 2,141.46 | 2,470.92 | 2,965.10 | 3,459.28 |
| Llanfihangel y Pennant | 988.05 | 1,152.73 | 1,317.40 | 1,482.08 | 1,811.43 | 2,140.78 | 2,470.13 | 2,964.16 | 3,458.19 |
| Llanfrothen | 978.13 | 1,141.16 | 1,304.18 | 1,467.20 | 1,793.24 | 2,119.29 | 2,445.33 | 2,934.40 | 3,423.47 |
| Llangelynnin | 969.35 | 1,130.91 | 1,292.47 | 1,454.03 | 1,777.15 | 2,100.27 | 2,423.38 | 2,908.06 | 3,392.74 |
| Llangywer | 972.94 | 1,135.10 | 1,297.25 | 1,459.41 | 1,783.72 | 2,108.04 | 2,432.35 | 2,918.82 | 3,405.29 |
| Llanllechid | 982.59 | 1,146.35 | 1,310.12 | 1,473.88 | 1,801.41 | 2,128.94 | 2,456.47 | 2,947.76 | 3,439.05 |
| Llanllyfni | 976.71 | 1,139.49 | 1,302.28 | 1,465.06 | 1,790.63 | 2,116.20 | 2,441.77 | 2,930.12 | 3,418.47 |
| Llannor | 966.97 | 1,128.14 | 1,289.30 | 1,450.46 | 1,772.78 | 2,095.11 | 2,417.43 | 2,900.92 | 3,384.41 |
| Llanrug | 989.12 | 1,153.97 | 1,318.83 | 1,483.68 | 1,813.39 | 2,143.09 | 2,472.80 | 2,967.36 | 3,461.92 |
| Llanuwchllyn | 977.39 | 1,140.29 | 1,303.19 | 1,466.09 | 1,791.89 | 2,117.69 | 2,443.48 | 2,932.18 | 3,420.88 |
| Llanwnda | 976.97 | 1,139.79 | 1,302.62 | 1,465.45 | 1,791.11 | 2,116.76 | 2,442.42 | 2,930.90 | 3,419.38 |
| Llanycil | 967.32 | 1,128.54 | 1,289.76 | 1,450.98 | 1,773.42 | 2,095.86 | 2,418.30 | 2,901.96 | 3,385.62 |
| Llanystumdwy | 967.38 | 1,128.61 | 1,289.84 | 1,451.07 | 1,773.53 | 2,095.99 | 2,418.45 | 2,902.14 | 3,385.83 |
| Maentwrog | 967.89 | 1,129.20 | 1,290.52 | 1,451.83 | 1,774.46 | 2,097.09 | 2,419.72 | 2,903.66 | 3,387.60 |
| Mawddwy | 970.21 | 1,131.91 | 1,293.61 | 1,455.31 | 1,778.71 | 2,102.11 | 2,425.52 | 2,910.62 | 3,395.72 |
| Nefyn | 987.94 | 1,152.60 | 1,317.25 | 1,481.91 | 1,811.22 | 2,140.54 | 2,469.85 | 2,963.82 | 3,457.79 |
| Pennal | 972.79 | 1,134.92 | 1,297.05 | 1,459.18 | 1,783.44 | 2,107.70 | 2,431.97 | 2,918.36 | 3,404.75 |
| Penrhyndeudraeth | 987.23 | 1,151.76 | 1,316.30 | 1,480.84 | 1,809.92 | 2,138.99 | 2,468.07 | 2,961.68 | 3,455.29 |
| Pentir | 980.34 | 1,143.73 | 1,307.12 | 1,470.51 | 1,797.29 | 2,124.07 | 2,450.85 | 2,941.02 | 3,431.19 |
| Pistyll | 984.22 | 1,148.26 | 1,312.29 | 1,476.33 | 1,804.40 | 2,132.48 | 2,460.55 | 2,952.66 | 3,444.77 |
| Porthmadog | 974.17 | 1,136.53 | 1,298.89 | 1,461.25 | 1,785.97 | 2,110.69 | 2,435.42 | 2,922.50 | 3,409.58 |
| Pwllheli | 983.49 | 1,147.41 | 1,311.32 | 1,475.24 | 1,803.07 | 2,130.90 | 2,458.73 | 2,950.48 | 3,442.23 |
| Talsarnau | 998.32 | 1,164.71 | 1,331.09 | 1,497.48 | 1,830.25 | 2,163.03 | 2,495.80 | 2,994.96 | 3,494.12 |
| Trawsfynydd | 980.27 | 1,143.64 | 1,307.02 | 1,470.40 | 1,797.16 | 2,123.91 | 2,450.67 | 2,940.80 | 3,430.93 |
| Tudweiliog | 965.01 | 1,125.85 | 1,286.68 | 1,447.52 | 1,769.19 | 2,090.86 | 2,412.53 | 2,895.04 | 3,377.55 |
| Tywyn | 990.77 | 1,155.90 | 1,321.03 | 1,486.16 | 1,816.42 | 2,146.68 | 2,476.93 | 2,972.32 | 3,467.71 |
| Waunfawr | 967.71 | 1,129.00 | 1,290.28 | 1,451.57 | 1,774.14 | 2,096.71 | 2,419.28 | 2,903.14 | 3,387.00 |

Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned + Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council + North Wales Police and Crime Commissioner

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|-------------------------|---------------|---------------|---------------|---------------|---------------|---------------|---------------|---------------|---------------|
| Aberdaron | 1,165.54 | 1,359.80 | 1,554.05 | 1,748.31 | 2,136.82 | 2,525.34 | 2,913.85 | 3,496.62 | 4,079.39 |
| Aberdyfi | 1,172.27 | 1,367.64 | 1,563.02 | 1,758.40 | 2,149.16 | 2,539.91 | 2,930.67 | 3,516.80 | 4,102.93 |
| Abergwyngregyn | 1,164.29 | 1,358.33 | 1,552.38 | 1,746.43 | 2,134.53 | 2,522.62 | 2,910.72 | 3,492.86 | 4,075.00 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,181.93 | 1,378.91 | 1,575.90 | 1,772.89 | 2,166.87 | 2,560.84 | 2,954.82 | 3,545.78 | 4,136.74 |
| Arthog | 1,160.51 | 1,353.92 | 1,547.34 | 1,740.76 | 2,127.60 | 2,514.43 | 2,901.27 | 3,481.52 | 4,061.77 |
| Bala | 1,168.63 | 1,363.41 | 1,558.18 | 1,752.95 | 2,142.49 | 2,532.04 | 2,921.58 | 3,505.90 | 4,090.22 |
| Bangor | 1,214.60 | 1,417.03 | 1,619.47 | 1,821.90 | 2,226.77 | 2,631.63 | 3,036.50 | 3,643.80 | 4,251.10 |
| Beddgelert | 1,171.19 | 1,366.39 | 1,561.59 | 1,756.79 | 2,147.19 | 2,537.59 | 2,927.98 | 3,513.58 | 4,099.18 |
| Betws Garmon | 1,160.13 | 1,353.48 | 1,546.84 | 1,740.19 | 2,126.90 | 2,513.61 | 2,900.32 | 3,480.38 | 4,060.44 |
| Bethesda | 1,193.57 | 1,392.49 | 1,591.42 | 1,790.35 | 2,188.21 | 2,586.06 | 2,983.92 | 3,580.70 | 4,177.48 |
| Bontnewydd | 1,175.46 | 1,371.37 | 1,567.28 | 1,763.19 | 2,155.01 | 2,546.83 | 2,938.65 | 3,526.38 | 4,114.11 |
| Botwnnog | 1,157.04 | 1,349.88 | 1,542.72 | 1,735.56 | 2,121.24 | 2,506.92 | 2,892.60 | 3,471.12 | 4,049.64 |
| Brithdir & Llanfachreth | 1,161.60 | 1,355.20 | 1,548.80 | 1,742.40 | 2,129.60 | 2,516.80 | 2,904.00 | 3,484.80 | 4,065.60 |
| Bryncrug | 1,172.20 | 1,367.57 | 1,562.93 | 1,758.30 | 2,149.03 | 2,539.77 | 2,930.50 | 3,516.60 | 4,102.70 |
| Buan | 1,158.41 | 1,351.47 | 1,544.54 | 1,737.61 | 2,123.75 | 2,509.88 | 2,896.02 | 3,475.22 | 4,054.42 |
| Caernarfon | 1,184.49 | 1,381.90 | 1,579.32 | 1,776.73 | 2,171.56 | 2,566.39 | 2,961.22 | 3,553.46 | 4,145.70 |
| Clynnog Fawr | 1,171.03 | 1,366.20 | 1,561.37 | 1,756.54 | 2,146.88 | 2,537.22 | 2,927.57 | 3,513.08 | 4,098.59 |
| Corris | 1,167.89 | 1,362.54 | 1,557.19 | 1,751.84 | 2,141.14 | 2,530.44 | 2,919.73 | 3,503.68 | 4,087.63 |
| Criccieth | 1,176.93 | 1,373.09 | 1,569.24 | 1,765.40 | 2,157.71 | 2,550.02 | 2,942.33 | 3,530.80 | 4,119.27 |
| Dolbenmaen | 1,166.68 | 1,361.13 | 1,555.57 | 1,750.02 | 2,138.91 | 2,527.81 | 2,916.70 | 3,500.04 | 4,083.38 |
| Dolgellau | 1,185.38 | 1,382.94 | 1,580.51 | 1,778.07 | 2,173.20 | 2,568.32 | 2,963.45 | 3,556.14 | 4,148.83 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,188.83 | 1,386.96 | 1,585.10 | 1,783.24 | 2,179.52 | 2,575.79 | 2,972.07 | 3,566.48 | 4,160.89 |
| Y Felinheli | 1,170.55 | 1,365.64 | 1,560.73 | 1,755.82 | 2,146.00 | 2,536.18 | 2,926.37 | 3,511.64 | 4,096.91 |
| Ffestiniog | 1,237.53 | 1,443.79 | 1,650.04 | 1,856.30 | 2,268.81 | 2,681.32 | 3,093.83 | 3,712.60 | 4,331.37 |
| Y Ganllwyd | 1,169.20 | 1,364.07 | 1,558.93 | 1,753.80 | 2,143.53 | 2,533.27 | 2,923.00 | 3,507.60 | 4,092.20 |
| Harlech | 1,207.45 | 1,408.70 | 1,609.94 | 1,811.18 | 2,213.66 | 2,616.15 | 3,018.63 | 3,622.36 | 4,226.09 |
| Llanaelhaearn | 1,184.85 | 1,382.32 | 1,579.80 | 1,777.27 | 2,172.22 | 2,567.17 | 2,962.12 | 3,554.54 | 4,146.96 |
| Llanbedr | 1,177.64 | 1,373.91 | 1,570.19 | 1,766.46 | 2,159.01 | 2,551.55 | 2,944.10 | 3,532.92 | 4,121.74 |
| Llanbedrog | 1,167.18 | 1,361.71 | 1,556.24 | 1,750.77 | 2,139.83 | 2,528.89 | 2,917.95 | 3,501.54 | 4,085.13 |
| Llanberis | 1,173.13 | 1,368.65 | 1,564.17 | 1,759.69 | 2,150.73 | 2,541.77 | 2,932.82 | 3,519.38 | 4,105.94 |
| Llandwrog | 1,188.56 | 1,386.65 | 1,584.75 | 1,782.84 | 2,179.03 | 2,575.21 | 2,971.40 | 3,565.68 | 4,159.96 |
| Llandygai | 1,164.28 | 1,358.33 | 1,552.37 | 1,746.42 | 2,134.51 | 2,522.61 | 2,910.70 | 3,492.84 | 4,074.98 |
| Llanddeiniolen | 1,158.85 | 1,351.99 | 1,545.13 | 1,738.27 | 2,124.55 | 2,510.83 | 2,897.12 | 3,476.54 | 4,055.96 |
| Llandderfel | 1,159.34 | 1,352.56 | 1,545.79 | 1,739.01 | 2,125.46 | 2,511.90 | 2,898.35 | 3,478.02 | 4,057.69 |
| Llanegryn | 1,169.79 | 1,364.75 | 1,559.72 | 1,754.68 | 2,144.61 | 2,534.54 | 2,924.47 | 3,509.36 | 4,094.25 |
| Llanelltyd | 1,164.40 | 1,358.47 | 1,552.53 | 1,746.60 | 2,134.73 | 2,522.87 | 2,911.00 | 3,493.20 | 4,075.40 |
| Llanengan | 1,164.65 | 1,358.76 | 1,552.87 | 1,746.98 | 2,135.20 | 2,523.42 | 2,911.63 | 3,493.96 | 4,076.29 |
| Llanfair | 1,182.11 | 1,379.12 | 1,576.14 | 1,773.16 | 2,167.20 | 2,561.23 | 2,955.27 | 3,546.32 | 4,137.37 |
| Llanfihangel y Pennant | 1,181.79 | 1,378.76 | 1,575.72 | 1,772.69 | 2,166.62 | 2,560.55 | 2,954.48 | 3,545.38 | 4,136.28 |
| Llanfrothen | 1,171.87 | 1,367.19 | 1,562.50 | 1,757.81 | 2,148.43 | 2,539.06 | 2,929.68 | 3,515.62 | 4,101.56 |
| Llangelynnin | 1,163.09 | 1,356.94 | 1,550.79 | 1,744.64 | 2,132.34 | 2,520.04 | 2,907.73 | 3,489.28 | 4,070.83 |
| Llangywer | 1,166.68 | 1,361.13 | 1,555.57 | 1,750.02 | 2,138.91 | 2,527.81 | 2,916.70 | 3,500.04 | 4,083.38 |
| Llanllechid | 1,176.33 | 1,372.38 | 1,568.44 | 1,764.49 | 2,156.60 | 2,548.71 | 2,940.82 | 3,528.98 | 4,117.14 |
| Llanllyfni | 1,170.45 | 1,365.52 | 1,560.60 | 1,755.67 | 2,145.82 | 2,535.97 | 2,926.12 | 3,511.34 | 4,096.56 |
| Llannor | 1,160.71 | 1,354.17 | 1,547.62 | 1,741.07 | 2,127.97 | 2,514.88 | 2,901.78 | 3,482.14 | 4,062.50 |
| Llanrug | 1,182.86 | 1,380.00 | 1,577.15 | 1,774.29 | 2,168.58 | 2,562.86 | 2,957.15 | 3,548.58 | 4,140.01 |
| Llanuwchllyn | 1,171.13 | 1,366.32 | 1,561.51 | 1,756.70 | 2,147.08 | 2,537.46 | 2,927.83 | 3,513.40 | 4,098.97 |
| Llanwnda | 1,170.71 | 1,365.82 | 1,560.94 | 1,756.06 | 2,146.30 | 2,536.53 | 2,926.77 | 3,512.12 | 4,097.47 |
| Llanycil | 1,161.06 | 1,354.57 | 1,548.08 | 1,741.59 | 2,128.61 | 2,515.63 | 2,902.65 | 3,483.18 | 4,063.71 |
| Llanystumdwy | 1,161.12 | 1,354.64 | 1,548.16 | 1,741.68 | 2,128.72 | 2,515.76 | 2,902.80 | 3,483.36 | 4,063.92 |
| Maentwrog | 1,161.63 | 1,355.23 | 1,548.84 | 1,742.44 | 2,129.65 | 2,516.86 | 2,904.07 | 3,484.88 | 4,065.69 |
| Mawddwy | 1,163.95 | 1,357.94 | 1,551.93 | 1,745.92 | 2,133.90 | 2,521.88 | 2,909.87 | 3,491.84 | 4,073.81 |
| Nefyn | 1,181.68 | 1,378.63 | 1,575.57 | 1,772.52 | 2,166.41 | 2,560.31 | 2,954.20 | 3,545.04 | 4,135.88 |
| Pennal | 1,166.53 | 1,360.95 | 1,555.37 | 1,749.79 | 2,138.63 | 2,527.47 | 2,916.32 | 3,499.58 | 4,082.84 |
| Penrhyndeudraeth | 1,180.97 | 1,377.79 | 1,574.62 | 1,771.45 | 2,165.11 | 2,558.76 | 2,952.42 | 3,542.90 | 4,133.38 |
| Pentir | 1,174.08 | 1,369.76 | 1,565.44 | 1,761.12 | 2,152.48 | 2,543.84 | 2,935.20 | 3,522.24 | 4,109.28 |
| Pistyll | 1,177.96 | 1,374.29 | 1,570.61 | 1,766.94 | 2,159.59 | 2,552.25 | 2,944.90 | 3,533.88 | 4,122.86 |
| Porthmadog | 1,167.91 | 1,362.56 | 1,557.21 | 1,751.86 | 2,141.16 | 2,530.46 | 2,919.77 | 3,503.72 | 4,087.67 |
| Pwllheli | 1,177.23 | 1,373.44 | 1,569.64 | 1,765.85 | 2,158.26 | 2,550.67 | 2,943.08 | 3,531.70 | 4,120.32 |
| Talsarnau | 1,192.06 | 1,390.74 | 1,589.41 | 1,788.09 | 2,185.44 | 2,582.80 | 2,980.15 | 3,576.18 | 4,172.21 |
| Trawsfynydd | 1,174.01 | 1,369.67 | 1,565.34 | 1,761.01 | 2,152.35 | 2,543.68 | 2,935.02 | 3,522.02 | 4,109.02 |
| Tudweiliog | 1,158.75 | 1,351.88 | 1,545.00 | 1,738.13 | 2,124.38 | 2,510.63 | 2,896.88 | 3,476.26 | 4,055.64 |
| Tywyn | 1,184.51 | 1,381.93 | 1,579.35 | 1,776.77 | 2,171.61 | 2,566.45 | 2,961.28 | 3,553.54 | 4,145.80 |
| Waunfawr | 1,161.45 | 1,355.03 | 1,548.60 | 1,742.18 | 2,129.33 | 2,516.48 | 2,903.63 | 3,484.36 | 4,065.09 |

Cynnydd yn y Dreth Cyngor fesul Cymuned / Increase in Council Tax by Community

| Cymuned/ Community | Sylfaen Drethiannol / Taxbase (Band D) | Praesept / Precept £ | Treth Cymuned / Community Tax | Treth Gwynedd / Gwynedd Tax | Treth Heddlu / Police Tax | Cyfanswm / Total (Band D) 2020/21 | Band D 2019/20 £ | Cynnydd / Increase 19/20 - 20/21 | Cynnydd / Increase % |
|--|---|----------------------------|--|---------------------------------------|------------------------------------|--|------------------------|---|-------------------------|
| Aberdaron | 547.61 | 15,000 | 27.39 | 1,430.31 | 290.61 | 1,748.31 | 1,681.44 | 66.87 | 4.0% |
| Aberdyfi | 981.63 | 36,796 | 37.48 | 1,430.31 | 290.61 | 1,758.40 | 1,690.97 | 67.43 | 4.0% |
| Abergwyngregyn | 117.58 | 3,000 | 25.51 | 1,430.31 | 290.61 | 1,746.43 | 1,679.55 | 66.88 | 4.0% |
| Abermaw (Barmouth) | 1,154.44 | 60,000 | 51.97 | 1,430.31 | 290.61 | 1,772.89 | 1,703.93 | 68.96 | 4.0% |
| Arthog | 629.90 | 12,500 | 19.84 | 1,430.31 | 290.61 | 1,740.76 | 1,673.76 | 67.00 | 4.0% |
| Y Bala | 780.58 | 25,000 | 32.03 | 1,430.31 | 290.61 | 1,752.95 | 1,685.30 | 67.65 | 4.0% |
| Bangor | 3,844.14 | 388,166 | 100.98 | 1,430.31 | 290.61 | 1,821.90 | 1,753.46 | 68.44 | 3.9% |
| Beddgelert | 306.63 | 11,000 | 35.87 | 1,430.31 | 290.61 | 1,756.79 | 1,684.33 | 72.46 | 4.3% |
| Betws Garmon | 134.95 | 2,600 | 19.27 | 1,430.31 | 290.61 | 1,740.19 | 1,673.06 | 67.13 | 4.0% |
| Bethesda | 1,664.32 | 115,555 | 69.43 | 1,430.31 | 290.61 | 1,790.35 | 1,709.52 | 80.83 | 4.7% |
| Bontnewydd | 437.65 | 18,500 | 42.27 | 1,430.31 | 290.61 | 1,763.19 | 1,697.12 | 66.07 | 3.9% |
| Botwnnog | 444.04 | 6,500 | 14.64 | 1,430.31 | 290.61 | 1,735.56 | 1,666.61 | 68.95 | 4.1% |
| Brithdir & Llanfachreth | 419.04 | 9,000 | 21.48 | 1,430.31 | 290.61 | 1,742.40 | 1,668.45 | 73.95 | 4.4% |
| Bryncrug | 337.30 | 12,607 | 37.38 | 1,430.31 | 290.61 | 1,758.30 | 1,690.47 | 67.83 | 4.0% |
| Buan | 224.70 | 3,750 | 16.69 | 1,430.31 | 290.61 | 1,737.61 | 1,670.70 | 66.91 | 4.0% |
| Caernarfon | 3,556.57 | 198,489 | 55.81 | 1,430.31 | 290.61 | 1,776.73 | 1,710.33 | 66.40 | 3.9% |
| Clynnog Fawr | 449.14 | 16,000 | 35.62 | 1,430.31 | 290.61 | 1,756.54 | 1,687.87 | 68.67 | 4.1% |
| Corris | 301.71 | 9,330 | 30.92 | 1,430.31 | 290.61 | 1,751.84 | 1,682.06 | 69.78 | 4.1% |
| Criccieth | 944.20 | 42,000 | 44.48 | 1,430.31 | 290.61 | 1,765.40 | 1,698.81 | 66.59 | 3.9% |
| Dolbenmaen | 618.47 | 18,000 | 29.10 | 1,430.31 | 290.61 | 1,750.02 | 1,684.02 | 66.00 | 3.9% |
| Dolgellau | 1,224.77 | 70,000 | 57.15 | 1,430.31 | 290.61 | 1,778.07 | 1,703.16 | 74.91 | 4.4% |
| Dyffryn Ardudwy | 802.28 | 50,000 | 62.32 | 1,430.31 | 290.61 | 1,783.24 | 1,697.42 | 85.82 | 5.1% |
| Y Felinheli | 1,146.20 | 40,000 | 34.90 | 1,430.31 | 290.61 | 1,755.82 | 1,688.89 | 66.93 | 4.0% |
| Ffestiniog | 1,735.84 | 235,000 | 135.38 | 1,430.31 | 290.61 | 1,856.30 | 1,777.52 | 78.78 | 4.4% |
| Y Ganllwyd | 91.23 | 3,000 | 32.88 | 1,430.31 | 290.61 | 1,753.80 | 1,689.00 | 64.80 | 3.8% |
| Harlech | 775.51 | 70,000 | 90.26 | 1,430.31 | 290.61 | 1,811.18 | 1,742.77 | 68.41 | 3.9% |
| Llanaelhaearn | 443.62 | 25,000 | 56.35 | 1,430.31 | 290.61 | 1,777.27 | 1,710.68 | 66.59 | 3.9% |
| Llanbedr | 329.38 | 15,000 | 45.54 | 1,430.31 | 290.61 | 1,766.46 | 1,698.27 | 68.19 | 4.0% |
| Llanbedrog | 720.23 | 21,500 | 29.85 | 1,430.31 | 290.61 | 1,750.77 | 1,680.96 | 69.81 | 4.2% |
| Llanberis | 773.86 | 30,000 | 38.77 | 1,430.31 | 290.61 | 1,759.69 | 1,691.21 | 68.48 | 4.0% |
| Llandwrog | 1,033.56 | 64,000 | 61.92 | 1,430.31 | 290.61 | 1,782.84 | 1,707.76 | 75.08 | 4.4% |
| Llandygai | 996.31 | 25,408 | 25.50 | 1,430.31 | 290.61 | 1,746.42 | 1,675.93 | 70.49 | 4.2% |
| Llanddeiniolen | 1,832.47 | 31,800 | 17.35 | 1,430.31 | 290.61 | 1,738.27 | 1,671.63 | 66.64 | 4.0% |
| Llandderfel | 497.41 | 9,000 | 18.09 | 1,430.31 | 290.61 | 1,739.01 | 1,672.40 | 66.61 | 4.0% |
| Llanegryn | 162.93 | 5,500 | 33.76 | 1,430.31 | 290.61 | 1,754.68 | 1,685.62 | 69.06 | 4.1% |
| Llanelltyd | 292.05 | 7,500 | 25.68 | 1,430.31 | 290.61 | 1,746.60 | 1,680.32 | 66.28 | 3.9% |
| Llanengan | 2,110.47 | 55,000 | 26.06 | 1,430.31 | 290.61 | 1,746.98 | 1,677.91 | 69.07 | 4.1% |
| Llanfair | 306.29 | 16,000 | 52.24 | 1,430.31 | 290.61 | 1,773.16 | 1,696.31 | 76.85 | 4.5% |
| Llanfihangel y Pennant | 218.27 | 11,299 | 51.77 | 1,430.31 | 290.61 | 1,772.69 | 1,705.52 | 67.17 | 3.9% |
| Llanfrothen | 224.99 | 8,300 | 36.89 | 1,430.31 | 290.61 | 1,757.81 | 1,687.31 | 70.50 | 4.2% |
| Llangelynnin | 413.24 | 9,800 | 23.72 | 1,430.31 | 290.61 | 1,744.64 | 1,678.26 | 66.38 | 4.0% |
| Llangywer | 137.48 | 4,000 | 29.10 | 1,430.31 | 290.61 | 1,750.02 | 1,683.45 | 66.57 | 4.0% |
| Llanllechid | 344.29 | 15,000 | 43.57 | 1,430.31 | 290.61 | 1,764.49 | 1,677.79 | 86.70 | 5.2% |
| Llanllfni | 1,405.19 | 48,826 | 34.75 | 1,430.31 | 290.61 | 1,755.67 | 1,688.92 | 66.75 | 4.0% |
| Llannor | 901.31 | 18,160 | 20.15 | 1,430.31 | 290.61 | 1,741.07 | 1,674.45 | 66.62 | 4.0% |
| Llanrug | 1,124.21 | 60,000 | 53.37 | 1,430.31 | 290.61 | 1,774.29 | 1,698.34 | 75.95 | 4.5% |
| Llanuwchllyn | 307.41 | 11,000 | 35.78 | 1,430.31 | 290.61 | 1,756.70 | 1,686.32 | 70.38 | 4.2% |
| Llanwnda | 796.76 | 28,000 | 35.14 | 1,430.31 | 290.61 | 1,756.06 | 1,690.04 | 66.02 | 3.9% |
| Llanycil | 193.56 | 4,000 | 20.67 | 1,430.31 | 290.61 | 1,741.59 | 1,674.27 | 67.32 | 4.0% |
| Llanystumdwy | 866.96 | 18,000 | 20.76 | 1,430.31 | 290.61 | 1,741.68 | 1,671.64 | 70.04 | 4.2% |
| Maentwrog | 281.18 | 6,051 | 21.52 | 1,430.31 | 290.61 | 1,742.44 | 1,675.86 | 66.58 | 4.0% |
| Mawddwy | 352.78 | 8,820 | 25.00 | 1,430.31 | 290.61 | 1,745.92 | 1,679.48 | 66.44 | 4.0% |
| Nefyn | 1,453.53 | 75,000 | 51.60 | 1,430.31 | 290.61 | 1,772.52 | 1,698.40 | 74.12 | 4.4% |
| Pennal | 220.28 | 6,360 | 28.87 | 1,430.31 | 290.61 | 1,749.79 | 1,681.49 | 68.30 | 4.1% |
| Penrhyndeudraeth | 781.77 | 39,500 | 50.53 | 1,430.31 | 290.61 | 1,771.45 | 1,703.74 | 67.71 | 4.0% |
| Pentir | 1,243.77 | 50,000 | 40.20 | 1,430.31 | 290.61 | 1,761.12 | 1,696.38 | 64.74 | 3.8% |
| Pistyll | 249.91 | 11,500 | 46.02 | 1,430.31 | 290.61 | 1,766.94 | 1,694.00 | 72.94 | 4.3% |
| Porthmadog | 2,022.66 | 62,581 | 30.94 | 1,430.31 | 290.61 | 1,751.86 | 1,684.48 | 67.38 | 4.0% |
| Pwllheli | 1,736.18 | 78,000 | 44.93 | 1,430.31 | 290.61 | 1,765.85 | 1,695.95 | 69.90 | 4.1% |
| Talsarnau | 327.52 | 22,000 | 67.17 | 1,430.31 | 290.61 | 1,788.09 | 1,716.46 | 71.63 | 4.2% |
| Trawsfynydd | 498.88 | 20,000 | 40.09 | 1,430.31 | 290.61 | 1,761.01 | 1,689.75 | 71.26 | 4.2% |
| Tudweiliog | 464.83 | 8,000 | 17.21 | 1,430.31 | 290.61 | 1,738.13 | 1,669.49 | 68.64 | 4.1% |
| Tywyn | 1,617.43 | 90,328 | 55.85 | 1,430.31 | 290.61 | 1,776.77 | 1,709.23 | 67.54 | 4.0% |
| Waunfawr | 564.51 | 12,000 | 21.26 | 1,430.31 | 290.61 | 1,742.18 | 1,675.72 | 66.46 | 4.0% |
| Awdurdod Cyngor Gwynedd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | | | 2020/21 1,430.31 290.61 | 2019/20 1,376.22 278.1 | 3.9% 4.5% | Authority Gwynedd Council North Wales Police & Crime Commissioner | | | |

| | | | | |
|---------------------------------|----------|----------|------|------------------------------|
| Cynghorau Cymuned (Cyfartaledd) | 48.23 | 45.14 | 6.9% | Community Councils (Average) |
| Cyfanswm | 1,769.15 | 1,699.46 | 4.1% | Total |

Eitem 10

| | |
|------------------------|---|
| CYFARFOD | Cyngor Llawn |
| DYDDIAD | 1af Hydref 2020 |
| TEITL | Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd |
| PWRPAS | Cymeradwyo a mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2019/20 fel darlun clir, cytbwys a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod y cyfnod dan sylw. |
| AELOD CABINET | Cyng. Dyfrig Siencyn |
| SWYDDOG CYSWLLT | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor |

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, a bod yn atebol amdano.
- 1.2 Rydym fel Cyngor wedi cyfarch y gofyniad hwn drwy gyhoeddi Cynllun sy'n amlinellu sut y byddwn yn gweithredu (Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023), ac yna'n adrodd ar gynnydd y Cynllun hwnnw trwy gyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynyddol.
- 1.3 Gofynnir i awdurdodau lleol gyhoeddi'r asesiad o'u perfformiad (yr Adroddiad Perfformiad) o fewn blwyddyn ariannol cyn 31 Hydref y flwyddyn ariannol ganlynol. Yn unol â'r gofynion, mae angen i'r Cyngor hefyd sicrhau fod cynnwys yr adroddiad yn rhoi darlun cywir, cytbwys a chlr o berfformiad y Cyngor.
- 1.4 Er mwyn cwrdd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae angen i ni adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf ac yn benodol yr amcanion llesiant sydd wedi eu mabwysiadu gennym. O ganlyniad, fe welir bod yr amcanion llesiant y mae prosiectau a gwaith dydd i ddydd yr Adrannau yn cyfrannu tuag atynt wedi eu hamlygu yn yr adroddiad.

2 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

- 2.1 Mae Cabinet y Cyngor wedi trafod Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2019/20 a welir yn **Atodiad 1** yn ei gyfarfod ar y 15fed o Fedi 2020, ac yn argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Adroddiad.

3 Ystyriaethau Perthnasol

- 3.1 Mae Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2019/20 wedi ei strwythuro er mwyn adlewyrchu fformat Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23. Yn y rhan gyntaf canolbwyntir ar berfformiad prosiectau Blaenoriaethau Gwella Cynllun y Cyngor tra mae'r ail ran yn edrych ar ein gwaith dydd i ddydd fesul Adran.

- 3.2 Mae'r adroddiad wedi ei baratoi yn seiliedig ar adroddiadau perfformiad unigol Aelodau'r Cabinet a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn.
- 3.3 Fel y flwyddyn ddiwethaf mae'r prif fesurau wedi eu cynnwys o fewn corff yr adroddiad fel eu bod yn rhan o gyfleu'r stori yn hytrach nag o fewn tabl mesurau ar wahân.

4 Camau nesaf ac amserlen

- 4.1 Yn dilyn mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2019/20 gan y Cyngor byddwn yn trefnu i hysbysu'r cyhoedd a phartneriaid o'r adroddiad drwy gyfathrebu'r adroddiad a'r prif lwyddiannau mewn amrywiol ffyrdd.

5 Argymhelliad

- 5.1 Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r adroddiad fel adlewyrchiad cywir, cytbwys a chllir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2019/20, a'i fabwysiadu.

6 Barn y Swyddogion Statudol

Barn y Swyddog Monitro

Mae adroddiad ar berfformiad ac allbynnau Cynllun y Cyngor yn rhan o gyfundrefn llywodraethu priodol. Mae hefyd yn cyfarch dyletswydd y Cyngor i adrodd yn flynyddol ar berfformiad o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac ar gyraeddiad yn erbyn yr Amcanion Llesiant fel y nodir yn yr adroddiad.

Barn y Pennaeth Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r agweddau a ffigyrau ariannol sy'n yr Adroddiad Perfformiad a'i atodiadau, ac rwy'n cadarnhau cywirdeb y cynnwys perthnasol (mae'r ffigyrau ariannol yn gyson gyda'r Datganiad o Gyfrifon 2019/20). Roedd y Cyngor wedi cyflawni llawer ar 'daith' 2019/20 cyn yr argyfwng diweddar, tra'n isafu'r effaith niweidiol o doriadau grant y Llywodraeth, wrth gyflawni £29miliwn o arbedion dros y 5 mlynedd diwethaf (gweler tudalen 68).

Atodiadau

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2019/20.



Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2019/2020



Tud. 26



| | Tudalen |
|--|----------------|
| Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd | 3 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Ein Gwariant | 7 |
| Rhan 1 - Blaenoriaethau Gwella | 8 |
| Rhan 2 - Adroddiadau'r Adrannau | 42 |
| Addysg | 43 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 45 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 48 |
| Economi a Chymuned | 51 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 54 |
| Tai ac Eiddo | 57 |
| Amgylchedd | 60 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 64 |
| Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth | 68 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 72 |
| Gwasanaeth Cyfreithiol | 76 |

Os ydych chi angen y ddogfen yma mewn iaith neu fformat arall
ffoniwch 01766 771000 neu ebostiwch cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru

Os ydych chi angen mwy o wybodaeth am yr Adroddiad hwn cysylltwch â Thîm Cefnogi
Busnes y Cyngor drwy ffonio 01766 771000 neu cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru



Rhagair yr Arweinydd



Teimlad chwithig iawn bellach yw ceisio pwysu a mesur y gwaith y mae Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i'w gyflawni yn ystod blwyddyn 2019/20. Ers mis Mawrth 2020 mae ein byd ni i gyd wedi ei droi ben i waered yn sgil Covid-19, ac mae'n bwysig i mi, yn gyntaf, gydymdeimlo ag unrhyw un o drigolion Gwynedd sydd wedi dioddef yn sgil Covid-19. Ynghanol gofid y sefyllfa sydd ohoni, rwyf hefyd wedi gweld enghreifftiau niferus o unigolion a chymunedau yn cynnal ein gilydd, a dyma sy'n fy ngwneud yn falch o'r sir hon yr ydym yn byw ynddi.



Mae fy niolch yn ddiwyll iawn i bob un aelod o staff, ac aelodau etholedig, o Gyngor Gwynedd sydd wedi parhau nid yn unig i ddarparu gwasanaethau 'arferol' ond i arall-gyfeirio a bod yn ddyfeisgar wrth lunio gwasanaethau o'r newydd.

Fel welwch sawl cyfeiriad at waith y mae adrannau'r Cyngor wedi ei gyflawni wrth ymateb i Covid-19 yn yr adroddiad hwn, ond cyffwrdd ar y gwaith hwnnw yn unig wnawn ni. Gan mai mesur y gwaith a wnaed hyd at ddiwedd Mawrth 2020 yr ydym, bydd manylion llawn ein hymateb i'r sefyllfa i'w weld pan gyhoeddwn Adroddiad Blynyddol 2020/21.

Bydd yr adroddiad hwn yn cynnig darlun clir, cywir a theg i chi o lwyddiannau'r Cyngor dros y flwyddyn ond hefyd byddwn yn amlygu'r meysydd hynny ble na fuom mor llwyddiannus. Mae hi yr un mor bwysig i ni ddysgu a newid ein trefniadau i'r dyfodol ble fo angen er lles ein trigolion.

Un o'r newidiadau mwyaf a welsom yn fewnol yn y Cyngor yn ystod y flwyddyn oedd sefydlu Adran Tai ac Eiddo o'r newydd. Rydym wedi ymrwymo, drwy'r Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-2024, i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ac opsiynau cartrefu, a bydd yr adran newydd yn canolbwyntio'n llwyr ar wireddu hynny.

Mae ein ymrwymiad i amddiffyn ein amgylchedd ac osgoi creu problemau i genedlaethau'r dyfodol yn parhau. Braff yw gallu dweud ein bod wedi cyrraedd a phasio'r targed statudol i ailgylchu gwastraff, ac mae dros 64% o wastraff cartrefi Gwynedd bellach yn cael ei ailgylchu, ei aildddefnyddio neu ei gompostio.

Cafodd cymuned Y Bala a Phenllyn adnodd addysgol a chymunedol newydd sbon, heb ei hail, pan agorodd Ysgol Godre'r Berwyn fis Medi 2019. Rydym am gynnig y cyfleoedd gorau i'n plant a'n pobl ifanc, ac i'r un perwyl fe ymunodd 17 prentis newydd â gweithlu'r Cyngor yn ystod y flwyddyn, mewn meysydd yn amrywio o beirianeg i wasanaethau gofal.

Yn anffodus, y tu ôl i'r ystod eang o wasanaethau y mae'r Cyngor yn ei ddarparu y mae sefyllfa ariannol sy'n parhau'n ddyrys. Diolch i lymder polisiâu ariannol San Steffan nid oes gennym yr adnoddau digonol i ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd fel y dymunwn. Wedi dweud hynny, fe welwch bod ein rheolaeth ariannol yn gadarn, a gallaf eich sicrhau ein bod yn gwneud popeth y gallwn i ganfod adnoddau i'n cynnal i'r dyfodol.

Drwy weithio mewn partneriaeth - yn Gyngor, sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol, neu gymunedau - fe wnawn ddefnyddio ein cryfderau a'n profiad i gynllunio dyfodol cadarnhaol i drigolion Gwynedd.

Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn,
Arweinydd Cyngor Gwynedd.



Cyhoeddodd y Cyngor 'Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023' ym mis Mawrth 2018 sy'n gosod ein huchelgais a'n blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod dan sylw. Mae'r adroddiad hwn yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y blaenoriaethau hynny ar draws y Cyngor yn ystod 2019/20.

Daeth diwedd 2019/20 ag argyfwng Covid-19 i'n taro, a bu holl ymdrechion Adrannau'r Cyngor yn cael eu cyfeirio tuag at ymateb i'r argyfwng o ganol mis Mawrth.

Yn ystod y cyfnod clo bu i'r Cyngor ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau yn y meysydd canlynol:

- Darparu gofal plant ar gyfer gweithwyr allweddol
- Cefnogi plant a phobl fregus
- Casglu sbwriel o dai
- Chwarae ein rhan i gefnogi busnesau
- Unrhyw beth arall sy'n hyrwyddo diogelwch cymunedol / achub bywydau.

Bu'n rhaid i'r Cyngor hefyd gyflawni rhai dyletswyddau na fyddai'n arfer ei gyflawni ac mae swyddogion ar draws amrywiol wasanaethau wedi trosglwyddo o'u swyddi arferol i gyflawni'r dyletswyddau hynny. Mae wedi bod yn galonogol gweld parodrwydd nifer fawr o unigolion i ailgyfeirio a throsglwyddo eu sgiliau er mwyn cynorthwyo oedolion bregus a theuluoedd, boed hynny fel aelod o'r Tîm Cymorth Covid o fewn y Cynllun Gwydnwch Cymunedol, gwirfoddoli o fewn y maes gofal neu gynorthwyo i sefydlu cynlluniau ar gyfer dosbarthu offer diogelwch personol i swyddogion rheng flaen. Yn amlwg bydd hyn yn parhau am beth amser i'r dyfodol.



Mae adroddiadau perfformiad y gwahanol Adrannau (rhan 2) yn amlygu'r camau cychwynnol y bu iddyn nhw eu cymryd er mwyn ymateb i'r argyfwng ar ddiwedd 2019/20. Dylid nodi hefyd y bydd adroddiadau perfformiad yn ystod 2020/21 a'r adroddiad blynyddol nesaf yn rhoi gwell darlun o'r effaith a gafodd yr argyfwng ar Adrannau'r Cyngor gan hefyd sôn am y camau a gymerwyd er mwyn ymateb.

Ceir dau ran i'r adroddiad: yn y rhan cyntaf rydym yn canolbwyntio ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni gan y prosiectau yr ydym wedi penderfynu canolbwyntio arnynt er mwyn gwneud y gwahaniaeth i gymunedau Gwynedd (ein Blaenoriaethau Gwella).

Mae ail ran yr adroddiad yn canolbwyntio ar berfformiad gwaith dydd i ddydd a ddarperir i drigolion Gwynedd gan y gwahanol Adrannau o fewn y Cyngor. Adroddir hefyd ar y Blaenoriaethau Lleol a gafodd eu hadnabod gan yr aelodau etholedig.

Fel yr ydym wedi adrodd yn y gorffennol mae ein sefyllfa ariannol fel Cyngor wedi newid cryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf a bydd yn parhau i osod cryn her i ni wrth gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Rydym wedi llwyddo i gyflawni ein prosiectau a darparu ein gwasanaethau er gwaethaf gorfod wynebu toriadau sylweddol o £29m mewn grant gan y Llywodraeth ers 2013/14.



*wedi addasu ffigwr 2019/20 er mwyn adlewyrchu effaith chwyddiant a throsglwyddiadau er mwyn dangos gwir effaith

Mae cynnydd Cynllun Cyngor Gwynedd yn cael ei fonitro yn gyson yn ystod y flwyddyn mewn cyfarfodydd herio perfformiad adrannol. Yn y cyfarfodydd hyn mae'r Aelod Cabinet, gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, yn adolygu cynnydd prosiectau'r Blaenoriaethau Gwella

a gwaith dydd i ddydd yr Adran. Yn ogystal, mae aelodau o'r Pwyllgorau Craffu perthnasol yn bresennol fel eu bod yn gallu adrodd yn ôl i weddill yr aelodau ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni.

Yn dilyn y cyfarfodydd herio perfformiad, caiff adroddiadau unigol eu paratoi gan yr Aelodau Cabinet sy'n crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran perfformiad y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt. Caiff yr adroddiadau hyn eu trafod mewn cyfarfodydd rheolaidd o'r Cabinet er mwyn adolygu ein gwaith yn gyson a sicrhau ein bod ar y trywydd cywir.

Yna, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol fel hwn yn cael ei baratoi sy'n adrodd ar gynnydd Cynllun Cyngor Gwynedd. Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei gymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf fel arfer ond oherwydd yr argyfwng Covid-19 mae wedi llithro i fis Hydref yn 2020.

Gyda dyfodiad **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)** (Y Ddeddf) mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig weithio'n unigol a chyda'i gilydd i wella llesiant Cymru.

Yn unol â gofynion y Ddeddf, mabwysiadodd y Cyngor saith o Amcanion Llesiant ar gyfer 2018/19 sy'n cyfrannu tuag at y saith nod llesiant cenedlaethol ac roedd y rhain yn parhau'n weithredol ar gyfer 2019/20. Mae'r amcanion yn seiliedig ar yr asesiad llesiant a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd a Môn ynghyd â sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd wrth ddatblygu'r Cynllun.


Nodir hefyd yr angen i weithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy gan

- ystyried y tymor hir
- atal rhag digwydd
- gweithio'n integredig
- gweithio'n gydweithredol
- a chynnwys pobl o bob oed.

Mae disgwyliad arnom i adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf a cheir gwybodaeth ynghylch nifer o'r gweithgareddau hyn yng nghorff yr adroddiad. Yn ogystal, nodir pa Amcanion Llesiant y mae prosiectau unigol yn cyfrannu tuag atynt ynghyd â gwaith dydd i ddydd yr Adrannau ar ddiwedd pob pennod.

Rydym wedi cytuno mai'r ffordd orau i wreiddio'r cyfrifoldeb am weithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy yw fod Timau Rheoli Adrannau yn talu sylw i'r egwyddorion wrth gynllunio ymlaen. Mae rhywfaint o dystiolaeth fod hyn yn digwydd ond cydnabyddir bod angen asesu os yw'r ffordd yma yn llwyddo a'i peidio. Byddwn yn parhau i edrych ar sut y gellir gwreiddio'r 5 ffordd o weithio o fewn yr Adrannau.

| Amcanion Llesiant Cyngor Gwynedd | Nodau Llesiant Cenedlaethol | | | | | | |
|---|-----------------------------|----------|---------|----------|--------------------|---|-------------------------------|
| Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn: | Llewyrchus | Cycherth | Iachach | Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu | Yn gyfrifol ar lefel byd-eang |
| Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel | | | | | | | |
| Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau | | | | | | | |
| Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd | | | | | | | |
| Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud | | | | | | | |
| Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl | | | | | | | |
| Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg | | | | | | | |
| Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir. | | | | | | | |



Rhan 1

Blaenoriaethau Gwella

Mae 7 o Flaenoriaethau Gwella wedi eu hadnabod o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023. Rhain yw'r prif feysydd y credwn y mae angen i ni weithredu ynddynt er mwyn gwneud gwahaniaeth bositif i fywydau pobl Gwynedd. O dan y 7 Blaenoriaeth Gwella isod y mae disgrifiad o'r prosiectau fydd yn cyfrannu at wireddu'r uchelgais y mae'r Blaenoriaethau Gwella yn eu disgrifio. Ar y tudalennau nesaf ceir adroddiad ar gynnydd y prosiectau hynny yn ystod 2019/20 yn ogystal â nodi'r amcanion llesiant y maent yn cyfrannu tuag atynt.

Ceir gwybodaeth bellach ynghylch yr hyn y byddwn yn ei wneud i'r dyfodol yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 trwy ymweld a www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunycyngor

Blaenoriaeth Gwella 1

Gwella'r amodau ar gyfer creu economi hyfyw a ffyniannus gan anelu at fwy o swyddi sy'n cynnig cyflogau da.

Cynllun Twf Gogledd Cymru

Blaenoriaeth Gwella 1

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ar ddiwedd 2017 bu i bartneriaeth sy'n cynnwys chwe chyingor gogledd Cymru, partneriaid busnes, colegau a phrifysgolion lansio Cais Twf Gogledd Cymru yn ffurfiol. Nod y cais yw denu buddsoddiad busnes i Ogledd Cymru, gan helpu cwmnïau lleol i fanteisio ar gyfleoedd y gadwyn gyflenwi, ac annog sgiliau cysylltiedig â gwaith yn y rhanbarth. Gallai dros 5,000 o swyddi gael eu creu, yn ogystal â busnesau a thai newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy).

Rydym fel Cyngor yn aelod gweithgar o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) sy'n arwain ar **Weledigaeth Twf Gogledd Cymru**. I'r dyfodol, byddwn yn parhau â'n gwaith gyda'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod Gwynedd yn elwa'n deg o fuddsoddiad a ddaw i ranbarth Gogledd Cymru, ac yn parhau i gydweithio â'n partneriaid er mwyn gwneud y gorau o'r buddsoddiad hwnnw.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

- Mae BUEGC wedi ei sefydlu fel endid cyfreithiol gyda Chyingor Gwynedd yn gweithredu fel y Corff Arweiniol yn gwasanaethu'r Bwrdd.
- Mae BUEGC wedi cytuno ar 5 rhaglen o brosiectau buddsoddi i greu'r seiliau i drawsnewid economi Gogledd Cymru yn cynnwys Isadeiledd Digidol; Ynni Carbon Isel; Tir ac Eiddo; Gweithgynhyrchu Uwch; Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth.
- Mae manylion Penawdau'r Telerau yn nodi y bydd Cytundeb y Cynllun Terfynol ar gyfer tymor o 15 mlynedd hyd at 2035 gyda £240m o gyllid mewn rhannau cyfartal gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gyda'r potensial i ddiogelu hyd at 4,300 o swyddi, cefnogi cynnydd o 5% mewn GVA a denu £500m ychwanegol mewn buddsoddiad gan y sector preifat.

Amcanion Llesiant:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol. Yn 2017/2018, fe lwyddwyd i gynyddu'r canran o wariant lleol i 62% o'i gymharu â 58% y flwyddyn flaenorol. I'r dyfodol byddwn yn parhau â'r gwaith o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth busnesau am drefn caffael y Cyngor gan ddarganfod ffyrdd pellach i'w cefnogi i gyflawni'r gwasanaethau rydym eu hangen.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Mae'r canran o wariant lleol wedi gostwng o 60% i 57% o'i gymharu â'r ganran am y flwyddyn ariannol flaenorol. Serch y gostyngiad a'r wasgfa ariannol, llwyddwyd i wario £4m yn fwy yn ystod 2019/20 gyda busnesau lleol.

Mae'r gostyngiad o 3% ynghlwm â'r ffaith bod llai o waith cynnal a chadw wedi'i gomisiynu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn ogystal a'r angen i gomisiynu ychwaneg o becynnau gofal preswyl i blant gan gwmni tu hwnt i ffiniau'r sir (nid oes darpariaeth lleol ar gael).

Amcanion Llesiant:

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae cyflogau isel yn nodwedd amlwg yng Ngwynedd, gyda thâl wythnosol trigolion y sir (£478) ymysg yr isaf yng Nghymru, a thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£418), sef yr ail isaf yn y Deyrnas Unedig.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i greu mwy o **swyddi gwerth uchel**. I'r dyfodol, byddwn yn parhau i geisio creu'r amodau i ddenu buddsoddiad i mewn i safleoedd strategol megis Atomfa Trawsfynydd, Maes Awyr Llanbedr a Pharc Bryn Cegin/Parc Menai. Rydym yn targedu sectorau sy'n talu'n dda trwy greu amgylchedd sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol, a sicrhau fod y gweithlu lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd sy'n bodoli.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

- Darbwyllwyd perchnogion Atomfa Trawsfynydd i barhau i ddadgomisiynu'r safle. Gyda chytundeb y Trysorlys, bydd hyd at tua 250 o swyddi da i bobl Gwynedd yn cael eu gwarchod o ganlyniad.
- Y gwaith o greu gofod gwaith safonol i 31 o fusnesau bach a chanolig all arwain at 165 o swyddi i bobl Gwynedd wedi cychwyn yng Nghanolfan Awyrfod Eryri yn Llanbedr.
- £850,000 wedi ei sicrhau i ymchwilio i ddatblygu porth gofod yn y dyfodol ar safle Canolfan Awyrfod Eryri ac i brofi defnyddio dronau i gludo diffibrilwyr i gymunedau gwledig.
- Y cynllun STEM Gogledd wrthi'n paratoi 150 o bobl ifanc Gwynedd i fod yn barod ar gyfer y swyddi gwerth uwch fydd yn deillio o'r cynllun yn y dyfodol.

Amcanion Llesiant:

- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 78% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae hyn yn arwain at fgygythiadau o ran cynaladwyedd ein cymunedau gwledig.

Mae sicrhau cysylltedd ddigidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd angen ymateb iddo os ydym am sicrhau cymunedau llewyrchus.

Rydym eisoes wedi denu £4miliwn o arian Rhaglen Datblygu Gwledig i Wunedd i ddatblygu dulliau arloesol o weithio, gan dreialu nifer o syniadau newydd cyffrous. Gallwn symud ymlaen bellach i ddatblygu ein prosiectau fydd yn annog arloesedd yn y sectorau traddodiadol (megis amaeth a thwristiaeth), a gwella isadeiledd ddigidol cymunedau gwledig.

Byddwn yn parhau i gydweithio â Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon fydd yn arwain ar y gwaith. Byddwn hefyd yn cydweithio gyda siroedd Môn, Ceredigion a Sir Gâr i ddysgu sut ellid datblygu'r economi wledig a thrwy hynny gynnal yr iaith Gymraeg. Rydym hefyd yn dylanwadu a lobïo yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar ran anghenion Gwynedd wledig.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

- Cyflawnwyd rhaglen o weithgareddau i ddatblygu'r economi er mwyn cefnogi'r Gymraeg gan gynnwys grantiau i fusnesau a gweithgaredd i annog pobl ifanc i aros yn yr ardal. Bydd 88 o swyddi i bobl Gwynedd yn cael eu creu o ganlyniad i'r gwaith.
- Gweithiwyd yn agos gyda Grŵp Llandrillo Menai i ddatblygu eu cynigion i sefydlu hwb arloesedd gwledig yng Nglynllifon drwy law Cynllun Twf Gogledd Cymru.
- Parhawyd i gynorthwyo pobl, mentrau a sefydliadau Gwynedd i ddarganfod ffyrdd newydd i gwrdd â'u hanghenion. Fe gymerodd 150 ran mewn gweithgareddau yn ystod y flwyddyn.
- Mae sicrhau cysylltedd digidol da i Wunedd wledig wedi parhau i fod yn flaenoriaeth. Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd gwasanaeth wi-fi cyhoeddus mewn 8 o gymunedau, sicrhawyd arian i ymestyn y ddarpariaeth o fandeanng da i fwy o bobl a busnesau Gwynedd ac fe barhawyd i weithio ar gyflwyno technoleg rhyngwrwyd y pethe yn y sir.

Amcanion Llesiant:

- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae digwyddiadau cyhoeddus yn cynnig cyfle masnachol i fusnesau lleol gyflenwi neu ddarparu gwasanaethau. Mae cynnal digwyddiadau mawrion yn fodd i godi proffil Gwynedd a'i marchnata fel lle cyffrous a byrlymus i fyw, i ymweld, ac yn leoliad delfrydol i fusnesau fuddsoddi.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod busnesau lleol yn elwa o ddigwyddiadau proffil uchel, a arweiniodd at fuddsoddiad o £5.7m yng Ngwynedd yn 2018/19. Bydd hyn yn arwain at gyfleoedd i hyrwyddo'r sir, cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, a chynnydd yn nifer y cyfleoedd i gwmnïau lleol weithio neu gynnig gwasanaethau i'r digwyddiadau.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Llwyddodd y digwyddiadau a gefnogwyd i ddenu **£5,470,143** o fuddsoddiad yn economi'r sir. Daeth y llwyddiant yma er bod Gŵyl Rhif 6 wedi ei ganslo a fyddai wedi buddsoddi o leiaf £1.5 miliwn ychwanegol yn yr economi. Arweiniodd y digwyddiadau yma at godi ymwybyddiaeth am Wynedd a chynnyddu nifer yr ymwelwyr i'r sir, yn ogystal â chreu cyfleoedd i fusnesau a gwasanaethau lleol i gyflenwi'r digwyddiadau. Llwyddwyd hefyd i roi cyfle i bobl ifanc a gwirfoddolwyr i weithio neu wirfoddoli yn y digwyddiadau yma. Dyma grynodedb o ganlyniadau'r cynllun:

| | |
|--|----------|
| Gwariant uniongyrchol digwyddiadau yn yr economi | £521,293 |
| Nifer a fynychodd y digwyddiadau | 110,781 |
| Nifer a gymerodd ran yn y digwyddiadau | 13,004 |
| Cwmnïau a gafodd cyflogaeth y tu allan i Wynedd | 448 |
| Cwmnïau a gafodd cyflogaeth o Wynedd | 504 |
| Nifer o bobl ifanc a gafodd gyfle yn y digwyddiad | 2,372 |
| Nifer o wirfoddolwyr a gafodd gyfle yn y digwyddiad | 1,552 |
| Swyddi a ddiogelwyd | 215 |
| Cyfraniad Cyngor Gwynedd | £41,000 |
| Cyfraniad Llywodraeth Cymru a ddenwyd i gefnogi digwyddiadau | £250,000 |

Amcanion Llesiant:

- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae canol trefi bywiog yn gallu cyfrannu'n sylweddol i lewyrch economaidd a chymdeithasol ardaloedd lleol.

Mae "stryd fawr" nifer o drefi Gwynedd angen cefnogaeth i sicrhau eu bod yn ffynnu er mwyn cynnal a chreu gwaith a darparu'r ystod o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar drigolion ac ymwelwyr. Byddwn, felly, yn parhau i weithio fel Cyngor cyfan i edrych sut allwn ni gefnogi a hwyluso adfywio canol trefi er mwyn iddynt gynnal ystod o wasanaethau i drigolion lleol ac ymwelwyr o fewn amgylchedd fywiog â nawws Gymreig.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Mae'r gwaith adfywio canol trefi yn 2019-20 wedi parhau i ganolbwyntio ar y trefi blaenoriaeth. Mae dyfodiad y Bwrdd Adfywio wedi golygu fod arweiniad strategol i'r gwaith adfywio fydd yn gyfrwng effeithiol wrth gynllunio i adfywio canol trefi drwy'r Sir i'r dyfodol.

Mae'r uchafbwyntiau yn 2019-20 yn cynnwys:

Caernarfon:

- Cynnydd sylweddol yn y gwaith adeiladu i drawsnewid Cei Llechi i fod yn Unedau Artisan i grefftwyr lleol.
- Dyluniadau manwl i welliannau ffisegol o amgylch y safleoedd strategol a'r Castell yn y dref.
- Cefnogaeth barhaus i'r HWB wrth iddynt ddatblygu cynlluniau a chynllunio ar gyfer blwyddyn balot (20/21).
- Cyhoeddwyd 3ydd Adroddiad Meincnodi cadarnhaol a phositif i'r dref. Ymddengys fod hyder gan fusnesau y dref a bod 35% o'r busnesau yn rhagweld y byddai eu trosiant yn cynyddu dros y 12 mis nesaf.
- Cydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu pecyn marchnata i agor marchnadoedd newydd ac i ymestyn y tymor. Croeso Cymru wedi datgan cefnogaeth ariannol.

Bangor:

- Cydlynnydd Rhaglen Adfywio Bangor wedi ei benodi Mai 2019. Cais am arian refeniw £25,000 i gefnogi ymdrechion adfywio y Ddinas wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cronfa Buddsoddi mewn Eiddo (£2.16m) wedi ei sefydlu gyda chryn ddiddordeb. 4 cais yn cael ei gymeradwyo i'w cyflwyno i Banel a 37 ymholiad.

- Cefnogaeth barhaus i'r Ardal Gwella Busnes aeth drwy gyfnod o newid yn y Bwrdd.
- Cefnogi yr Uned Cefnogi Busnes wrth gyfathrebu gyda busnesau yn sgil y tân yn y Stryd Fawr.
- Prifgynllun (masterplan) drafft, yn edrych ar symudedd a chysylltiadau o fewn y ddinas, wedi ei gwblhau.
- Arwain ar yr agenda adfywio ehangach ym Mangor yn enwedig cynlluniau blaenoriaeth megis y Ganolfan Ddigartref, Hwb Iechyd, Nyth (Franwen) ag ati.
- Y Cyngor wedi derbyn cynnig o £338,000 gan Lywodraeth Cymru i weithredu cynllun Is-Adeiledd Gwyrdd o fewn y Ddinas. Cynllun yn cael ei weithredu gan YGC.

Harlech

Arwain y Bartneriaeth Adfywio Strategol wrth adnabod cyfleon i ddatblygu cynlluniau adfywio. Gwaith 2019/20 wedi canolbwyntio ar gefnogi Awdurdod y Parc Cenedlaethol i ddymchwel adeilad Gwesty Dewi Sant.

Erill:

- Cais am gyllideb o £2m ar gyfer cronfa ranbarthol Adeiladau Pwysig wedi ei gymeradwyo. Eiddo addas ar gyfer y gronfa wedi eu hadnabod. Cynnal trafodaethau gyda pherchnogion a darpar berchnogion eiddo amlwg yng Nghaernarfon a Bangor er mwyn datblygu eu cynlluniau.
- Cynlluniau Uwchraddio Traethau Baneri Glas a Gwedd 2 Plas Heli wedi eu cwblhau.

Amcanion Llesiant:

- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae nifer o gymunedau mwyaf anghenus Gwynedd yn gyfoethog o ran treftadaeth ac yn gartref i Safleoedd Treftadaeth y Byd presennol neu arfaethedig, megis y cyn ardaloedd llechi traddodiadol.

Yn ystod 2018/19 dewiswyd yr ardaloedd llechi gan Lywodraeth San Steffan fel enwebiad nesaf y DU ar gyfer dynodiad Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Hefyd, sicrhawyd dros £60,000 o arian loteri i gefnogi cymunedau i elwa o'r dynodiad.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i weithio i sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi yng Ngwynedd. Bydd y gwaith yma'n cynnwys rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, gwell gwedd a golwg i gymunedau ac yn ansawdd y profiad i dwristiaid.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Mae 2019/20 wedi bod yn flwyddyn dyngedfennol yn natblygiad a gweithredu y cynllun yma. Mae gwaith wedi mynd rhagddi ers i'r cais gael ei gynnwys ar rhestr betrus Safleoedd Treftadaeth y Byd y DU yn 2012 i ymateb i ofynion UNESCO er mwyn paratoi cais llawn, a blynyddoedd o waith wedi cymryd lle cyn 2012 i gael y sail tystiolaeth mewn lle i fedru cychwyn y broses.

Prif uchafbwyntiau'r flwyddyn yw:

- Ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Rheolaeth Tirwedd Llechi; cynhaliwyd sesiynau galw i mewn ar draws y cymunedau llechi, holiadur ar-lein a chyswllt uniongyrchol gyda'r prif rhan-ddeiliaid.
- Cyflwyno enwebiad Safle Treftadaeth y Byd i UNESCO ac ymweliad gan Helen Whatley (AS) a David Davies (AS) i'r ardal er mwyn cyhoeddi fod Llywodraeth Prydain wedi cyflwyno'r cais yn ffurfiol.
- Gweithgareddau cymunedol trwy'r cynllun LleCHI yn cynnwys creu llysgenhadon ifanc, datblygu cynlluniau celf a dehongli, cefnogi digwyddiadau a perfformiadau lleol a sefydlu grwpiau budd-ddeiliaid lleol i flaenoriaethu gweithgareddau adfywio lleol.
- Comisiynu darnau o waith amrywiol er mwyn cynorthwyo gyda datblygiad a rheolaeth y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig (Canllaw Cynllunio Atodol, Strategaeth Dehongli, Canllaw Marchnata, Adroddiad Cyfleoedd a Bygythiadau i Ddatblygiad, Cynlluniau Rheolaeth Lleol).
- Cynnydd sylweddol yn ein proffil ar-lein trwy cyfrifon Facebook, Twitter ac Instagram, sylw i'r ardal mewn nifer o raglenni radio a theledu, a thrwy'r papurau newydd ac erthyglau ar y we.

- Sicrhau cyllid trwy gronfa RCDF 7.1 (£69,844.10) ar gyfer gweithgareddau rheoli'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a safleoedd unigol o fewn yr ardal.
- Fel rhan o ddigwyddiadau cydnabod 50 mlynedd ers cau Chwarel Dinorwig, bu i ni gydweithio â'r Amgueddfa Lechi i drefnu darlith gan yr Arglwydd Dafydd Wigley am yr ymgyrch i sicrhau iawndal i chwarelwyr a'u teuluoedd oherwydd sgil-ffeithiau llwch ar eu iechyd.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.



Llun: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Er mai Twristiaeth yw un o brif sectorau economaidd Gwynedd mae ymwelwyr yn ychwanegu'n sylweddol i'r pwysau ar isadeiledd cyrchfannau'r sir; cost sy'n cael ei ysgwyddo'n bennaf gan drigolion Gwynedd.

I'r dyfodol, byddwn yn cydweithio gyda'r diwydiant i ystyried y posibilrwydd o gael ymwelwyr i gyfrannu'n ariannol at gynnal a gwella cyrchfannau Gwynedd a chodi safonau'r sector twristiaeth. Drwy wneud hyn, byddwn yn gwella darpariaeth cyrchfannau'r sir ynghyd â chynyddu safon darpariaeth y diwydiant i ymwelwyr.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Sefydlwyd bwrdd prosiect i asesu sut y gellir ariannu blaenoriaethau twristiaeth sirol i'r dyfodol.

Comisiynwyd gwaith ymchwil annibynnol i graffu'r maes ac amlygu ymarfer da mewn ardaloedd eraill a modelau gweithredu. Cynhaliwyd arolwg ar-lein a gweithdy gyda'r sector. Cyflwynwyd eitemau i'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Craffu a chynhaliwyd dau weithdy yn ystod Chwefror 2020 gydag Aelodau Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Bwrdd Prosiect y cynllun er mwyn adrodd ar gynnydd a chynnal trafodaeth er mwyn llunio argymhellion o ran blaenoriaethau twristiaeth 2020 – 2030.

Yn sgil Covid-19, bu oedi yn yr amserlen ond bwriedir datblygu Cynllun Twristiaeth a Rheolaeth Cyrchfan newydd i Wunedd yn ystod 2020.

Amcanion Llesiant:

- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**
- **Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae busnesau'r sir yn ymwneud â nifer o Adrannau'r Cyngor neu yn derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael. Drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n rhoi anghenion busnesau yn ganolog, ac yn ei gwneud hi'n haws i fusnesau gysylltu a chydweithio â'r Cyngor, gellid cefnogi ac annog busnesau i sefydlu a thyfu yn y sir. Yn dilyn gwaith ymchwil rydym wedi adnabod enghreifftiau o ymarfer da gan gynnwys rhaglen "Gwell Busnes i Bawb" gan Gyngor Sir Dinbych.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau gyda'r gwaith o adolygu sut mae gwasanaethau'r Cyngor i fusnesau yn cael eu darparu er mwyn ystyried a oes lle i wella ac yn gweithredu ar unrhyw wersi ddaw i'r amlwg i sicrhau fod busnesau yn cael eu cynorthwyo i ffynnu. Byddwn hefyd yn cefnogi datblygu Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru gan gydweithio â phartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat ar draws y rhanbarth.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

- Cynnal a dadansoddi arolwg barn gan fusnesau ynglŷn â gwasanaethau'r Cyngor.
- Adnabod a cytuno meysydd cychwynnol i wella'r gwasanaeth i fusnesau gan gynnwys y maes Rheoleiddo a gwella ymgysylltiad y Cyngor gyda busnesau.
- Cyfranogi at drafodaeth rhanbarthol ynglŷn â gwella'r darpariaeth cefnogaeth busnes ar draws y Gogledd.

Amcanion Llesiant:

- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion datblygu sgiliau hanfodol yng Nghymru a'r economi ehangach, adnabod y meysydd blaenoriaeth a sut y bydd prentisiaethau yn rhan annatod o wireddu hynny.

Mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod meysydd addas ar gyfer sefydlu prentisiaethau ac wedi clustnodi cyllid er mwyn gwireddu'r cynlluniau hynny am y ddwy flynedd nesaf. Yn ystod 2019/20 byddwn yn sefydlu Cynllun Prentisiaethau fydd yn cyflogi o leiaf 20 prentis o'r newydd.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Llwyddwyd i benodi 17 prentis yn ystod 2019/20. Yn sgil y ffaith bod canran uwch na'r disgwyl o'r gost cyflogi wedi'i ysgwyddo gan yr adrannau ble lleolir y prentisiaid presennol, bydd yr hyn sy'n weddill o'r gronfa a gymeradwywyd gan y Cyngor yn caniatáu i ni recriwtio tu hwnt i'r 20 a gyllidwyd ar ei gyfer yn wreiddiol.

Amcanion Llesiant:

- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

Blaenoriaeth Gwella 2

Sicrhau fod pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial drwy sicrhau fod gennym gyfundrefn addysg gynaliadwy, sy'n darparu cyfleoedd datblygu perthnasol i bawb waeth beth yw eu cefndir neu ymhle y maent yn byw.

Dalgylch Bangor, Dalgylch y Berwyn (Y Bala), Dalgylch Trefferthyr (Cricieth), Darpariaeth Ôl-16

Blaenoriaeth Gwella 2

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posib rydym yn cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion, neu adeiladu ysgolion newydd.

Byddwn yn parhau, neu'n cychwyn gwaith i wella'r ddarpariaeth addysg a'i safonau yn **Nalgylch Bangor, Dalgylch y Berwyn a Dalgylch Trefferthyr**. Byddwn hefyd yn ystyried rhinweddau'r **Ddarpariaeth Ôl-16** presennol ar draws y sir er mwyn gweld sut y bydd yn gallu wynebu cyfleoedd a heriau'r dyfodol.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Ysgol Godre'r Berwyn

Yn dilyn buddsoddiad sylweddol gwerth £10.27 miliwn, agorwyd Ysgol Godre'r Berwyn yn swyddogol ym mis Medi 2019. Mae'r ysgol ardal newydd hon wedi ei lleoli ar gyn safle Ysgol y Berwyn yn Y Bala ac yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng tair ac 19 oed. Yn ogystal, mae'r campws yn cynnwys llyfrgell gyhoeddus, ynghyd ag adnoddau pwrpasol ar gyfer y celfyddydau sy'n cynnwys stiwdio ddawns a theatr sydd â thafunydd digidol i ddangos ffilmiau.

Trefferthyr

Mae'r Cyngor wedi penderfynu adeiladu ysgol gynradd newydd yn nalgylch Trefferthyr, Cricieth fel canlyniad i gyflwr gwael yr adeilad presennol. Yn 2019/20 bu inni adnabod safleoedd posib ar gyfer yr ysgol gan gynnal nifer o gyfarfodydd gyda chynrychiolaeth o Ysgol Trefferthyr er mwyn cytuno ar anghenion yr ysgol ac adnabod y lleoliad gorau ar ei chyfer.

Bangor

Rydym wedi adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd ym Mangor, ac mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cynllun gwerth £12.7m. Fel rhan o'r cynllun hwn, bydd ysgol newydd i 420 o ddysgwyr yn cael ei hadeiladu ar gyfer Ysgol y Garnedd a bydd safle ac adeilad presennol Ysgol y Faenol yn cael ei addasu ar gyfer 315 o ddysgwyr ac yn cynnwys gofod cymunedol. Yn ystod 2019/20, bu i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo yn dda ar safle Ysgol y Garnedd, gyda chontractwyr yn cychwyn ar safle Ysgol y Faenol ym mis Ebrill 2020.


Ôl-16

Mae gwaith maes a oedd yn cynnwys mewnbwn rhan-ddeiliaid allweddol er mwyn ystyried rhinweddau'r gwahanol ddarpariaethau sy'n weithredol ar hyn o bryd, ynghyd â'r cyfleoedd a'r heriau i'r dyfodol, bellach wedi ei gwblhau. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gyda rhan-ddeiliaid megis penaethiaid ac aelodau etholedig Arfon.

Yn eu cyfarfod ar 10 Mawrth 2020, derbyniwyd caniatâd gan y Cabinet i ddechrau trafodaethau lleol ynglŷn â'r cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth ôl-16 yn Arfon. Gobeithir cychwyn trafodaethau ffurfiol yn yr hydref gyda'r penaethiaid uwchradd yn gyntaf, gan ddilyn gyda grŵp ehangach o ran-ddeiliaid.

Amcanion Llesiant:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae angen i ni **Gryfhau Arweinyddiaeth** yn ein hysgolion er mwyn creu yr amgylchiadau gorau i'n dysgwyr gael y profiad dysgu gorau posib. Byddwn yn datblygu cyfeiriad a chynlluniau clir ar gyfer pob haen o arweinyddiaeth fydd eu hangen ar ein cyfundrefn addysg yng Ngwynedd nawr ac i'r dyfodol, gan annog a hyrwyddo dysgu proffesiynol arweinwyr ar bob lefel o fewn ein hysgolion. Yn ogystal, byddwn yn adnabod a thargedu arweinwyr y dyfodol, gan sicrhau eu bod yn dilyn rhaglen briodol o ddysgu proffesiynol.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Bu i'r Adran Addysg fanteisio ar arweiniad oddi wrth gydlynnydd profiadol oedd yn rhan o'r gyfundrefn uwchradd bresennol, gan roi pwyslais arbennig ar sicrhau:

- cyfundrefn sydd wedi ei chynllunio a'i datblygu i sicrhau arweinwyr priodol ar bob lefel
- cysondeb ar gyfer y profiad a'r cyfleoedd gorau i ddisgyblion Gwynedd
- dulliau effeithiol sy'n datblygu arweinwyr presennol
- fod amodau penodol mewn lle i alluogi arweinwyr i ffynnu.

At hyn, bu'r Adran yn cynllunio, mewn cydweithrediad gyda GwE i roi trefniadau hyfforddiant perthnasol mewn lle i gefnogi datblygiad gyrfaoedd arweinwyr y dyfodol, ac i hyrwyddo datblygiad proffesiynol arweinwyr presennol ein hysgolion. Fel rhan o waith y prosiect hwn, anelir i adnabod y rhinweddau, ymddygiadau a'r nodweddion sydd eu hangen ar yr unigolion er mwyn bod yn arweinwyr llwyddiannus ac i fedru ymateb i unrhyw newid i'r gyfundrefn yn y dyfodol.

Bydd cynllun cyntaf y prosiect hwn yn mynd i'r afael â phroblemau Arweinyddiaeth, Rheolaeth Ganol a recriwtio i Adrannau Craidd yn Ysgolion Meirionnydd (gan gynnwys Ysgol Eifionydd). Mae'r Adran wedi derbyn nifer o sylwadau a phryderon ynglŷn â materion penodol yn ymwneud â chynllunio'r ddarpariaeth uwchradd yn ardal Meirionnydd. Fel canlyniad, mae'r Adran wedi comisiynu dau unigolyn allanol i gynhyrchu adroddiad ar y cyd sy'n cyflwyno tystiolaeth ar heriau'r ddarpariaeth bresennol yn ysgolion uwchradd Meirionnydd, ynghyd ag adnabod cyfleoedd a datrysiadau cysyniadol ar gyfer ymateb i'r heriau hynny. Mae'r gwaith hwn yn parhau i fynd rhagddo mewn cydweithrediad gyda phenaethiaid ysgolion uwchradd Meirionnydd.

Amcanion Llesiant:

- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Rydym wedi adnabod bod angen i ni **Drawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**, er mwyn sicrhau fod y plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i wireddu eu potensial. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gynhaliadaeth yn y dosbarth a sut mae hyn yn cael ei drefnu, y ddarpariaeth cyn-ysgol, darpariaeth ôl-18 ac Ysgolion Arbennig.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Rydym wedi bod yn paratoi tuag at Ddeddf Anghenion Dysgu a'r Tribiwnlys Addysg Cymru (2018) a fydd yn weithredol o Fedi 2021, ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau.

Er mwyn gwella'r ddarpariaeth i blant ifanc ag anghenion ychwanegol gwelwyd newid i'r Gwasanaeth Asesu ac Arsylwi Blynyddoedd Cynnar (ABC). Mae'r Gwasanaeth ABC bellach yn rhan o'r Gwasanaeth Integredig ADYaCh ac yn cynnig gwasanaeth ymestyn allan newydd yn ogystal â'i ganolfannau. Mae rhaglen hyfforddiant ar waith ar gyfer sicrhau parodrwydd lleoliadau blynyddoedd cynnar i gyfarch gofynion y Ddeddf ADY newydd. Mae 92 o leoliadau wedi derbyn hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ADY a hyfforddiant dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sgiliau llunio proffiliau un dudalen. Mae'r wefan ADYaCh www.adyach.cymru wedi'i ymestyn i gynnwys adran benodol ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

Mae Grŵp Cyswllt Awdurdod/Coleg wedi'i sefydlu i wella trefniadau trosglwyddo rhwng ysgol a choleg, paratoi'n gynnar a sicrhau bod prosesau addas yn eu lle ar gyfer gweithredu o dan Ddeddf ADY newydd. Bellach, y mae bob tîm o fewn y Gwasanaeth Integredig ADYaCh â map cefnogaeth tîm sydd wedi'i greu ar y cyd gyda'r Coleg i adnabod haenau o gefnogaeth i bobl ifanc Gwynedd wrth iddynt drosglwyddo i'r Coleg.

Ers Medi 2019 mae pob ysgol yng Ngwynedd yn defnyddio system ar-lein - CDU ar-lein - i hwyluso'r broses anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r CDU ar-lein yn cefnogi cydweithredu rhwng dysgwyr, teuluoedd, ysgolion a gweithwyr proffesiynol, ac yn ddull sy'n llwyr ganolbwyntio ar yr unigolyn wrth lunio Cynllun Datblygu Unigol a chynllunio'r ddarpariaeth, er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Amcanion Llesiant:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**

Blaenoriaeth Gwella 3

Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir.

Pobl Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith

Blaenoriaeth Gwella 3

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn cynorthwyo mwy o Bobl Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith a all arwain at fuddion o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau, yn ogystal â chynyddu eu henillion. Mae bod y tu allan i'r byd gwaith a diweithdra yn uwch yn Arfon na'r cyfartaledd sirol, ond byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyfres o weithgareddau fydd yn annog trigolion Gwynedd gyfan i mewn i fyd gwaith.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

- 74 o bobl Gwynedd oedd ymhlith y mwyaf eithriedig o'r llafurlu wedi eu cefnogi i waith.
- Y cynllun Cymunedau am Waith wedi ei ymestyn hyd at 2022/23 i ganiatáu mwy o bobl Gwynedd i dderbyn cymorth.
- Perthynas gref wedi ei sefydlu gyda rhai o brif gyflogwyr Gwynedd yn niwydiant twristiaeth gan gynnwys Hafan y Môr a Zip World i sicrhau cyfleoedd i bobl Gwynedd.
- Ffair Swyddi wedi ei dreialu ar y cyd gyda'r Ganolfan Byd Gwaith gan ddenu 366 o bobl Gwynedd a dros 250 o gyfleoedd gwaith ar gael.

Amcanion Llesiant:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Pwrpas y prosiect yw sicrhau bod cefnogaeth ar gael i bobl i gyfarch eu hanghenion llesiant mewn ffordd hawdd, cydlynys ac sydd ar gael yn lleol. Byddwn yn helpu pobl gyda materion amrywiol megis: anawsterau riantu a magu teulu, cael a chynnal cartref, cynnal perthnasau iach, delio gyda chamddefnyddio sylweddau ac alcohol, trais, troseddu ac effeithiau hynny, byw'n iach ac actif, incwm annigonol a diffyg gwaith, methu aros mewn addysg, diffyg cymwysterau a sgiliau sylfaenol, gofalu, heneiddio, unigrwydd a diffyg cysylltiadau cymdeithasol.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Mae'r Bwrdd Cefnogi Pobl wedi sefydlu'r cyfeiriad ac wedi cadarnhau'r ffrydiau gwaith i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn sydd wedi cynnwys :-

- Mapio drysau ffrynt y Cyngor a'r Llwybrau Ataliol Lleol er mwyn gweld sut allwn wella ein trefniadau a darparu cefnogaeth i drigolion mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw.
- Dilyn siwrne trigolion drwy ein gwasanaeth i ddeall eu profiadau, a be sy'n bwysig iddyn nhw.
- Cysylltu systemau TG y cyngor i adnabod trigolion bregus.
- Adolygu ein grantiau ataliol (10 ohonynt).
- Dadanosddi trefniadau cefnogi pobl mewn cymuned benodol drwy'r Parth Plant yn Gyntaf, sef Maesgeirchen, ar y cyd gyda teuluoedd a gweithwyr rheng flaen. Treialu dulliau newydd o weithio yn y gymuned honno.

Amcanion Llesiant:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Bydd cynnig cefnogaeth i rai teuluoedd cyn i faterion ddwysau yn hanfodol er mwyn eu helpu i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys. Rydym eisoes wedi mapio'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd, ac i'r dyfodol byddwn yn parhau i ddatblygu'r **Strategaeth Cefnogi Teuluoedd** ar y cyd gyda'n partneriaid allweddol, megis y Bwrdd Iechyd, gwasanaethau'r trydydd sector, a chymunedau Gwynedd.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Yn dilyn o'r gwaith mapio rydym wedi cwblhau y gwaith o newid ein trefniadau cyfeirio, adolygu ein darpariaethau, ynghyd â chomisiynu a darparu ymyraethau newydd i ymateb i anghenion a bylchau. Rydym hefyd wedi cychwyn ar sefydlu Cynllun Rhiantu ar draws y Cyngor a'n partneriaid. Mae gwaith y Strategaeth bellach wedi ei drosglwyddo i waith dydd i ddydd yr adran a byddwn yn canolbwyntio ar adnabod a gweithredu ar gyfleon i integreiddio ymhellach gyda Addysg yn rhan o'r agenda Cefnogi Llesiant Pobl.

Amcanion Llesiant:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn sicrhau ein bod yn flaengar yn annog **Merched Mewn Arweinyddiaeth** ac yn adnabod a cheisio dileu unrhyw rwystrau all fod yn atal merched rhag cyrraedd swyddi arweiniol a rheolaethol o fewn y Cyngor.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Sefydlwyd Grŵp Prosiect sy'n cynnwys aelodaeth o ferched a dynion ar draws y Cyngor, gan gynnwys Aelodau Etholedig.

Trefnwyd gweithdai i reolwyr ac arweinyddion tîm benywaidd a gwrywaidd fel cam cychwynnol er mwyn cyflwyno'r prosiect i'r gweithlu ac er mwyn canfod barn. Defnyddiwyd cynnwys trafodaeth y gweithdai a'r adborth i gyfrannu at lunio cynllun gweithredu. Mae'r cynllun gweithredu wedi'i gytuno arno ac yn cynnwys y prif weithredoedd canlynol:

1. Cyflwyno Rhaglen Datblygu Potensial i ferched yn y Cyngor.
2. Adolygu trefniadau recriwtio a phenodi.
3. Creu fforwm / cyfleoedd i ferched y Cyngor ymgynnull i drafod materion penodol a godwyd yn y gweithdai.

Amcanion Llesiant:

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Blaenoriaeth Gwella 4

Sicrhau mwy o gyflenwad o dai addas ar gyfer ein trigolion.

Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd
2019-24

Blaenoriaeth Gwella 4

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn gweithredu **Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-24** gan gymryd y camau i sicrhau fod pobl Gwynedd yn gallu canfod cartref addas, nad oes neb yn ddigartref, a bod anghenion iechyd a llesiant yn cael eu cyfarch. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y cartrefi hyn yn gyfeillgar i'r amgylchedd ac ein bod yn cynnig gwasanaethau ataliol, di-dor ar lefel leol.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Ers sefydlu'r adran Tai ac Eiddo newydd mis Medi 2019, mae'r gwaith wedi cychwyn ar drosi'r Strategaeth hon yn Gynllun Gweithredu Tai, sef cyfres o brosiectau penodol a fydd yn anelu i gynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy a'r opsiynau cartrefu fydd ar gael i bobl Gwynedd. Mae'r prosiectau hyn eisoes wedi cael eu craffu gan y pwyllgor Craffu Gofal ac wedi eu herio'n fwy manwl gan Weithgor o'r Pwyllgor hwnnw. Mae heriau ymateb i Covid-19 ar ddiwedd y flwyddyn wedi golygu bod y gwaith o gwblhau'r Cynllun Gweithredu wedi ei daro ymlaen i 2020/21.

Amcanion Llesiant:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

Blaenoriaeth Gwella 5

Sicrhau ein bod yn annog a hyrwyddo gallu pobl Gwynedd i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenoriaeth Gwella 5

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn cydweithio â sefydliadau cyhoeddus eraill, drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, i sicrhau ein bod yn arloesi yn narpariaeth **Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus** yn y sir. Byddwn hefyd yn annog pobl Gwynedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg wrth ymwneud â'r sefydliadau hynny.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Rydym wedi bod yn gweithio ar ddatblygu defnydd o'r Gymraeg o fewn y Timau Integredig / Timau Adnoddau Cymunedol, sy'n cynnwys staff Cyngor Gwynedd a'r Gwasanaeth Iechyd. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud yn y maes yma drwy brosiect Arfer, gyda 5 sefydliad cyhoeddus (gan gynnwys Cyngor Gwynedd) yn cymryd rhan mewn gwaith ymchwil er mwyn cynorthwyo i newid arferion ieithyddol mewn timau cymysg eu hiaith.

Amcanion Llesiant:

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn annog **Busnesau Gwynedd i Ddefnyddio'r Gymraeg**, ac i weld y budd o gyfathrebu'n ddwyieithog wrth gynnig gwasanaeth. Byddwn yn ystyried sut orau all y Cyngor hyrwyddo hyn a sut fedrwn ni a sefydliadau eraill ddylanwadau fwyaf effeithiol ar ddefnydd busnesau a'u cwsmeriaid o'r Gymraeg.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Er mwyn hybu busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg mae'r tîm iaith a chraffu yn monitro cynnydd a datblygiadau sawl prosiect ac yn rhoi mewnbwn a chyngor yn ôl yr angen. Enghraifft o hyn yw cynllun Arfor. Mae Hunaniaith (Menter Iaith Gwynedd) hefyd wedi bod yn cydweithio gyda busnesau er mwyn cynnal a hyrwyddo cystadlaethau addurno ffenestri siop neu helpa drysor sy'n hybu'r Gymraeg. Mae sylw hefyd wedi ei roi i gydweithio ymhellach gyda Swyddog Cymraeg Byd Busnes Gwynedd a Môn.

Amcanion Llesiant:

- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i **Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor**, a bydd pwyslais y cyfnod nesaf ar weithio gyda gwasanaethau rheng-flaen i ddatblygu sgiliau staff newydd a chyfredol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnis pob agwedd ar ein gwasanaethau yn gwbl ddwyieithog.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Llwyddwyd i asesu cyraeddiadau iaith 3,312 o staff yn erbyn y dynodiad iaith ar gyfer eu swyddi. Cadarnhawyd bod 3,070 (92.7%) o'r unigolion hynny yn cyrraedd gofynion iaith ei swydd yn llawn gyda 242 (7.3%) yn cael eu hadnabod fel rhai y byddai'n elwa o hyfforddiant iaith pellach. Trefnwyd yr hyfforddiant ar gyfer nifer helaeth o'r unigolion hyn ac mae enghreifftiau niferus o sut mae'r prosiect wedi llwyddo i gyflawni ei nod o gynorthwyo staff i gyrraedd gofynion eu swyddi a gwella safon eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig. Ymhellach, adolygwyd trefniadau ar gyfer recriwtio a phenodi er mwyn egluro'r gofynion iaith ar gyfer swyddi yn well.

Amcanion Llesiant:

- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn datblygu ar waith arloesol y Siarter Iaith i ysgolion cynradd drwy ymestyn y gefnogaeth i **Strategaeth Iaith Uwchradd**. Nod y strategaeth yw hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc o fewn y cwricwlwm ac yn gymdeithasol. Bydd gan bob ysgol uwchradd gynllun gweithredu unigol ac unigryw fydd yn adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ysgol a'r gymuned o'i hamgylch.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd model clwstwr gan GwE ar draws rhanbarth y gogledd ym maes y Gymraeg. Yn sgil y model clwstwr, bu cydweithio rhwng yr ysgolion cynradd ac uwchradd ymhob dalgylch i gyflwyno a gweithredu cynlluniau clwstwr ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc o fewn y cwricwlwm ac yn gymdeithasol.

Cychwynnwyd ar brosiect peilot gydag Ysgol Bro Idris, oedd yn edrych ar arferion defnydd iaith plant wrth drosglwyddo o CA2 i CA3, gan ymweld â hwy yn eu hwythnosau olaf ym mlwyddyn 6 ar y safleoedd cynradd, ac yna ymweld â hwy ar ddiwedd eu hanner tymor cyntaf ar y safle uwchradd. Y bwriad oedd cynnal astudiaeth achos fyddai'n canolbwyntio ar agweddau tuag at iaith wrth iddynt aeddfedu a cheisio adnabod cyfnodau pryd y gwelir newidiadau amlwg yn eu hymagweddau.

Drwy gyfrwng holiadur, sefydlwyd gwaelodlin o ddarpariaeth y Gymraeg ar draws y cwricwlwm ymhob ysgol uwchradd ar gyfer CA3, CA4 a CA5. Yn yr un modd sefydlwyd gwaelodlin o sefyllfa sgiliau iaith o blith gweithwyr yr ysgolion uwchradd, a chychwynnwyd ar y broses o adnabod yr anghenion hyfforddiant ac unrhyw gefnogaeth angenrheidiol er mwyn cynyddu hyder a sgiliau'r gweithlu yn y Gymraeg.

Amcanion Llesiant:

- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.**

Blaenoriaeth Gwella 6

Sicrhau fod gennym wasanaethau gofal sy'n helpu pobl i fyw eu bywydau fel y dymunant.

Gwydnwch Cymunedol

Blaenoriaeth Gwella 6

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Cydweithio gyda chymunedau i gynorthwyo pobl i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau cyn hired ag sy'n bosibl. Roedd gwaith eisoes yn mynd rhagddo er mwyn cynyddu'r opsiynau gofal i bobl o fewn eu cymunedau, gan gysylltu'r rhai sydd angen cymorth gyda gwasanaethau, adeiladu ar gryfderau unigolion, adnabod bylchau sy'n bodoli a thrwy hynny hybu gweithgarwch cymunedol.

Nodwyd ein bwriad i barhau gyda'r gwaith hwn gan geisio gwella ein dealltwriaeth o anghenion ein poblogaeth ar lefel lleol a'r ffordd orau i ymateb i hynny.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Rydym wedi mapio ac adnabod bylchau mewn gwasanaethau a grwpiau ac wedi gweithio i hybu mentrau cymunedol. Mae enghreifftiau'n cynnwys sefydlu Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol Dyffryn Nantlle, gwasanaeth Pryd ar Glud Blaenau Ffestiniog, Shed Ddynion Pwllheli a chydweithio ag Antur Waunfawr ar gyfleon i gynnwys pobl hŷn ynysig mewn gweithgareddau yn eu hardal.

Fel rhan o'n hymdrechion i gefnogi unigolion â'u lles meddyliol a hyrwyddo iechyd meddwl positif, lanswyd ail fersiwn llyfryn 'Edrych ar ôl fy hun' er mwyn rhannu syniadau ymarferol. Rydym hefyd wedi cydweithio gydag Uned Celfyddydau Adran Economi a Chymuned y Cyngor i sefydlu prosiect 'Celfyddydau ar Bresgripsiwn' yma yng Ngwynedd er mwyn hybu effaith positif y celfyddydau ar iechyd meddwl. Cafwyd trafodaethau cychwynnol gyda partneriaid perthnasol ynghylch sut i fynd i'r afael â materion iechyd meddwl a llesiant dynion hefyd, a bwriedir parhau â'r rhain wedi i'r sefyllfa wella'n dilyn argyfwng Covid-19.

Ym maes Anableddau Dysgu, mae'r tîm llesiant wedi sefydlu amryw o ddiwyddiadau a grwpiau sy'n helpu cyfarch anghenion llesiant nifer fawr o unigolion o fewn y gwasanaeth. Er enghraifft, ymunodd dros 100 o unigolion o bob cwr o Ogledd Cymru mewn twrnament pêl-droed cerdded, ac roedd y nifer oedd yn mynychu 'Canfod y Gân' yn parhau i dyfu. Mae'r cyfleon hyn yn creu lot o gysylltiadau a ffrindiau newydd, gan hefyd roi cyfle i'r tîm llesiant a'r gweithwyr cymdeithasol adnabod unrhyw fewnbwn pellach sydd ei angen ar yr unigolion.

Mae hi'n hollbwysig fod gwahanol oeddrannau a chefnidiroedd yn cyd-fyw a chymysgu yn ein cymunedau ac mae cynllun Pontio Cenedlaethau yn ffordd o sicrhau hyn drwy annog cyd-drafod am yr hyn y dymuna bobl weld yn eu hardaloedd, a chynnwys pawb mewn datblygiadau newydd. Mae sawl enghraifft ar waith drwy'r sir lle mae ysgolion a cholegau'n partneriaethu gyda lleoliadau gofal o fewn eu cymunedau (e.e Ysgol Glancegin gyda Chanolfan Ddydd Plas Hedd). Mae'r budd yn amlwg, gyda'r plant yn gweld fod y profiad yn llesol i'w sgiliau cymdeithasol a'r oedolion yn mwynhau teimlo eu cyfraniad i'r gymuned. Gwnaethom hefyd gynhyrchu llawlyfr Pontio'r Cenedlaethau i annog ysgolion i gyfeillio â chartrefi gofal neu gymdeithasau lleol er mwyn gweld yr un buddion.

Yn sgil argyfwng Covid-19 a ddaeth i'n taro yn ystod chwarter ola'r flwyddyn, cyfrannodd yr adran at ymdrech y Cyngor i sefydlu llinellau cymorth Covid o fewn y 5 ardal gofal er mwyn cefnogi'r unigolion fwyaf bregus yn ein cymunedau'n ystod cyfnod 'gwarchod' y Llywodraeth. Byddwn yn adrodd ar ganlyniadau'r gwaith yma yn ein hadroddiadau perfformiad yn ystod 2020-21.

Amcanion Llesiant:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid trydydd sector er mwyn sicrhau bod gan oedolion sy'n byw yng Ngwynedd fynediad hawdd ac uniongyrchol at wasanaethau sy'n bwysig iddynt.

Roeddem am barhau i drawsffurfio gwasanaethau cymunedol i alluogi mwy o ymatebion cynnar ac ataliol ar lefel lleol. Roeddem hefyd am arbrofi â dulliau newydd o ddarparu pecynnau gofal cartref a chydgyllunio gwasanaethau anabledau dysgu. Roeddem am weld trefniadau gadael yr ysbyty effeithiol sy'n cyd-fynd â'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, ac roeddem am barhau i fuddsoddi yn ein cartrefi preswyl, a sicrhau gofal addas i unigolion mewn argyfwng iechyd meddwl.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Mae'r tîm Trawsffurfio sy'n gweithio ar draws Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn parhau i ddarparu arweiniad a chefnogaeth i adnabod a dileu rhwystrau i weithio yn integredig, gyda'r nod o greu un pwynt cyswllt am wybodaeth a chyngor o fewn ardal benodol, a sicrhau mai un person sy'n cydlynu gofal unigolyn.

Rydym wedi bod wrthi'n ehangu'r gwaith o beilota'r ffordd newydd o gomisiynu a darparu gofal cartref ar draws y sir. Mae'r model newydd ar sail is-ardaloedd, a'r bwriad yw y bydd yn sicrhau fod yr holl asiantaethau ac unigolion perthnasol yn dod ynghyd i weithio'n fwy effeithiol yn lleol.

Mae gwaith wedi'i gynnal yn Ysbyty Gwynedd i gryfhau trefniadau dychwelyd adref a byddwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn ystod argyfwng Covid-19 i adeiladu ar y trefniadau dechreuol gan sicrhau bod y model cywir yn cael ei ddatblygu wrth symud ymlaen.

Yn dilyn gwaith i ddatblygu darpariaeth arbenigol dementia o fewn cartrefi mewnol y Cyngor, mae unedau dementia newydd wedi agor yn Nhywyn, Nefyn a Bangor ac mae'r buddsoddiad wedi gwella ansawdd gofal a'r amgylchedd i breswylwyr. Er bod yr amserlen i gwblhau'r uned yn Llan Ffestiniog wedi llithro, mae'r gwaith wedi parhau yn ystod 2019/20 gyda'r nod o agor yn 2020/21. Yn ystod y flwyddyn datblygwyd cynlluniau pellach ar gyfer Dolgellau a'r Bermo a bydd rhain yn cael eu gweithredu yn ystod 2020/21.

Rydym wedi gwneud gwaith i geisio mesur effaith ein hymdrechion yn y Gwasanaeth Anabledau Dysgu lle y bydd ein perthynas ag unigolion yn aml yn un hir dymor. Rydym hefyd wedi datblygu uned gofal ysbaid arbenigol Tan y Marian, Pwllheli. Mae rhaglen waith hanfodol yn mynd rhagddi hefyd i ddatblygu hybiau cymunedol ar draws y sir i gynnig gwaith a chyfleon hyfforddi i unigolion ag anabledau dysgu, gyda siop 'Galwch Acw' a chaffi 'Cegin' bellach ar agor yng Nghaernarfon.

Yn y maes iechyd meddwl, rydym wedi bod yn gweithredu'r Strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' ac mewn partneriaeth sy'n cael ei harwain gan y Bwrdd Iechyd, mae canolfannau Gallaf I (ICAN) wedi eu sefydlu i gynnig cefnogaeth cynnar i unigolion, yn y gymuned, yn agos at adref.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae recriwtio i'r maes gofal yn heriol am amryw o resymau. Mae gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, ond mae'n rhaid sicrhau bod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol.

Roedd gwaith eisoes ar y gweill er mwyn ceisio deall beth yw'r broblem yng Ngwynedd o ran recriwtio i'r maes. Dywedem y byddem yn cyhoeddi'r canfyddiadau ac yn ystyried os oes angen gwneud rhywbeth yn wahanol neu'n ychwanegol. Dengys canfyddiadau cychwynnol yr ymchwil ein bod ar y trywydd cywir o ran ein hymdrechion i ail ddylunio model busnes Gofal Cartref.

Nodwyd fwriad i godi proffil a statws gweithwyr gofal trwy hyrwyddo llwybrau gyrfaol yn y maes ac adolygu ein cynllun prentisiaethau o fewn y Cyngor hefyd, fel bod gyrfa o fewn gwaith gofal cymdeithasol yn ddewis gyrfa gadarnhaol.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Comisiynwyd darn o waith, gan ymgynghori'n eang, i ddeall yr her yn well ym maes gofal cartref. Yn dilyn y darganfyddiadau sefydlwyd Grŵp Recriwtio yng Ngwynedd a lluniwyd rhaglen waith er mwyn adnabod ac ymateb i'r heriau mwyaf. Mae gwaith y Grŵp Recriwtio wedi datblygu yn ystod 2019/20 i gynnwys maes plant a gofal preswyl.

Mae'r Grŵp Recriwtio yn plethu i waith y Grŵp Recriwtio Rhanbarthol a grwpiau gwaith ymgyrch cenedlaethol 'Gofalwn Cymru' er mwyn sicrhau bod dim dyblygu a'n bod yn adeiladu ar ymarfer da ar draws Cymru.

Yn ystod 2019/20 cynlluniwyd i lenwi swydd Cydlynnydd Gyrfaedd Gofal Rhanbarthol gyda phenodiad llwyddiannus wedi ei wneud ym Mawrth 2020 a dyddiad cychwyn yn 2020/21. Edrychwn ymlaen i ddatblygu'r swydd ac adeiladu ar ein gwaith o sefydlu strwythurau a pherthnasau gyda'n partneriaid allweddol fel Gyrfa Cymru a DWP.

Rydym hefyd wedi bod yn gwneud gwaith i adolygu Cynllun Prentisiaethau'r Cyngor i geisio dylanwadu ar y nifer o brentisiaethau sydd ar gael ym maes gofal. Rydym wedi targedu meysydd lle mae anawsterau penodol yn codi e.e. sgiliau arwain o fewn y maes gofal preswyl ac arbenigedd addas ynghyd â'r gallu i weithio'n y Gymraeg ym maes therapi galwedigaethol.

Dylid cydnabod fod argyfwng Covid-19 wedi dod a heriau ychwanegol i'r maes ac i'n staff yn ystod cyfnod diwetha'r flwyddyn. Golyga hyn bod nifer o weithlu'r maes wedi addasu er mwyn ymgymryd â swyddogaethau gwahanol neu weithio mewn ffordd wahanol. Yn ystod 2020-21, byddwn yn ystyried y gwersi a ddysgwyd er mwyn siapio a chryfhau ein gwasanaethau ar gyfer oedolion bregus, gan ganolbwyntio ar gyfarch yr hyn sy'n bwysig a sicrhau cynaliadwyedd ein gwasanaethau yn wyneb argyfwng i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Blaenoriaeth Gwella 7

Sicrhau fod y Cyngor cyfan yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith

Blaenoriaeth Gwella 7

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ein cyfrifoldeb ni fel Cyngor yw sicrhau, wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau, mai anghenion pobl Gwynedd sy'n llywio sut y byddwn yn cynnig y gwasanaeth hynny. Trwy wneud hyn fe ddylem osgoi unrhyw drefniadau gwaith diangen.

Byddwn yn adolygu ein trefniadau gwaith presennol gan herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella. Mae gwaith eisoes wedi ei wneud i hyfforddi penaethiaid, uwch reolwyr a rheolwyr yn egwyddorion **Ffordd Gwynedd**, ac mae nifer o adolygiadau gwasanaeth wedi eu cynnal neu ar waith.

Yn y dyfodol byddwn yn parhau i gynnal hyfforddiant i reolwyr newydd ac yn cefnogi gwasanaethau i gynnal adolygiadau er mwyn sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i'w gweithgareddau.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Mae Cynllun Ffordd Gwynedd diwygiedig ar gyfer y cyfnod 2019-22 wedi'i gymeradwyo a'i roi ar waith yn ystod y flwyddyn, tra bod yr hyfforddiant dwys wedi'i ymestyn i arweinyddion yn ogystal â rheolwyr newydd. Ymhellach, mae gweithdai penodol wedi'u darparu ar gyfer cefnogi sawl gwasanaeth i yrru adolygiadau yn eu blaen.



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn **Datblygu Arweinyddiaeth** trwy fod yn flaengar yn arfogi a miniogi sgiliau arweinwyr ar draws y Cyngor er mwyn cyrraedd y nod o roi pobl Gwynedd yn ganolog. Mae holl Aelodau'r Cabinet wedi datblygu sgiliau arwain fel unigolion ac ar y cyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, tra bod y rhan helaeth o reolwyr y Cyngor wedi cwblhau rhaglen ddatblygu sy'n canolbwyntio ar ymddygiadau arwain.

Byddwn yn parhau i gynnig cyfleon datblygu i Aelodau a rheolwyr gyda'r ffocws o arwain pobl yn hytrach na rheoli pobl yn unig. Yn ogystal bydd y 'Rhwydwaith Rheolwyr' yn cael ei ailsefydlu er mwyn rhoi cyfle i reolwyr ar draws y Cyngor i rannu arfer da a derbyn hyfforddiant.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Cynhaliwyd dwy gyfres o sesiynau'r "Rhwydwaith Rheolwyr" yn ystod 2019/20 gyda threfniadau cadarn ar gyfer parhad y sesiynau hynny i'r dyfodol. Mae'r gwaith yma bellach wedi'i ymgorffori o fewn y prosiect o roi "Ffordd Gwynedd ar waith" ac ni fyddwn yn parhau felly i'w adnabod fel prosiect ar wahân.



Rhan 2

Adroddiadau'r Adrannau

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael yr un cyfleoedd ac yn derbyn yr addysg a'r profiadau gorau posib.

Mae safonau'r Cyfnod Sylfaen yng Ngwynedd yn gyffredinol dda. Fel y rhagwelwyd yn eang, yn dilyn gweithredu'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen newydd, gwelwyd ostyngiad yn y flwyddyn academaidd 2018-19 yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau disgwylidig ar hyd a lled Cymru ond roedd y cwmp yn Ngwynedd ychydig mwy na'r cyfartaledd. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) ac ym mhob Maes Dysgu. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r DCS islaw'r cyfartaledd cenedlaethol yn haf 2019 ar ôl bod yn agos i'r cyfartaledd dros y ddwy flynedd flaenorol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn glir mai ar gynnydd Gwerth Ychwanegol rhwng y gwaelodlin a diwedd y Cyfnod Sylfaen y dylid canolbwyntio arno wrth arfarnu cyflawniad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cynnydd disgyblion cyfatebol o garfan dosbarthiadau Derbyn 2017 Gwynedd rhwng y gwaelodlin a diwedd y Cyfnod Sylfaen 2019 yn dda. Mae disgwyl i ddisgyblion wneud cynnydd o 3.0 deilliant yn ystod y Cyfnod Sylfaen, gwna ddisgyblion Gwynedd gynnydd o thua 3.6 deilliant ym mhob maes. Mae'r data Gwerth Ychwanegol hwn yn cadarnhau bod ysgolion yr Awdurdod Lleol yn arddangos dull effeithiol a chyson o gefnogi disgyblion i wneud cynnydd drwy gydol y Cyfnod Sylfaen.

Mae safonau Cyfnod Allweddol 2 yng Ngwynedd yn dda iawn. Mae canlyniadau y

Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) ar ddiwedd blwyddyn 6 yn uchel - er yn adlewyrchu'r cwmp bychan a welwyd yn genedlaethol - ac yn parhau yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. O ran y pynciau yn unigol, mae canlyniadau lefelau disgwylidig yn agos iawn i'r cyfartaledd cenedlaethol.

O ran cynnydd Gwerth Ychwanegol rhwng diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae cynnydd disgyblion o garfan Cyfnod Sylfaen 2015 Gwynedd i ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 2019 yn gadarnhaol. Mae disgwyl i ddisgyblion wneud cynnydd o 2 lefel yn ystod Cyfnod Allweddol 2; ac ar gyfartaledd yng Ngwynedd fe wnaeth y disgyblion 2.13 lefel o gynnydd mewn Mathemateg a 2.01 lefel o gynnydd yn Y Gymraeg. Mae'r data Gwerth Ychwanegol hwn yn cadarnhau bod ysgolion yr Awdurdod Lleol yn arddangos dull effeithiol a chyson o gefnogi disgyblion i wneud cynnydd drwy gydol Cyfnod Allweddol 2.

Mae safonau Cyfnod Allweddol 3 yng Ngwynedd yn gadarn dda, gyda pherfformiad y dysgwyr yn y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda gostyngiad o 1.2% o gymharu â pherfformiad 2018 (-1.9% yn genedlaethol). Roedd perfformiad carfan 2019 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob pwnc craidd ar y lefel ddisgwylidig.

Ar gyfer Cyfnod Allweddol 4, mae'r prif ddangosydd newydd sef y sgôr Capio 9 yn cael ei gyfrifo ar gyfanswm maint naw TGAU (neu gymhwyster cyfatebol cydnabyddedig) gorau pob dysgwr. Roedd perfformiad Gwynedd yn y sgôr Capio 9, 8.1pt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 353.3pt. Er hynny, roedd ychydig yn is na'r perfformiad disgwylidig o -1.6pt.

Yn 2019, roedd perfformiad yr 14 ysgol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda pherfformiad 6 ohonynt yn well na'r perfformiad disgwylidig, ac yn achos 5 ohonynt yn sylweddol uwch. Ond mae perfformiad 4 ysgol yn is o'i gymharu â pherfformiad disgwylidig, gyda bylchau mewn perfformiad yn amrywio o -3 pt i - 53.7 pt.


Roedd perfformiad y disgyblion sydd â hawl am brydau ysgol am ddim (PYD) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 298.3pt mewn 8 ysgol, ond yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn 6 arall. Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion PYD a dim PYD yn is na'r bwlch cenedlaethol mewn 8 ysgol, ond yn sylweddol uwch mewn dwy. (Dylid cofio bod niferoedd rhai ysgolion yn isel iawn yng Ngwynedd).

Mae Estyn yn parhau i arolygu ein hysgolion, ac mae'r proffil arolygiadau ysgolion cynradd Gwynedd yn rhagorol, gyda darlun mwy cymysg yn yr ysgolion uwchradd. Yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19 bu i Estyn gynnal arolygiad mewn 17 ysgol yng Ngwynedd, dyfarnwyd nad oedd angen unrhyw weithredu dilynol mewn 14 o'r ysgolion a arolygwyd, gyda 2 ysgol wedi ei gosod mewn mesurau arbennig, sef y categori dilyniant mwyaf dwys, a'r llall yn y categori adolygiad Estyn. Mae'r Adran mewn cydweithrediad â GwE yn sicrhau cefnogaeth a her briodol i ysgolion penodol mewn ymateb i'r materion a amlygwyd gan Estyn.

Defnyddir proses a matrices cenedlaethol ar gyfer categorieiddio ysgolion. Mae lliw'r categorieiddio yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgol - gwyrdd, melyn, melyngoch neu goch (yr ysgolion yn y categori gwyrdd sydd angen y lefel isaf o gymorth, a'r rheini yn y categori coch sydd angen y cymorth mwyaf dwys). Ym mlwyddyn academaidd 2018-19 roedd 99% o'n hysgolion cynradd a 71% o'n hysgolion uwchradd yn y categorïau gwyrdd


neu felyn.

Canran presenoldeb ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd:



Mae'r gwasanaeth lles yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo presenoldeb, ymddygiad cadarnhaol a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu ddatblygiad cymdeithasol. Roedd presenoldeb dysgwyr yn ysgolion cynradd ac uwchradd Gwynedd yn ystod y flwyddyn academaidd 2018/19 yn 94.8% sydd yn parhau yn gyson dda.

Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd:



Mae Cyngor Gwynedd yn rhan o Gonsortiw Addysg ôl-16 Gwynedd a Môn, sy'n gosod cyfeiriad i ddarpariaeth ôl-16 yr ardal.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbynn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor drwy ddarparu'r gefnogaeth amserol sy'n angenrheidiol i alluogi bobl Gwynedd i fyw eu bywyd fel y maent eisiau ei fyw.


Wrth gwrs, mae'n rhaid cydnabod fod argyfwng Covid-19 wedi ein taro yn ystod chwarter olaf y flwyddyn 2019-20. Mae'r argyfwng yma, yn anochel, wedi dylanwadu ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau i Oedolion yng Ngwynedd ac ar y data roeddem yn ganolbwyntio ar ei gasglu yn ystod cyfnod ola'r flwyddyn. Mae gwaith cadarnhaol iawn wedi deillio o'r cyfnod yma hefyd, yn benodol mewn perthynas â chefnogi ein cymunedau. Bydd effaith yr argyfwng ar ein gwaith yn cael ei amlygu'n gliriach yn ein hadroddiadau perfformiad yn ystod 2020-21.

Mae perfformiad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar gyfer 2019/20 yn galonogol. Rydym wedi cymryd camau er mwyn datblygu'r berthynas sydd gennym gyda'n partner allweddol yn y maes, sef y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â'n partneriaid yn y trydydd sector a thu hwnt. Rydym wedi nodi ers sawl blwyddyn ein bod ar siwrne o drawsffurfio a thra ein bod yn wynebu ambell her ar hyd y daith, rydym ar y cyfan yn gallu sefydlu amcanion sydd wedi eu cytuno ar y cyd â'r unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd yn gwreiddio yn ein gwaith.

Mae'r adran wedi gweld newid enfawr, sy'n seiliedig ar newid sylfaenol yn y ffordd yr ydym i gyd yn gweithio. Yn y **maes pobl hŷn ac anableddau corfforol a synhwyrdd**, mae 5 Tîm Lleol wedi eu sefydlu, sy'n cynnwys aelodau o staff y Bwrdd Iechyd, Cyngor Gwynedd a'r drydedd sector. Y bwriad yw

y bydd y timau yn gweithio i egwyddorion penodol wrth rannu'r ardaloedd yn ddarnau mwy lleol, gan gynnig un person arweiniol i'r unigolyn er mwyn hwyluso eu taith drwy'r gyfundrefn gofal ac iechyd. Mae newid ein dull o weithio'n annog y diwylliant sy'n angenrheidiol i sicrhau bod staff yn naturiol fynd ar ôl "beth sydd yn bwysig" i unigolion fel y prif beth sydd yn gyrru eu penderfyniadau. Rydym yn datblygu mesuryddion i adlewyrchu'r ffordd newydd o weithio. Yn naturiol, mae cydweithio i'r un egwyddorion ar draws sefydliadau a phroffesiynau yn dod a'i heriau. Wrth i ni geisio uno diwylliant, gweithdrefnau, cyllidebau a pholisïau, a datblygu'r isadeiledd a'r dechnoleg i gefnogi ac adlewyrchu hynny, amlygir yr angen i fuddsoddi amser ac adnoddau i wireddu'r weledigaeth.

Rydym wedi adolygu'r modd yr ydym yn adrodd ar fesur pwrpas, gan ganolbwyntio ar asesu a ydym ni wedi cyflawni'r hyn sydd yn bwysig i unigolion. Rydym yn falch o nodi bod 84% o'n achosion wedi eu hasesu'n erbyn y mesur hwn bellach ac mae'r darlun yn galonogol, fel y gwelir isod:



Rydym yn ystyried y rhwystrau rhag cyflawni'r hyn sy'n bwysig i rai unigolion yn barhaus gan drafod a chydweithio gyda'r unigolion a'u teuluoedd i geisio dod o hyd i opsiynau amgen sydd yn cyd-fynd â'r hyn sy'n bwysig iddynt.

Mae gwaith yn digwydd yn ogystal i wella profiadau pobl drwy gryfhau gallu ein timau cymunedol i ymateb a rhoi cefnogaeth wrth i bobl drosglwyddo o'r ysbyty i'r gymuned. Mae datblygiad y timau adnoddau cymunedol (TAC), datblygiadau cynlluniau gofal cartref yn ardal Tywyn a Nefyn, yn ogystal ag arbrawf ar Ward Ogwen Ysbyty Gwynedd, wedi gwella'r sefyllfa. Rydym wedi gweld canlyniadau cadarnhaol i'r ymdrechion ond maent wedi amlygu pwysigrwydd ymroddiad bob partner a chydweithio cadarn i sicrhau llwyddiant.

Er enghraifft, yn Ysbyty Gwynedd, treialwyd trefn lle'r oedd ein gwasanaeth gofal cartref yn ymweld â'r unigolion fyddai fel arfer yn derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gymryd cyfrifoldeb am dynnu'r claf allan o'r ysbyty a chydlynu'r gofal. Roedd y drefn syml yma'n golygu cysondeb yng ngofal yr unigolyn a ffocws ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, gan ddileu'r arfer o dynnu mwy o broffesiynau na sy'n angenrheidiol i mewn. Golyga hyn fod amser arhosiad yn yr ysbyty yn gostwng yn sylweddol a bod y cleifion yn agosach at y penderfyniadau sy'n eu heffeithio nhw.

Mae data Stats Cymru (Gorffennaf 2020) yn amlygu fod nifer yr unigolion sy'n methu eu rhyddhau yn amserol o'r ysbyty oherwydd rhesymau cymdeithasol wedi lleihau'n sylweddol eleni o'i gymharu â'r llynedd, ond dylid nodi oherwydd argyfwng Covid-19 nad oedd data Mawrth 2020 ar gael ac felly fod yr isod yn seiliedig ar ddata 11 mis.

PMA19 - Cyfradd oediad mewn gofal am rhesymau gofal cymdeithasol mesul 1000 o'r poblogaeth 75 a drosodd

| Blwyddyn Ariannol | Gwynedd | Niferoedd | Cymru | Gog Cymru | Mae perfformiad y 11 mis yn cyfatebol i ffigur blynyddol: |
|-------------------|---------|-----------|-------|-----------|---|
| 2016-2017 | 3.41 | 43 | 2.92 | 2.44 | Ebrill 2019 - Chw 2020 3.46 |
| 2017-2018 | 4.99 | 63 | 3.62 | 2.70 | |
| 2018-2019 | 5.23 | 66 | 5.09 | 4.20 | |
| 2019-2020 | 3.17 | 40 | 4.91 | 3.50 | |

Er y gwelliant, rydym yn parhau i wynebu her i ddarparu gwasanaethau gofal o fewn rhai cymunedau o fewn y sir, yn benodol rhai ardaloedd gwledig lle mae prinder gofalwyr a phoblogaeth sy'n heneiddio yn golygu pwysau cynyddol ar ein gwasanaethau.

Mae cynnig ymyrraeth ataliol yn gyrru'r gwelliannau yn y **maes Anableddau Dysgu** gyda ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol sydd yn cyfarch yr hyn sy'n bwysig i unigolion. Mae mesurydd perfformiad y gwasanaeth yn dangos perfformiad cadarnhaol gan nodi fod 89% o'n achosion wedi adrodd ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, a 9% pellach yn nodi ein bod wedi llwyddo'n rhannol i gyflawni'r hyn sy'n bwysig. Mae materion sy'n ein rhwystro rhag cyflawni'r hyn sy'n bwysig yn bennaf yn ymwneud â lletya a chyfleon gwaith. Rydym wedi sefydlu grwpiau prosiect o amgylch y themâu hyn er mwyn tynnu rhanddeiliaid perthnasol i mewn i'n galluogi i fynd i'r afael â'r materion cyn gynted a phosib.

Rydym yn ceisio rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i bobl mewn ffordd syml a hygyrch sy'n ein galluogi ni i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Fel soniwyd yn y blaenoriaethau gwella, mae hybiau cymunedol yn cael eu datblygu ar draws y sir i gefnogi a chreu cyfleoedd i unigolion ag Anableddau Dysgu ddatblygu sgiliau fel rhan o'u cymunedau lleol. Mae'r ffocws ar sut

allwn ni gefnogi unigolion i edrych ar ôl eu llesiant eu hunain drwy ddatblygu amryw o gyfleoedd gwahanol ar y cyd gyda nhw.

Rydym wedi bod yn gweithio i foderneiddio **darpariaethau gofal y Cyngor** drwy:

- wella gwasanaeth ein cartrefi preswyl ac ehangu darpariaethau gofal arbenigol sydd ar gael
- edrych mewn i'r opsiynau gofal sydd ar gael er mwyn symud oddi wrth modelau traddodiadol eu natur a chefnogi parhad annibyniaeth oedolion e.e. Tai Gofal Ychwanegol, ac
- ailystyried y ffordd rydym yn darparu gofal cartref er mwyn rhoi mwy o ffocws ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolion.

Mewn perthynas â **Blaenoriaethau Lleol** yr adran, mae cymdeithas dai Adra wedi derbyn y caniatadau perthnasol ar gyfer datblygu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwlheli, a bydd y gwaith ar y safle'n dechrau yn ystod 2020-21. Gyda hyn, byddwn yn rhoi sylw i wella'r ddarpariaeth gofal yn ardal wledig Llŷn i'r dyfodol. Mae gwaith dechreuol ar droed hefyd i ehangu'r ddarpariaeth ym Meirionnydd.


Mae'r gwaith uchod yn derbyn sylw fel rhan o'r prosiect 'Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal'.

Rydym wedi ailgyfeirio adnoddau ar sail dros dro er mwyn cynyddu ein capasiti i gwblhau gwaith **sicrwydd ansawdd** yn fwy rhagweithiol. Rydym wedi parhau i wella ein gwaith drwy gasglu gwybodaeth cynnar, ond serch hynny rydym yn parhau i weld prinder capasiti parhaol i gwblhau'r gwaith ataliol yn llawn.

Mewn cyfnod o 12 mis, mae 437 o **ymholiadau diogelu** wedi eu gwneud, gyda 419 ohonynt wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod (96%). Mae'r canran yma'n welliant ar y llynedd ac

yn arwydd o berfformiad cadarnhaol yr Hwb Diogelu a sefydlwyd yn ystod 2018/19. Fodd bynnag, er bod 18 ymholiad nad oeddent wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod, dylid nodi eu bod wedi cael sylw a'r risgiau wedi eu rheoli ymhob achos.

**o'r holl atgyfeiriadau
amddiffyn oedolion
sydd wedi eu
cwblhau yn ystod
y flwyddyn,
llwyddwyd i reoli'r
perygl 91% o'r amser**



Dylid nodi bod y ffigwr uchod yn cynnwys yr achosion hynny lle y bu i'r unigolion wrthod ymyrraeth (llwyddwyd i reoli'r perygl 97% o'r amser wrth eithrio yr achosion hynny).

Yn ystod 2019/20, daeth yr Adran yn gyfrifol am waith **Diogelwch Cymunedol** y Cyngor. Mae'r gwaith yma'n digwydd mewn partneriaeth ar draws Gwynedd a Môn er mwyn taclo a lleihau trosedd ac anrhefn er budd diogelwch a lles pobl y ddwy sir. Mae cynllun 2019-20 y Bartneriaeth wedi'i gyflawni, a bydd adroddiad ar berfformiad y bartneriaeth yn mynd i bwyllgor craffu ym mis Hydref.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Mae ymarfer a pherfformiad cyffredinol yn y maes Plant yn ei gyfanrwydd yn gadarn. Bu i Adroddiad Arolygiad Llawn gan Arolygaeth Gofal Cymru ym mis Awst 2018 gadarnhau hynny. Bu iddynt adnabod sawl maes i'w ddatblygu ymhellach, ac rydym dros y flwyddyn ddiwethaf wedi mynd ati i ymateb i'r rheiny drwy'r Strategaeth Cefnogi Teulu a rhaglenni gwaith ein unedau.

Rydym wedi ehangu ar y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth gan ganolbwyntio ar sut mae teuluoedd yn cael mynediad at wybodaeth. Sefydlwyd Hwb gwybodaeth rhithiol (Hwb Teuluoedd Gwynedd), gyda rolau Cysylltwyr Cymunedol hefyd yn rhan o'r gwasanaeth.

Drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth mae teuluoedd yn cael mynediad at gefnogaeth amserol. Mae modd i deuluoedd gael mynediad at amrediad eang o wasanaethau therapiwtig a chefnogol er mwyn diwallu eu hanghenion unigol. Rydym yn parhau i adolygu yr hyn sydd ar gael i deuluoedd ac yn ystod 2019-2020 bu i ni wneud gwaith peilota ar y cyd ag Y Bont a Barnardos o amgylch rheoli gwrthdaro mewn teuluoedd, a chefnogi llesiant plant er mwyn cyfarch anghenion lleol.

Rydym yn parhau i gynnal safonau uchel wrth ymateb i gyfeiriadau, a all fod yn rhai diogelu, neu rhai ag angen gofal a chefnogaeth.

Yn yr un modd mae'r Timau Gwaith Cymdeithasol wedi cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth amserol i blant a'u teuluoedd.

80% **Canran yr adolygiadau amddiffyn plant wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod 2019/20**




Fel rhan o waith dydd i ddydd y timau gweithredol o fewn yr adran, mae'r gweithwyr yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth broffesiynol. Yn ogystal â hyn, mae ganddynt yr opsiwn i fynd ar ofyn ymyrraethau mwy arbenigol os yw'n briodol. Mae'r Tîm Trobwynt yn gweithio'n ddwys gyda phlant a theuluoedd bregus, a phlant ar fin mynd i ofal. Maent yn gallu cefnogi y Timau Gwaith Cymdeithasol a theuluoedd gyda materion megis rhiantu, cwnsela, cam-ddefnyddio sylweddau, cyfarfodydd er mwyn tynnu aelodau'r teulu estynedig i mewn, cymedroli, therapi teuluol, cefnogaeth ymdopi gyda phrofiadau plentyndod negyddol (ACE'S). Rydym yn parhau i ddatblygu'r gefnogaeth arbenigol yma yn ddibynnol ar anghenion ac adborth teuluoedd.

Mae llwyddiant cydweithio rhwng y teuluoedd a'r Tîm yn golygu bod nifer o blant wedi gallu aros adref gyda'u teuluoedd, rhai wedi gallu dychwelyd yn ôl adref o ofal maeth a gofal preswyl, ynghyd â sicrhau bod lleoliadau maeth bregus wedi'u sefydlogi yn sylweddol. Er i'r nifer o blant mewn gofal gynyddu yn ystod cyfnod gweithredu'r tîm, mae'r nifer o blant mewn lleoliadau maeth neu leoliadau preswyl wedi aros yn sefydlog.

Ddiwedd Mawrth 2020 roedd 291 o blant yng ngofal Cyngor Gwynedd. O gymharu'r nifer plant mewn gofal dros gyfnod o 5 mlynedd mae'r cyfanswm wedi cynyddu o 194 i 291, sef cynnydd o bron i 50%. Serch hyn mae'r nifer o blant sydd mewn lleoliadau preswyl wedi aros yn gyson, a phlant mewn lleoliadau maeth wedi lleihau o 74% i 69% o boblogaeth plant mewn gofal.

Plant sydd wedi eu lleoli gartref gyda'u rhieni o dan Orchymyn Gofal i'r Cyngor



Mae cynnydd yn y nifer o blant mewn gofal yn parhau i ymwneud â phlant sydd wedi eu lleoli gartref gyda'u rhieni o dan Orchymyn Gofal i'r Cyngor, sydd wedi codi o 27 i 60 dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

Mae proffil poblogaeth plant mewn gofal wedi newid; mae cyfartaledd cost lleoliadau preswyl wedi cynyddu, ynghyd â chymhlethdod a dwyster achosion. Mae diffyg argaeledd lleoliadau preswyl mwy arbenigol hefyd yn her enfawr i'r Adran. Mae'r diffyg argaeledd o leoliadau preswyl a'r gost cynyddol sydd ynghlwm â nhw yn fater sydd yn derbyn sylw ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol. Ar lefel ranbarthol, o dan arweiniad Penaethiaid Adrannau Plant y Gogledd, rydym wedi bod yn cydweithio ar sefydlu Tîm Is-Ranbarthol Aml-ddisgyblaethol fyddai'n darparu cefnogaeth ddwys, tymor byr i deuluoedd ag anghenion dwys a chymhleth. Er i ni ddatblygu achos busnes, cytuno ar y rolau amrywiol ar y cyd gyda'n partneriaid iechyd ac addysg, ynghyd â chychwyn y broses recriwtio, bu rhaid oedi'r cynllun peilot pan gychwynnodd yr argyfwng Covid-19.

Mae plant a phobl ifanc yn dod i'n gofal o dan amgylchiadau anodd iawn ond rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Mae gennym Swyddogion Adolygu Annibynnol sydd yn monitro cynlluniau gofal pob un plentyn a pherson ifanc sydd yn ein gofal, ac maent yn rhoi sicrwydd i ni fel Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu sicrhau drwy gydol eu hamser mewn gofal. Yn ystod 2019-2020 bu i ni adolygu rôl y Swyddogion hyn yn dilyn adborth gan blant a phobl ifanc o'u profiad, ynghyd ag adborth gan yr Arolygiad Llawn. Mae'r swyddogion wedi ymateb i'r hyn sy'n bwysig i blant a phobl ifanc gan addasu eu trefniadau a'u ffordd o weithio.

Yn ôl ein Swyddogion Adolygu Annibynnol mae 94% o adolygiadau yn uchelgeisiol dros y plant sydd mewn gofal



Rhan allweddol o'r gwasanaeth i blant yw'n gallu fel Cyngor i leoli plant gyda rhieni maeth. Rydym yn hynod falch o'n rhieni maeth fel Cyngor ac mae'r Tîm Maethu yn parhau i sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw adref. Serch hyn mae sicrhau capasiti ac argaeledd rhieni maeth yn her.

Mae clywed a gwrando ar lais y plentyn wedi parhau yn flaenoriaeth i ni yn ystod y flwyddyn diwethaf. Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi bod yn gweithio ar gryfhau'r elfen yma o'i waith fel ei fod yn cadw cyswllt agos gyda'r hyn sy'n bwysig i blant sydd yn ein gofal.

Yn ogystal, mae gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd Uned Ddiogelu a Sicrwydd Ansawdd sydd yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn.

Mae'r rhesymau am unrhyw lithriad yn y perfformiad wedi ei herio ac yn ymwneud yn helaeth a salwch aelodau o staff, argaeledd cyd-weithwyr o gyrff statudol eraill ac argaeledd teuluoedd. Mae'r oedi ar y cyfan yn fychan (dyddiau) ac mae'r oediadau sydd yn hirach wedi eu asesu yn ofalus a ddim wedi golygu ardrawiad annerbyniol ar y plentyn.

Mae'r cynllun arloesol 'Diogelu Plant Effeithiol' yn parhau ar waith. Mae'r canlyniadau cychwynnol yn dangos gwelliant amlwg o ran effeithiolrwydd ein gwaith diogelu gyda gwell ffocws ar newid i gadw plant yn ddiogel. Ein nod fydd rhannu'r hyn a ddysgwyd ar draws y rhanbarth fel model o ymarfer da. Mae'r gwaith yn cael ei gefnogi gan ddatblygiad pecyn ymarfer a deunyddiau dysgu o bell i raeadru'r gwaith i siroedd eraill.

Rydym yn ffodus iawn o'r partneriaethau llwyddiannus sydd gennym gyda'r Bwrdd Iechyd, ysgolion, yr Heddlu a nifer fawr o fudiadau trydydd sector. Yn ystod 2019/20 rydym wedi gweld y gwaith partneriaethol hwnnw yn datblygu yn arbennig felly i gyd-gynhyrchu ymyraethau, a threfniadau ar gyfer atal problemau rhag codi. Rydym wedi cydweithio gyda'r Heddlu ar raglen hyfforddiant uchelgeisiol i'r gweithlu heddlu drwy y Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd; rydym hefyd wedi sefydlu Rhaglen Trawsnewid y Blynnyddoedd Cynnar ar gyfer creu un gyfundrefn integredig ar gyfer gofal, addysg, iechyd a chwarae; ac rydym hefyd wedi arwain ar sefydlu Llwybr Llesiant Emosiynol i Bobl Ifanc 11-25 oed.

Rydym yn ffodus iawn o'n gweithlu eto eleni. Mae'n staff yn ymroddedig a phrin fu'r trosiant yn ein gweithlu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ar ddiwedd y flwyddyn bu i holl wasanaethau a gweithlu yr Adran fireinio eu hymdrechion tuag at gefnogi plant a theuluoedd drwy argyfwng Covid-19. Llwyddodd yr Adran

i gadw cyswllt gyda phlant a theuluoedd drwy ymweliadau, galwadau cadw mewn cyswllt a drwy gyfryngau rhithiol. Roedd yr Adran, fwy nag erioed, yn ymdrechu i gefnogi sefydlogrwydd teuluoedd a lleoliadau, a sicrhau pob cefnogaeth posibl i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ystod y cyfnod heriol hwn. Rydym wedi arwain ar sicrhau cyflenwad bwyd i deuluoedd bregus ac i bobl ifanc sy'n gadael gofal; rydym wedi sicrhau fod nwyddau babi yn cyrraedd teuluoedd Dechrau'n Deg; a chefnogi cynlluniau i greu a darparu Pecynnau Gweithgareddau Celf, Garddio a Sachau Chwarae i gartrefi drwy'r sir. Mae pobl ifanc y sir wedi elwa o fforymau sgwrsio a chymorth ar lein, gweithgareddau cymdeithasol fel creu miwsig, cwis, ffitrwydd a choginio ar-lein i gyd yn ymgais i adeiladu gwydnwch a hyrwyddo llesiant mewn cyfnod anodd.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**


Adran Economi a Chymuned

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Datblygu Economi Gwynedd

Mae Covid-19 wedi creu argyfwng economaidd yn 2020. Cyn hyn, roedd economi Gwynedd wedi bod yn perfformio yn gymharol dda ar lefel Cymru ond ddim o'i gymharu â rhanbarthau eraill o Brydain ac Ewrop. Mae lefelau cyflog yng Ngwynedd wedi bod yn llawer is na rhannau eraill o Gymru a gwerth cynhyrchiant busnesau yn isel o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Fe wnaeth Cyngor Gwynedd gymryd camau rhagweithiol yn 2019/20 i geisio creu'r amodau fyddai'n ymateb a galluogi busnesau i dyfu a sbarduno twf a hynny mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd wrth i Brydain baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Rydym wedi bod yn gweithio i dargedu'r sectorau hynny sy'n talu'n dda trwy greu'r amodau sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol. Yn ystod 2019/20 fe grëwyd 10 o swyddi gwerth uchel (cyflog £26,5000 neu fwy), ond fe welwyd gostyngiad yn y nifer o gynlluniau gan fusnesau yn cael eu gwireddu o ganlyniad i'r ansicrwydd yn deillio o benderfyniad Prydain i adael yr Undeb Ewropeaidd.



Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid drwy arwain ar brosiect STEM Gogledd (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg) gan sicrhau £1.9m i gyd-gordio darpariaeth all-gwricwlaidd STEM i ddisgyblion er mwyn sicrhau gweithlu lleol i fanteisio ar ddatblygiadau fydd yn arwain at swyddi gwerth uchel.

Mae lefelau incwm rhent wedi cynyddu wrth weld gofod diwydiannol / menter y Cyngor 96% yn llawn. Mae'r galw am unedau gwag yn parhau ar draws y sir, ac mae diffyg gofod ar gyfer busnesau sydd eisiau ehangu neu symud i'r ardal.

Yn ystod 2019/20 derbyniodd 250 o fusnesau gymorth, o'i gymharu â 213 yn 2018/19 a 394 yn 2017/18.

Fel rhan o'r gwaith i adfywio canol tref Caernarfon er mwyn gwella ansawdd a phrofiad ymwelwyr i'r ardal a gwella gwedd a golwg y dref, cwblhawyd dau gynllun adfywio strategol sef adeilad Rheilffordd Eryri a Chynllun Galeriz.

Mae'r diwydiant twristiaeth yn gyflogwr allweddol yng Ngwynedd. Gyda gwerth economaidd o dros £1biliwn, mae dros 15,000 o bobl yn gweithio yn y maes. Dyma un o'r sectorau sydd wedi derbyn yr ergyd fwyaf yn sgil Covid-19 oherwydd y cyfyngiadau ar fusnesau i adfer yn ddiogel. Yn ystod 2019/20 ymwelodd dros 944,000 â gwefan Eryri Mynyddoedd a Môr – ffigwr sydd ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol – yn rhannol oherwydd Covid-19.

Llwyddwyd i ddenu nawdd gan Croeso Cymru i ariannu gweithgareddau i hyrwyddo Ffordd yr Arfordir y tu allan i'r prif dymor ymwelwyr ar y cyd efo Ceredigion a Phenfro

yn ogystal â Ffordd y Gogledd gyda phartneriaid o'r 6 Awdurdod Lleol yn y gogledd – y ddau brosiect dan arweiniad Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau'r Cyngor. Yn ystod y cyfnod fe gwblhawyd arolwg o stoc gwelyau yn y sir er mwyn cyfrifo maint y gwelyau sydd ar gael i ymwelwyr a natur y gwelyau hynny.

Mae'r Adran yn rheoli 301km o arfordir Gwynedd gan ganolbwyntio ar 8 o draethau Baner Las, 4 harbwr a 2 hafan. Mae sylw wedi ei roi yn ystod y flwyddyn i adolygu trefniadau rheoli'r hafan a harbwr i'r dyfodol a rhaglennu gwaith carthu manwl yn Harbwr Pwllheli.

Cefnogi Cymunedau Cryf ac Iach

Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau yn parhau i gynnig cefnogaeth i grwpiau gwirfoddol a mentrau lleol er mwyn ymateb i gyfleoedd ac anghenion lleol. Cefnogwyd 57 o brosiectau cymunedol gyda 26 ohonynt yn datblygu gwasanaeth newydd neu ddiogelu mynediad at wasanaeth yn 2019/20. Cafodd dros £290,000 o gyllid cyfatebol ei fuddsoddi mewn prosiectau Cist Gwynedd.

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi parhau i sicrhau mynediad trigolion Gwynedd at gefnogaeth, adnoddau a gwybodaeth, gyda dros 340,000 o bobl yn ymweld â Llyfrgelloedd Gwynedd yn ystod y flwyddyn, a 99% o'r defnyddwyr yn adrodd eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbynnir. Ymatebwyd i dros 13,000 o ymholiadau yn 2019/20 – 68% yn ymholiadau Technoleg Gwybodaeth a sesiynau hyfforddiant digidol. Darparwyd cymorth ar dros 5,000 o achlysuron gydag adnewyddu cerdyn teithio ar fws yn ystod 2019-20 yn sgil newidiadau i'r drefn gofrestru yng Nghymru. Bu i 1,786 o blant Gwynedd gymryd rhan yn y Sialens Ddarllen Haf yn 2019 a benthycwyd dros

418,000 o eitemau yn ystod y flwyddyn.

Niferoedd yn ymweld â Llyfrgelloedd Gwynedd



Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal orielau, amgueddfeydd ac archifau yng Ngwynedd, gyda dros 55,000 o ymwelwyr i'r orielau ac amgueddfeydd yn ystod 2019/20. Mynychodd dros 26,000 o bobl sesiynau Celfyddydau Cymunedol Gwynedd. Defnyddiwyd y Gwasanaeth Archifau gan dros 24,000 o bobl yn ystod y flwyddyn – gan gynnwys ymholiadau â'r catalog arlein, ac roedd 92% yn fodlon gyda'r gwasanaeth. Derbyniodd 2,763 o blant Gwynedd sesiynau addysg ac roedd 100% o athrawon yn teimlo bod y sesiynau wedi gwella dealltwriaeth plant o'u hanes a'u treftadaeth.

Mae'r Adran yn gyfrifol am rwydwaith o 12 o Ganolfannau Byw'n Iach ar draws Gwynedd, ond ers 1af o Ebrill 2019 trosglwyddwyd rheolaeth o'r canolfannau i Gwmni Byw'n Iach Cyf trwy gytundeb. Roedd 90% o gwsmeriaid yn fodlon gyda'r gwasanaeth yn ystod 2019/20.

Mae'r Adran yn trefnu a chynnal amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon o fewn ysgolion, y gymuned ac yn yr awyr agored gan gynnwys sesiynau Teulu Actif, Triathalon, Sboncen a Badminton. Mae cynllun Arweinwyr y Dyfodol wedi profi'n lwyddiant yn ystod 2019/20, gyda nifer yn ennill gwobrau gwirfoddoli yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Tîm Cyfeirio i Ymarfer yn cefnogi trigolion Gwynedd i wella cyflwr eu hiechyd, gyda 65% yn adrodd fod ansawdd eu bywyd wedi gwella yn dilyn y gefnogaeth, ac 80% wedi gweld cynnydd yn lefel eu ffitrwydd.

Blaenoriaethau Lleol – Cynllun y Cyngor

Un o'r blaenoriaethau lleol a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor ydi'r dyhead i ddenu mwy o swyddi tymor hir sy'n talu cyflog da i ardaloedd Porthmadog, Ffestiniog a Phenllyn, ac mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel yn datblygu cyfleoedd newydd yn Nhrawsfynydd a Llanbedr fydd yn dod ag elw i'r cymunedau hyn.

Mae gwella cysylltedd gwael ffonau symudol a band eang yn ardal Dolgellau yn un arall o'n blaenoriaethau lleol, ac rydym yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i'r sir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn y maes drwy ddilyn egwyddorion Gwynedd Ddigidol.

Lansiwyd pecynnau cymorth ariannol newydd yn ystod y flwyddyn ar gyfer busnesau lleol, sef Cronfa Benthyciadau Di-log Penygroes a Bethesda, a'r Gronfa Adnewyddu a Buddsoddiad Eiddo Canol Dinas Bangor sydd yn ymateb i'r blaenoriaethau lleol i adfywio ardaloedd Dyffryn Ogwen, Dyffryn Nantlle a Bangor. Yn ystod y flwyddyn, mae 4 eiddo gwag wedi dod nol i ddefnydd yn dilyn derbyn cymorth.

Yn sgil pryderon ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Gymunedol yn Ffestiniog mae'r tîm adfywio wedi cynnal arolwg diweddar ar adeiladau cyhoeddus ar hyd a lled Gwynedd. Dangosodd yr arolwg fod defnydd aneffeithiol yn cael ei wneud o nifer o adeiladau cyhoeddus ym Mlaenau Ffestiniog gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol, sy'n adnabod cyfle i rannu adnoddau yn well i'r dyfodol.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Glanhau Strydoedd

Mae cynnal amgylchedd lleol o safon uchel ac edrychiad ein strydoedd a mannau cyhoeddus yn bwysig i drigolion Gwynedd, ac o ran yr amgylchedd lleol mae'n hynod bwysig bod ein strydoedd yn lân a diogel. Mae perfformiad y Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd yn 2019/20 yn 73% gan ddangos peth lleihad ar berfformiad diwedd blwyddyn 2018/19 (74.1%). Er hynny, mae'r perfformiad yn parhau ar lefel uwch na chyfartaledd Cymru sydd yn 70.1%. Bydd yr Adran yn ail edrych ar y parthau glanhau yn ystod 2020/2021 gan gyflwyno cylchdeithiau newydd fydd yn cynnwys pwyslais ar ymgyrchoedd a chydweithio gyda chymunedau. Byddwn hefyd yn edrych ar ymestyn biniau ailgylchu ar y stryd.



Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnal arolwg i sefydlu faint o 'ddiffygion' fel sbwriel, chwyn, baw cŵn, gwm cnoi a stympiau sigarêts sydd ar unrhyw stryd. Yn ôl yr arolwg annibynnol, mae safon glendid ac

edrychiad strydoedd Gwynedd yn parhau i fod yn dda ac mae'n debyg bod newid ymddygiad er gwell yn ddiweddar i atal llanast.

Ffyrdd


Mae'n bwysig bod busnesau a thrigolion Gwynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y sir ac er mwyn sicrhau hyn mae'r Cyngor yn cynnal 2,697 cilomedr o ffyrdd sirol ynghyd â 199 cilomedr o Gefnffyrdd (sef priffyrdd o bwysigrwydd cenedlaethol, ar ran Llywodraeth Cymru). Ar hyn o bryd mae ein priffyrdd yng Ngwynedd,

sef ffyrdd Dosbarth A a B, mewn cyflwr da gyda llai na 4% ohonynt yn ddiffygiol ac angen sylw. Gyda lleihad yn yr arian sydd ar gael i Lywodraeth Leol, mae ein gallu i gynnal y ffyrdd Dosbarth C a Di-ddosbarth i'r un safon yn anoddach.

Oherwydd y pwysau ariannol ar y Cyngor mae'n anorfod y bydd pwysau pellach ar y gyllideb cynnal ffyrdd, a bydd hi'n her i atal dirywiad yn safon ein ffyrdd, yn enwedig ffyrdd o lai o flaenoriaeth sef Dosbarth C a Di-ddosbarth.

Tra bod y cyflwr yn sefydlog gyda 14.2% yn ddiffygiol ac angen sylw, mae cryn bwysau ar ein cyllidebau er cadw at y cyflwr sefydlog.

Mae grant cynnal ffyrdd yn ei le ar hyn o bryd ac yn siŵr o fod o gymorth yn cadw'r lefelau cyfredol. Fodd bynnag, gydag effeithiau newid hinsawdd mae cyflwr ein ffyrdd Di-ddosbarth yn dirywio yn gyflym.



Gwastraff



Mae'n hanfodol ymdrin â gwastraff mewn modd cywir os am amddiffyn ein hamgylchedd ac osgoi creu problemau i genedlaethau'r dyfodol. Erbyn diwedd 2019/20 roedd 64.74% o wastraff cartrefi Gwynedd yn cael

ei ailgylchu, aildddefnyddio neu ei gompostio, sy'n gynydd o 1.44% ers 2018/19. Gan bod y flwyddyn yma yn flwyddyn targed statudol, mae'r adran yn falch o adrodd y bu i ni gyrraedd a phasio y targed statudol o 64%.


Drwy ymroddiad trigolion a busnesau'r sir i leihau ein gorddibyniaeth ar waredu gwastraff i'w dirlenwi, mae'r newid hwn wedi bod yn allweddol i wella ein perfformiad.

Mae busnesau'r sir hefyd wedi cyfrannu at welliant ac erbyn diwedd 2019/20 roedd 49% o wastraff masnachol yn cael ei gompostio neu ailgylchu.

Mae hefyd yn bwysig i bobl Gwynedd bod eu gwastraff yn cael ei gasglu pan rydym yn dweud yr ydym am ei gasglu. Yn ystod 2019/20, gwnaethom gyfanswm o 4,556,708 o gasgliadau gwastraff, gyda 11,344 o gwynion wedi eu derbyn nad oeddem wedi casglu (neu 0.24%). Roedd rhai o'r methiannau yma oherwydd y tywydd garw ac eraill oherwydd diffygion ar ein rhan ni. Er mwyn gwella'r gwasanaeth rydym wedi bod yn adolygu ein harferion gwaith er mwyn gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei roi i bobl Gwynedd. Mae'r trefniadau sydd wedi eu gweithredu arnynt yn cadarnhau peth gwelliant o gymharu â ffigyrau 2018/19.

Mae canran y gwastraff trefol a anfonir i dirlenwi yn is ar gyfer 2019/20, sef 16.2% o'i gymharu â 43.33% ar gyfer blwyddyn 2014/15. Gellir priodoli'r gwelliant hwn i'r ailgylchu a'r

ffaith fod mwy o wastraff gweddilliol wedi ei drin drwy drefn llosgi ac o ganlyniad ddim wedi'i anfon i dirlenwi.



— Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei aildddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio
— Canran lefelau ailgylchu / compostio masnachol

Goleuadau Stryd

Rydym yn parhau i drwsio goleuadau stryd yn brydlon, ac ar gyfartaledd mae'n cymryd dau ddiwrnod a hanner i'w trwsio – ffigwr sydd wedi bod yn eithaf cyson dros y 5 mlynedd diwethaf.



Fel rhan o raglen "buddsoddi i arbed" y Cyngor mae gennym raglen sylweddol i newid goleuadau stryd i dechnoleg LED sydd wedi bod yn weithredol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod 2019/20 newidiwyd 1,730 o unedau golau stryd ac arwyddion i LED ac ers 2015/16, rydym wedi newid

dros 12,000 o oleuadau ac arwyddion stryd i dechnoleg LED. Yn sgil y newidiadau yma rhagwelir y byddwn yn arbed £260,000 y flwyddyn yn ogystal â gostyngiad mewn allyriadau carbon (414 Co2). Mae'r gwaith o newid y goleuadau i LED wedi parhau yn ystod y flwyddyn gan arbed amcan o

£185,000 yn ogystal â gostyngiad mewn allyriadau carbon (572 Co2).

Toiledau Cyhoeddus

Mae cyfanswm o 62 o doiledau cyhoeddus yn y sir, ynghyd â 35 o doiledau cymunedol sydd ar gael mewn lleoliadau fel caffis, tafarndai ayb ynghyd ag 17 o doiledau cyhoeddus sy'n eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Fel siroedd ledled Cymru, mae Gwynedd wedi wynebu cyfnod o dorri sylweddol ar gyllidebau sydd wedi golygu'r angen i adnabod arbedion mewn gwariant ar doiledau cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf. Ond drwy gydweithio gyda chynghorau cymuned a thref a grwpiau cymunedol, rydym wedi gallu cynnal nifer uchel o doiledau at ddefnydd y cyhoedd yma yng Ngwynedd. Fis Mai 2019 fe wnaethom fel Cyngor fabwysiadu Strategaeth Toiledau Cyhoeddus, ac mae hi'n ofyn statudol ar bob awdurdod i wneud hynny.

Blaenoriaethau Lleol

Mewn ymateb i gwynion am flerwch a sbwriel yn cael ei ollwng neu ei golli o gerbydau casglu sbwriel ac ailgylchu oherwydd gwaith ein gweithlu, mae nifer o gamau wedi eu rhoi yn eu lle dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn gwella'r sefyllfa yma. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cerbydau 'Romaquip' yn lle cerbydau 'Kerbside', sy'n golygu nad oes tipio uwchben uchder y cerbydau ac felly'n fwy diogel i'r gweithlu. Mae defnydd o'r cerbydau newydd hefyd yn golygu lleihad yn y nifer o ddeunyddiau sy'n cael eu gollwng o'r cerbydau ac o ganlyniad nad oes deunyddiau yn cael eu cadw yn rhydd wrth symud o eiddo i eiddo sy'n arwain at well trefn wrth wasanaethu'r cartgylchu. Yn ystod 2020/21 byddwn yn parhau i ymateb i bryderon ein trigolion ac yn sicrhau gwelliant yn y sefyllfa drwy ganolbwyntio ar y cerbydau llai.

Parhau mae'r gwaith o newid trefniadau'r

cylchdeithiau. Yr ydym eisoes wedi cwblhau'r drefn yn ardal Arfon a Dwyfor gan weld gwellhad yn y trefniadau casglu. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 nid oedd yn bosibl cwblhau'r gwaith yn ardal Meirionnydd. Bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Chwefror 2021.

Yn ystod 2019/20, rydym wedi parhau i gydweithio ar brosiect Delwedd Bangor sydd yn bartneriaeth sydd wedi ei sefydlu gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Dinas, BID Bangor, Prifysgol Bangor a sawl mudiad arall, ac mae'r gwaith yma yn symud yn ei flaen yn dda. Prif ffocws y grŵp yw gwella delwedd y ddinas. Byddwn yn dysgu o'r gwaith yma ym Mangor ac yna byddwn yn cyflwyno'r gwersi i ardaloedd eraill. Rydym hefyd yn cydweithio â grŵp yn Nyffryn Nantlle er mwyn gwella edrychiad yr ardal. Byddwn yn dysgu o'n profiadau o weithio gyda'r prosiect ym Mangor wrth fwrw ymlaen gyda'r gwaith yma.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

Adran Tai ac Eiddo


Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Sefydlwyd yr adran newydd hon ym mis Medi 2019 ac mae'r gwaith o uno'r Gwasanaeth Eiddo a'r Gwasanaeth Tai wedi mynd rhagddo'n llyfn. Mae strwythur newydd wedi ei gyflwyno yn y Gwasanaeth Tai er mwyn ein galluogi i roi sylw teitwng i'r heriau cynyddol yn y maes tai fforddiadwy i bobl Gwynedd.

Eiddo

Er mwyn ymateb i'r heriau sy'n codi o newid yn yr hinsawdd, a sicrhau fod cymunedau Gwynedd yn cael eu paratoi ar gyfer y dyfodol bu i'r Cyngor fabwysiadu **cynllun rheoli carbon** fis Mai 2010. Mae'r cynllun wedi bod yn fuddsoddiad sylweddol er mwyn gostwng allyriadau carbon gweithgareddau'r Cyngor, yn ogystal â chyfrannu tua'r amcan ehangach o Wynedd garbon isel.

Mae natur cynlluniau o'r fath yn annatod yn cael eu mesur dros gyfnod hir, gyda gwahaniaethau bychan rhwng cyfnodau monitro yn cael effaith gronnu dros dymor ehangach. Ers sefydlu'r waelodlin yn 2005/06, erbyn diwedd 2019 mae allyriadau carbon y Cyngor wedi gostwng 51.2%, gyda gostyngiad o 8.2% pellach yn 2019/20. Mae hyn oll wedi arwain at arbedion ariannol blynyddol o dros £1.2m i'r Cyngor.



Mae'r **Tim Ynni** hefyd yn gyfrifol am brynu trydan a nwy ar ran holl wasanaethau'r Cyngor a thrwy weithredu egwyddorion Ffordd Gwynedd a mentro gyda dulliau caffael newydd dros y flwyddyn ddiwethaf bu modd iddynt sicrhau gostyngiad o dros £230,000 y flwyddyn yn ein biliau nwy.

Mae'r cyfrifoldeb o sicrhau fod ein holl ysgolion, cartrefi gofal, canolfannau hamdden ayb yn ddiogel i'w defnyddio gan drigolion y sir yn gorwedd gyda'r **Gwasanaeth Eiddo**. Gwelwyd welliant pellach yn ystod 2019/20 yn y trefniadau monitro risgiau tân ac asbestos a chyflwynwyd trefniadau newydd i reoli risgiau radon a chlefyd y lleng filwyr. Roedd hyn yn cynnwys mewnloli gwaith oedd yn arfer cael ei gyflawni gan ymgynghorwyr allanol sydd wedi arwain at well rheolaeth, a chyflawni'r gwaith oddeutu £30,000 y flwyddyn yn rhatach.

Yn yr un modd, mae parhau i ehangu'r gweithlu cynnal a chadw mewnloli wedi arwain at allu cyflawni gwaith yn gynt, gan leihau cyfartaledd nifer dyddiau a gymer i gwblhau gwaith o 7.5 diwrnod yn 2018/19 i 6.9 diwrnod yn 2019/20. Mae hefyd, wrth gwrs, wedi arwain at fodlonrwydd cwsmer uwch.

Mae bodlonrwydd cwsmer y **Tim Difa Pla** wedi bod yn uchel iawn drwy'r gydol 2019/20 hefyd gyda chanmoliaeth mawr am waith prydol ac effeithiol. Ar gyfartaledd cafwyd sgôr o 9.7 allan o 10 gan y cwsmeriaid dros y flwyddyn.

Tai

Y brif her yn wynebu'r Gwasanaeth Tai yw ceisio cyfrannu tuag at gynyddu'r cyflenwad tai i bobl leol a'r opsiynau cartrefu sydd ar gael i bobl Gwynedd. Mae'r effaith ar ddigartrefedd o ganlyniad i Covid-19 hefyd yn bryder

cynyddol a fydd yn siŵr o waethygu yn ystod 2020/21.

Mae'r tîm **Grantiau a Phrosiectau Tai** wedi gweld llwyddiant ysgubol i'w cynllun 'Grantiau i brynwyr tro cyntaf' a 'Grantiau Tai Gwag' eto eleni. Yn ystod 2019/20, derbyniodd y tîm 114 o geisiadau am y grant hwn, ac eisoes wedi cymeradwyo gwerth £1.9m o grant ar 114 o'r ceisiadau hyn. Bydd yn gymorth i gartrefu bron i 308 o unigolion a theuluoedd.

Mae'r Gwasanaeth Tai wedi bod yn gweithredu er mwyn atal **digartrefedd** ond hefyd yn darparu cefnogaeth i deuluoedd neu unigolion sy'n canfod eu hunain yn ddigartref. Rydym wedi gweld cynnydd o 35% yn y nifer sydd yn cyflwyno yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae'r galw yn parhau yn uwch nag erioed gyda 745 o unigolion wedi derbyn gwasanaeth yn 2019/20. Mae hyn wedi rhoi pwysau aruthrol ar ein hopsiynau cartrefu dros dro ac ar hyn o bryd nid ydym yn gallu ymdopi gyda'r galw o gryn dipyn. Canlyniad hyn yw gorfod gor-ddefnyddio llety gwely a brecwast sydd yn anorfod yn creu gorwariant. Yn ystod 2020/21 byddwn yn ceisio cynyddu'r opsiynau llety dros dro ac yn sicrhau fod cefnogaeth briodol ar gael i'r unigolion bregus hyn hefyd.

Gydag arian grant gan Lywodraeth Cymru, mae'r Gwasanaeth Digartrefedd wedi cyllido prosiect i gyd-gordio gwasanaeth ar gyfer pobl yn gadael carchar. Mae un swyddog yn y tîm yn cymryd cyfrifoldeb am bobl sydd yn dod yn ôl i Wynedd i fyw ar ôl cyfnod yn y carchar a cheisio adnabod a threfnu llety ar eu cyfer i osgoi digartrefedd. Mae'r prosiect wedi datblygu perthynas dda gyda'r carchardai, y Gwasanaeth Prawf a nifer o asiantaethau eraill sydd yn gweithio efo'r unigolion.

Mewn ymateb i'r diffyg eiddo un llofft yn y sir, mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar y cyd gyda'r asiantaeth trydydd sector, Cais, i adnabod

eiddo ar gyfer pobl senl fregus yn ardal Bangor. Mae cynllun yn cael ei ddatblygu sydd yn darparu llety a chefnogaeth ddwys, gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau unigolion i'w galluogi i fyw yn annibynnol.

Datblygiad arall o fewn y maes digartrefedd yw'r prosiect 'cefnogaeth ddwys i bobl sydd yn cysgu allan'. Mae'r Gwasanaeth yn cydweithio gyda Tai Gogledd Cymru, a thrwy help grant Llywodraeth Cymru mae swyddog cefnogaeth wedi cael ei benodi i geisio annog pobl i gydweithio, helpu i ddatrys eu problemau a'u cefnogi i symud ymlaen i lety sefydlog. Wrth i'r cyfyngiadau Covid gael eu rhoi mewn grym ar draws y wlad ar ddiwedd mis Mawrth 2020, bu modd i ni ymateb i gais y Llywodraeth i geisio cartrefu pawb oedd yn cysgu ar y strydoedd ar fyrder. Rydym wedi gallu cartrefu 29 o unigolion, ond yr her fawr sy'n ein wynebu nawr yw ceisio darparu cartrefi parhaol iddynt gyda'r gefnogaeth angenrheidiol. Mae diffyg mawr yn parhau yn y stoc dai sydd ar gael ar gyfer unigolion bregus sydd ag anghenion cymhleth fel yr unigolion hyn.

I'r perwyl hwn, mae'r Gwasanaeth wedi cychwyn ar ein datblygiad tai cyntaf wrth ddatblygu unedau hyblyg 'pods'. Bydd yr unedau yma yn cynnig cartref gyda chefnogaeth i'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau sydd yn anodd eu lleoli, a'r bwriad fydd datblygu 4 'pod' ar gyfer 4 unigolyn. Mae'r gwaith wedi cychwyn ar safle a bydd wedi ei gwblhau yn ystod 2020/21. Mae mwy o gynlluniau yn yr arfaeth yn dilyn llwyddaint ceisiadau am arian grant gan y Llywodraeth a byddwn yn gallu darparu llety â chefnogaeth o'r newydd ym Mangor, Caernarfon a Dolgellau dros y 18 mis nesa.

Mae'r **Rhaglen Cefnogi Pobl** yn rhoi cymorth i bobl sy'n agored i niwed er mwyn rheoli neu gynnal eu tenantiaeth a byw'n annibynnol. Yn ystod 2019/20 mae'r rhaglen yng Ngwynedd wedi cefnogi 1,956 o bobl i gael mynediad a

chynnal tenantiaethau parhaol neu dros dro ac atal digartrefedd. Oherwydd newid deddfwriaeth ac amodau'r grant cefnogi pobl, ceir mwy o bwyslais nawr ar dargedu atal digartrefedd drwy ymyriadau cynharach a chreadigol. Dros y ddwy flynedd nesaf – hyd at ddiwedd 2021/22 - byddwn yn adolygu'r hyn sy'n cael ei gyflawni gan y grant hwn er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi'r budd gorau posib i bobl Gwynedd, yn enwedig gan fod y Llywodraeth wedi bod yn ystyried cwtogi'r arian fydd ar gael yn y dyfodol.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:


- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

Adran Amgylchedd

Prif feysydd Cyfrifoldeb yr Adran Amgylchedd yw Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad a'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol.

Cynllunio

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy er budd cymunedau, yr economi a'r amgylchedd o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (nad yw'n cynnwys ardal y Parc Cenedlaethol), gyda **83%** o gwsmeriaid y gwasanaeth yn datgan eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth.




O'r rhai sy'n anfodlon mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn nodi anfodlonrwydd gyda'r trefniadau cysylltu gyda'r gwasanaeth, gydag anhawster cyfathrebu yn cael ei nodi yn y sylwadau a dderbyniwyd gan gwsmeriaid hapus yn ogystal â'r rhai anhapus. Bydd y gwasanaeth yn gweithio i wella'r sefyllfa drwy edrych ar a gweithredu ar y rhesymau pam fod cwsmeriaid yn anfodlon yn 2020/21.

Ar gyfartaledd yn 2019/20 roedd ceisiadau cynllunio yn cymryd 62 diwrnod i'w penderfynu o'i gymharu â 57 diwrnod yn 2018/19, gyda cheisiadau oedd yn derbyn penderfyniad Pwyllgor yn cymryd 183 diwrnod ar gyfartaledd (cais hen yn Awst 2019 wedi effeithio ar hyn).

Mae'r perfformiad yn adlewyrchu'r ffaith fod y ceisiadau sydd yn mynd gerbron Pwyllgor

yn tueddu i fod yn geisiadau cymhleth neu gynhennus, ac nid yw'n anarferol i benderfyniadau gael eu gohirio er mwyn rhoi cyfle i dderbyn mwy o wybodaeth neu gynnal trafodaethau.

Mae tai fforddiadwy yn fater sydd yn flaenoriaeth i'r Cyngor, gyda 38% (118 o unedau allan o 311) o'r tai a ganiatawyd trwy'r drefn gynllunio yn 2019/20 yn dai fforddiadwy, naill ai trwy gytundeb 106 neu oherwydd eu bod yn dai a adeiladwyd gan landlord cymdeithasol cofrestredig. Mae'r ffigwr yma'n parhau i fod yn uwch na'r targed sydd wedi ei osod yn y Cynllun Datblygu lleol ar y Cyd. Golyga hyn fod y Gwasanaeth Cynllunio yn cyfrannu yn uniongyrchol tuag at y ddarpariaeth tai fforddiadwy yng Ngwynedd mewn ffordd arwyddocaol. Mae gwybodaeth bellach am ddarpariaeth cartrefi yng Ngwynedd i'w gweld ym mhennod yr Adran Tai ac Eiddo.



Mae'r Gwasanaeth Cynllunio hefyd yn ymdrin â gorfodaeth cynllunio, gan gymryd camau gorfodaeth ar ddatblygiadau sydd heb gael caniatâd cynllunio. Bu i 302 o achosion gorfodaeth gael eu cyflwyno yn 2019/20. Archwiliwyd 179 o'r achosion yma sef 59% ac ar gyfartaledd maent yn cymryd 65 diwrnod i'w harchwilio. Yn ystod y flwyddyn cofnodwyd 71 achos oedd angen camau cywiro, gyda 20% wedi cwblhau camau cywiro a'r 80% arall ar y gweill. Dylid nodi fod y broses o gymryd

camau gorfodaeth yn hir oherwydd natur gofynion ymchwilio, gofynion statudol a phrosesau cyfreithiol, ond bod datrysiad boddhaol i'r achos yn aml yn bwysicach i'r cwsmer na'r amser a gymerwyd i gyflawni hynny.

Gwarchod y Cyhoedd



Mae 99.23% o sefydliadau bwyd Gwynedd yn cydymffurfio'n fras gyda safonau hylendid bwyd, sef 2,070 allan o 2,086 sefydliad.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi ei chael hi'n anodd iawn dygymod gyda'r nifer o archwiliadau sy'n ofynnol, a bu'n rhaid darganfod adnoddau ychwanegol i glirio'r ôl-groniad archwiliadau sydd wedi datblygu. Ar gyfer 2019/20 mae yna ôl-groniad o 35 archwiliad hylendid bwyd, ynghyd ag ôl-groniad o 130 archwiliad Safonau Bwyd. Yn y sefydliadau bwyd categorïau risg is y mae'r ôl-groniad yma, ond yng Ngorffennaf 2018 penderfynodd y Cabinet i ddyrannu mwy o adnoddau i'r gwasanaeth er mwyn iddynt benodi dau swyddog ychwanegol i fedru ymdopi â'r gwaith. Fodd bynnag, mae'n cymryd amser i ddod yn gymwys yn llawn i gynnal archwiliadau hylendid bwyd, ac felly ni fyddwn yn gweld effaith lawn yr adnoddau ychwanegol am beth amser.

Fel arall fe welir perfformiad calonogol ym maes Gwarchod y Cyhoedd gyda'r holl archwiliadau llygredd awyr a sefydliadau bwyd anifeiliaid yn cael eu harchwilio yn unol â'r rhaglen. Llwyddwyd i ddatrys 459 o droseddau drwy ymyrraeth gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ystod y flwyddyn gyda 70 arall yn aros i'w datrys.

O ran y rhaglen archwilio safleoedd risg uchel iechyd anifeiliaid nid oedd posib cwblhau'r

archwiliadau rhaglunedig oherwydd salwch swyddogion a chyfyngiadau pandemig Covid-19.

Traffig a Gwaith Stryd



Yr hyn sy'n bwysig i'r sawl sy'n gofyn am orchmynion traffig yw gweld y gorchymyn yn dod i rym, ac mae'r arfer yr oedd gennym o hysbysebu nifer o geisiadau mewn un pecyn wedi dod i ben gan y byddai'n aml yn bosib i un gorchymyn cynhennus ddal nifer o orchmynion eraill yn ôl. Mae'r newid yma mewn canfyddiad o'r broses wedi arwain at gwtogi'r amser cyfartalog a gymerir i osod Gorchymyn Traffig yn ei le o 519 diwrnod i 297.

Cludiant Cyhoeddus



Mae'r sector trafndiaeth gyhoeddus yng Ngwynedd wedi wynebu cyfnod cythryblus dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r gwasanaeth wedi gorfod ymateb yn gyflym i newidiadau mawr o ran y darparwyr oedd ar gael yn y maes. Erbyn hyn mae'r Gwasanaeth Trafndiaeth a Chefn Gwlad wedi dechrau ar y gwaith o gynnal arolwg cynhwysfawr o'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Bydd y Gwasanaeth yn cydweithio gyda Phrifysgol Bangor er mwyn cynllunio rhwydwaith fydd wedi ei seilio ar werth cymdeithasol, yn hytrach na chost a nifer teithwyr. Bydd hefyd yn ystyried dulliau arloesol o gynnig rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Disgwylir i'r adolygiad ddod yn weithredol yn Hydref 2020.

Yn y cyfamser mae'r gwasanaeth yn parhau i ymdrin â chwynion a dderbynnir gan y cyhoedd, a chydweithio gyda'r diwydiant i gynnal gwasanaethau sydd yn ateb anghenion pobl Gwynedd. Mae'r Gwasanaeth yn monitro prydlondeb gwasanaethau bysus, gyda 70% o wasanaethau yn cyrraedd yn brydlon yn 2019/20. O'r gwasanaethau nad

oedd yn brydlon, roedd y rhan helaeth wedi cyrraedd o fewn 5 munud i'r amser ar yr amserlen.

Parcio

Cafodd Grŵp Tasg Parcio ei ffurfio tuag at ddiwedd 2019 yn bwrpasol er mwyn rhoi sylw i faterion parcio amrywiol a chyflwyno datrysiadau posibl er mwyn cyfarch bwlch ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor a gwella'r trefniadau parcio presennol yn yr un modd. Bu i'r gweithgor roi pwyslais ar bwysigrwydd cynnal adolygiad mewn modd ystyriol a gofalus gan ymdrechu i gyrraedd cydbwysedd priodol rhwng cynhyrchu lefel incwm digonol a blaenoriaethu anghenion trigolion Gwynedd.

Polisi Cynllunio ar y Cyd

Adroddiad Monitro Blynyddol - Cafodd adroddiad ei baratoi a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 1 Awst 2017 - 31 Mawrth 2019. Mae'r Adroddiad yn adrodd ar berfformiad y Cynllun yn ystod y cyfnod ac yn asesu os yw strategaeth a pholisiau'r Cynllun yn gweithio. Casgliad yr Adroddiad oedd bod y Cynllun y cyflawni'r strategaeth a bod polisiau'r Cynllun yn gweithio, doedd dim tystiolaeth am yr angen i adolygu'r Cynllun yn gynnar.

Canllawiau Cynllunio Atodol - Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn atgyfnerthu gallu'r Cynllun i roi sail gadarn i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i'r dyfodol. Mae pedwar CCA wedi cael eu mabwysiadu yn ystod cyfnod 2019/2020: Tai fforddiadwy, Cynnal a chreu cymunedau cynaliadwy, Ymrwymadau cynllunio, Trosi adeiladau ac ail-adeiladu tai yng nghefn gwlad.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - Mae'r gwasanaeth polisi cynllunio yn paratoi ymatebion i ymgynghoriadau polisi cynllunio

gan wahanol asiantaethau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill lle bo hynny'n briodol. Ym mis Awst 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC). Mae'r FfDC yn gynllun datblygu newydd, a'i ddiben yw gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru o 2020 i 2040. Darparodd y gwasanaeth, gyda mewnbwn gan adrannau a gwasanaethau eraill ar draws y Cyngor, ymateb manwl i'r ymgynghoriad FfDC.

Cefn Gwlad

Yn ystod 2019/20 cwblhaodd y Gwasanaeth Cefn Gwlad gwedd Dysgu o'u Hadolygiad Ffordd Gwynedd. Yn dilyn yr adolygiad hwn, y meysydd allweddol y gweithredwyd arnynt oedd:

- Addasu'r Pwrpas i adlewyrchu'n well prif feysydd gwaith y Gwasanaeth – Mynediad / Bioamrywiaeth / AHNE Llyn.
- Paratoi Pwrpasau newydd ynghyd â mesuryddion perfformiad ar gyfer y meysydd gwaith unigol.
- Monitro effeithlonrwydd a gwelliannau i'r system a ddefnyddir i gofnodi gwaith a galwadau mewn perthynas â hawliau tramwy.
- Adnabod anghenion adnoddau i gwrdd â'r risgiau i'r cyhoedd yn sgil diffyg cyllideb i reoli tiroedd.

Oherwydd pandemig Covid-19, mae'r gwaith hwn wedi arafu ond bydd wedi'i gwblhau yn 2020/21.

Rheolaeth Adeiladu

Mae'r Uned Rheolaeth Adeiladu yn cydweithio gyda'r cyhoedd a phartneriaid er mwyn i'n cymunedau gael adeiladau diogel sydd yn

cyd-fynd â'r gofynion technegol diweddaraf. Mae'r Uned yma'n gyfrifol am sicrhau bod gwaith adeiladu yn cwrdd â'r safonau adeiladu. Mae hyn yn bwysig a gwerthfawr i bobl Gwynedd, gan y bydd yn sicrhau bod unrhyw waith adeiladu yn ddiogel ac o'r safon angenrheidiol.

Mae'r Uned Rheolaeth Adeiladu hefyd yn parhau i roi gwasanaeth da i drigolion gyda'r sgôr bodlonrwydd yn parhau'n uchel ac yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf. Mewn arolwg boddhad cwsmeriaid yn 2019/20, rhoddwyd sgôr cyfartalog o 9.7 allan o 10 o'i gymharu â 9.6 yn 2018/19. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu'r rheswm am unrhyw anfodlonrwydd.

Un o ddyletswyddau'r Uned Rheolaeth Adeiladu yw prosesu ceisiadau Cynlluniau Llawn. Mae'r Uned yn cynnal asesiad o'r cynlluniau, ac yn cyhoeddi hysbysiadau penderfyniad o fewn ei darged statudol o 5 ac 8 wythnos. Mae'r Uned yn anelu i archwilio'r cynlluniau o fewn 15 diwrnod, gyda'r gwaith penderfyniad ar y cais yn cael ei ryddhau cyn gynted â phosib.

Rheolaeth Categori Corfforaethol


Pwrpas y gwasanaeth hwn yw cydweithio a chefnogi gwasanaethau oddi fewn y Cyngor i wario arian cyhoeddus mewn modd strategol a chywir sydd yn profi gwerth am arian ac annog i gadw'r budd yn lleol.

Yn ystod 2019/20 llwyddodd y tîm i gefnogi gwasanaethau i arbed £165miliwn. Hefyd roedd £78miliwn yn rhagor wedi ei adnabod fel arbedion posib, ac mae ymdrech yn parhau i annog gwasanaethau ar draws y Cyngor i ymuno â'r cytundebau corfforaethol.

Mae'r Tîm yn ymdrechu i gadw'r gwariant yn lleol ble'n bosibl, a ble bo rheolau cyfreithiol yn caniatáu. Cyn penderfynu ar ddull pwrcasu addas, mae trefn safonol wedi'i sefydlu i

adnabod os oes marchnad leol gydag awydd a chapasiti i gystadlu am waith gan y Cyngor yn gyntaf. O fewn y categori Corfforaethol roedd 56% o'r gwariant o fewn Gwynedd yn ystod 2019/20.

Gwariant Lleol - Categori Corfforaethol



■ Gwariant Lleol ■ Gwariant tu allan i Wunedd


Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)

Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn gweithredu'n fasnachol yn y maes peiranyddol ac adeiladu er mwyn sicrhau swyddi o ansawdd uchel o fewn y sir a cheisio creu elw i helpu gyda sefyllfa ariannol y Cyngor.

Ar gyfer 2019/20 llwyddwyd i greu elw oedd £10,725 yn uwch na'r targed a osodwyd ar ein cyfer.



Perfformiad ar faes Dŵr a Llifogydd

Prosiectau 2019 / 2020 - CRMP (Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol Llywodraeth Cymru), cynlluniau bach (Cronfa ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau rheoli risg llifogydd bach uchafswm o £100,000), cynllun asedau (Cynllun gwariant ar asedau'r Cyngor, mae gwariant ar asedau risg llifogydd yn un o elfennau'r cynllun).

Yn yr un modd ag ardaloedd arfordirol eraill yng Nghymru, mae rhai ardaloedd arfordirol yng Ngwynedd ble mae mwy o berygl o lifogydd. Mae'r gwasanaeth yn denu arian grant er mwyn ymgymryd ag astudiaethau neu waith dylunio i ostwng y risg o lifogydd

sy'n bodoli yn ardaloedd Gwynedd. Mae'r rhain i gyd yn gymunedau sydd un ai wedi dioddef yn hanesyddol neu ble mae tystiolaeth gref fod newid hinsawdd yn debygol o gynyddu risg yn y dyfodol.

Yn ystod 2019/20 roedd ein prosiectau atal llifogydd yn cynnwys:

- Viaduct Gardens, Abermaw - datblygu opsiynau i ostwng lefel risg llifogydd arfordirol
- Prom Gogleddol, Abermaw - datblygu opsiynau i ostwng lefel risg llifogydd ac erydiad arfordirol
- Bae Hirael, Bangor - ymchwilio i lefel risg llifogydd arfordirol ynghyd â llifogydd dŵr wyneb
- Afon Gwyrfael - ymchwilio i natur a lefel risg llifogydd yn nalgylch yr Afon Gwyrfael
- Dalgylch Ogwen - paratoi cais busnes manwl i wneud gwelliannau ar hyd y dalgylch sydd am reoli risg dŵr wyneb
- Cwm y Glo - astudiaeth o fesurau o ostwng bygythiad llifogydd yn stad Dolafon yng Nghwm y Glo

Oherwydd y cyfyngiadau pandemig Covid-19, ni lwyddwyd i gwblhau holl brosiectau 2019/20. Fodd bynnag, bydd y prosiectau hyn yn cychwyn neu'n ailgychwyn cyn gynted ag y bydd y cyfyngiadau presennol yn cael eu codi.

Monitro Asedau

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae system newydd i reoli asedau wedi ei ddatblygu ar y cyd â gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor ac yn ein galluogi i storio ein holl ddata asedau, ynghyd â data ynglŷn â digwyddiadau llifogydd i gyd mewn un system. Wrth ddatblygu system yn fewnol, yn lle talu ffi blynyddol i gwmni allanol, mae'r Uned wedi gwneud arbediad a ellir ei ail-fuddsoddi yn y gwaith o gynnal a chadw ein hasedau draenio tir ac arfordirol.

Mae pob ased draenio tir ac arfordirol a gynhelir gan yr Uned bellach wedi'i archwilio ar gyfer 2019/20 gyda chanlyniadau pob arolwg yn cael ei gofnodi ar y system newydd. Bydd y weithdrefn newydd yma yn galluogi'r Uned i ddatblygu cynllun asedau hir dymor. Mae gwaith hefyd i ymchwilio i unrhyw asedau hanesyddol dan gyfrifoldeb adrannau eraill hefyd yn cael eu hymgorffori i'r drefn yma.

Drwy wneud y newidiadau yma i'n system rheoli asedau, bydd yr Uned yn parhau gyda'r trefniadau i gael system mewn lle sydd yn cyd-fynd gyda gofynion Safonau Prydeinig Rheoli Asedau ISO55001.

Adroddiadau Llifogydd (Section 19)

Rydym yn parhau i gasglu gwybodaeth ynglŷn â lefel risg llifogydd o fewn y sir, ac wedi datblygu mapiau a chronfeydd data penodol ar gyfer y pwrpas yma. Yn ystod 2019/20 cofnodwyd **23 achos o lifogydd mewnol a tua 65 o achosion llifogydd** agos neu adroddiadau o drafferthion dŵr wyneb. Yn y cyfnod yma mae'r Cyngor wedi derbyn arweiniad gan yr Asiantaeth Amgylchedd (Lloegr) dros 30 o weithiau, fod yna bosibilrwydd o lifogydd.

Rydym yn parhau i gydweithio gyda'r sector gyhoeddus, a chyrrff eraill drwy godi

ymwybyddiaeth am beryglon llifogydd ac erydu arfordirol

Rheoleiddio

Yn ystod 2019/20 rydym wedi prosesu **28 o geisiadau i weithio mewn cyrsiau dŵr** cyffredin dros y sir. Mae'r gwasanaeth ymgynghorol a gynigir yn golygu fod bob cais sydd wedi ei dderbyn o fewn y cyfnod hwn wedi bod yn dderbyniol, gydag ymateb wedi ei ddarparu o fewn **25 diwrnod** ar gyfartaledd, lle caniateir hyd at 2 fis.

Pwrpas y broses caniatâd gweithio mewn cyrsiau dŵr ydi rheoli gweithgareddau penodol a allai gael effaith andwyol ar lifogydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym hefyd wedi bod yn trafod gofynion yr is-ddeddfau draenio tir newydd gydag amryw o ddatblygwyr er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r oblygiadau ar ddatblygiadau yn y dyfodol. Bydd y broses codi ymwybyddiaeth yma yn parhau i'r dyfodol.

Ers mis Ebrill 2019 rydym wedi rhoi sylwadau ar **160 cais cynllunio**, er mwyn sicrhau fod bygythiad llifogydd ac erydiad arfordirol i ddatblygiadau newydd yn dderbyniol a bod manylion y cais yn cydymffurfio a pholisiau cenedlaethol.

SuDS (systemau draenio sy'n ffafrio defnyddio dulliau mwy naturiol/gwyrdd i ddelio a dŵr wyneb), nifer ceisiadau (a chyngor cyn gwneud cais) yng Ngwynedd ac yn rhanbarthol.

Codi ymwybyddiaeth:

Rydym yn parhau i weithio gydag adrannau cynllunio'r Cyngor a Pharc Cenedlaethol Eryri, er mwyn amlygu'r gofynion i'w ymgeiswyr. Rydym yn gwneud hyn drwy nodyn gwybodaeth wrth i gais cynllunio gael ei gofrestru, ymgynghoriad gyda'r CCS (Corff Cymeradwyo SDC-Systemau Draenio

Cynaliadwy) drwy'r Prif Awdurdodau Atal Llifogydd (PAAL) yn ystod asesu'r cais, a nodyn gwybodaeth ar ddiwedd y caniatâd cynllunio.

Rydym yn parhau i ymchwilio i mewn i geisiadau cynllunio sydd angen cais gyda CCS (Corff Cymeradwyo SDC-Systemau Draenio Cynaliadwy) gan gynnwys y rhai sydd heb gysylltu'n uniongyrchol â'r Adran ac rydym yn cydweithio gyda nifer o Benseiri ac Asiantau i godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth.

Rydym yn defnyddio gwefannau cymdeithasol YGC yn ogystal â'r cyfrifon corfforaethol i raeadru gwybodaeth addysgiadol i gynulleidfa eang yn electroneg.

Gwasanaeth Cyn-Gais:

Rydym yn parhau i weithredu gwasanaeth di-dâl ble mae datblygwyr neu ymgynghorwyr yn gallu cysylltu â ni am gyngor cyn rhoi cais llawn i mewn. Mae'r gwasanaeth yma wedi bod yn hynod boblogaidd, yn enwedig am fod y gofynion newydd yn berthnasol i bawb. Mae'r cyfarfodydd sydd wedi eu cynnal wedi bod yn bositif, ac wedi eu gwerthfawrogi gan ddatblygwyr gan fod y mwyafrif wedi amlygu mân broblemau ac felly wedi rhoi cyfle i ddiwygio'r cynlluniau cyn cyflwyno cais ffurfiol.

Mae cynnig y gwasanaeth yma wedi annog perthnasau da ac wedi bod yn ddefnyddiol i'r Cyngor a'r datblygwyr, gyda llawer o ddatblygwyr yn gofyn i'r gwasanaeth barhau, ond y teimlad ydi na all y gwasanaeth barhau yn ddi-dâl. Felly rydym yn y broses o ffurfioli'r drefn cyn-gais gyda threfniant ffi yn ddibynnol ar lefel y gwasanaeth - yn debyg i'r hyn sydd yn cael ei gynnig gan y gwasanaeth Cynllunio. Rydym yn cydweithio yn agos gyda chynghorau gogledd Cymru, ac er mwyn cysondeb rydym yn gobeithio defnyddio'r un strwythur ffioedd. Er hyn, rydym yn awyddus

i gynnig polisi 'drws agored' ble gall yr ymgeiswyr drafod y gofynion yn uniongyrchol gyda swyddog, cyn symud ymlaen i wasanaeth cyn-gais ffurfiol os oes angen. Mae buddsoddiad yn yr amser yma o fudd i'r ymgeisydd ac i'r Cyngor drwy roi tawelwch meddwl i'r ymgeisydd eu bod ar y trywydd cywir, a chyflymu'r broses o wirio'r cais llawn i'r Cyngor.

Rydym am godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth cyn-gais di-dâl tra ei fod dal i fodoli yn ddi-dâl.


Gwaith Rhanbarthol a Chenedlaethol

Mae Cyngor Gwynedd wedi eu penodi gan Gyngor Ynys Môn i brosesu a gwirio eu holl geisiadau SDC (Systemau Draenio Cynaliadwy). Rydym hefyd wedi cael ein comisiynu i wirio holl geisiadau SDC (Systemau Draenio Cynaliadwy) Cyngor Wrecsam.

Rydym yn gweithredu yn rhanbarthol ar draws gogledd Cymru, gan gydweithio gyda Chynghorau Sir Ynys Môn, Conwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam. Mae'r gwaith yma yn cynnwys llunio polisiau a gweithdrefnau a all gael eu defnyddio'n rhanbarthol er mwyn rhannu adnoddau a chael cysondeb yn y ffordd mae'r gofynion yn cael eu gweithredu.

Nifer Ceisiadau

Fel roeddem yn ei ddisgwyl, mae nifer ceisiadau wedi cynyddu bob chwarter yn 2019/20. I'r dyfodol, byddwn yn edrych ar strwythur yr Adran er mwyn sicrhau bydd y gwasanaeth yn cael ei gynnal fel mae'r niferoedd yn cynyddu.



Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth

Mae'r Adran Cyllid yn sicrhau'r gefnogaeth briodol i'r Cyngor wrth reoli, gwarchod a datblygu ei sefyllfa ariannol, yn ogystal â darparu gwasanaethau megis casglu referniw a thalu budd-daliadau mewn ffordd deg. Mae gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor hefyd yn rhan o'r Adran Cyllid ac maent yn cynnig arweiniad a chefnogaeth dechnegol o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol y Cyngor.

Rheolaeth Ariannol ac Arbedion

Ers 2015 mae cyllideb y Cyngor wedi lleihau, gyda chyfanswm o £32 miliwn o arbedion wedi eu rhaglennu i'w cyflawni dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Golyga hynny fod gwaith rheolaeth ariannol a chefnogaeth gyfrifol yr Adran Cyllid yn gaffaeliaid i adrannau'r Cyngor wrth gyflawni i bobl Gwynedd mewn cyfnod ariannol anodd. Trwy reolaeth ariannol gydwybodol, mae'r Adran wedi llwyddo i gynorthwyo'r Cyngor i gadw o fewn ei gyllideb pob blwyddyn rhwng 2015/16 a 2019/20.

Yn yr hinsawdd ariannol lle mae gofyn i'r Cyngor leihau ei gyllidebau bob blwyddyn oherwydd y cyfyngiadau parhaus ar wariant cyhoeddus, yn ogystal ag amcangyfrifon ariannol dibynadwy a chyfrifon cywir a theg, yr Adran Gyllid sy'n gyfrifol am drefniadau cadarn y Cyngor ar gyfer sicrhau fod yr holl adrannau yn gwireddu'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn dangos fod 91% o'r cynlluniau oedd wedi'u rhaglennu i'w cyflawni erbyn diwedd 2019/20 wedi eu gwireddu, sef gwerth £29 miliwn o arbedion. O ran cynlluniau 2019/20 mae 60% o'r £5.4

miliwn o arbedion a gynlluniwyd wedi eu gwireddu yn y flwyddyn gyda 16 cynllun yn llithro a 8 cynllun gyda risgiau o ran cyflawni.

Archwilio Mewnol

Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Yn ystod 2019/20 bu i'r gwasanaeth gynnal 49 archwiliad, gyda'r mwyafrif naill ai wedi derbyn dyfarniad lefel sicrwydd 'uchel' neu 'digonol', ond 4 archwiliad wedi derbyn barn 'cyfyngedig'.

Yn ogystal â'r gwaith Archwilio Mewnol o fewn Cyngor Gwynedd mae'r gwasanaeth wedi cynnig gwasanaeth archwilio mewnol i 70 o gynghorau tref a chymuned Gwynedd a Môn. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol iawn gan y cynghorau fu'n cydweithio gyda'r Gwasanaeth, sydd yn ei dro wedi arwain at wahoddiadau i gyflawni'r un rôl eto.

Bu'r Gwasanaeth hefyd yn cynnal archwiliadau mewnol ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, GwE, a chwmni Byw'n Iach.

Pensiynau

Mae'r Gwasanaeth Pensiynau yn gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 o gyflogwyr, gan gynnwys cynghorau Gwynedd, Môn a Chonwy. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar weithredu'n gywir a phrydlon ar ran ei aelodau. Roedd perfformiad cyffredinol y Gwasanaeth yn sefydlog.


gyda gwelliant yn yr amser gymerwyd i anfon llythyrau dyfynbris, ond cynnydd mewn diwrnodau gymerwyd i gydnabod marwolaeth aelod. Bydd y Gwasanaeth yn rhoi sylw i wella hyn yn 2020/21.

Ym mis Ionawr 2020, lansiodd gwefan hunan-wasanaeth, sy'n caniatáu i staff a phensiynwyr ddiweddarau manylion personol, ac amcangyfrif eu pensiwn a lwmp swm wrth ymddeol.

Gwnaed cynnydd sylweddol gyda'r prosiect i-Connect, sydd yn caniatáu i gyflogwyr y Gronfa rannu data yn fisol gyda'r awdurdod gweinyddu, yn hytrach nac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Golygai hyn fod y wybodaeth yn y system pensiynau mor gyfredol â phosib. Yn 2020/21, bwriedir trosglwyddo'r cyflogwr olaf i'r system.

Prosiect arall gyflawnwyd yn 2019/20 oedd prisiant teirblynyddol y Gronfa Bensiwn. Cafwyd canmoliaeth gan yr Actwari fod ansawdd y data o safon uchel. Ar ddiwedd y prisiant, nodwyd gwellhad yn sefyllfa ariannu'r Gronfa - cynnydd o 91% ar 31 Mawrth 2016, i 108% ar 31 Mawrth 2019.

Cynnydd Prisiant Cronfa Bensiwn Gwynedd




Yn sgil yr argyfwng Covid-19, ar 31 Mawrth 2020 roedd gwerth y Gronfa Bensiwn wedi gostwng i £1.94 biliwn, oherwydd cwmp 15.9% ym marchnadoedd ecwiti byd-eang yn chwarter olaf 2019/20. Erbyn 20 Mai 2020 roedd marchnadoedd wedi codi 'nôl, gyda gwerth Cronfa Gwynedd yn ôl i'r lefel yr oedd ar 31 Mawrth 2019 o £2.08 biliwn, ble roedd y

Gronfa wedi ei chyllido i lefel o 108%.

Trethi

Yn 2019/20, roedd casgliad Treth Cyngor (h.y. casgliad o fewn y flwyddyn) yn 96.8%, o'i gymharu â 96.6% yn 2018/19 a 97.1% yn 2017/18. Y gyfradd casglu o fewn y flwyddyn yw'r dangosydd perfformiad cenedlaethol, ond dylid nodi fod rhan helaeth o'r arian sy'n ddyledus yn cael ei gasglu yn y pen draw.



Budd-daliadau


Roedd y cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais Budd-dal Tai newydd yn 2019/20 yn 15.68 diwrnod, a'r cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau Budd-dal Tai yn 4.78 diwrnod. Mae hyn yn welliant ar ffigyrau 2018/19 (19.62 & 5.51), ac hefyd yn cymharu'n ffafriol yn erbyn y ffigyrau prosesu cenedlaethol gyhoeddwyd gan y DWP, sef 17 diwrnod (ceisiadau newydd) a 6 diwrnod (newidiadau).

Yn ychwanegol, rydym wedi cynorthwyo 1,737 o deuluoedd trwy gymorth o'r Gronfa Taliadau Tai Dewisol (DHP), sy'n gymorth ychwanegol tuag at dalu rhent. Drwy hyn, rydym wedi gallu cynorthwyo nifer sylweddol o denantiaid Gwynedd i aros yn eu cartref presennol neu i symud i eiddo newydd.

Incwm

Mae'r Gwasanaeth Incwm yn prosesu derbyniadau arian a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon. Llwyddodd

y gwasanaeth i gasglu 94.98% o'r anfonebau a godwyd gan y Cyngor yn ystod 2019/20, o'i gymharu â 94.64% yn 2018/19. Roedd y gyfradd gasglwyd yn brydlon (h.y. taliad wedi ei dderbyn o fewn y chwarter) yn gyson oddeutu 89% trwy'r flwyddyn. Mae'r Gwasanaeth Incwm yn gweithredu'n sensitif i amgylchiadau pobl trwy gytuno trefniant talu gyda rhai dyledwyr.



Technoleg Gwybodaeth

Mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) yn darparu a chefnogi technoleg o bob math i helpu pobl Gwynedd i gael mynediad rhwydd at wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor, ac i staff weithio'n effeithlon.

Mabwysiadwyd Strategaeth TG yn 2016 ac mae gweithredu'r strategaeth wedi galluogi'r gwasanaeth i ddatblygu ac arloesi wrth ddarparu cefnogaeth i wasanaethau'r Cyngor. Yn sgil argyfwng Covid-19, bydd angen gogwydd gwahanol ar y strategaeth TG newydd a byddwn yn datblygu strategaeth ddigidol i gefnogi adferiad yn ystod ac wedi'r pandemig.

Cyn yr argyfwng, roedd uchafswm o 138 defnyddwyr yn gweithio'n hyblyg drwy VPN (Technoleg er mwyn gallu gweithio'n ddiogel dros y we y tu allan i'r swyddfa). Erbyn 30 Mawrth 2020, bu i'r nifer gynyddu i 1,292 o ddefnyddwyr VPN, gyda'r angen i staff y Cyngor weithio o adref am gyfnod

amhenodol. Dosbarthwyd dros 30 pwynt diwifr fel gall staff ddefnyddio'u cyfrifiadur a'u ffôn desg o gartref, gan gynnwys galluogi i Galw Gwynedd weithredu'n llawn o adref yn ystod yr argyfwng. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i barhau i ddarparu gwasanaethau ac ymateb i bobl Gwynedd yn ystod yr argyfwng.


Yn yr un modd, cynorthwywyd nifer sylweddol o staff i llwytho systemau (e-bost ac eraill) ar eu dyfeisiadau personol, gan gynyddu eu hyblygrwydd i weithio o unrhyw le.

Gyda swyddogion ac aelodau ethoeldig yn gweithio gartref, daeth diwedd disymwth ar gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Roedd ambell swyddog yn defnyddio 'Skype for Business' a chyflwmwyd y gwaith o fudo i 'Microsoft Teams', sydd bellach yn gonglfaen ar gyfer cyswllt a chyfarfodydd swyddogion y Cyngor.

Mae sawl darpariaeth arall wedi'u cyflwyno gan y Gwasanaeth TG yn 2019/20 i alluogi gwasanaethau'r Cyngor i ddefnyddio technoleg yn fwy effeithiol ac effeithlon. Datblygwyd system Rheoli Perthynas a Chwsmeriaid ar gyfer yr Adran Ymgynghoriaeth, sydd nid yn unig yn gwella effeithlonrwydd yr Adran ond hefyd wedi osgoi'r gost o gaffael system allanol. Ymysg gwelliannau i wasanaethau eraill, mae'r prosiect 'Rheoli Incwm Sefydliadau' am arwain at wella effeithlonrwydd o fewn y Gwasanaeth Incwm, yn ogystal â chyflawni arbedion.

Newid amlwg sy'n parhau yw datblygu gwasanaethau ar-lein a hunan-wasanaeth er mwyn cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor. Yn ystod 2019/20 cyflwynwyd tocyn cludiant myfyrwyr electronig o fewn 'ap Gwynedd', ac mae ap ar gyfer athrawon llanw yn cael ei ddatblygu.

Un o flaenoriaethau'r Gwasanaeth TG yw sicrhau fod gwefan y Cyngor ar gael i'r cyhoedd, a rhwydwaith y Cyngor ar gael i'w staff. Mae perfformiad y gwasanaeth yn yr agweddau yma wedi bod yn gyson, gyda'r rhwydwaith ar gael 99.99% o'r amser yn 2019/20.



Nid heb waith caled y llwyddwyd i gyrraedd safon 'Aur' yn genedlaethol ar safon a glendid data a geir yng nghofrestr Tir ac Eiddo Gwynedd, a byddwn yn parhau i weithio'n ddiwyd i gadw'r safon yn ystod 2020/21.

Adran Cefnogaeth Corfforaethol

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Cyswllt Cwsmer

Bu 2019/20 eto'n flwyddyn lwyddiannus o ran cynyddu'r nifer o wasanaethau sydd ar gael i drigolion Gwynedd drwy hunanwasanaeth ar-lein. Mae'n bosib i bobl Gwynedd gael mynediad i nifer o wasanaethau ar amser sy'n gyfleus iddynt, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, tra'n cynnig ffordd fwy cost effeithiol o gysylltu â'r Cyngor am wasanaeth.



Erbyn hyn, mae trigolion a busnesau Gwynedd yn gallu cysylltu ynghylch 27 o faterion priffyrdd, archebu a thalu am docyn parcio, talu am ginio ysgol, a chreu cyfri hunanwasanaeth ar gyfer busnesau. Am y tro cyntaf eleni, gellir arddangos bod dros 50% o geisiadau am wasanaeth mewn 4 maes yn cael eu cyflwyno ar-lein gydag 84% o'r ceisiadau i adnewyddu tocyn parcio yn cael eu cyflwyno yn y modd hwnnw. Yn ystod 2019/20 mae 9,641 o drigolion wedi agor cyfrif hunanwasanaeth o'r newydd.



Rydym yn darparu gwasanaeth ffôn drwy Galw Gwynedd, ond mae'r perfformiad wedi gostwng o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Amser ateb galwad ffôn yn Galw Gwynedd



Rydym yn ymwybodol bod lle i adennill tir yn y cyswllt hwn ac wedi cytuno ar drefniadau diwygiedig ar gyfer y dyfodol er mwyn gwella'r perfformiad. Un o'r camau a gymerwyd eisoes yw cyflwyno gwasanaeth sgwrs ar-lein ac mae cynllun i ymestyn y ddarpariaeth honno yn fuan. Mae 50% o'r trigolion a gysylltodd â Galw Gwynedd yn rhoi sgôr o 10 allan o 10 am y gwasanaeth gyda chanran uchel o'r rhesymau am sgôr is oherwydd nad oes dilyniant gan wasanaethau unigol i'r cyswllt gwreiddiol.

Cyfathrebu

Mae cynnal deialog ddwyffordd gyda phobl Gwynedd er mwyn i ni rannu gwybodaeth am wasanaethau'r Cyngor, ac i glywed barn ein trigolion, yn flaenoriaeth. Cynhaliwyd 8 ymarferiad i gasglu barn pobl Gwynedd am wahanol wasanaethau yn ystod 2019/20 gyda 2,200 o unigolion yn manteisio ar y cyfleoedd yma i leisio barn. Llwyddwyd hefyd i recriwtio 654 o aelodau i'r Panel Trigolion ar ei newydd wedd. Erbyn Mawrth 2020 roedd 29,500 o unigolion yn derbyn clipiau fideo, delweddau digidol a negeseuon yn ddyddiol drwy gyfrifon Twitter, Facebook ac Instagram y Cyngor. Yn ogystal fe wnaeth gwefan y Cyngor dderbyn 1,925,832 o ymweliadau unigol dros y flwyddyn.

Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau

Llwyddwyd i gynnal perfformiad o fewn

y gwasanaeth gyda 93% o gofrestrïadau marwolaethau yn cael eu cofrestru o fewn 5 diwrnod sy'n rhagori ar ddisgwyliadau'r Llywodraeth o 90%.

Derbyniwyd adroddiad cadarnhaol iawn ar berfformiad y Gwasanaeth gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol ac mae'r gwaith o sefydlu trefniant apwyntiadau ar-lein wedi'i gyflawni gyda'r bwriad o gyflwyno'r ddarpariaeth honno ym misoedd cyntaf 2020/21.

Cefnogi Busnes y Cyngor

Yn ystod 2019/20 mabwysiadwyd Gynllun Cydraddoldeb ar gyfer 2020-24 sydd yn adlewyrchu'r flaenoriaeth y dymuna'r Cyngor ei roi i'r maes yma, ac sy'n adnabod gwaith penodol i ganolbwyntio arno dros gyfnod y Cynllun.


Darperir cefnogaeth i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn sy'n ceisio sicrhau bod darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio er mwyn gwella lles trigolion. Yn dilyn cyhoeddi Cynllun Llesiant mae'r Bwrdd wedi cadarnhau y trefniadau cyflawni ac yn gweithredu ar raglenni gwaith er mwyn cyfrannu tuag at yr amcanion llesiant a'r meysydd blaenoriaeth.

Ymchwil a Gwybodaeth

Rydym yn ymwybodol iawn bod yr wybodaeth sydd ar gadw gennym am bobl ac adnoddau yn ddata sensitif a gwerthfawr.

Bu cynnydd bychan, ond cyson, yn y nifer o ddigwyddiadau gwybodaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae cynlluniau yn eu lle er mwyn tynnu sylw a phwysleisio pa mor allweddol yw diogelu gwybodaeth ar draws adrannau'r Cyngor.

Nifer digwyddiadau gwybodaeth lle mae gwybodaeth am unigolyn wedi ei ddwyn/colli/mynd i'r cyfeiriad anghywir




Ein blaenoriaeth yw parhau i sicrhau fod pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddiogelu data, gan ail-gynnig hyfforddiant yn ôl yr angen, fel na fydd achosion tebyg yn digwydd i'r dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn mae'r nifer o geisiadau gan unigolion sy'n dymuno gweld gwybodaeth amdanynt eu hunain (ceisiadau diogelu data) wedi cynyddu eto i 66. Er bod cynnydd pellach yn y nifer o geisiadau a dderbynnir, mae'r cyfartaledd amser ar gyfer ymateb i'r ceisiadau hyn wedi gostwng o 40 i 28 diwrnod, sy'n cyd-fynd efo'r gofyn i ateb o fewn yr amserlen ddisgwyliedig sef 1 mis calendr.

Ar ben hynny cafwyd 1,018 o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn ystod y flwyddyn. Bu i'r gyfradd ymateb yn brydlon ostwng fodd bynnag ac roedd hynny yn bennaf oherwydd y nifer ceisiadau a gyflwynwyd ar gyfer un Gwasanaeth.

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth - canran atebwyd o fewn 20 diwrnod gwaith ar draws y Cyngor



Bu i swyddogion y Gwasanaeth gymryd rhan flaenllaw yn yr ymdrech lwyddiannus i gael y Swyddfa Ystadegau Gwladol i newid y cwestiwn grŵp ethnig yn holiadur Cyfrifiad 2021 tra bo 'Proffil Ardaloedd Gwynedd', sef teclyn sy'n dal gwybodaeth am ardaloedd bychain ar draws Gwynedd (180 o wahanol ddarnau o wybodaeth) wedi ei ddatblygu gennym i helpu gwasanaethau.

Ymhellach, cwblhawyd arolwg o stoc gwelyau twristiaeth Gwynedd, fydd yn helpu'r Adran Economi a Chymuned i gefnogi'r sector, a chael mwy o adnodd i Wynedd er mwyn ymateb i'r pwysau ar wasanaethau sy'n deillio o bresenoldeb ymwelwyr.

Prynu

Yn ychwanegol at y gwaith ar y prosiect Blaenoriaeth Gwella 'Cadw'r Budd yn Lleol' bu'r Gwasanaeth Caffael hefyd yn cydweithio gydag adrannau ar draws y Cyngor er mwyn gosod cytundebau a threfniadau yn eu lle sydd wedi rhoi'r cyfle iddynt arbed arian. Yn ystod 2019/20 mae cyfleoedd wedi eu hadnabod er mwyn arbed cyfanswm o £425,115.

Democratiaeth a laith



Pwrpas y Gwasanaeth Democratiaeth yw cefnogi Cynghorwyr er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau a gweithredu er lles trigolion Gwynedd. Ar gyfer cyfnod 2019/20 bu i'r canran rhaglenni pwyllgorau sy'n

cael eu cyhoeddi o fewn yr amserlen (o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod) ostwng i 92% o'i gymharu â 97% yn 2018/19. Mae gwaith gydag awduron adroddiadau yn parhau er mwyn gwella'r perfformiad yma.

Mae safon gwaith yr Uned Gyfieithu yn parhau i gael ei werthfawrogi, gyda 98.5% o'r holiaduron bodlonrwydd a gwblhawyd yn sgorio'r gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig yn 5 allan o 5. Mae'r prosiect caniatáu mynediad o bell i gyfarfodydd y Cyngor wedi symud yn ei flaen yn sylweddol ar ddiwedd 2019/20 gyda'r rhagolygon y bydd cyfarfodydd ar sail rhithiol yn dod yn fwyfwy cyfarwydd o fewn y Cyngor i'r dyfodol.

Cynhaliwyd ymgyrch i godi proffil a hyrwyddo gwaith "Hunaniaith" (Menter Iaith Gwynedd) ar y cyfryngau cymdeithasol. Sefydlwyd trefniadau o'r newydd ar gyfer Bwrdd Rheoli'r Fenter a threfnwyd ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn ennyn barn y cyhoedd ar yr hyn y gellid ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein cymunedau.

Adnoddau Dynol

Rydym yn falch iawn bod y newidiadau a wnaethpwyd yn ystod 2018/19 eto wedi golygu bod isafswm cyflog o fewn y Cyngor o fis Ebrill 2020 wedi codi i £9.43 yr awr. Mae hyn yn cymharu ag £8.72 ar gyfer y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r £9.30 yr awr sy'n cael ei gydnabod fel y Gwir Cyflog Byw gan y Sefydliad Cyflog Byw.

Er i ni weld cynnydd yn nifer diwrnodau salwch fesul aelod o staff yn ystod 2019/20 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, rydym yn parhau i fod ymysg y cynghorau sydd â'r lefel isaf o absenoldebau salwch.

Nifer o ddyddiau a gollwyd y pen ar gyfartaledd o ganlyniad i absenoldeb salwch



2015/16 - 8.44

2016/17 - 9.00

2017/18 - 8.72

2018/19 - 9.45

2019/20 - 9.78

Gwasanaeth Cefnogol

Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn darparu cymorth gweinyddol i staff y Cyngor. Mae'r gwaith o gyflwyno system Hunanwasanaeth i staff sydd heb gyfrif TG wedi derbyn blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn. Golyga hyn bod gan reolwyr fynediad hwylus at statws DBS staff sydd mewn swyddi rheoledig, bod modd derbyn slip cyflog yn electroneg yn ogystal â derbyn gwybodaeth yn fwy hwylus ac yn gynt nag yn y gorffennol. Bellach mae 71% o staff y Cyngor yn fyw ar y system Hunanwasanaeth gyda gwaith pellach i ymestyn y nifer yma yn ystod 2020/21.

Dysgu a Datblgu'r Sefydliad




Mae'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn cynnig cefnogaeth dysgu a datblygu i staff ac aelodau etholedig y Cyngor. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn arwain ar gynlluniau ar gyfer hyfforddeion a

phrentisiaethau yn ogystal â bod yn flaenllaw yn cefnogi diwylliant Ffordd Gwynedd y Cyngor. Cynhaliwyd 80 o weithdai i'r perwyl hwnnw yn ystod y flwyddyn ar ben yr hyfforddiant sy'n ffurfio rhan o'r rhaglen waith blyneddol.

Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Mae nifer y damweiniau RIDDOR sydd angen eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi gostwng eleni o'i gymharu a'r llynedd, ond roedd ffigwr y llynedd yn sylweddol uwch na'r dair blynedd flaenorol. Un o'r prif resymau am hyn yw'r cynnydd sylweddol sydd wedi bod mewn anafiadau symud a thrin ac mae hyn yn destun hyfforddiant pellach o fewn un Gwasanaeth yn benodol.

Nifer damweiniau RIDDOR sydd wedi eu hadrodd



Er mwyn sicrhau fod ein trefniadau iechyd a diogelwch mor gadarn ag y mae modd iddynt fod, mae'r Uned yn parhau i gynnal rhaglen o archwiliadau ac yn gwneud asesiad o unrhyw wendidau sy'n bodoli o fewn yr adrannau unigol ac yn trafod y gwendidau hynny gyda'r penaeithiaid perthnasol.

Blaenoriaeth Lleol

Roedd edrych ar y posibilrwydd o gydweithio gyda Phartneriaeth Penllyn er mwyn trosglwyddo cyfrifoldeb dros adnoddau o fewn y gymuned er mwyn eu galluogi i ddefnyddio incwm i gynnal gwasanaethau lleol wedi ei adnabod fel blaenoriaeth yn ardal Penllyn. Mae trafodaethau wedi eu cynnal a byddant yn parhau er mwyn ceisio datblygu model amgen ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb dros yr adnoddau o fewn y gymuned.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu gwasanaeth cyfreithiol cyflawn i holl adrannau'r Cyngor. Er mwyn creu incwm rydym hefyd yn darparu'r gwasanaeth i gleientiaid allanol. Rydym yn derbyn adborth cadarnhaol cyson, gydag arolwg boddhad cwsmeriaid 2019/20 yn dangos bod 86% o gleientiaid yn nodi eu bod yn hollol fodlon (sgôr o 10 allan o 10) gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Rydym yn cadw llygaid cyson ar y lefel perfformiad a'r rhesymau am briodoli sgôr is na 10/10 gan ymateb i negeseuon sydd yn deillio o'r data. Mae'r wybodaeth wrth gwrs yn cyfrannu at y drefn ar gyfer rheoli a monitro ein perfformiad.

Holiadur Bodlonrwydd Cwsmeriaid - sgor 10 allan o 10



Un ffactor cyffredin y gwyddom amdano yw bod adeiladu gwell dealltwriaeth gyda chleientiaid ynglŷn ag ardrawiad ffactorau megis prosesau cyfreithiol allanol ar amserlenni disgwylidig weithiau yn gyfrwng i esbonio yr hyn sydd yn ymddangos fel oediad ar ran y Gwasanaeth.



Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am gefnogi y Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadau drwy weinyddu holl etholiadau'r sir a'r Gofrestr Etholwyr. Yn ystod 2019/20 rydym wedi gweinyddu Etholiad Senedd Ewrop a'r Etholiad Senedd

DU nad oedd wedi eu rhaglennu, ynghyd ac is etholiadau Cyngorau Cymuned.

Gan fod Cyngor Gwynedd yn awdurdod lletya ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru bu'r Swyddog Monitro yn cefnogi sefydlu'r Cyd-Bwyllgor a'i drefn llywodraethu ynghyd â gwaith ar y Cynllun Twf yn arwain at arwyddo Penawdau Telerau a pharatoi ar gyfer y camau nesaf.

Fel rhan o waith y Pwyllgor Safonau cychwynnwyd ar raglen o sesiynau hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned ar sail darparu hyfforddwr yn hytrach na threfnu cwrs. Fodd bynnag, oherwydd yr argyfwng Covid-19, er cynnal y peilot cyntaf ni fu modd symud y rhaglen ymlaen.

Yn ystod y flwyddyn cychwynnwyd ar y gwaith o baratoi ar gyfer ehangu etholfraint etholiadau Senedd a Llywodraeth Leol yng Nghymru gan sicrhau arian grant gan y Llywodraeth ar gyfer cynllun hyrwyddo.

Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu swyddogaeth statudol yn cefnogi Gwasanaeth Crwner Gogledd Orllewin Cymru. Fel rhan o'r gwaith yna cynhaliwyd proses penodi Crwner Cynorthwyol newydd i'r ardal yn llwyddiannus.

CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|----------------------------|--|
| Dyddiad y cyfarfod: | 1af Hydref 2020 |
| Teitl yr Eitem: | Adroddiad Blynyddol Craffu 2019-20 |
| Aelod: | Y Cyngorydd Beth Lawton, Cadeirydd y Fforwm Craffu |
| Swyddog Cyswllt: | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) |

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn yr adroddiad.

CEFNDIR A RHESYMEG

1. Yn unol â'r cyfansoddiad, fe gyflwynir adroddiad i gyfarfod o'r Cyngor yn ymhelaethu ar y gwaith craffu a wnaed yn ystod y flwyddyn.
2. Mae'r adroddiad sydd yn rhoi trosolwg o'r gwaith craffu a wnaed yn ystod 2019-20, wedi ei rannu o dan y penawdau yma:
 - Adolygiad o Drefniadau Craffu
 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
 - Craffu Arbedion
 - Materion Craffu
 - Ymchwiliadau Craffu
 - Herio Perfformiad
 - Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2019/20
3. Gyda phwyslais cynyddol yn cael ei roi ar asesu effaith gwaith craffu, canolbwyntiwyd ar yr eitemau craffu lle ychwanegwyd gwerth drwy'r gwaith craffu. Mae rhestr o'r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad blynyddol.
4. Am y tro cyntaf, crëwyd fersiwn cryno o'r adroddiad. Lluniwyd y fersiwn cryno gan ymdrechu i ddefnyddio Cymraeg Clir gyda'r bwriad iddo gyflwyno gwaith craffu 2019-20, mewn modd hawdd i'w ddarllen a chryno.

ATODIADAU:

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Craffu 2019-20
Atodiad 2 – Fersiwn Cryno

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

Swyddog Monitro:

Mae'r gyfundrefn Craffu statudol yn rhan greiddiol o fframwaith trefn Cabinet. Drwy adolygu gwaith y Pwyllgorau Craffu ynghyd â'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu rhoddi'r cyfle i'r Cyngor gael ymwybyddiaeth o'r gwaith yma a'r math o faterion sydd wedi bod yn destun craffu. Rwy'n croesawu'r adroddiad.

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf wedi cynorthwyo'r awdur i baratoi agweddau o'r adroddiad yma (yn arbennig y wybodaeth a'r ffigyrau o dan 'Craffu Arbedion', a gwaith craffu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu) ac rwy'n cadarnhau'r cynnwys perthnasol.



ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2019-20

Rhagair

Yn ystod y flwyddyn 2019-20, cynhaliwyd adolygiad trylwyr o'n trefniadau craffu. Fe aeth amser sylweddol swyddogion a chynghorwyr i lunio ac ystyried opsiynau posib ar gyfer craffu i'r dyfodol. A hynny er mwyn sicrhau bod gwaith craffu yn ychwanegu gwerth gan gyfrannu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd. Penllanw'r gwaith yma oedd cyflwyno adroddiad gerbron cyfarfod y Cyngor Llawn. Ymhelaethir ar y broses, yr ystyriaethau, yr opsiynau posib a'r penderfyniad o ran ein trefniadau craffu i'r dyfodol, yn yr adroddiad yma.

Law yn llaw a'r adolygiad yma, roedd y gwaith craffu yn parhau gydag eitemau yn cael eu hystyried mewn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol, ymchwiliadau craffu yn cael eu cynnal, aelodau craffu yn mynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Aelodau Cabinet a sesiynau anffurfiol rhannu gwybodaeth ar bynciau ar gyfer aelodau pwyllgorau craffu penodol.

Mae'r adroddiad yma yn crynhoi'r gwaith craffu a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar y prif waith craffu ac ymhelaethu ar eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol o'r Pwyllgorau Craffu - Addysg ac Economi, Cymunedau a Gofal ynghyd â'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (sydd gyda rôl i graffu materion corfforaethol yn ogystal â'i rolau archwilio a llywodraethu).

Gellir gweld rhestr o'r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn mewn atodiad i'r adroddiad yma.

Ni lwyddwyd i gwblhau'r rhaglen waith craffu oherwydd pandemig Covid-19, diogelwch pawb ar yr adeg yma sydd bwysicaf, ac fe gaiff unrhyw fater sydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ei graffu yn y dyfodol.

Hoffwn nodi fy ngwerthfawrogiad o gyfraniad a gwaith y cadeiryddion ac is-gadeiryddion, a'r holl aelodau craffu a oedd wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn. Mae ein diolch yn fawr hefyd i drigolion Gwynedd, Aelodau Cabinet, asiantaethau eraill a swyddogion perthnasol sy'n ein cefnogi i geisio sicrhau cyrraedd ein nod.



Cynghorydd Beth Lawton

Cadeirydd y Fforwm Craffu

Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu 2019-20

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi



Cynghorydd Paul Rowlinson



Cynghorydd Elwyn Jones

Pwyllgor Craffu Cymunedau



Cynghorydd Elfed P. Roberts



Cynghorydd Gethin Glyn Williams

Pwyllgor Craffu Gofal



Cynghorydd Dewi Wyn Roberts



Cynghorydd Beth Lawton

Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu



Cynghorydd John Brynmor Hughes



Cynghorydd Angela Russell

Cynnwys

| | |
|--|---------|
| Adolygiad o Drefniadau Craffu | 4 - 5 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 6 |
| Craffu Arbedion | 7 - 10 |
| Materion Craffu | 11 - 16 |
| Ymchwiliadau Craffu | 17 - 20 |
| Herio Perfformiad | 21 - 22 |
| Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2019/20 | 23 |

Atodiad

| | |
|--|---------|
| Rhestr o'r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn | 24 - 26 |
|--|---------|

Adolygiad o Drefniadau Craffu

Cynhaliwyd adolygiad trylwyr o'n trefniadau craffu a oedd yn eu lle ers Mai 2017. O dan y drefn mewn lle, roedd tri Phwyllgor Craffu ynghyd â rôl craffu materion corfforaethol gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Gydag ymchwiliadau craffu yn cael eu cynnal, hefo oddeutu pump aelod yn ymchwilio i fater penodol mewn cyfres o gyfarfodydd anffurfiol, cyn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu gydag argymhellion er sylw Aelodau Cabinet.

Y rhesymeg tu ôl i gynnal yr adolygiad oedd:

- ein bod yn derbyn sylwadau nad oedd craffu yn ychwanegu gwerth, fod ein trefniadau cyfredol yn araf yn dwyn ffrwyth a theimlad y gellid gwneud pethau yn well
- bod hyd at 50% o eitemau'r pwyllgorau craffu yn eitemau er gwybodaeth i aelodau'r pwyllgor craffu penodol
- bod seddi gweigion ar nifer o'n pwyllgorau craffu (dros y misoedd diwethaf) gan fod aelodau ddim yn awyddus i fod yn eistedd ar bwyllgor craffu
- bod ceisio gwelliant parhaus trwy adolygu a herio ein trefniadau yn beth da, ein bod wedi addo gwneud hyn wrth i'r trefniadau newydd gael eu mabwysiadu yn Mawrth 2017 a bod cefnogaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru i hynny.

Sefydlwyd gweithgor o aelodau a swyddogion i adolygu'r trefniadau. Aelodaeth y gweithgor oedd y Cynghorwyr Simon Glyn, Nia Jeffreys, Beth Lawton, Dyfrig Siencyn ynghyd ac Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant), Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democraidd), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned) a Dilwyn Williams (Prif Weithredwr).

Daeth y gweithgor i'r casgliad y dylid diffinio pwrpas craffu er mwyn sicrhau cyd-dealltwriaeth ynghylch pwrpas craffu yng Ngwynedd. Nodir y diffiniad isod:

CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

Mae'r diffiniad wedi ei selio ar arfer gorau'r Ganolfan Graffu Gyhoeddus (*CfPS – Centre for Public Scrutiny*). Nid yw'n ail-ddiffinio'r gofyn statudol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, ond yn hytrach yn cadarnhau ethos Craffu yng Ngwynedd.

Wrth fynd ati i lunio opsiynau posib ar gyfer gwella'r trefniadau craffu a sicrhau bod y craffu yn ateb y pwrpas, rhoddodd y gweithgor sylw i'r prif ystyriaethau a ganlyn:

- Trefniadau rhannu gwybodaeth gyda'r holl aelodau
- Manteision ac anfanteision trefniadau craffu ffurfiol mewn pwyllgor
- Manteision ac anfanteision ymchwiliadau
- Adnoddau ac amser

Ffrwyth gwaith y gweithgor oedd tri opsiwn posib ar gyfer ein trefniadau craffu sef:


1. Tri Phwyllgor Craffu (Addasu'r trefniadau cyfredol)
2. Un Prif Bwyllgor Craffu
3. Dau Bwyllgor Craffu

Y cam nesaf oedd cael barn holl aelodau'r Cyngor ar yr opsiynau oedd wedi eu datblygu. Cynhaliwyd dau weithdy, gofynnwyd i'r aelodau am eu barn o ran manteision ac anfanteision yr opsiynau. Yn ogystal, gofynnwyd i'r Grŵp Rheoli Corfforaethol (cyfarfod Penaethiaid Adran) am eu barn.

Yn dilyn y trafodaethau uchod, ystyriwyd y sylwadau yng nghyfarfod y Fforwm Craffu (cyfarfod o Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu) ar 24 Hydref 2019. Gwahoddwyd aelodau'r gweithgor i'r cyfarfod er mwyn trafod y sylwadau a rhoi sylw i faterion penodol, megis meysydd cyfrifoldeb y Pwyllgorau Craffu, rôl y Fforwm Craffu, niferoedd aelodau ar bwyllgorau a nifer cyfarfodydd fesul opsiwn.

Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 28 Tachwedd 2019 ac yna gerbron y Cyngor ar 19 Rhagfyr 2019 er penderfyniad ar y trefniadau i'r dyfodol. Gellir cael mynediad at yr adroddiad i'r Cyngor Llawn yma - [Eitem 12 - Adolygiad o Drefniadau Craffu](#)

Penderfynwyd yng nghyfarfod y Cyngor i barhau gyda'r trefniadau cyfredol, sef tri Phwyllgor Craffu gydag addasiadau.



Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn gofyn i gyrff cyhoeddus ddylunio gwasanaethau sy'n gwarchod cenedlaethau'r dyfodol yn y tymor hir. Mae'n gosod dyletswydd i wella llesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol pobl Cymru.

Wrth graffu mae aelodau yn ystyried y 5 ffordd o weithio sydd wedi eu nodi yn y Ddeddf:



Hirdymor

Cydbwysu anghenion tymor byr gyda rhai hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol.



Atal

Atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol, yn hytrach nag ymateb i broblemau.



Integreiddio

Sut all amcanion llesiant y Cyngor effeithio ar y nodau llesiant cenedlaethol a amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill (e.e. bwrdd iechyd neu heddlu lleol).



Cydweithio

Gweithio gydag eraill er mwyn cyflawni'r amcanion llesiant.



Cynnwys

Cynnwys pobl Gwynedd wrth geisio gwireddu cynlluniau a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.

Mae'n angenrheidiol bod aelodau'n mireinio sgiliau craffu gan roi ystyriaeth i'r hyn sydd yn ofynnol ar gyrff cyhoeddus yn rhinwedd y Ddeddf. Bwriedir atgoffa aelodau yn rheolaidd ar ofynion y Ddeddf er mwyn gallu sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r Ddeddf.

Craffu Arbedion

Dros y blynyddoedd diwethaf, cymeradwywyd gwerth £32 miliwn o arbedion gan y Cyngor. Gwireddwyd £28.4 miliwn o'r cynlluniau arbedion. Gyda'r ansicrwydd ariannol yn parhau gofynnwyd i Adrannau'r Cyngor i adnabod £2 miliwn o arbedion ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21.

Cyflwynwyd cynlluniau arbedion posib yr Adrannau gerbron cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2019.

Pwyllgor Craffu Gofal 14/11/19

Adran Plant a
Chefnogi
Teuluoedd
£112,830

Yn ystod y drafodaeth, mynegwyd pryder gan nifer o aelodau y byddai'r toriad o £30,000 i Cymorth i Ferched yn arwain at fwy o gostau i'r Cyngor yn y pen draw a phwysleisiwyd pwysigrwydd gwneud asesiad llawn o'r ardrawiad posib' ar y Cyngor.

Adran Oedolion,
lechyd a Llesiant
£488,270

Mynegwyd pryder yn gyffredinol ynglŷn ag effaith y cynigion arbedion ar drigolion bregus y sir a phwysleisiwyd pwysigrwydd monitro'r effaith.

Mynegodd aelodau bryder neilltuol ar y cynnig i dorri dwy swydd Gweithiwr Cefnogol lechyd Meddwl (£42,000) ynghyd â'r cynnig i leihau'r gyllideb ar gyfer cefnogi gofalwyr, yn cynnwys rhai cynlluniau ysbaid (£19,000).

Adran Tai ac
Eiddo
£59,420

Llongyfarchwyd yr Adran ar eu dull o ganfod arbedion drwy fewnoli elfennau o'r gwaith a chroesawyd eu bwriad i edrych ar bob cyfle tebyg yn y dyfodol.

Nodwyd yng nghydestun y cynlluniau na wireddwyd, bod yr Adran yn chwilio am gynlluniau eraill.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo cynigion yr Adran Tai ac Eiddo i gwrdd â'u cyfran o arbedion perthnasol fel rhai sydd gydag ardrawiadau lleiaf ar drigolion.
- (b) Derbyn yr adroddiadau ar gynigion yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion, lechyd a Llesiant i gwrdd â'u cyfran o arbedion perthnasol a gofyn i'r Cabinet ystyried sylwadau'r pwyllgor o ran ai'r rhain sydd wirioneddol yn cael yr ardrawiad isaf cyn cymeradwyo'r arbedion hynny.

Adran Economi a
Chymuned
£66,910

Nodwyd, er y byddai'r cynigion yn cael rhywfaint o effaith ar drigolion Gwynedd, bod yr Adran wedi llwyddo i leihau'r effaith gymaint â phosib

Adran Addysg
£120,030

Bu trafodaeth drylwyr, lle canolbwyntiwyd ar y cynigion arbedion yn ymwneud â'r ysgolion.

Mynegwyd cryn bryder gan aelodau ynglŷn â dau gynnig arbed yn benodol, sef 'Integreiddio – Cynllun Datblygu Unigol (CDU)/Datganiadau' (£112,530) a chynyddu'r gymhareb disgybl / athro yn y fformiwla dyrannu (£463,900).

Wedi derbyn rhywfaint o esboniad pellach am yr hyn y byddai'r naill gynllun a'r llall yn ei olygu i ysgolion y sir, nodwyd y byddai'r naill yn golygu llai o gymorth i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol sydd ddim yn destun CDU / Datganiad a'r llall yn arwain at leihau nifer athrawon a / neu leihau niferoedd staff ategol, gan effeithio ar safonau addysgol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg fod ystyriaeth ddwys wedi'i rhoi i'r holl opsiynau. Ni allai wneud argymhellion yn unman arall a'r cynlluniau gerbron oedd y rhai fyddai'n cael lleiaf o ardrawiad ar blant.

"Byddai'r toriadau dan sylw ar gyllidebau ysgolion ac addysg arbennig yn cael effaith andwyol ar addysg plant"

Aelod Craffu

PENDERFYNWYD:

- (a) Derbyn mai cynigion yr Adran Economi a Chymuned i gwrdd â'u cyfran o'r arbedion perthnasol yw'r rhai sydd yn cael ardrawiad lleiaf ar drigolion Gwynedd.
- (b) Nodi'r adroddiad ar gynigion yr Adran Addysg ac Ysgolion i gwrdd â'u cyfran o'r arbedion perthnasol, a'r sylwadau cryf sydd wedi'u gwneud, chyfleu hynny i'r Cabinet.

Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 28/11/19

Adran
Cefnogaeth
Gorfforaethol
£61,340

Adran Cyllid
£58,930

Tîm Rheoli
Corfforaethol a
Chyfreithiol
£16,800

Ymatebwyd i gwestiynau a sylwadau'r aelodau yn y cyfarfod.

Roedd aelodau'r Pwyllgor o'r farn bod y cynigion yn rhai synhwyrol ac yn croesawu nad oedd yr arbedion yn creu effaith ar drigolion Gwynedd.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo cynigion yr adrannau i gwrdd â'u cyfran o arbedion perthnasol.

Pwyllgor Craffu Cymunedau 5/12/19

Adran
Amgylchedd
£96,560

Adran Priffyrdd a
Bwrdeistrefol
£281,190

Adran
Ymgynghoriaeth
£29,670

Nodwyd bod yr Adrannau yn cynnal trafodaethau traws adrannol i geisio adnabod cyfleoedd o gydweithio o fewn meysydd cyffredin fel bod modd osgoi dyblygu gwaith.

Mewn ymateb i awgrym ynglŷn â'r gallu i leihau / torri i lawr costau contractio allanol fel bod modd i gwmnïau llai / lleol gystadlu am y gwaith (o dan y rhiniog), derbyniwyd y gellid gwneud mwy i gadw'r budd yn lleol a rhoi cyfleoedd i fusnesau lleol ymgeisio am y gwaith.


Croesawyd yr ymarfer o gynyddu'r adnoddau o fewn unedau Ymgynghoriaeth Gwynedd i alluogi'r Adran i gynyddu incwm sydd o ganlyniad yn cadw pobl yn gyflogedig mewn swyddi sgiliau uchel o fewn y Sir drwy gyfrwng y Gymraeg.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo cynigion yr adrannau i gwrdd â'u cyfran o arbedion perthnasol.

Yn dilyn y trafodaethau yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau, ystyriodd y Cabinet yn ei gyfarfod ar [17 Rhagfyr](#) y cynigion arbedion a chyllideb y Cyngor.

Erbyn yr adeg y cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cabinet, roedd y Cyngor wedi derbyn setliad drafft 2019-20 a oedd yn well na'r disgwyl, cynnydd o 4.6%. Er bod y setliad yn cyfarch chwyddiant nid oedd yn cyfarch ariannu'r galw ychwanegol ar adrannau. Roedd tebygolrwydd y byddai bwlch ariannol o £3.5miliwn yn parhau i fod angen ei gyfarch.

Cymeradwyodd y Cabinet gwerth £1,062,320 o'r cynlluniau arbedion gan ymwrthod rhag defnyddio'r arbedion sydd wedi eu nodi isod. Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf gyllidol yn cael ei ddefnyddio i ymgynghori gyda'r holl aelodau mewn gweithdai cyllid yn Ionawr 2020.



Mabwysiadodd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2020, gyllideb ar gyfer 2020-21 a oedd yn cynnwys penderfyniad y Cabinet i weithredu £1,062,320 o arbedion ynghyd â £923,080 o gynlluniau arbedion a oedd wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol.

EFFAITH CRAFFU

Llwyddodd y gwaith craffu yma i amlygu pryderon am effaith gweithredu rhai o'r cynlluniau arbedion ar bobl Gwynedd.

Yn dilyn derbyn setliad grant gwell na'r disgwyl, roedd yn bosib i'r Cabinet beidio gweithredu ar y cynlluniau arbedion roedd yr aelodau craffu wedi eu hadnabod.

Materion Craffu

Yn y rhan yma gwelir blas o'r eitemau sydd wedi eu craffu yng nghyfarfodydd ffurfiol craffu. Gyda phwyslais ar adnabod gwerth craffu materion, canolbwyntir ar yr eitemau sydd wedi ychwanegu gwerth fwyaf. Gall craffu effeithiol wneud Aelodau Cabinet yn ymwybodol o bethau ychwanegol sydd angen eu hystyried. Gellir gweld rhestr gyflawn o'r eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn yr Atodiad i'r adroddiad yma.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn 2016 yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yw gwella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant a pum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus. Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn yn 2018, mae'n cynnwys dau amcan a chwe maes blaenoriaeth. Mae'r Bwrdd yn cydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn.


Craffwyd ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, gydag adroddiad blynyddol 2018/19 y Bwrdd ac adroddiad ar Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni'r Bwrdd yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Cymunedau.

Wrth drafod adroddiad blynyddol y Bwrdd yng nghyfarfod 4 Gorffennaf, rhai o'r sylwadau a wnaed gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau oedd:

- ❖ Newid Hinsawdd - Siom mai adweithiol oedd y gwaith yng nghyd-destun llifogydd yn hytrach nag arloesol ac uchelgeisiol.
- ❖ Cartrefi ar gyfer Pobl Leol – rhaid adnabod safleoedd yn y llefydd cywir a bod y cartrefi yn ymateb i'r angen.
- ❖ Bod angen manylion mesuryddion a cherrig milltir ar y prosiectau ynghyd a gosod amserlen gadarn yn hytrach na nodi tymor byr, canolog, hir.

Awgrymwyd wrth graffu ar [Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni'r Bwrdd](#) yr angen i gynnwys cefnogaeth i deuluoedd / gofawyr ym maes gwaith lechyd a Gofal Oedolion. Pwysleisiwyd yr angen i wneud gwaith i adnabod maes gwaith /darganfod prosiectau all gyflawni a gwneud gwahaniaeth yn y maes tlodi.

Bwriadwyd craffu adroddiad cynnydd ar gyflawni'r Cynllun Llesiant yng nghyfarfod 2 Ebrill ond nid oedd yn bosib oherwydd pandemig Covid-19. Bydd craffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn parhau yn ystod 2020-21.



Grŵp Tasg Rheoli Parcio

Derbyniwyd cais gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd i sefydlu Grŵp Tasg, i gynorthwyo'r Adran gyda'r gwaith o ddadansoddi'r amrediad opsiynau ar gyfer rheoli parcio yn wyneb yr heriau ariannol incwm o feysydd parcio yn y dyfodol. Fel rhan o'r gwaith, bwriedir

ystyried y strategaeth barcio bresennol, ynghyd â ffioedd gwahanol i drigolion, parcio ar gyfer pobl anabl, parcio i drigolion, parcio ar gyfer 'digwyddiadau', parcio ar gyfer cartrefi modur (motorhomes), gorfodaeth a manau gwefru.

Daethpwyd i'r casgliad y dylid cael cynrychiolaeth o Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Aelodau'r Grŵp Tasg sydd yn cyflawni'r gwaith, yw'r Cynghorwyr:

- Kevin Morris Jones,
- Angela Russell,
- Annwen Hughes,
- Gethin Glyn Williams.


Mae'r gwaith yn parhau ac fe adroddir ymhellach ar y gwaith yn adroddiad blynyddol 2020-21.



Llun: "freepik.com"

Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd a'r Strategaeth Iaith Uwchradd

Craffwyd adroddiadau yn manylu ar weithrediad Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd ac ar weithrediad ac effaith y Strategaeth Iaith Uwchradd.



Nod y Siarter Iaith yw arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Yn sgil llwyddiant y Siarter, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, gwelwyd ehangu'r Siarter i ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws rhanbarth y gogledd, ac yn fwy diweddar, lledaenwyd y Siarter iaith i ysgolion Cymraeg a dwyieithog ledled Cymru.

Er mwyn sicrhau dilyniant cadarn i'r Siarter iaith datblygwyd y Strategaeth Iaith Uwchradd. Un o amcanion y Strategaeth Iaith yw rhoi arweiniad clir i'r 14 ysgol uwchradd ar dechnegau a strategaethau posib all gael dylanwad cadarnhaol ar arferion iaith dysgwyr yn gymdeithasol, yn ystod oriau ysgol a thu allan iddynt. Ynghyd â edrych ar elfennau cwricwlaid o'r iaith hefyd e.e. cyfrwng pynciau.



Dyma rai o'r casgliadau yn dilyn y drafodaeth yn y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi:

- ❖ Bod neges glir gan yr aelodau i fod yn cadw troed ar y sbardun a pharhau gyda'r bwrlwm, ayb, gan ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae hynny'n benodol er mwyn sicrhau rhoi statws i'r Siarter iaith, fel rhan o'r cwricwlwm newydd (er bod peth pryder ei fod yn rhedeg ochr yn ochr, yn hytrach nag yn rhan greiddiol ohono), a hefyd er mwyn sicrhau bod statws i'r Siarter iaith fel rhan o gynlluniau pob un ysgol.

- ❖ Bod neges hefyd ynglŷn â rhannu arferion da, gan sicrhau bod hynny'n digwydd yn y cynradd a'r uwchradd yn gyffredinol, a hefyd bod angen adnabod ymarferion da mewn meysydd diddordeb newydd, lle rydym efallai angen canolbwyntio mwy ar yr ochr gwefannau cymdeithasol, y we, rhaglenni teledu ayb.
- ❖ Bod neges hefyd ynglŷn â'r gwaith sy'n ddibynol ar yr holl staff o fewn ein hysgolion ac anogaeth gref i geisio lledaenu'r neges y tu hwnt i ffiniau'r ysgol, gyda rhieni a'r gymdeithas yn fwy cyffredinol.
- ❖ Efallai bod lle i ystyried ail ymweld â'r waelodlin wreiddiol a diweddarau aelodau'r pwyllgor maes o law pan fydd astudiaeth y Llywodraeth i'r maes yn aeddfed
- ❖ Yn benodol o ran y Strategaeth Iaith Uwchradd, bod lle i ystyried ymestyn yr holiadur ar gyfer pobl ifanc hŷn (y grŵp oedran 16-18) er mwyn gweld oes yna wersi i'w dysgu, ac o ddysgu'r gwersi, addasu'r cymorth a'r gefnogaeth a'r ymyrraeth sy'n cael eu cynnig.
- ❖ Bod lle hefyd i fod yn gwthio'r gweithio gyda'r disgyblion i annog mwy o ddwyieithrwydd a bod hynny'n digwydd yn barhaus o fewn ein hysgolion gan annog disgyblion i ddilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn benodol. Hefyd, dylid sicrhau cefnogaeth i'r athrawon, i'r gweithwyr ieuenctid ac i bawb sydd ynghlwm â hyrwyddo'r Strategaeth Iaith i fod yn cynorthwyo gyda'r Strategaeth yn yr uwchradd a'r Siarter Iaith Gynradd.

Cynllun Peilot y Canolfannau Iaith

Yn 2018-19 craffwyd ar y datblygiadau ym maes canolfannau iaith cyn i'r mater gael ei drafod gan y Cabinet. Ar 2 Ebrill 2019 penderfynodd y Cabinet i weithredu cynllun peilot mewn un Ganolfan Iaith o strwythur staffio o athro a chymhorthydd er mwyn canfod ydyw yn cael effaith ar ansawdd yr addysg a chyrhaeddiad y plant.

Cafwyd cyfle i roi mewnbyn craffu unwaith yn rhagor y flwyddyn yma. A hynny, drwy gyflwyno syniadau ac awgrymiadau a allai gyfrannu at yr ymchwil y bwriedir ei gynnal i fesur effaith gweithredu'r peilot mewn un Ganolfan Iaith a mynegi barn ar y modd y bwriedir mesur effaith gweithredu'r peilot.

Croesawyd y ffaith bod y tîm sy'n gweithredu ar ran yr Adran Addysg yn dîm amlddisgyblaethol, sy'n gymysg o arbenigwyr o'r adran ac arbenigwyr allanol, ond pwysleiswyd y dylai'r adroddiad ar gasgliadau'r ymchwil gael ei gyflwyno yn enw arbenigwr allanol, er sicrhau'r elfen wrthrychol.

Croesawyd hefyd bod yna arbenigedd ieithyddol o fewn yr Adran Addysg a bod cyfuniad o ddata meintiol ac ansoddol yn yr ymchwil. Nodwyd ei fod yn allweddol sicrhau adborth gan ysgolion gan fod hyn yn allweddol i'r fethodoleg, a bod barn ysgolion, y canolfannau iaith a'r disgyblion a'u rhieni yn hollbwysig. Nodwyd, hefyd yr angen i'r fethodoleg ystyried y tymor hwy a'r effaith ar ardrowiad polisi'r Cyngor ac ar ein hysgolion yn y tymor hwy yn ogystal ag awydd yr aelodau i fod yn rhan o'r broses yn barhaus.



Cynllun Elwa o Dwristiaeth

Derbyniwyd diweddariad ar y prosiect Elwa o Dwristiaeth, sydd wedi ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor. Pwrpas y prosiect yw:

“Atgyfnerthu statws Gwynedd fel cyrchfan gynaliadwy o ansawdd rhyngwladol trwy archwilio a gweithredu'r opsiwn gorau er mwyn sicrhau bod pobl a busnesau Gwynedd yn elwa o'r twristiaid sy'n ymweld â'r Sir.”

Wrth graffu'r mater, nododd aelodau bod buddiannau yn dod i bobl Gwynedd o dwristiaeth ond bod angen cyfarch effaith gor-dwristiaeth ar y Sir. A oedd yn cynnwys yr effaith ar yr iaith, trefniadau parcio, yr effaith ar bobl leol ayyb, e.e. y cynnydd mewn Airbnb's ynghyd â ymestyn y tymor gwyliau a'r effaith ar feysydd carafanau all droi yn 'bentrefi' ychwanegol a chael effaith ar ein gwasanaethau, trefniadau cynllunio a'r iaith.

Yn dilyn trafodaethau pellach tu allan i gyfarfod Pwyllgor, trefnodd yr Adran Economi a Chymuned weithdy ar gyfer yr holl Gynghorwyr ynghyd ag aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a chynrychiolwyr o'r sector twristiaeth. Pwrpas y gweithdy oedd rhannu ac adolygu gwybodaeth twristiaeth gyfredol, rhoi gwybodaeth o'r cyd-destun polisi a chynllunio, amlygu heriau a chyfleoedd yn y sector twristiaeth yn ogystal â chael mewnbyn aelodau a chynrychiolwyr o'r sector twristiaeth i sefydlu egwyddorion ar gyfer twristiaeth yn y dyfodol.



Llun: "freepik.com"

Prosiect Gofal Cartref

Yn mis Tachwedd 2019, derbyniwyd diweddariad o'r gwaith oedd yn digwydd i sicrhau model newydd ar gyfer darpariaeth gofal cartref yng Ngwynedd. Y bwriad yw symud i fodel lle mae un darparwr i bob ardal, gyda pherthynas waith agos ac adeiladol gyda holl aelodau eraill y timau adnoddau cymunedol.

Derbyniodd achos busnes y prosiect gymeradwyaeth y Cabinet ar 23 Gorffennaf 2019, lle cytunwyd i sefydlu model newydd o ddarparu a chomisiynu gofal cartref ar sail is-ardaloedd, gan gyd-gomisiynu â'r Bwrdd Iechyd. Gofynnodd y Cabinet i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant adolygu'r model ariannol er mwyn sicrhau nad yw'n amharu ar eu gallu i gyflawni eu harbedion gan adrodd yn ôl os oes unrhyw berygl i hynny.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau craffu:-

- ❖ Bod y model newydd hwn ar gyfer darpariaeth gofal cartref yn gosod Gwynedd ar flaen y gad.
- ❖ Croesawu'r pwyslais ar gyfathrebu gyda'r gweithwyr.
- ❖ Croesawu'r cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i gyflwyno'r achos busnes i'w Bwyllgor Cyllid a Chynllunio, a mynegwyd gobaith y byddai cyd-gomisiynu'n digwydd, gan y byddai hynny'n dod â buddion i'r ddau bartner.
- ❖ Ei fod yn galonogol clywed, petai rhai darparwyr yn tynnu allan / ddim yn cyrraedd y gofynion, bod gan y Cyngor ddarparwyr mewnol o faint sylweddol fyddai'n gallu cyflogi'r staff.

Bydd y Pwyllgor Craffu Gofal yn derbyn gwybodaeth bellach wrth i'r gwaith symud yn ei flaen, ynghyd â thrafodaethau rhwng y Pennaeth a'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.



Llun: "freepik.com"

Y Fframwaith Maethu Cenedlaethol a Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Craffwyd gwybodaeth am waith rhanbarthol yn gysylltiedig gyda maethu a mabwysiadu.

O ran y Fframwaith Maethu, derbyniwyd gwybodaeth am y prif ffrydiau gwaith ynghyd a'r blaenoriaethau rhanbarthol. Yn ychwanegol i'r blaenoriaethu rhanbarthol adroddwyd bod y Gwasanaeth yng Ngwynedd yn adolygu ei strwythur mewn ymateb i ofynion y gwasanaeth ar geisio cael gwell cydbwysedd wrth asesu a chefnogi gofalwyr maeth carennydd a gofalwyr maeth cyffredinol.

Gwnaed cais am ddiweddariad ymhen 12 mis ar yr elfen marchnata a llwyddiannau / methiannau rhannu swyddogaethau'r tîm maethu. Yn ogystal ag adroddiad yn egluro sut mae gwaith Gwynedd yn gwau i mewn i waith rhanbarthol (llwyddiannau a methiannau).

Sefydlwyd Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn Ebrill 2010. Cyngor Sir Fwrdeistrefol Wrecsam yw'r Awdurdod Lletya ar gyfer y Gwasanaeth gyda'r staff, ers 2010



Llun: "freepik.com"

wedi eu secondio ond yn parhau i weithio o fewn eu hawdurdodau gwreiddiol. Yn dilyn adolygiad o'r Gwasanaeth yn 2017-19 adnabuwyd nad oedd capasiti digonol ar lefel gweithredol a strategol i reoli a datblygu'r gwasanaeth ac felly aed ati i ail fodelu'r strwythur drwy symud tuag at wasanaeth sydd yn cael ei reoli yn llawn gan Gyngor Wrecsam. Bydd holl staff presennol yn trosglwyddo i gyflogaeth Cyngor Wrecsam yn 2020 ond yn parhau i weithio o'u hawdurdodau lleol presennol.

Rhai o'r sylwadau a wnaed gan aelodau wrth drafod oedd:

- ❖ Bod llawer o ffrydiau gwaith y Gwasanaeth yn ddibynnol ar grantiau neu arian ychwanegol - hyn yn creu pryder o orfod dibynnu ar grantiau. Angen ystyried cynlluniau ariannu wrth gefn.
- ❖ Risg y gallai cynlluniau gael eu tynnu yn ôl oherwydd diffyg cyllideb.
- ❖ A ddylai Cyngor Gwynedd ystyried opsiwn prynu tŷ ar gyfer cadw plant o'r un teulu gyda'i gilydd?
- ❖ Bod angen marchnata'r Gwasanaeth yn well ynghyd a gwella dulliau cyfathrebu.
- ❖ Cais am ddiweddariad ymhen 12 mis.

Cynllun Gweithredu Tai 2020-2025

Cyflwynwyd adroddiad yng nghyswllt Cynllun Gweithredu Tai gerbron y Pwyllgor Craffu Gofal er mwyn ymgynghori â'r Pwyllgor cyn i'r rhaglen wariant arfaethedig gael ei gyflwyno er cymeradwyaeth y Cabinet. Roedd yr adroddiad yn manylu ar brif heriau tai yng Ngwynedd, yr adnoddau ar gael ar gyfer cynllun tai 2020-2025, a'r rhestr hir o gynlluniau oedd angen eu blaenoriaethu.

Bydd y cynllun gweithredu yn gweithio tuag at uchelgais Strategaeth Tai 2020 i 2025 y Cyngor, sef i:

“Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd.”

Roedd 33 cynllun posib wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gofynnwyd i'r Pwyllgor flaenoriaethu'r cynlluniau. Nodwyd cefnogaeth i'r holl gynlluniau ynghyd a sylwadau cychwynnol o ran blaenoriaethu'r cynlluniau. Daethpwyd i'r casgliad oherwydd y nifer o gynlluniau haeddiannol, y dylid cynnal un cyfarfod rhwng cynrychiolaeth o'r Pwyllgor, y Pennaeth a'r Aelod Cabinet Tai ac Eiddo ar sail tasg a gorffen.

Trefnwyd cyfarfod i adnabod pa gynlluniau oedd bwysicaf wrth geisio gwella sefyllfa tai pobl Gwynedd. Bu'r aelodau craffu canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:

- Dewi Wyn Roberts (Cadeirydd),
- Menna Baines,
- R. Medwyn Hughes,
- Eryl Jones-Williams,
- Cai Larsen.

Bu'r cyfarfod yn werthfawr gyda chyfle i'r aelodau craffu roi sylw haeddiannol i'r holl gynlluniau gyda phawb yn bresennol wedi cael budd o'r cyfarfod.

Llwyddodd y gwaith craffu i gyfrannu at flaenoriaethu'r cynlluniau gan amlygu materion pellach oedd angen ystyriaeth.



Ymchwiliadau Craffu

Ymchwiliad Craffu Gorfodaeth Gwastraff

Cyflwynwyd adroddiad Ymchwiliad Craffu Gorfodaeth Gwastraff i gyfarfod 4 Gorffennaf 2019 y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Roedd yn ffrwyth gwaith trylwyr dros gyfnod o amser lle ymgysylltwyd gyda gwahanol grwpiau o bobl. Aelodau'r grŵp a gynhaliodd y gwaith oedd y Cynghorwyr:

- Stephen Churchman (Cadeirydd)
- Keith Jones,
- Mike Stevens,
- Catrin Wager (hyd at Ebrill 1af 2019 pan ei phenodwyd i'r Cabinet).

Cynhaliwyd saith cyfarfod rhwng Gorffennaf 2018 a Mehefin 2019 er mwyn casglu tystiolaeth a thrafod argymhellion ynghyd ac ymweliadau. Fel rhan o'r rhaglen waith fe wnaed gwaith i ddeall a dadansoddi'r sefyllfa bresennol, ystyried y deddfwriaethau perthnasol ac ymgysylltwyd gyda swyddogion sy'n gweithio yn y maes Cynllunio a Thrwyddedu Landlordiaid. Gellir cael mynediad i adroddiad llawn yr ymchwiliad o dan y ddolen yma – [Adroddiad Ymchwiliad Craffu Gorfodaeth Gwastraff](#).



Penderfynodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau dderbyn y chwe argymhelliad a oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ynghyd ag argymhelliad ychwanegol. Dyma'r argymhellion a gyflwynwyd i'r Cynghorydd Catrin Wager (Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol):

- 1. Defnyddio pwerau Deddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990) Adrannau 46 a 47 sy'n ymwneud a chynhwysyddion gwastraff i gyflwyno trefn newydd lle a phryd y bo'r angen, i ddirwyo trigolion a busnesau sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir fel mater o flaenoriaeth.**
- 2. Ymgymryd ag ymgyrch hyrwyddo sirol i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau gwastraff ac ailgylchu gyda ffocws penodol ar Ddinas Bangor a chydabod y gwahaniaethau daearyddol a demograffig yn y sir ar wahanol adegau o'r flwyddyn.**
- 3. Gosod sticeri "QR code" ar gynhwysyddion ailgylchu er mwyn darparu mynediad 24 awr i drigolion at eu diwrnodau casglu gwastraff ac ailgylchu a gwybodaeth am eitemau y gellir eu hailgylchu.**
- 4. Ffurfioli trefniadau cydweithio rhwng Adrannau'r Cyngor.**
- 5. Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Casgliadau Clinigol a'r Gwasanaeth Casglu Arbennig sydd ar gael i helpu pobl hŷn a phobl anabl i waredu eu gwastraff. Bydd modd gwneud hyn fel rhan o'r ymgyrch hyrwyddo ehangach.**

6. **Hyrwyddo rhwydwaith presennol o Ganolfannau Ailgylchu a chynnal ymgyrch benodol ar gyfer y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus.**

7. **I weithwyr y gwasanaeth casglu weithredu yn briodol fel nad yw gwastraff yn dianc allan o'r cerbydau.**

“Bydd gweithredu'r argymhellion yn gwneud gwahaniaeth i'r gwasanaeth ac i'r amgylchedd ar gyfer y trigolion.”

Aelod Craffu

Cyflwynwyd yr argymhellion i'r Cabinet ar 17 Medi 2019, lle penderfynwyd eu gweithredu. Derbyniwyd diweddariad ar weithredu'r argymhellion yng nghyfarfod [6 Chwefror 2020](#).

EFFAITH CRAFFU

Cyfrannodd y gwaith yma drwy'r argymhellion i arwain at wella gwasanaeth ac uchafu hyrwyddo gwybodaeth am drefniadau gwastraff ac ailgylchu. Gan wella'r wybodaeth ar gael i bobl Gwynedd ac o ganlyniad gwella'r amgylchfyd.

Ymchwiliad Craffu Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

Etholwyd grŵp o aelodau yn niwedd 2017 i wneud gwaith er mwyn:

- ❖ Sicrhau bod proses ymgynghori am y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) drafft yn un gynhwysol;
- ❖ Craffu fframwaith drafft ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg a fframwaith drafft ar gyfer paratoi Asesiad Effaith Iaith Gymraeg;
- ❖ Craffu sut y bwriedir gweithredu ar y CCA yng nghyd-destun gofynion y TAN 20 newydd;
- ❖ Derbyn trosolwg o'r sylwadau a dderbynnir gan y cyhoedd adeg ymgynghori cyhoeddus am y CCA drafft er mwyn cyflwyno barn i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd cyn i'r CCA terfynol gael ei fabwysiadu.

Cadeiriwyd y grŵp gan y Cynghorydd Gruffydd Williams, gyda'r Cynghorwyr Simon Glyn ac Aled Ll. Evans (Aelod o'r Pwyllgor Iaith) yn aelodau. Gwnaed argymhellion cychwynnol a chyflwynwyd hwy i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 26 Ebrill 2018.

Parhaodd y gwaith yn 2019-20, cyflwynwyd adroddiad terfynol drafft yr ymchwiliad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 4 Gorffennaf 2019. Dros gyfnod y gwaith, fe gynhaliwyd 13 cyfarfod o'r ymchwiliad a derbyniwyd tystiolaeth ar lafar gan 17 o dystion. Gellir cael mynediad i adroddiad yr ymchwiliad o dan y ddolen yma – [Adroddiad Ymchwiliad Craffu Cynllunio a'r Iaith Gymraeg](#).

EFFAITH CRAFFU

Tanlinellu pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg a phwysigrwydd asesu effaith datblygiadau ar yr Iaith.

Ymchwiliad Craffu Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd

Comisiynwyd y gwaith yma gan y Pwyllgor Craffu Gofal yn dilyn Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd i'r Cyngor gan y Cynghorydd Peter Read:

“Bod y Cyngor yn cyfeirio'r cwestiwn o addasrwydd trefniadau darparu cadeiriau olwyn i drigolion Gwynedd i'w ystyried ar gyfer y rhaglen craffu.”

Bwriad y gwaith oedd adnabod os oedd angen gwella'r ddarpariaeth bresennol ac fe ganolbwyntiwyd ar y ddarpariaeth drwy'r Gwasanaeth Iechyd. Aelodau'r grŵp a gynhaliodd y gwaith oedd y Cynghorwyr:

- o Dewi Wyn Roberts (Cadeirydd),
- o John Brynmor Hughes,
- o R. Medwyn Hughes,
- o John Pughe Roberts,
- o Angela Russell.



Nod yr ymchwiliad craffu oedd ateb y cwestiynau canlynol:

- ❖ A ellir tystiolaethu bod yr unigolion sydd yn defnyddio gwasanaethau yn ganolog yn y broses o asesu a darparu cyfarpar addas, ac yn cael eu cynorthwyo i fyw eu bywydau yn y ffordd y maent yn dymuno ei fyw?
- ❖ Os oedd anfodlonrwydd neu gwynion am y gwasanaeth presennol, a ydynt yn cael eu cyfarch yn foddhaol?
- ❖ Os oes angen, sut mae modd gwella'r gwasanaeth i'r dyfodol?

Casglwyd gwybodaeth gefndirol a thystiolaeth o brofiadau unigolion mewn sawl dull: cyfarfodydd wyneb yn wyneb, holiaduron, sgysiau ffôn, e-byst, adroddiadau neu bolisiau cyhoeddus, ac adroddiadau a gomisiynwyd yn bwrpasol i'r ymchwiliad. Cynhaliwyd 4 cyfarfod o'r ymchwiliad rhwng Awst 2018 ac Awst 2019 er mwyn derbyn a dadansoddi tystiolaeth, a chytuno ar argymhellion.

Ar adeg cynnal yr ymchwiliad, roedd 14,000 o ddefnyddwyr gwasanaeth cadeiriau olwyn neu ddarpariaeth brosthetig wedi eu cofrestru gyda Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd (GYCS) Gogledd Cymru. Yn ystod 2018, daeth 515 o gyfeiriadau am y ddarpariaeth gan drigolion o Wynedd - 466 ohonynt yn oedolion a 49 yn blant. Gyfystyr â 11.5% o'r cyfeiriadau a dderbyniodd GYCS ar gyfer y flwyddyn.

Roedd y nifer o gwynion 'swyddogol' am y ddarpariaeth yn isel – 1 y flwyddyn gan drigolion o Wynedd yn ystod y 3 mlynedd ddiwethaf, ond roedd y dystiolaeth o gwynion 'anffurfiol' a gasglwyd gan yr ymchwiliad yn creu darlun gwahanol. Ymatebodd GYCS Gogledd Cymru yn adeiladol i drafodaethau i chwilio am gyfleoedd i wella'r gwasanaeth er lles y defnyddiwr. Noda adroddiad yr ymchwiliad y dylid adeiladu ar yr ysbryd o gydweithio rhwng GYCS a Chyngor Gwynedd i'r dyfodol.

Deilliodd 12 argymhelliad o'r gwaith craffu a oedd yn cynnwys gofyn i'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant gyfeirio adroddiad yr ymchwiliad at sylw Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru, gan ofyn iddynt ystyried yr angen i wneud cais i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad cenedlaethol o addasrwydd y ddarpariaeth cadeiriau olwyn o safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth. Ynghyd â chyfeirio'r adroddiad at sylw'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru. Gellir cael mynediad i adroddiad llawn yr ymchwiliad o dan y ddolen yma - [Adroddiad Ymchwiliad Craffu Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd](#).

Roedd adroddiad cynnydd ar weithredu'r argymhellion wedi ei raglennu i'w gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Gofal ar 26 Mawrth 2020. Yn anffodus, oherwydd pandemig Covid-19 nid oedd hyn yn bosib.

EFFAITH CRAFFU

Amlygu bod problem yn bodoli gan drosglwyddo'r awenau i bwyllgorau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn gwneud gwaith pellach.

Ymchwiliad Craffu Effaith Datblygiadau Adeiladau Newydd ar Ansawdd Addysg

Mae cryn fuddsoddiad wedi bod ar ddatblygu adeiladau addysgol yng Ngwynedd yn ddiweddar. Y prif gwestiwn i'w gyfarch gan yr ymchwiliad oedd -

“Beth yw effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg disgyblion, ac a oes gwersi i'w dysgu i'r dyfodol?”

Aelodau'r grŵp a gynhaliodd y gwaith oedd y Cynghorwyr:

- Beth Lawton (Cadeirydd),
- Steve Collings,
- Cai Larsen,
- Paul Rowlinson.



Gwnaed gwaith ymchwil trylwyr i ddeall y cyd-destun polisi, adnabod ymarfer da o unrhyw astudiaethau eraill, ymchwilio i'r diffiniad gorau o ansawdd addysg a sut i'w fesur. Cwblhawyd astudiaethau achos ar yr ysgolion canlynol - Ysgol yr Hendre, Ysgol Craig y Deryn, Ysgol Bro Llifon ac Ysgol Glancegin. Ymwelwyd â'r ysgolion er mwyn casglu data ansoddol gan gael barn y Penaethiaid, disgyblion a llywodraethwyr yr ysgolion uchod a oedd gydag adeilad newydd. Ymwelwyd ag Ysgol Treferythyr er mwyn gweld enghraifft o ysgol oedd angen adeilad newydd.

Bwriadwyd casglu data meintiol hefyd, ac er bod data am ysgolion unigol ar gael trwy Adran Addysg y Cyngor neu wefan StatsCymru, bu i Lywodraeth Cymru ddatgan yn haf 2019 na fyddai cyhoeddi manylion perfformiad ysgolion unigol yn cael ei ganiatáu. Roedd hynny yn golygu na fyddai'n bosib defnyddio data cynnydd disgyblion er mwyn mesur effaith adeilad.

Cynhaliwyd 9 cyfarfod o'r ymchwiliad a oedd yn ychwanegol i'r ymweliadau. Lluniwyd argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth i'w cyflwyno i'r Aelod Cabinet Addysg.

Roedd adroddiad drafft yr ymchwiliad i'w gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 19 Mawrth 2020, ond oherwydd pandemig Covid-19, canslwyd y cyfarfod. Gellir gweld yr adroddiad drafft yma - [Adroddiad Drafft](#). Byddwn yn adrodd ymhellach ar waith yr ymchwiliad yn Adroddiad Blynyddol 2020-21.

Herio Perfformiad

Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng Aelodau Cabinet, Penaethiaid Adran a'u rheolwyr gwasanaeth i adolygu perfformiad y gwasanaethau. Mae'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn bresennol yn y cyfarfodydd i herio perfformiad.

Estynnir gwahoddiad i aelodau craffu sydd wedi eu henwebu gan y pwyllgorau craffu i'r cyfarfodydd. Maent yn bresennol er mwyn:

- ❖ Cael blas o faint o afael sydd ar faterion perfformiad o fewn yr adrannau unigol.
- ❖ Adnabod, os oes angen, unrhyw faterion perfformiad allai deilyngu sylw mewn pwyllgor craffu ffurfiol maes o law.

Dyma'r aelodau a fynychodd cyfarfodydd herio perfformiad yn ystod 2019/20 fesul Adran:



Mae gofyn ar yr aelodau yma i adrodd yn ôl i gyfarfodydd anffurfiol y pwyllgorau craffu, sydd yn cael eu cynnal yn dilyn y cyfarfodydd ffurfiol.

Yr hyn sydd yn ddisgwyliedig o'r aelodau craffu i'w eu bod yn nodi eu:

- ❖ Argraffiadau cyffredinol - argraff am y graddau y mae tystiolaeth bod gan yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth Adran afael cadarn ar drefniadau perfformiad y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.
- ❖ Materion sydd angen sylw - unrhyw fater allai fod angen sylw craffu (boed yn fesurydd sydd yn achos pryder neu yn brosiect sydd ddim yn gwireddu'r canlyniadau y mae disgwyl iddynt wneud)

Yn ystod 2019-20, rhai o'r materion a nodwyd gan aelodau oedd:

- ❖ Yr angen i gadw llygad ar y sefyllfa o ran trafodaethau rhwng yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant ynglŷn â chyfleusterau chwarae ar gyfer plant Hafan y Sêr (uned egwyl fer wedi ei leoli ar safle Ysgol Hafod Lon).

“Cytundeb bellach rhwng y gwasanaethau o ran symud ymlaen. Ymyrraeth aelod craffu wedi bod o gymorth i chwalu'r rhwystrau.”

Uwch Swyddog

- ❖ Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd a Môn - rhai yn fodlon gyda'r gwasanaeth, eraill ddim yn fodlon gyda'r gwasanaeth newydd.

Derbyniodd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ddiweddariad ar 21 Tachwedd 2019. Cydnabuwyd bod yna heriau, ond bod datblygiadau mawr wedi cymryd lle a chroesawyd y ffaith y byddai hynny'n parhau. Hefyd, roedd y pwyllgor yn ymfalchïo o glywed bod Gwynedd gymaint ar y blaen i awdurdodau eraill yn y maes yma.

- ❖ Bod materion diogelwch staff wedi eu codi gan reolwyr Storiell, yr Archifdy a'r Gwasanaeth Morwrol. Efallai bod angen edrych yn fwy manwl ar ddiogelwch staff, yn enwedig y rhai sy'n gweithio ar eu pen eu hunain a'r rhai a all wynebu ymddygiad gwrthgymdeithasol a bygythiadau gan eraill.

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystyried y mater wrth lunio ei raglen waith o ran craffu.

Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2019/20

49 aelod wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn.

41 eitem wedi eu craffu mewn cyfarfodydd ffurfiol.

3 cyfarfod o'r Fforwm Craffu wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn.

Aelodau craffu wedi **mynychu cyfarfodydd** Byrddau Craffu Addysg Ardal.

Sesiynau gwybodaeth wedi eu cynnal ar y meysydd yma:

- ❖ Rhaglen Cefnogi Llesiant Pobl
- ❖ Llesiant a Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

Cyfarfodydd wedi eu cynnal rhwng Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion a'r Aelodau Cabinet a Phenathiaid perthnasol.

Cefnogaeth i'r gwaith craffu gan y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu ac Ymgynghorydd Craffu. Mae 3 x Swyddog Cefnogi Busnes ar gael i arwain ar ymchwiliadau craffu.

Rhaglen Waith Craffu 2019-2020

| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | |
|---|---|
| 20 Mehefin 2019 | <ul style="list-style-type: none"> • Strategaeth Iaith Uwchradd (AE11b) • Siarter Iaith Gynradd (AE39) |
| 10 Hydref 2019 | <ul style="list-style-type: none"> • Elwa o dwristiaeth (AE42) • Hafan a Harbwr Pwllheli (AE23) – adroddiad cynnydd • Canolfannau Iaith – methodoleg y cynllun peilot (AE53b) |
| 21 Tachwedd 2019 | <ul style="list-style-type: none"> • Arbedion 2020/21 (AE40) – Adrannau - Addysg, Economi • Hafan a Harbwr Pwllheli (AE23) • Brexit (AE35c) • TRAC (AE59) • Anghenion Dysgu Ychwanegol (AE10c) |
| 23 Ionawr 2020 | <ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaethau Ieuenctid (AE8b) |
| 19 Mawrth 2020 (Wedi eu rhaglennu ond ni graffwyd oherwydd pandemig Covid-19) | <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad ar ddeilliannau 2019 (AE19c) ac Adroddiad Blyneddol Addysg (AE20b) • Cludiant Ysgolion (AE29) • Ymchwiliad – adroddiad ‘Effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg’ (AE14) |

| Pwyllgor Craffu Gofal | |
|-------------------------|---|
| 6 Mehefin 2019 | <ul style="list-style-type: none"> • Anawsterau Recriwtio (G17) |
| 12 Medi 2019 | <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad Ymchwiliad Cefnogi Pobl Anabl yng Ngwynedd (G10) |
| 14 Tachwedd 2019 | <ul style="list-style-type: none"> • Arbedion 2020/21 (G51) – Adrannau Plant, Oedolion, Tai ac Eiddo • Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (G22) • Gwasanaeth Gofal Cartref (G44) |
| 30 Ionawr 2020 | <ul style="list-style-type: none"> • Gwaith Rhanbarthol: Maethu a Mabwysiadu (G21c) • Datblygiad y Tîm Ymddygiad Rhywiol Niweidiol a Phroblemus (G53) • Arian Trawsnewid Cymru Iachach (Plant) • Cynllun Gweithredu Tai (G56) • Gofal Dementia (G46) |

| | |
|--|--|
| <p>26 Mawrth 2020</p> <p>(Wedi eu rhaglennu ond ni graffwyd oherwydd pandemig Covid-19)</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Trawsffurfio iechyd a gofal ar draws Gwynedd a Môn • Ymchwiliad Cefnogi Pobl Anabl yng Ngwynedd (G10) – ymateb i'r argymhellion |
|--|--|

| <h3 style="text-align: center;">Pwyllgor Craffu Cymunedau</h3> | |
|---|--|
| <p>4 Gorffennaf 2019</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Adroddiad Blynyddol (C1) • Gorfodaeth Gwastraff – cyflwyno Argymhellion (C2) • Trefniadau Rheoli Parcio (C11) • Cynllunio a'r Iaith Gymraeg – cyflwyno argymhellion (C10) |
| <p>26 Medi 2019</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Trefniadau Incwm Parcio (C11) • Cludiant (C24) • Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (C33) |
| <p>5 Rhagfyr 2019</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Trosedd ac Anrhefn (C7) • Strwythur Llywodraethiant a Strwythur Cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (C1a) • Arbedion 2020/21 (C30) – Adrannau Amgylchedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol a Ymgynghoriaeth Gwynedd • Tai Haf a Chynllunio (C34) |
| <p>6 Chwefror 2020</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Gorfodaeth Stryd (C23) • Gorfodaeth Gwastraff (C23) – ymateb i'r argymhellion • Materion Cynllunio a'r Cynllun Dirprwyo (C29) |
| <p>2 Ebrill 2020</p> <p>(Wedi eu rhaglennu ond ni graffwyd oherwydd pandemig Covid-19)</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad Cynnydd ar Gyflawni'r Cynllun Llesiant (C1b) • Adolygiad Cludiant (C24) • Rhaglen Waith Cynllun Gweithredu Hawliau Tramwy (C6) • Caeau Chwarae a Llecynnau Gwyrdd (C35) |

| <h3 style="text-align: center;">Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu</h3> | |
|--|--|
| <p>13 Mehefin 2019</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Trosolwg Arbedion 2018/19: adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion |
| <p>28 Tachwedd 2019</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Arbedion 2020/21 (AL18) – Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Adran Cyllid a'r Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol |

| | |
|-------------------------|---|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Strategaeth Ariannol – Cylch Gwaith Cyllideb 2020/21 (craffu'r gwaith yn gynnar yng nghylch cyllidebu'r Cyngor) |
| 13 Chwefror 2020 | <ul style="list-style-type: none"> • Cyllideb 2020/21 (gyda ffocws ar risg, cyn i'r Cabinet argymhell cyllideb a threth i'r Cyngor llawn gymeradwyo) • Strategaeth Cyfalaf (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthg) - nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol, a chefnogi cyflwyno'r strategaeth i'r Cyngor llawn am gymeradwyaeth • Trosolwg Arbedion 2019/20: cynnydd ar wireddu cynlluniau |



FERSIWN CRYNO

ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2019-20



ADOLYGIAD O DREFNIADAU CRAFFU


Edrychwyd ar ein trefniadau craffu yn 2019-20. Wrth wneud y gwaith, dyma nodwyd fel pwrpas craffu:

CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

Mae'r adroddiad llawn yn dweud bob dim o ran yr adolygiad, canlyniad y gwaith oedd y Cyngor yn rhoi'r model yma mewn lle ar gyfer y dyfodol -



CRAFFU ARBEDION



Un o'r pethau pwysicaf a graffwyd yn 2019-20 oedd cynlluniau arbedion posib adrannau'r Cyngor. Gyda'r aelodau craffu yn edrych yn fanwl ar y cynlluniau gan gwestiynu'r Aelodau Cabinet a'r Penaethiaid. Llwyddodd y gwaith craffu i dynnu sylw at bryderon am effaith gweithredu rhai o'r cynlluniau arbedion ar bobl Gwynedd.

MATERION CRAFFU

Yn 2019-20, craffwyd 41 eitem yng nghyfarfodydd ffurfiol craffu, gan gynnwys y canlynol:

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

Grŵp Tasg Rheoli Parcio

Strategaeth Iaith Uwchradd

Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd

Cynllun Peilot y Canolfannau Iaith

Cynllun Elwa o Dwristiaeth

Prosiect Gofal Cartref

Fframwaith Maethu Cenedlaethol

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Cynllun Gweithredu Tai 2020-2025

Mae aelodau craffu yn dewis eitemau gan adnabod pwnc sydd yn bwysig ac sydd angen ei graffu er mwyn gwneud gwahaniaeth i bobl Gwynedd. Bydd aelodau craffu yn parhau i wneud hyn yn 2020-21.

YMCHWILIADAU CRAFFU

Mewn ymchwiliad, mae grŵp llai o aelodau yn edrych i mewn i fater penodol mewn cyfres o gyfarfodydd anffurfiol, cyn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu gydag argymhellion er sylw Aelodau Cabinet.

Yn 2019-20, cafodd gwaith ei wneud yn y meysydd canlynol:

Gorfodaeth Gwastraff - Tynnodd aelod sylw at broblemau a achosir gan bobl sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir. Argymhellwyd 6 peth i'w gwneud a derbyniwyd nhw gan yr Aelod Cabinet.

Cynllunio a'r Iaith Gymraeg - Edrychwyd ar sefyllfa polisi cynllunio'r Cyngor o ran cynllunio a'r iaith. Y gwaith yn tanlinellu pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg a phwysigrwydd asesu effaith datblygiadau ar yr iaith.

Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd - Profiad defnyddwyr gwasanaeth cadeiriau olwyn neu ddarpariaeth brosthetig o Wasanaeth Ystum Corff a Symudedd (GYCS) Gogledd Cymru.

Effaith Datblygiadau Adeiladau Newydd ar Ansawdd Addysg - Beth yw effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg disgyblion, ac a oes gwersi i'w dysgu i'r dyfodol?

Mae'r holl wybodaeth am y gwaith craffu yn 2019-20 ar gael yn y fersiwn llawn ar wefan y Cyngor – <https://www.gwynedd.llyw.cymru/craffu>

Ffeithiau am Craffu yng Ngwynedd yn 2019/20

49 aelod wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn.

41 eitem wedi eu craffu mewn cyfarfodydd ffurfiol.

3 cyfarfod o'r Fforwm Craffu wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn.

Aelodau craffu wedi **mynychu cyfarfodydd** Byrddau Craffu Addysg Ardal.

Sesiynau gwybodaeth wedi eu cynnal ar y meysydd yma:

- ❖ Rhaglen Cefnogi Llesiant Pobl
- ❖ Llesiant a Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

Cyfarfodydd wedi eu cynnal rhwng Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion a'r Aelodau Cabinet a Phenathiaid perthnasol.

Cefnogaeth i'r gwaith craffu gan y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu ac Ymgynghorydd Craffu. Mae 3 x Swyddog Cefnogi Busnes ar gael i arwain ar ymchwiliadau craffu.

Eitem 13

| | |
|----------------------|--|
| CYFARFOD | Y Cyngor |
| DYDDIAD | 1af o Hydref 2020 |
| AELOD CABINET | Y Cynghorydd Dafydd Meurig a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan |
| TEITL | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2019/20 |
| PWRPAS | Cyflwyno'r adroddiad er sylw Aelodau'r Cyngor |
| AWDUR | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Corfforaethol |

1. Cyflwyniad

- 1.1. Ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad ynglŷn â dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol dros y flwyddyn flaenorol.
- 1.2. Mae'n rhaid i'r adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.
- 1.3. Dylai'r adroddiad egluro perfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol am y flwyddyn sydd wedi mynd heibio, ac mae'n rhaid iddo esbonio'r modd y mae swyddogaethau eraill y Cyngor wedi cyfrannu at lesiant pobl, a'r modd y bydd hynny'n parhau.
- 1.4. Gofynnir i mi fel Cyfarwyddwr ystyried yr ystod wybodaeth a phrofiadau sy'n effeithio ar allu gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dibynadwy, cynaliadwy, o'r safon uchaf.

2. Yr Adroddiad

- 2.1. Pwrpas yr adroddiad yw amlinellu ein taith at wella yng Ngwynedd wrth ddarparu gwasanaethau i'r unigolion sydd angen cyngor, cefnogaeth neu ofal gennym.
- 2.2. Yn unol â gofynion newydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) mae'r adroddiad yn ystyried sut mae Cyngor Gwynedd wedi hyrwyddo lles a chyflawni'n erbyn y safonau ansawdd sydd wedi eu gosod gan y Ddeddf. Eleni rwyf wedi amlinellu'r diffiniadau o'r safonau hynny, fel y'i disgrifir yn y Ddeddf, yn Atodiad 2 i'r adroddiad.
- 2.3. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at unrhyw wersi a ddysgwyd, ac yn amlinellu'r blaenoriaethau am y flwyddyn i ddod. Mae hefyd yn egluro sut

wnaethom asesu anghenion pobl, a'u cynnwys yn ganolog wrth siapio ein gwasanaethau a'n darpariaeth gofal.

- 2.4. Fel y gwyddoch, daeth argyfwng Covid-19 i'n taro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2019/20. Wrth gwrs, y flaenoriaeth oedd sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol a gofalu am ein trigolion bregus. Mae hynny wedi golygu oedi yn paratoi'r adroddiad hwn at eich sylw, ac ymddiheuraf am hynny.
- 2.5. Rwy'n falch iawn o nodi fod perfformiad gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn a fu wedi bod yn gadarnhaol unwaith eto. Fel y gwyddoch, rydym ar siwrne ers rhai blynyddoedd er mwyn trawsffurfio ein gwasanaethau, gan newid diwylliant a sicrhau ein bod yn darparu ein gwasanaethau cymdeithasol mewn modd sy'n cadw'r unigolyn yn ganolog bob amser. Mae rhai materion angen sylw penodol gennym a byddaf yn sicrhau fod y materion hyn yn derbyn y sylw priodol gan yr adrannau perthnasol. Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda'r cynnydd sydd wedi ei wneud, ond mae'n hollbwysig i ni a'n partneriaid barhau i fuddsoddi amser ac adnoddau i wireddu'r weledigaeth o weithredu fel un. Nid yw hyn bob tro yn hawdd ond credaf bod y cyfnod diweddar wedi amlygu i bawb ohonom pa mor bwysig ydi hi i ni weithredu fel un ac mewn modd sy'n cyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl.
- 2.6. Mae perfformiad y gwasanaethau perthnasol yn cael eu herio yn unol â threfniadau perfformiad mewnol y Cyngor ac mae adroddiadau ar y perfformiad hwn yn cael eu cyflwyno gan yr aelodau Cabinet perthnasol yn rheolaidd. Bellach, ceir presenoldeb cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn y cyfarfodydd herio perfformiad. Mae trosolwg o berfformiad y gwasanaethau am y flwyddyn gyfan hefyd i'w gael yn Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd ar gyfer 2019/20, sydd ar raglen y cyfarfod yma heddiw.

3. Argymhelliad

- 3.1. Gofynnir i'r Cyngor dderbyn yr adroddiad ar gyfer ei chyhoeddi.

4. Barn y Swyddogion Statudol

Y Swyddog Monitro:

Mae'n ofyn ar y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi Adroddiad Blynyddol yn unol ac arweiniad statudol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Fel rhan o'r trefniadau yna disgwylir l'r adroddiad gael ei rhannu gyda aelodau er sicrhau atebolrwydd effeithiol. Mae'r adroddiad yma yn cyfarch y gofynion yma.

Pennaeth Cyllid:

Nodaf fod rhan ddiwethaf adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi prif flaenoriaethau Gwasanaethau Cymdeithasol am y flwyddyn 2020/21. Disgwylir bod yr adrannau perthnasol (gwasanaethau Oedolion a Phlant) yn anelu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn o fewn eu hadnoddau presennol, drwy gydweithio ar weithgareddau gyda gwahanol adrannau a chyrrff allanol, a drwy sicrhau

ariannu ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd cymeradwyo'r adroddiad blynyddol hwn yn golygu unrhyw ymrwymiad ariannol ychwanegol gan y Cyngor – rhoddir sylw pellach i hynny yn y drefn arferol yng nghylch cyllidebu 2021/22.



Adroddiad Blynyddol

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

2019/20

www.gwynedd.llyw.cymru



Arweiniad leithyddol

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, gofynnwch i rywun yr ydych yn eu hadnabod sydd yn siarad Cymraeg neu Saesneg i ffonio 01766 771000.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

If you need further information, please ask someone you know who speaks English or Welsh to telephone 01766 771000

Jeżeli potrzebują państwo dalszych informacji, proszę poprosić kogoś, kto mówi po angielsku lub walijsku żeby zadzwonił pod numer 01766 771000

Se você precisar de nova informação, por favor pergunte alguém você sabe quem diz o galês o'r inglês para telefonar 01766 771000

如果您需要更多信息，请向你认识的人谁讲英语或威尔士电话：01766 771000

আপনার যদি আরো তথ্যের প্রয়োজন হয়, তাহলে আপনার জানা ইংরেজী অথবা ওয়েলশ ভাষা বলতে পারেন এমন কাউকে অনুগ্রহ করে 01766 771000 নম্বরে টেলিফোন করতে বলুন

اگر آپ کو مزید معلومات درکار ہوں تو براے مہربانی انگریزی یا ویلش زبان جاننے والے اپنے کسی واقف کار سے کہیں کہ وہ آپ کی جانب سے فون نمبر 01766 771000 سے رابطہ کریں۔

إذا كنت بحاجة إلى مزيد من المعلومات، يرجى الطلب من شخص ما تعرف من يتحدث الإنجليزية أو الويلزية الهاتف 01766771000

Cyflwyniad Agoriadol y Cyfarwyddwr

Mae'n bleser gennyf, unwaith eto eleni, gyflwyno fy adroddiad blynyddol fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Rwyf wedi ysgrifennu'r adroddiad yma ar adeg lle rydym wrth gwrs yn ceisio ymdopi gydag argyfwng Covid-19. Mae'n amlwg felly yn gyd-destun hynod bwysig wrth edrych yn ôl ar berfformiad 2019/20. Mae hefyd yn hollbwysig i mi gymryd y cyfle yma i ddiolch o waelod calon i bob un o weithwyr gofal y sir, boed nhw yn gweithio i'r Cyngor neu i asiantaeth allanol, am eu hymroddiad a'u gwaith caled drwy 2019/20 ond hefyd yn amlwg dros y cyfnod heriol iawn rydym ynddo ar hyn o bryd. Mae wedi bod yn glir iawn i mi, ac i ni gyd fel cymdeithas, pa mor werthfawr ac hanfodol ydi'r gweithlu yma i'n llesiant a'n hiechyd ni fel pobl. Mae'n diolch yn enfawr iddynt i gyd.

Rwy'n falch o ddweud fy mod yn hapus gyda pherfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd ar gyfer 2019/20. Yn amlwg, mae rhai heriau sydd angen eu goresgyn. Mae'r rhan helaeth o'r rhain eisoes yn derbyn sylw gan yr adrannau perthnasol ynghyd â fforymau iechyd a gofal rhanbarthol a chenedlaethol. Fel rwyf yn adrodd bob blwyddyn, mae diogelu plant a phobl bregus yn brif ddyletswydd, ac rwy'n falch o adrodd bod y sylw i'r maes o fewn y ddwy adran, ac yn ehangach ar draws y Cyngor yn gryf. Mae cynnydd mewn achosion diogelu cymhleth ac anodd yn realiti cenedlaethol yn anffodus, ac mae Gwynedd yn profi hyn yn ogystal. Mae'r Adran Blant yn arwain sawl ffrwd gwaith yn y maes pwysig yma ac rwy'n falch iawn o'r gwaith arbennig sy'n digwydd. Yn ogystal mae'r maes diogelwch cymunedol bellach o fewn yr Adran Oedolion, sydd yn mynd i sicrhau bod y rhwydweithiau pwysig a phriodol yn eu lle ar gyfer ymateb i'r heriau newydd o fewn cymdeithas.

Mae sicrhau bod gennym ddigon o staff â'r sgiliau cywir i ddiwallu anghenion ein poblogaeth yn her parhaus i ni fel Cyngor. Er bod peth llwyddiant wedi bod gydag ymgyrchoedd recriwtio, bydd angen sylw penodol i hyn dros y misoedd nesaf er mwyn sicrhau bod gennym yr adnoddau cywir i ymateb yn effeithiol i ofynion ein poblogaeth. Rwy'n falch o'r gwaith sy'n digwydd i gyflwyno model gofal cartref newydd i'r dyfodol a fydd yn ein galluogi i dynnu'r partneriaid perthnasol ynghyd i weithio'n fwy effeithlon ac yn fwy lleol. Mae gwaith y sector gofal yn ei gyfarwydd yn parhau'n arbennig, ond mae'n sector sy'n fregus mewn manau a bydd angen i ni weithio gyda nhw a'n partneriaid yn lleol ac yn rhanbarthol i sicrhau eu bod mor wydn a phosib yn symud ymlaen. Rwy'n rhagweld y bydd angen trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru hefyd ar ambell fater er mwyn sicrhau bod y sector yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Mae lot fawr o gynnwys yr adroddiad yn sôn am ein gwaith i geisio sicrhau ein bod yn ymateb i ofynion pobl drwy roi'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw yn ganolog. Gwelaf o'm trafodaethau gyda rheolwyr ac arweinwyr a staff rheng flaen bod y diwylliant hwn yn tyfu, ond bod rhai rhwystrau'n parhau. Byddaf yn gweithio gyda'r ddau Bennaeth a'r Aelodau Cabinet i sicrhau ein bod yn deall y rhwystrau hyn ac yn gwneud popeth y gallwn i'w dileu, gan hefyd, wrth gwrs, ddysgu o beth sydd wedi ei weld dros y misoedd diwethaf.

Hoffwn felly gyflwyno yr adroddiad yma fel adroddiad sydd yn ceisio rhoi trosolwg deg o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd.



Morwena Edwards

Cyfarwyddwr Corfforaethol a
Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau
Cymdeithasol

Cynnwys

| | | |
|------------|--|----|
| 1. | Cyflwyniad | 5 |
| 2. | Sut mae pobl yn ein cefnogi i lunio ein gwasanaethau | 6 |
| 3. | Hyrwyddo a gwella lles y rheini yr ydym yn eu cynorthwyo | 9 |
| 4. | Sut rydym yn gwneud ein gwaith | 25 |
| 5. | Blaenoriaethau 2020/21 | 33 |
| | | |
| ATODIAD 1: | Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd 2019/20 | 34 |
| ATODIAD 2: | Gwybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd fel nodwyd yn Neddff Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) | 38 |

1. Cyflwyniad

Ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad yn gwerthuso perfformiad yr awdurdod lleol mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol dros y flwyddyn flaenorol, gan dynnu sylw at wersi sydd wedi eu dysgu neu welliannau sydd angen eu cyflwyno. Dylai'r adroddiad hefyd osod amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod mewn perthynas â hyrwyddo llesiant pobl a gofalwyr sydd angen gofal a chefnogaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu ar y flwyddyn ariannol 2019-20. Mae'n dilyn trefn benodol, gan bod angen i ni adrodd, drwy ddefnyddio'r dangosyddion a'r mesurau perfformiad perthnasol, sut yr ydym fel Cyngor wedi cyflawni yn erbyn y chwe safon ansawdd llesiant sydd wedi'u nodi o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Fel roeddwn yn cychwyn ar ysgrifennu'r adroddiad hwn, roeddem yn wynebu her yn sgil argyfwng Covid-19 ac ymdopi ag o oedd y flaenoriaeth amlwg. O ganlyniad, eleni mae'r adroddiad wedi ei lunio gan ddibynnu ar drafodaethau ac adroddiadau cynnydd dros y flwyddyn ynghyd â rhai trafodaethau pellach gyda swyddogion perthnasol.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniadau i ddod a'r adroddiad at ei gilydd mewn cyfnod mor heriol.

Wedi darllen yr adroddiad, pe byddai gennych unrhyw sylwadau ar y cynnwys, neu o ran sut i lunio gwasanaethau i'r dyfodol, rwy'n awyddus iawn i glywed gennych:



01286 679468

awenmorwenaedwards@gwynedd.llyw.cymru

2. Sut mae pobl yn ein cefnogi i lunio ein gwasanaethau

Ers rhai blynyddoedd bellach mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ffordd o weithio sy'n ceisio rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid sicrhau ein bod yn deall beth sydd yn bwysig i bobl Gwynedd. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cynnal sawl arolwg ac ymarferiad ymgysylltu gan gynnwys grwpiau ffocws, gweithdai a fforymau. Mae llais a barn trigolion Gwynedd yn hanfodol er mwyn sicrhau fod gwasanaethau'r Cyngor yn cwrdd ag anghenion pobl a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Yn ystod 2019/20 fe dderbyniwyd cyfanswm o 2,199 o ymatebion i **ymgyngoriadau cyhoeddus** y Cyngor megis Holiadur Busnesau Gwynedd, Ymgynghoriad Cynllun Cydraddoldeb ayb. Mae'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn allweddol bellach wrth gyfathrebu â thrigolion y sir. Dros y flwyddyn diwethaf, rydym eto wedi gweld cynnydd yn y defnydd, gyda 29,500 o ddilynwyr ar gyfrifon Facebook, Trydar ac Instagram y Cyngor.

Gyda mwy o drigolion Gwynedd yn defnyddio **gwasanaethau ar-lein** nac erioed o'r blaen, rydym yn ychwanegu'n barhaus at yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael. Mae defnydd o'n hadnoddau hunanwasanaeth ar ein gwefan yn cynyddu, gyda 10,434 o gyfrifon newydd wedi eu hagor yn ystod 2019/20 (gan olygu cyfanswm o 51,509

cyfrif bellach). Mae'r dull yma'n hwyluso mynediad i rai o'n trigolion sy'n ei chael yn anodd i gysylltu dros y ffôn neu alw i mewn yn Siop Gwynedd. Wrth gwrs, mae argyfwng Covid-19 wedi golygu fod mwy o bethau nag erioed yn digwydd ar-lein. Mae hyn wedi amlygu pwysigrwydd cynhwysiad digidol ac mae sawl agwedd i hyn – fforddiadwyedd cyfarpar, isadeiledd addas a'r sgiliau priodol i'w ddefnyddio. Mae'r Bwrdd Cefnogi Pobl yn ystyried a yw ein trefniadau presennol ar gyfer ymyrryd yn y meysydd yma yn ddigonol ynteu a oes angen bod yn gwneud mwy.

Mae gan Gyngor Gwynedd **Banel Trigolion** er mwyn sicrhau fod llais trigolion Gwynedd yn ganolog wrth i'r Cyngor gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau lleol i'r dyfodol.



Er mwyn adeiladu ar yr **Asesiad Anghenion Rhanbarthol**, rydym wedi bod yn ceisio gwella ein dealltwriaeth o **Anghenion ein Poblogaeth** ar y lefel fwyaf lleol posib drwy weithio gydag unigolion, teuluoedd a'n partneriaid i ddarganfod yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar

agweddau penodol o wasanaethau sy'n cael sylw fel rhan o'n rhaglen drawsnewid e.e. gofal cartref ac anghenion lletya unigolion ag anabledd dysgu. Defnyddir yr wybodaeth yma i sicrhau ein bod yn datblygu gwasanaethau sy'n briodol ac yn addas yn unol ag anghenion y rheiny fydd yn eu defnyddio i'r dyfodol.

Fel rhan o ofynion Llywodraeth Cymru, rydym yn gofyn i Oedolion a Gofalwyr sy'n derbyn cefnogaeth gennym gwblhau **Holiadur Blynyddol**. Derbyniwyd 394 o ymatebion i'r holiadur oedolion, ac 145 i'r holiadur gofalwyr. Gwelwyd bod 53.8% o Ofalwyr Gwynedd wedi adrodd eu bod yn "gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i mi", gyda 38.3% yn adrodd bod hyn yn wir weithiau. Adroddodd 88.8% o oedolion eu bod yn "hapus gyda'r gofal a'r cymorth a gefais", ac 82.44% yn adrodd eu bod "wedi cymryd rhan weithredol mewn unrhyw benderfyniadau am y ffordd y cafodd fy ngofal a'm cymorth ei ddarparu". Mae gan y Bwrdd Cefnogi Pobl ffrwd gwaith penodol er mwyn adolygu sut ydym ni'n cefnogi gofalwyr a bydd yr wybodaeth uchod, yn ogystal â'r wybodaeth sydd wedi'i gasglu'n ystod cyfnod argyfwng Covid-19 yn helpu siapiau ein cefnogaeth i'r dyfodol.

Mae barn plant hefyd yn hollbwysig i ni ac mae plentyn mewn gofal bellach yn aelod o'r **Panel Rhiant Corfforaethol**. Fel rhan o waith y panel, mae cyfle i

glywed llais plant a phobl ifanc, a chyfleon i dderbyn adborth gan rieni maeth. Mae bwriad gennym i barhau i gryfhau'r trefniadau hyn i sicrhau nad ydym yn colli gafael ar ein dealltwriaeth o sut allwn ni wella'n gwasanaethau'n unol â'r hyn sy'n bwysig i blant mewn gofal. Cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru adroddiad ar ei hymgyngoriad 'Coronafeirws a Fi: Gwynedd' yn ddiweddar hefyd a oedd yn gyfle pellach i ni gael gwybod beth yw teimladau plant yng Ngwynedd. Roedd yr adroddiad yn un cadarnhaol a bydd yr wybodaeth yma'n cael ei ddefnyddio wrth i ni wneud penderfyniadau am wasanaethau plant yn lleol.

Fel rhan o waith y Parth Plant, wrth adolygu Grantiau Plant a Chymunedau a Grantiau Cymorth Tai, ac fel rhan o ymarferion Ffordd Gwynedd dywedodd trigolion Gwynedd wrthym eu bod eisiau mynediad hawdd i'r gefnogaeth priodol ar yr adeg iawn. Mae'n **Bwrdd Cefnogi Pobl** yn arwain ar y gwaith o fapio gwasanaethau ac adolygu effeithiolrwydd trefniadau presennol¹. Yn ogystal, mae gwaith yn digwydd rhwng yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Addysg er mwyn edrych ar y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni eu hanghenion i'r gorau o'n gallu ac yn cynyddu effeithiolrwydd ar draws y sir.

¹ Mwy o wybodaeth am waith y Bwrdd Cefnogi Llesiant Pobl o dan 'Safon Ansawdd 2'.

Fel rhan o'r gwaith hwn, yn ystod Chwefror a Mawrth 2020 buom yn ymgysylltu â theuluoedd a defnyddwyr gwasanaeth er mwyn clywed am eu profiadau nhw o'n gwasanaethau a beth allai fod wedi gwneud eu profiadau'n well. Mae argyfwng Covid-19 yn anochel wedi arwain at oediad yn y gwaith yma ond byddwn yn parhau'n ystod 2020/21 i ddatblygu'r ymyrraeth briodol i symud ymlaen â'r gwaith hwn yn unol â'r wybodaeth rydym wedi ei gael gan unigolion a'u teuluoedd.

Enghraifft arall o sut mae trigolion Gwynedd yn rhoi eu barn ar wasanaethau plant yw'r adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan gartref Hafan y Sêr i gasglu barn rhieni a phlant o'r gofal a'r gwasanaeth a gynhigir yno. Daeth adborth clir fod y gwasanaeth yn llwyddo i gyflawni ei bwrpas, sef rhoi ysbaid, hwyl a mwynhad i blant, ac ysbaid i rieni sy'n gwybod fod eu plant yn ddiogel yno ac yn cael pob gofal. Mae hyn yn atgyfnerthu negeseuon o'n harchwiliad Arolygiaeth Gofal Cymdeithasol a'n hadroddiad Ansawdd Gofal diweddar.

Yn ogystal, mae **Model Gweithredu** wedi'i ddatblygu ar gyfer Timau Adnoddau Cymunedol Gwynedd a Môn (sy'n rhan o wasanaethau Oedolion y Cyngor). Bwriad y model ydi sicrhau fod unigolion yn byw bywyd fel y maent eisiau ei fyw, drwy ganfod, deall, a gweithredu beth sy'n bwysig i'r unigolyn, adnabod rhwystrau a ffyrdd o'u goresgyn, er mwyn gwella gwasanaethau'n barhaus. Mae gweithio yn y ffordd yma yn newid diwylliant sylweddol a bydd angen amser i wreiddio'n llawn. Ond o'r hyn a wyddwn o enghreifftiau byw, mae gweithio yn y ffordd yma'n sicr yn gwella profiad unigolion ac yn cryfhau'r gwasanaethau i ddefnyddwyr i'r dyfodol.

3. Hyrwyddo a Gwella Llesiant y rhai yr ydym yn eu helpu

Yn y bennod hon, byddaf yn gwerthuso ein cynnydd yn ystod 2019/20 yn erbyn y chwe safon ansawdd sydd yn cael eu nodi gan y Llywodraeth yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn ogystal, byddwn yn rhoi braslun o'r hyn rydym yn fwriadu ei wneud yn 2020/21. Mae rhagor o fanylder am yr hyn mae'r Ddeddf yn ei nodi sydd angen i awdurdodau lleol ei wneud er mwyn cyflawni'n erbyn pob safon ansawdd i'w ganfod yn Atodiad 2.

Safon Ansawdd 1

Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y maent am eu cyflawni

Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu fod angen i ni sicrhau fod pobl yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau a wneir ynghylch eu gwasanaethau, a'u bod yn ymwybodol o sut i gael mynediad at gyngor a chefnogaeth fel bo angen. Y nod yw i sicrhau fod y gefnogaeth rydym yn ei ddarparu yn addas i'r unigolyn ac yn cefnogi eu llesiant.

Fe gofiwch ein bod wedi sefydlu 5 **Tim Ardal Lleol** er mwyn darparu gwasanaeth iechyd a gofal di-dor. Mae'r timau yn cynnwys aelodau o staff y Bwrdd Iechyd, Cyngor Gwynedd a'r drydedd sector a'r bwriad yw y bydd y timau'n gweithio i egwyddorion penodol wrth rannu'r ardaloedd yn patches mwy lleol, gan gynnig un person arweiniol i'r unigolyn er mwyn hwyluso eu taith drwy'r gyfundrefn gofal ac iechyd. Mae fîm trawsffurfio wedi ei sefydlu i ddarparu'r arweiniad a'r gefnogaeth briodol i helpu symud y gwaith yma yn ei flaen. Yn naturiol,

mae ceisio uno diwylliant, gweithdrefnau, cyllidebau a pholisïau, a datblygu'r isadeiledd a'r dechnoleg i gefnogi ac i adlewyrchu hynny yn dod a'i heriau ac yn amlygu'r angen i fuddsoddi amser ac adnoddau i wireddu'r weledigaeth o weithredu fel un. Rwyf fel Cyfarwyddwr, ynghyd â Phennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant y Cyngor a Chyfarwyddwr Ardal y Bwrdd Iechyd yn glir o'r angen i barhau ar y daith ac i roi rhagor o sylw i'r materion sy'n parhau yn rwstr.

Un o ofynion y Ddeddf ydi i roi **Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth** mewn ffordd syml ac hygyrch ac mae gennym wasanaeth penodol i wneud hynny (GCCh). Mae'r GCCh wedi ei ymgorffori o fewn y 5 fîm lleol, gyda rhaglen waith manwl mewn lle i'w ddatblygu ymhellach er mwyn cynnwys gweithlu'r Bwrdd Iechyd a chreu un pwynt cyswllt lleol. Rydym wedi ehangu trefniadau cydweithio â'r trydydd sector hefyd.

Fel rhan o drefniadau ymateb i argyfwng Covid-19, sefydlodd y Cyngor dŷm penodol – sef **Tîm Cymorth Covid** – i geisio ymateb i lesiant unigolion oedd wedi eu heffeithio gan yr argyfwng. Roedd y tîm yn gweithio'n agos efo eraill, gan gynnwys y GCCh mwyn cefnogi unigolion. Mae'r ymdrechion wedi ein caniatáu i ddysgu llawer am yr hyn sydd ei angen ar bobl y sir a'r bylchau sydd angen i ni eu llenwi, ac mae gwaith yn digwydd rŵan er mwyn edrych yn fanylach ar y model sydd ei angen arnom fel Cyngor i'n caniatáu i gefnogi llesiant unigolion i'r dyfodol.

Mae gwaith yn digwydd hefyd i wella profiadau pobl drwy gryfhau gallu ein tîmau cymunedol i ymateb a rhoi cefnogaeth wrth i bobl **drosglwyddo o'r ysbyty i'r gymuned**. Er enghraifft, yn Ysbyty Gwynedd, treialwyd trefn lle'r oedd ein gwasanaeth gofal cartref yn ymweld â'r unigolion fyddai fel arfer yn derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gymryd cyfrifoldeb am dynnu'r claf allan o'r ysbyty a chydlynu'r gofal. Roedd y drefn syml yma'n golygu cysondeb yng ngofal yr unigolyn a ffocws ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, gan ddileu'r arfer o dynnu mwy o broffesiynau na sy'n angenrheidiol i mewn. Golyga hyn fod amser arhosiad yn yr ysbyty yn gostwng yn sylweddol a bod y cleifion yn agosach at y penderfyniadau sy'n eu heffeithio nhw. Byddwn yn adeiladu ar y trefniadau dechreuol gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn ystod argyfwng covid-19 i sicrhau bod y model cywir yn cael ei ddatblygu wrth symud ymlaen.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi bod yn cydweithio gyda'r Bwrdd

lechyd i ddatblygu'r ffordd mae **gofal cartref** yn cael ei ddarparu yn y sir. Mae'r cynlluniau peilot wedi ein galluogi i gynnig cymorth sydd wedi ei deilwra'n fwy penodol i anghenion unigolion a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Bellach, rydym wedi penderfynu sefydlu model newydd ar draws Wynedd gan roi pwyslais ar helpu pobl hŷn i fyw eu bywydau fel y maent eisiau ei fyw. Mae'r model newydd o ddarparu a chomisiynu gofal cartref ar sail is-ardaloedd ac ar ddiwedd 2019-20, cytunwyd i gomisiynu ar y cyd gyda'r Bwrdd lechyd i'r dyfodol. Drwy'r model newydd bydd yr holl asiantaethau ac unigolion perthnasol yn dod ynghyd er mwyn gweithio'n fwy effeithlon yn lleol.

Rydym wedi parhau, mewn partneriaeth â'r Bwrdd lechyd, i ddatblygu **darpariaeth dementia arbenigol** yn ein cartrefi mewnol fel rhan o becyn o wasanaethau gofal arbenigol ar draws y sir. Agorwyd unedau dementia newydd yn Nhywyn, Nefyn a Bangor ac mae'r buddsoddiad wedi gwella ansawdd gofal a'r amgylchedd i breswylwyr. Gobeithir agor uned pellach yn Llan Ffestiniog yn 2020/21, yn ogystal â gweithredu cynlluniau pellach ar gyfer Dolgellau a'r Bermo.

Pwrpas ein **Strategaeth Cefnogi Teuluoedd** yw i ddatblygu gwasanaethau llawer mwy integredig o fewn y Cyngor a gyda'n partneriaid gan ganolbwyntio ar adnabod anghenion yn gynnar, targedu teuluoedd yn gywir a chynnig gwasanaethau cyn i'r anghenion

ddwysau. Rydym eisoes wedi gwneud gwaith i adnabod beth yw'r galw am gefnogaeth i deuluoedd ar draws adrannau'r Cyngor yn ogystal â mapio pa ddarpariaethau sydd ar gael i gefnogi teuluoedd ar draws y sir, a sut mae pobl yn cael mynediad i'r gwasanaethau yma. Yn sgil hyn rydym wedi ailedrych ar ffyrdd o sicrhau mai un drws ffyrynt sydd gennym er mwyn rhoi cefnogaeth i deuluoedd. Yn 2019/20 bu i ni dreialu rolau **Cysylltwyr Cymunedol** yn y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Cefnogaeth gyda'r nod o dynnu'r holl wybodaeth i deuluoedd i un lle ([Hwb Teuluoedd Gwynedd](#)) yn seiliedig ar themâu sy'n bwysig i'n teuluoedd. Byddwn yn parhau i adolygu a yw'r trefniadau hyn yn addas i drigolion Gwynedd wrth symud ymlaen.

Mae ein rhaglen **Teuluoedd yn Gyntaf** yn parhau i weithio'n gynnar pan fo her neu bryder yn amlygu mewn cartref. Mae'r newid cyfeiriad a strwythur o amgylch y rhaglen yn y flwyddyn ddiwethaf wedi caniatáu i ni dargedu'r gefnogaeth fwyaf addas i anghenion a sefyllfa'r teulu. Mae'r Tîm Cefnogi Teulu a Chydlynwyr Teulu yn rhan greiddiol o'r gefnogaeth gynnar i deuluoedd cyn y bydd angen galw ar ymyrraeth y Tîmau Gwaith Cymdeithasol.

Rydym hefyd wedi arwain ar **Brosiect Trawsfurfio'r Blynyddoedd Cynnar** fel rhan o raglen Plant yn Gyntaf Maesgeirchen (Bangor). Mae teuluoedd a gweithwyr rheng flaen gofal, iechyd, addysg a chwarae wedi dod ynghyd yn y gymuned i adnabod ffyrdd o ail-ddylunio gwasanaethau yn seiliedig ar brofiadau teuluoedd.

Safon Ansawdd 2

Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol pobl

Mae cyfrifoldeb arnom i annog a grymuso pobl i warchod eu hiechyd a'u lles ac i fabwysiadau ffyrdd iach o fyw, gan dderbyn gofal a chymorth ataliol a rhagweithiol pan fo angen.

Mae ein darpariaeth **anableddau dysgu** yn ffocysu ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolion a sut allwn ni weithio gyda nhw i ddatblygu amryw o gyfleon gwahanol i'w cefnogi i edrych ar ôl eu llesiant eu hunain. Mae'r fîm llesiant wedi sefydlu amryw o ddigwyddiadau a grwpiau sy'n helpu cyfarch anghenion llesiant nifer fawr o unigolion o fewn y gwasanaeth. Er enghraifft, ymunodd dros 100 o unigolion o bob cwr o Ogledd Cymru mewn twrnament pêl-droed cerdded. Mae'r cyfleon hyn yn creu lot o gysylltiadau a ffrindiau newydd, gan hefyd roi cyfle i'r fîm llesiant a'r gweithwyr cymdeithasol adnabod unrhyw fewnbwn pellach sydd ei angen ar yr unigolion.

Mae'r **maes iechyd meddwl** a chefnogi unigolion i fyw bywyd llawn yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Rydym yn gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd i gefnogi unigolion ag anawsterau iechyd meddwl er mwyn hyrwyddo adferiad a'u cefnogi i fyw yn annibynnol. Rydym wedi bod yn gweithredu strategaeth 'Law yn Llaw

at Iechyd Meddwl', ac mewn partneriaeth sy'n cael ei harwain gan y Bwrdd Iechyd, mae **canolfannau Gallaf I (ICAN)** wedi eu datblygu i gynnig cefnogaeth cynnar i unigolion, yn y gymuned, yn agos at adref. Agorodd un ganolfan ym mis Ionawr 2020 ond oherwydd argyfwng Covid-19 a chyfyngiadau'r cyfnod clo, dydi hi ddim wedi bod yn bosib mesur yr effaith hyd yma. Bu gwaith yn digwydd rhwng rhaglen ICAN a phrif ysbyty'r sir (Ysbyty Gwynedd) hefyd er mwyn cefnogi unigolion gyda'r bwriad o atal mynediadau di-angen i'r uned seiciatryddol.

Mae'r Gwasanaeth Ieuencid wedi arwain ar ddatblygu **Llwybr Llesiant i Bobl Ifanc** 11-25 oed, gyda chefnogaeth *The Mental Health Foundation*. Mae adborth a phrofiadau pobl ifanc o ddiffyg llesiant ac iechyd meddwl wedi helpu gwasanaethau cymorth i siapio darpariaeth fydd yn helpu ein pobl ifanc i gael a chynnal iechyd meddwl a llesiant emosiynol positif. Mae'r Llwybr Llesiant yn amlinellu'r darpariaethau cefnogol sydd ar gael, boed hynny yn y cartref, y gymuned, yr ysgol neu gan wasanaethau fwy arbenigol.



Plant yng ngofal y Cyngor -
diwedd Ebrill 2018 227
diwedd Mawrth 2019 273
diwedd Mawrth 2020 291

Mae cynnydd yn y nifer o **blant sy'n dod i mewn i ofal** y Cyngor. Ar ddiwedd Mawrth 2020, roedd 291 o blant yng ngofal y Cyngor, sy'n gynnydd o 15% o'i gymharu â'r llynedd. Mae'r niferoedd o blant mewn gofal wedi cynyddu'n flynyddol ers 2013/14 ac, ar hyn o bryd, mae'n edrych yn annhebygol y bydd y tueddiad yn newid. Rydym yn gweithio'n barhaus i geisio sicrhau bod y gefnogaeth briodol ar gael i deuluoedd fel bod plant yn gallu aros gyda'u rheini yn ddiogel. Rydym wedi cyflwyno cais grant i greu fîm aml-asiantaethol ar y cyd ag Ynys Môn er mwyn, yn bennaf, cydweithio â theuluoedd i leihau'r tebygrwydd fod angen i blant ddod i ofal all-sirol. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld y nifer o blant mewn gofal yn gostwng, ond nid ydym fel sir wedi gosod targed ar gyfer lleihau'r nifer. Yn hytrach, mae holl ymdrechion yr Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd yn cylchdroi o gwmpas sicrhau cefnogaeth amserol a phriodol i deuluoedd er mwyn eu cadw'n wydn ac iach.

Mae'r **Panel Rhiant Corfforaethol** yn parhau i edrych ar faterion penodol o fewn y maes Plant Mewn Gofal. Mae cynghorwyr a swyddogion ar draws y Cyngor, ynghyd â swyddogion o'r Bwrdd Iechyd yn aelodau o'r Panel, ac maent yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n

mynd yn dda a'r hyn y gallwn ddylanwadu arno er mwyn gwella canlyniadau i'r plant sydd yn ein gofal. Rwy'n falch bod rhiant maeth a phlentyn mewn gofal yn parhau yn rhan o'r panel, a thrwy hynny fod gwneud yr hyn sy'n bwysig i blant a theuluoedd wrth wraidd y gwaith.

Rydym wedi tynnu gwasanaethau ar draws y Cyngor ynghyd i siapiao'r **Rhaglen Cefnogi Llesiant Pobl**. Fel rhan o'r rhaglen, rydym wedi mapio gwasanaethau, adnabod rhwystrau a gwella ein dealltwriaeth o sut mae'n gwasanaethau yn cael eu darparu ar hyn o bryd. Mae hyn wedi amlygu nad oes cysylltiad rhwng y wahanol unedau sy'n cefnogi unigolion a theuluoedd ar faterion gwahanol. Byddwn yn parhau i edrych ar y siwrne ddefnyddol i drigolion Gwynedd wrth dderbyn cymorth neu gefnogaeth gan y Cyngor.

Mae'n **gwasanaeth llesiant**, sydd yn gweithio ar draws ein darpariaethau Oedolion a Phlant, yn anelu i wella ansawdd bywyd drwy gysylltu pobl gan roi pwyslais ar leihau unigrwydd, hybu iechyd a lles, hyrwyddo cydweithio a chryfhau a datblygu gwasanaethau yn seiliedig ar beth sy'n bwysig i bobl Gwynedd. Mae cryfhau ein **cefnogaeth i ofalwyr**, gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn ganolog i'r gwaith a cheisir gwneud hynny trwy gynnig cyfleoedd newydd.

Mae'r prosiect **Gwydnwch Cymunedol** yn adeiladu ar gryfderau ein cymunedau yn y 5 ardal gofal gan geisio cydweithio i lenwi bylchau a chreu ystod lawn o gefnogaeth ataliol i'w gwneud yn haws i bobl barhau i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau. Mae enghreifftiau o'r cynlluniau yn cynnwys Cynllun Trafnidiaeth Cymunedol Dyffryn Nantlle, gwasanaeth Pryd ar Glud ym Mlaenau Ffestiniog, ysgogi Mens Sheds ym Mhwillheli, a chydweithio gyda Antur Waunfawr ar gyfleodd i gynnwys pobl hyn ynysig mewn gweithgareddau yn ei ardal. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu prosiect 'Celfyddydau ar Bresgripsiwn' yma yng Ngwynedd er mwyn hybu effaith positif y celfyddydau ar iechyd meddwl. Cafwyd trafodaethau cychwynnol â phartneriaid perthnasol ynghylch sut i fynd i'r afael â materion iechyd meddwl a llesiant dynion hefyd, a bwriedir parhau â'r rhain wedi i'r sefyllfa wella'n dilyn argyfwng Covid-19.

Mae'r **Gwasanaeth Dementia Go** yn mynd o nerth i nerth gan gefnogi pobl gyda chyflyrau dwys megis Dementia a Parkinsons. Cyflwynwyd prosiect "Munud i Symud" sef cynllun o ymarferion corfforol ysgafn i breswylwyr cartrefi gofal y Cyngor. Mae rhaglen waith o weithgareddau amrywiol yn arwain at wythnos mabolgampau flynyddol rhwng y cartrefi. Mae'n cynnig agwedd arall ar hyrwyddo llesiant yr unigolyn ac mae wedi bod yn lwyddiant mawr ymhlith preswylwyr.

Safon Ansawdd 3

Diogelu ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Mae hyn yn cynnwys darparu gofal a chefnogaeth i amddiffyn pobl, tra hefyd yn eu grymuso i deimlo mewn rheolaeth cymaint a phosib.

Mae diogelu yn fater i bawb ac mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae wrth roi gwybod am unrhyw bryderon sydd gennym am iechyd a lles unigolion. Rydym fel Cyngor yn sicr wedi dod yn bell yn ein gwaith i sicrhau bod ein trefniadau mewnol yn addas i bwrpas tra'n atgyfnerthu hyn.

Mae gennym drefniadau mewnol, drwy'r **Panel Strategol Diogelu**, ers rhai blynyddoedd bellach i sicrhau trosolwg a mewnbwn prif swyddogion ac aelodau cabinet ar y maes. Y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd, yw cadeirydd y Panel ac mae gennym hefyd grŵp gweithredol diogelu er mwyn monitro'r gweithrediadau ymhob adran. Mae'r Panel yn derbyn cyflwyniadau penodol ar bynciau perthnasol ac hefyd yn sicrhau bod materion sydd wedi eu codi yn y **Byrddau Diogelu Rhanbarthol**, yn y **Grwpiau Cyflawni Diogelu Môn a Gwynedd** ac ym **Mhartneriaeth Diogelwch Cymunedol Môn a Gwynedd** yn derbyn sylw priodol o fewn trefniadau ac adrannau'r Cyngor. Fel Cyfarwyddwr, rwy'n hynod falch o'r trefniadau yma ac o

ymroddiad a chyfraniad swyddogion ac aelodau sy'n sicrhau bod diogelu'n flaenoriaeth barhaus. Mewn cyfnodau anodd, fel yr un yr ydym yn ei brofi ar hyn o bryd, mae trefniadau o'r fath yn hollbwysig fel nad yw diogelu'n lleihau mewn pwysigrwydd. Mae adroddiadau blynyddol ar gael sy'n egluro mwy am waith rhanbarthol diogelu a gwaith diogelwch cymunedol rhanbarthol ac is-rhanbarthol, ac rwy'n falch fod Gwynedd yn cyfrannu'n sylweddol i'r gwaith yma.

Wrth gwrs, mae'r maes diogelu'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion fel ei gilydd. Rydym yn gwybod bod y mwyafrif o blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn byw bywydau hapus, diogel ac yn mwynhau cyfleoedd i ddysgu ac i chwarae. Fodd bynnag, mae rhai plant a'u teuluoedd angen cyngor a chymorth mwy ffurfiol ar adegau gwahanol o'u bywyd. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am arwain, ymchwilio a rheoli ymyraethau diogelu plant y sir. Rydym yn gweithio'n agos gydag ysgolion, yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd, meddygon, ymwelwyr iechyd ayyb i gyflawni'r gyfrifoldeb statudol yma.

Mae'r **Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** yn parhau i gynnal safonau uchel wrth ymateb yn amserol i

gyfeiriadau a all fod yn rhai diogelu, ac i gyfeiriadau am ofal a chefnogaeth. Er mwyn diogelu plant a phobl ifanc rydym yn ymateb heb oedi, a phan fo'r cyfeiriadau'n cynnwys pryderon neu honiadau o gamdriniaeth, mae angen ymchwilio iddynt yn unol â Chanllawiau Amddiffyn Plant. Byddwn yn gwneud penderfyniad ar y ffordd orau i ymateb i bob achos o fewn pedair awr ar hugain. Rydym yn gweithredu'r dyletswyddau statudol i adolygu achosion Plant mewn Gofal ac yn rhoi arweiniad ar amddiffyn plant, gan gadeirio Cynadleddau Achos a Chyfarfodydd Strategaeth lle mae honiadau'n erbyn pobl broffesiynol. Mae'n her barhaus i sicrhau bod y drefn yn cael ei rheoli a'i gweithredu'n briodol ac mae'n hynod bwysig i mi fel Cyfarwyddwr sicrhau bod yr adnoddau priodol yn eu lle i alluogi i'r gweithdrefnau yma gael eu gweithredu'n effeithiol. Byddaf yn parhau i weithio'n agos gyda'r Pennaeth i sicrhau ein bod yn monitro'r sefyllfa.

Mae'r **Timau Gwaith Cymdeithasol** yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth ddwys i blant a'u teuluoedd, drwy eu gweld yn rheolaidd a chadw mewn cyswllt gan fod yn effro i faterion o risg i blant a phobl ifanc. Rydym yn sicrhau fod adnoddau ar gael i'w cefnogi a bod eu hanghenion yn glir i ni allu rhoi cynlluniau yn eu lle ar gyfer ymateb. Ar adegau, rydym yn eu cyfeirio ymlaen i dimau sy'n cynnig cefnogaeth fwy arbenigol. Mae'r cydweithio da rhwng timau'n golygu fod teuluoedd yn cael

y gefnogaeth fwyaf priodol, ar yr adeg iawn. Rydym wedi cychwyn ar ehangu'r Cynllun Rhiant i gynnwys gwaith ein partneriaid er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o sgiliau ac arbenigeddau i gefnogi ein teuluoedd, ynghyd â sicrhau cyd-hyfforddi a chynnwys profiadau rhieni wrth ddatblygu'n gwasanaethau.

Mae'r **Cydlynedd Amddiffyn Plant** yn rôl annibynnol sy'n gyfrifol am gynnal y gofrestr amddiffyn plant a chadeirio ein cynadleddau achos. Yn ystod 2019/20, cynhaliwyd 397 o gynadleddau amddiffyn plant. Roedd canran y cynadleddau achos lle ystyriwyd fod yr asesiadau risg o safon uchel yn 99% ac yn gyson â'r blynyddoedd diweddar. Mae'r perfformiad gyson uchel yma'n dangos effaith ein buddsoddiad mewn ymarfer i sicrhau penderfyniadau da sy'n gwarchod hawliau plant a'u teuluoedd. Ymhellach, mae prosiect 'Amddiffyn Plant yn Effeithiol', wedi'i ariannu drwy grant trawsffurfio Cymru lachach, yn symud yn ei flaen yn dda iawn gyda thîm a rhaglen waith clir mewn lle. Mae adolygiad annibynnol a gynhaliwyd wedi blwyddyn gyntaf y prosiect wedi dangos gwelliant mewn sawl agwedd o ymarfer amddiffyn ac mae'r prosiect yn parhau yn uchelgeisiol er cyfyngiadau diweddar ar y rhaglen waith oherwydd argyfwng Covid-19.

Wrth gynnal ymchwiliadau amddiffyn plant a darganfod fod angen cefnogaeth ddwys iawn ar rai teuluoedd, bydd angen i ni ddod â

phlant sydd mewn perygl i ofal y Cyngor. Maent fel arfer yn cyrraedd ein gofal dan amgylchiadau anodd iawn, a rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Ar ddiwedd Mawrth 2020 roedd 291 o **blant yng ngofal y Cyngor**, ac roedd 69% o'r rhain yn derbyn gofal mewn lleoliad maeth, gyda 33% o ofalwyr maeth yn deulu neu ffrindiau a 21% o blant mewn gofal wedi eu lleoli gyda'u rhieni, ac felly'n parhau gartref.

Mae'r **Tim Maethu** yn parhau i gynnig gwasanaethau o safon drwy gefnogi ein rheini maeth ac asesu darpar gofalwyr maeth er mwyn sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol i blant sy'n dod i'n gofal. Tra bo plentyn yng ngofal y Cyngor, ein cyfrifoldeb ni yw darparu cynllun gofal clir ar ei gyfer sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau fod y penderfyniadau iawn yn cael eu gwneud er lles y plentyn.

Mae **Swyddogion Adolygu Annibynnol** yn monitro cynlluniau gofal pob plentyn a pherson ifanc mewn gofal. Maent yn sicrhau fod y cynlluniau wedi rhoi ystyriaeth a phwysau priodol i ddymuniadau a theimladau'r plentyn, a bod y plentyn yn deall ei sefyllfa yn llawn o ystyried ei oed a'i ddealltwriaeth. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu diogelu trwy gydol eu hamser mewn gofal. Maent yn gwrandao ar blant, yn sicrhau fod plant yn cael llais ac yn hapus â'u cynlluniau, gan weithredu'n briodol os nad ydynt yn

cael eu dilyn. Yn ystod 2019/20, cynhaliwyd 771 o adolygiadau o gynlluniau gofal ac ystyriwyd fod 97% o gynlluniau gofal yn cwrdd anghenion y plentyn. Mae'r perfformiad yma wedi gwella ac felly'n dangos ein bod ar y trywydd cywir tuag at sicrhau darpariaethau addas ar gyfer ein plant mewn gofal.

Adolygwyd 771 o gynlluniau gofal plant, ac roedd 97% yn cwrdd ag anghenion y plentyn




O ran y maes oedolion, mae'r **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** yn parhau i ymateb i faterion diogelu ac yn ystod y flwyddyn ddiweddar mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn wedi ymuno â'r adran gan eistedd gyda'r fîm diogelu.

Yn ystod 2019/20, bu 437 ymholiad diogelu, gyda 96% ohonynt wedi eu cwblhau o fewn y gofyn statudol. Mae hyn yn welliant ar y llynedd ac yn arwydd o lwyddiant y trefniadau newydd yn dilyn sefydlu'r Hwb Diogelu. Rydym yn gweithio ar leihau'r achosion na lwyddwyd i'w gweithredu o fewn y gofyn statudol.

Mae'r perfformiad yn cael ei fonitro a'i herio gan yr Uned Ddiogelu yn yr Adran yn barhaus, a phan mae angen uchafu materion i mi fel Cyfarwyddwr mae'r Adran yn gwneud hynny.

**o'r holl atgyfeiriadau
amddiffyn oedolion sydd
wedi eu cwblhau yn ystod
y flwyddyn, llwyddwyd i
reoli'r perygl 97% o'r
amser (gan eithio'r rhai a
wrthododd ymyrraeth)**



Er mwyn ceisio dysgu ac adlewyrchu, mae Gwynedd a Môn wedi archwilio achosion diogelu ar y cyd. Mae hyn wedi bod yn hynod ddefnyddiol ac mae bwriad i barhau gyda'r drefn hon ac adrodd gwersi i'r byrddau perthnasol.

Mis Hydref 2019, cawsom ymyrraeth **gweithgaredd ffocws** gan Arolygaeth Gofal Cymru (AGC). Er bod nifer o agweddau da wedi eu hamlygu, nododd yr arolygaeth bod angen gwneud gwelliannau ar rai agweddau. Mae rhaglen waith wedi ei chytuno o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac wedi ei rannu â mi fel Cyfarwyddwr.

Safon Ansawdd 4

Annog a darparu cefnogaeth i bobl ddysgu a chyfranogi mewn cymdeithas

Fel Cyngor, mae angen i ni gefnogi bobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt, gan eu helpu i ennill sgiliau sydd eu hangen arnynt a'u hannog i gefnogi ei gilydd o fewn eu cymunedau.

Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. Rydym yn cydnabod bod plant yn datblygu orau pan maent yn cael eu cefnogi i dyfu a llwyddo o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau. Rydym hefyd yn cydnabod bod cynnig ymyrraeth yn gynnar yn hanfodol i helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys. Credwn mai drwy ddod a holl wasanaethau ataliol y Cyngor at ei gilydd, megis y gwasanaethau addysg a phlant, y gallwn gyd-gynllunio a darparu'r gefnogaeth orau i'n trigolion.²

Mae'r **Gwasanaeth Ieuencid** ar ddiwedd eu blwyddyn gyntaf yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc drwy fodol newydd. Mae'r timau yn darparu gweithgareddau cymdeithasol, sesiynau dysgu a hyfforddiant. Yn ogystal, maent yn cynnig cefnogaeth bersonol ar y prif bethau ddywedodd pobl ifanc wrthym sy'n bwysig iddynt – sef llesiant, dysgu sgiliau newydd, a

pharatoi at fywyd annibynnol a gwaith. Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd ymysg pobl ifanc oedd sesiynau creadigol fel codio, graffiti a fflmio a gweithgareddau coginio fel paratoi bwyd a rhedeg Clwb Swper i rai dros 16. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ymateb i heriau cymdeithasol a phersonol pobl ifanc megis ymddygiadau heriol, llesiant a hunanddelwedd a rhwystrau i ail-ymgysylltu gydag addysg a gwaith.

Mae hi'n hollbwysig fod gwahanol oedrannau a chefnidiroedd yn cyd-fyw a chymysgu yn ein cymunedau ac mae cynllun **Pontio'r Cenedlaethau** yn ffordd o sicrhau hyn drwy annog cyddrafod am yr hyn y dymuna bobl weld yn eu hardaloedd, a chynnwys pawb mewn datblygiadau newydd. Mae sawl enghraifft ar waith drwy'r sir lle mae ysgolion a cholegau'n partneriaethu gyda lleoliadau gofal o fewn eu cymunedau (e.e Ysgol Glancegin gyda Chanolfan Ddydd Plas Hedd). Mae'r budd yn amlwg, gyda'r plant yn gweld fod y profiad yn llesol i'w sgiliau cymdeithasol a'r oedolion yn mwynhau teimlo eu cyfraniad i'r gymuned, ond yn bwysicach na dim mae'n gyfle i ffurfio perthnasau a deall yr hyn sy'n bwysig i'r

² Mae'r ymdrechion yn rhan o'r Strategaeth Cefnogi Teuluoedd ac mae rhagor o wybodaeth i'w ganfod o dan Safon Ansawdd Un.

naill a'r llall. Gwnaethom hefyd gynhyrchu llawlyfr Pontio'r Cenedlaethau i annog ysgolion i gyfeillio â chartrefi gofal neu gymdeithasau lleol er mwyn gweld yr un buddion.

Yn ystod y flwyddyn agorwyd siop newydd "**Galwch Acw**" yng Nghaernarfon, sydd â ffocws ar fyw'n gynaliadwy, er mwyn darparu hwb cymunedol sy'n cynnig gwaith a chyfleon hyfforddi i oedolion ag **anableddau dysgu**. Mae'r fenter yn cael ei rhedeg gan bartneriaeth o sefydliadau yn cynnwys Cyngor Gwynedd, ac roedd yn ffodus iawn i gael bod yn rhan o raglen Prosiect Pum Mil S4C a derbyn £5,000 tuag at ei sefydlu.

Ymhellach, ym maes **iechyd meddwl**, mae datblygiad canolfannau Gallaf I (ICAN) wedi bod yn greiddiol i'r ymdrechion i annog pobl i gefnogi ei gilydd a lleihau ynysu cymdeithasol.³

³ Darperir rhagor o wybodaeth am sefydliad y canolfannau Gallaf I (ICAN) o dan Safon Ansawdd Dau.

Safon Ansawdd 5

Darparu cefnogaeth i bobl er mwyn iddynt ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasau iach yn y cartref, gyda'u teulu ac ar lefel bersonol

Mae'r **Tim Trothwy Gofal** mewn lle ar gyfer gweithio'n ddwys gyda phlant a'u teuluoedd pan mae sefyllfaoedd adref yn fregus. Adroddodd 63% o blant oedd wedi derbyn cefnogaeth gan y fîm leihad yn y ffactorau a oedd yn amlwg cyn yr ymyrraeth, gan nodi ein bod wedi osgoi dod a phlant i mewn i ofal mewn rhai achosion.

Roedd 63% o blant yn dweud bod eu sefyllfa wedi gwella yn dilyn cefnogaeth i'w teulu, a nifer wedi gallu aros adref yn hytrach na mynd i ofal y Cyngor



Mae'n **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid** yn dîm aml-asiantaethol sy'n gweithio'n ddwys gyda phlant a phobl ifanc i atal troseddu neu aildroseddu drwy gynnig ymyrraeth arbenigol a gweithio gydag ysgolion, cymunedau a theuluoedd i adnabod datrysiadau. Maent yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, y Bwrdd Iechyd, Tai Gogledd Cymru, Gyrfa Cymru ac eraill, ac yn ystod 2019/20 daeth fîm 'Be di'r Sgôr' (gwasanaeth camddefnyddio sylweddau i bobl ifanc Gwynedd a Môn) a thîm Emrallt (gwasanaeth i

dadlo ymddygiad rhywiol problemus ymysg pobl ifanc) yn rhan o'r gwasanaeth.

Mae **Teuluoedd yn Gyntaf** yng Ngwynedd yn cynnig cefnogaeth i deuluoedd yn seiliedig ar eu hanghenion. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ddatblygu'n ymyrraethau i'n galluogi i ymateb i anghenion teuluoedd yn y modd mwyaf effeithiol, gan dreialu cynlluniau peilot gan Barnardos ac Y Bont yn ymwneud â rheoli gwrthdaro ymysg y teulu a chefnogi llesiant plant.

Mae **Strategaeth Gofalwyr** Gogledd Cymru wedi ei fabwysiadu i gydnabod pwysigrwydd cydweithio â gofalwyr o bob oed. Rydym wedi bod yn gweithio i wireddu'r strategaeth yn lleol ac yn ystod 2019/20 llwyddwyd i benodi Gweithiwr Prosiect Gofalwyr am gyfnod o flwyddyn i edrych ar ein modd o asesu anghenion gofalwyr di-dâl, gyda'r bwriad o gysoni'r ffordd yr ydym yn cydweithio efo gofalwyr. Yn ogystal, lanswyd llyfryn gwybodaeth "Edrych ar ôl rhywun?" i ddarparu gwybodaeth i ofalwyr ar bynciau amrywiol a buom yn gweithio ar wreiddio'r Cynllun Ysbaid sydd â'r nod o ddarparu cynlluniau ysbaid amgen a hyblyg i ofalwyr mewn ffyrdd creadigol.

Safon Ansawdd 6

Gweithio gyda pobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni'u hanghenion

Mae hyn yn cynnwys eu cefnogi i gael gwaith da, ac i gael mynediad rhwydd at wasanaethau sydd eu hangen arnynt megis cymorth ariannol neu lety addas.

Un o'n blaenoriaethau mwyaf yw i sicrhau digon o dai pwrpasol o safon i gyfarch anghenion poblogaeth sy'n newid. Llynedd bu i mi adrodd ein bod wedi llunio **Strategaeth Dai** i anelu i uchafu safonau tai yng Ngwynedd yn ogystal â gwella mynediad at dai drwy gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl i'w galluogi i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau. Mabwysiadodd y Cyngor "Strategaeth Tai Gwynedd 2019-2024" yn mis Gorffennaf 2019, ac yn ystod y flwyddyn rydym wedi cychwyn ar y gwaith o wireddu elfennau ohoni. Rydym wedi cynnal asesiad budd-cost ar y cynlluniau sydd yn rhan o'r Strategaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn targedu gweithgareddau a gaiff yr effaith mwyaf ar drigolion Gwynedd. Mae gwaith hefyd wedi cychwyn i ariannu cynlluniau megis llety pwrpasol ar gyfer y digartref; dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd; a chynllun i bobl fregus adfer a gwella cyflwr eu tai.



Nifer o bobl y bu i'r Uned Digartrefedd eu helpu yn ystod y flwyddyn sy'n cynnydd o 35% yn y nifer sy'n cyflwyno'n ddigartref neu o dan fygythiad o fod yn ddigartrefedd dros y 5 mlynedd diwethaf

Ers 2015/16, mae'r **Gwasanaeth Digartrefedd** wedi gweld cynnydd blynyddol yn nifer yr unigolion sy'n dod atom yn ddigartref. Rydym wedi gweld cynnydd o 35% yn y nifer sy'n cyflwyno yn ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae'r galw'n parhau yn uwch nag erioed gyda 745 o unigolion wedi derbyn gwasanaeth yn 2019/20. Diffyg llety un llofft i bobl sengl yw un o'r prif rwystrau sy'n atal bobl mewn llety dros dro rhag symud i lety parhaol. Mae llety fforddiadwy, yn enwedig i bobl o dan 35 oed, yn parhau i'n rhwystro ni rhag lleihau'r tebygolrwydd o fod yn ddigartref yn y lle cyntaf. Mae nifer o'r cynlluniau o fewn Strategaeth Tai Gwynedd yn mynd i gyfrannu at geisio lleihau'r broblem hon.

Lansiwyd prosiect arloesol gwerth £40,000 i godi ymwybyddiaeth o **ddigartrefedd ymysg pobl ifanc** yng Ngwynedd. Cydweithiodd y Gwasanaeth Ieuenctid gyda elusen digartrefedd pobl ifanc, GISDA, i ddatblygu gweithgareddau a phhecyn hyfforddiant i'w defnyddio gyda phobl ifanc gan roi cipolwg o realiti llwm bywyd fel person digartref, y rhesymau pam fod pobl yn ddigartref, ble i droi am help, ynghyd â rhai o'r sgiliau bywyd sydd eu hangen fel sut i fyw ar gyllideb. Law yn llaw â'r gwaith hwn mae'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd wedi dod a phartneriaid ynghyd i gomisiynu gwaith ymchwil gyda phobl ifanc er mwyn siapio **Cynllun Lletya Pobl Ifanc**.

Ar y cyd â Cais a Grŵp Cynefin, mae prosiect newydd cyffrous ar y gweill ers mis Mawrth 2019 i ddatblygu llety 8 llofft ym Mangor sy'n cynnig cefnogaeth i bobl sy'n gadael carchar a phobl ag anghenion dwys sydd wedi bod yn cysgu allan. Drwy gydweithio gyda phartneriaid bydd y prosiect yn llwyddo i gynnig y ddarpariaeth sydd ei angen ar ein trigolion. Bu'r prosiect yma yn llwyddiannus yng Ngwobrau Cymorth Cymru yn y categori atal digartrefedd a gynhaliwyd fis Tachwedd 2019.

Rydym fel Cyngor hefyd yn darparu grantiau i addasu tai er mwyn i bobl ag anableddau allu parhau i fyw yn eu cartrefi, yn ogystal â grantiau

“galluogi” i helpu bobl barhau i fyw'n annibynnol yn eu tai eu hunain. Yn ystod 2019-20, gwnaethom ddarparu 89 o'r grantiau i addasu tai a 128 o'r grantiau “galluogi”.

Yn Mehefin 2019, agorwyd **Tai Gofal Ychwanegol** Hafod y Gest ym Mhorthmadog gan y Gweinidog Julie James, datblygiad ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Grŵp Cynefin wedi ariannu'n rhannol gan Grant Tai Llywodraeth Cymru. Mae'r datblygiad yn caniatáu i bobl hŷn yr ardal fyw'n annibynnol mewn amgylchedd cymunedol ddiogel lle mae gwasanaethau cefnogaeth a gofal hyblyg ar gael. Rwy'n falch o adrodd fod pob un o'r 49 o denantiaid wedi ymgartrefu yn y 40 fflat yno. Mae'r tenantiaid yn hapus eu byd, wedi creu cymuned glos ac yn dweud “na allant fod mewn lleoliad gwell ar eu cyfer”. Mae cymdeithas dai Adra hefyd wedi derbyn y caniatadau perthnasol ar gyfer datblygu Tai Gofal Ychwanegol pellach ym Mhwlheli, a bydd gwaith ar y safle yn dechrau'n ystod 2020/21. Mae gwaith dechreuol hefyd ar droed i ehangu'r ddarpariaeth ym Meirionnydd.

Un elfen o waith y **5 Tîm Ardal Lleol** fydd datblygu'r ffordd mae gofal cartref yn cael ei ddarparu yn y sir er mwyn gwella'r ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau.⁴

⁴ Gwybodaeth fanylach am y 5 Tîm Ardal Lleol i'w ganfod o dan Safon Ansawdd Un.

Mae **gwasanaeth Derwen** yn cynnig gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd. Yn ystod y flwyddyn maent wedi gweld nifer o achosion dwys a chymhleth gan gynnwys ceisiadau ar gyfer addasiadau tai. Mae prinder cyffredinol o dai addas, neu tai lle mae posibilrwydd eu haddasu, yn gwneud y gwaith hwn yn heriol tu hwnt, ond mae'r fîm yn cydweithio'n agos gyda'n Adran Tai ac Eiddo i ganfod y datrysiadau gorau posib i'r plant a'u teuluoedd. Hyd yma rydym wedi derbyn adborth positif iawn ar y cynnydd sydd wedi ei wneud yn symud achosion yn eu blaenau.

Rhan greiddiol o unrhyw ddarpariaeth gofal yw'r angen i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu derbyn y gwasanaeth drwy gyfrwng eu mamiaith neu'r iaith sydd fwyaf cyfforddus iddyn nhw. Yng Ngwynedd, y **Gymraeg** yw'r iaith hon i nifer. Ers 1996 rydym yn gweithredu'n ddwyieithog ymhob agwedd o'n gwaith. Mae ein polisi iaith wedi ymestyn i brosesau a gofynion recriwtio, casglu data, cytundebau, comisiynu, caffael a hyfforddiant. Rwyf yn manylu yn yr adran nesaf am sut yr ydym yn cyflawni yn erbyn Fframwaith 'Mwy na Geiriau'.

4. Sut rydym yn gwneud ein gwaith

Mae'r rhannau uchod wedi ceisio rhoi blas ar y prif weithgareddau dros y flwyddyn a fu, gan gydnabod ei bod yn amhosib manylu ar bob darn o waith mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymgymryd â nhw. Mae'r isod yn rhoi trosolwg o sut yr ydym yn gwneud ein gwaith.

Ein dull newydd o weithio ar draws y Cyngor a Gwasanaethau Cymdeithasol

Fel yr wyf wedi'i nodi, sylfaen ein gwaith yw i geisio gweithredu mewn dull sy'n rhoi pobl Gwynedd yn ganolog. Mae hyn yn ein symud oddi wrth ffordd o weithio sy'n dilyn prosesau hanesyddol, ac at ffordd sy'n cychwyn gyda'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn o'n blaenau. Mae'n newid mawr i nifer o staff ond mae'n ddull o weithio sy'n aml yn eu rhyddhau o gyfyngiadau sy'n eu rhwystro rhag gwneud y peth iawn i bobl Gwynedd.

Y Gymraeg a chyflawni yn erbyn gofynion fframwaith 'Mwy na Geiriau'

Rydym yn croesawu ac wedi ymrwymo'n llawn i ofynion 'Mwy na Geiriau', ac rwy'n arwain yn genedlaethol ar yr agenda ar ran Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Rwyf hefyd yn

aelod o Fwrdd Partneriaeth y Gymraeg, sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru, ac yn cadeirio Fforwm 'Mwy na Geiriau' Gogledd Cymru. Mae'r fforwm yn darparu cyfleon i rannu syniadau a chydweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd, cynghorau a mudiadau eraill. Rydym yn cydweithio gyda rhai sy'n arwain ar brosiectau digidol er mwyn gweithredu'n rhagweithiol a sicrhau fod y seilwaith i'n galluogi i ddarparu gwasanaethau'n y Gymraeg mewn lle o'r cychwyn.

Mae ymrwymiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd i egwyddorion 'Mwy na Geiriau' yn adlewyrchiad o'r ymrwymiad a'r flaenoriaeth a roddir ar draws y Cyngor i gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Dynodwyd uwch swyddog i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y maes gofal. Mae'r swyddog yma hefyd yn cael ei hadnabod fel 'Llysgennad Busnes' i gydweithio gyda Gyrfya Cymru.

Ar ddiwedd
2019/20 roedd
tua 88% o staff y
gwasanaethau
cymdeithasol yn
gallu'r Gymraeg



Ar ddiwedd 2019/20 roedd tua 88% o staff y gwasanaethau cymdeithasol yn gallu'r Gymraeg ac rydym yn hyderus iawn yng ngallu'r Cyngor i weithredu'r Cynnig Rhagweithiol. Rydym bellach mewn gwell sefyllfa i gofnodi data ieithyddol perthnasol ers i'r system gyfrifiadurol newydd, WCCIS, ddod i rym. Mae adroddiadau o'r system WCCIS yn fodd o adnabod gwendidau a diffygion y ddarpariaeth mewn perthynas â'r Cynnig Rhagweithiol, a bydd yr wybodaeth yma'n bwydo i brosesau cynllunio a chomisiynu. Rydym wedi bod yn gwneud gwaith yn edrych ar broffiliau iaith y timau integredig sydd wedi eu sefydlu rhyngom ni a'r Bwrdd Lechyd hefyd. Yn 2020/21 bydd gwaith yn digwydd i sefydlu proffiliau iaith staff y Bwrdd Lechyd sy'n rhan o'r timau, a byddwn yn gwneud y cyswllt gyda Chyngor Ynys Môn hefyd. Y bwriad yn y pendraw yw i ystyried a oes angen llenwi bylchau gan edrych wedyn ar y sefyllfa fesul fîm.

Un cynllun newydd cyffrous sydd ar y gweill yn y maes Blynyddoedd Cynnar yw ymestyn gwaith sgrinio teclyn *Welcomm* i ysgolion o fewn ardaloedd y cynllun Dechrau'n Deg. Mae hwn yn waith sy'n ceisio gwella datblygiad iaith plentyn, ac mae'r canlyniadau cychwynnol yn addawol. Mae'r cais grant wedi ei gyflwyno er mwyn i therapyddion iaith gydweithio ag ymwelwyr iechyd a datblygu'r ddarpariaeth ymhellach.

Rydym hefyd yn rhoi sylw i'r Gymraeg fel rhan o'n hymdrechion i gryfhau ein

gweithle a'n sefyllfa recriwtio i'r maes gan dargedu meysydd penodol lle mae bwlch yn y ddarpariaeth e.e. therapi galwedigaethol. Mae mwy o wybodaeth yn y rhan nesaf o'r adroddiad.

Ein gweithlu a sut yr ydym yn cefnogi eu swyddogaeth broffesiynol

Mae gofal cymdeithasol yng Ngwynedd yn cael ei ddarparu gan gymysgedd eang o wasanaethau statudol, asiantaethau preifat a'r trydydd sector, ac mae staffio'r maes yn un o heriau mwyaf ein gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r heriau yn benodol amlwg yn y maes gofal cartref, ac mae hyn yn gynyddol bryderus i mi fel Cyfarwyddwr wrth i ni fethu â darparu pecynnau gofal mewn rhai sefyllfaoedd o ganlyniad i ddiffyg staff. Mae gennym weithlu ymroddedig ac effeithiol, ond mae'n rhaid i ni sicrhau fod y nifer cywir gennym er mwyn gallu diwallu'r angen i'r dyfodol. Mae gwaith ymchwil diweddar yn dangos bod y sector gofal cymdeithasol yn creu gwerth economaidd ehangach ac er mwyn ceisio denu mwy o ddiddordeb gyrrfaol bydd angen i ni godi proffil a statws y maes. O'r herwydd, mae'r gwaith yma wedi ei gynnwys fel un o'n blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2018-23, ac mae Grŵp Recriwtio eisoes yn gwneud gwaith i wella'r sefyllfa. Mae gwaith y grŵp yn plethu i waith y Grŵp Recriwtio Rhanbarthol a grwpiau gwaith

ymgyrch cenedlaethol 'Gofalwn Cymru' er mwyn sicrhau nad oes dyblygu a'n bod yn adeiladu ar ymarfer da ar draws Cymru.

Yn ystod 2019/20 cynlluniwyd i lenwi swydd Cydlynnydd Gyrfaol Gofal Rhanbarthol gyda phenodiad llwyddiannus wedi ei wneud ym Mawrth 2020. Edrychwn ymlaen i ddatblygu'r swydd ac adeiladu ar ein gwaith o sefydlu strwythurau a pherthnasau gyda'n partneriaid allweddol fel Gyrfa Cymru a DWP. Rydym hefyd wedi bod yn gwneud gwaith i adolygu Cynllun Prentisiaethau'r cyngor i geisio dylanwadu ar y nifer o brentisiaethau sydd ar gael ym maes gofal. Rydym wedi targedu meysydd lle mae anawsterau penodol yn codi e.e. sgiliau arwain o fewn maes gofal preswyl ac arbenigedd addas ynghyd â'r gallu i weithio'n y Gymraeg ym maes therapi galwedigaethol. Gyda'r bwriad o geisio denu mwy o bobl ifanc i'r maes gofal, mae prosiect Pontio'r Cenedlaethau wedi creu cyfleoedd i fyfyrwyr Coleg Meirion Dwyfor gydweithio gyda pobl hŷn mewn lleoliadau gwahanol ar draws y Sir.

Yn ychwanegol, mae cyfnod argyfwng Covid-19 wedi rhoi llwyfan i ni amlygu pwysigrwydd y maes, ac wedi tynnu mwy o sylw at yr heriau sy'n dal i fodoli. Fel Cyfarwyddwr, rwy'n teimlo ei bod yn hollbwysig nad ydym yn colli'r cyfle yma i fod yn llawer mwy dychmygus wrth i ni ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer y maes. Mae nifer o weithlu'r maes wedi addasu er mwyn ymgymryd

â swyddogaethau gwahanol neu weithio mewn ffordd wahanol ac yn ystod 2020-21 byddaf, ar y cyd â'r Penaethiaid a'r Uwch Reolwyr perthnasol, yn sicrhau ein bod yn ystyried y gwersi a ddysgwyd er mwyn siapio a chryfhau ein gwasanaethau ar gyfer oedolion a phlant bregus, gan ganolbwyntio ar gyfarch yr hyn sy'n bwysig a sicrhau cynaliadwyedd ein gwasanaethau yn wyneb argyfwng i'r dyfodol. Hoffwn ddiolch o galon i'r holl staff a gwirfoddolwyr sydd wedi bod mor barod i gamu mewn ac i gydweithio, yn aml mewn amgylchiadau anghyfarwydd, i sicrhau ein bod yn cyflawni'n cyfrifoldebau tuag at bobl Gwynedd yn ystod yr adeg heriol hwn.

Ein hadnoddau ariannol a sut yr ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae cyllideb Awdurdodau Lleol wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd y lleihad yn y grant a ddaw gan Lywodraeth Cymru. Er hynny, mae pobl yn byw'n hirach, ac yn aml â chyflyrau iechyd cymhleth, ac felly mae'r galw ar ein gwasanaethau a'n cyllideb yn cynyddu. Fodd bynnag, mae'n dull o weithio'n golygu ein bod yn fwy hyblyg a chreadigol wrth ddarparu gwasanaethau, gan geisio cadw effaith unrhyw doriadau ar bobl Gwynedd i'r lleiafswm posib tra'n parhau i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl. Rhan o hyn yw ceisio sicrhau ein bod yn edrych ar ffyrdd gwell a di-dor o ddarparu ein gwasanaethau i bobl.

Mae cynlluniau lleol trawsffurfiol eu natur felly ar y gweill fydd yn ceisio ymateb i'r her o gyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal mewn dulliau mwy cydlynus o fewn yr amlen ariannol.

Rydym yn derbyn nifer o grantiau ar gyfer darparu gwasanaethau a phrosiectau, ond mae'r cyllid yma fel arfer yn fyrdymor, sy'n golygu cytundebau tymor byr i staff. Mae hyn yn ei dro yn ei gwneud yn anodd cadw staff profiadol oherwydd na allwn warantu cyflogaeth tymor hir neu barhaol. Mae ein gweithwyr yn magu perthynas dda gyda nifer o'n trigolion ac felly mae'r ansicrwydd yma a'r angen i gychwyn o'r newydd gyda gweithwyr newydd yn ei dro'n cael effaith arnyn nhw, ac ar y gwasanaeth maen nhw'n ei dderbyn gennym.

Wrth edrych ar sefyllfa derfynol 2019/20, mae'n amlwg iawn fod pwysau sylweddol yn wynebu'r maes gofal. Yn dilyn derbyn ac ail gyfeirio grantiau gan y Llywodraeth, bu gwelliant yn sefyllfa ariannol ddiwedd blwyddyn yr Adran Oedolion. Bu cynnydd yn y tueddiad gorwariant gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd sydd wedi arwain at or-wariant ddiwedd y flwyddyn. Nid yw'r sefyllfa gorwariant yn y maes plant yn unigryw i Wynedd, mae'n ddarlun a welir ar draws yr awdurdodau, ac mae'r sefyllfa yn fy mhryderu. Rydym eisoes wedi comisiynu gwaith er mwyn cael gwell dealltwriaeth, ynghyd â rhoi sylw i faterion ariannol dyrys y ddwy adran.

Gweithio mewn partneriaeth

Rhan greiddiol o'n gwaith yw gweithio mewn partneriaeth yn lleol ac yn rhanbarthol gyda phartneriaid megis y Bwrdd Iechyd, yr Heddlu a'r trydydd sector. Mae cyfeiriadau drwy gydol yr adroddiad at wahanol ddarnau o waith sy'n aml yn cael eu gweithredu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Rwy'n falch iawn o'r berthynas sydd gennym gyda'n partneriaid yn lleol, lle mae cydweithio adeiladol yn digwydd a thrafodaethau agored ar unrhyw wahaniaeth barn i geisio sicrhau ein bod yn cytuno ar y ffordd orau o weithio ar gyfer ein poblogaeth.

Ar ddiwedd y flwyddyn, daeth argyfwng Covid-19 i'n taro. Mae'r Cyngor yn cefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyd-gordio'r ymateb cenedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru. Yn ystod y cyfnod ansicr hwn, rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol a gweithio'n agos gyda'n partneriaid i gefnogi ymdrechion. Rydym yn ffodus o'r trefniadau gweithio llwyddiannus sydd mewn lle gyda'n partneriaid, a'r gallu sydd gennym i addasu ac ymateb yn arloesol yn wyneb argyfwng. Byddwn yn parhau, wrth gwrs, i ymateb i'r gofynion fel fydd y sefyllfa yn datblygu ac rwy'n mawr obeithio y bydd nifer o'r trefniadau newydd yn parhau yn dilyn yr argyfwng. Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch i'n staff a'n darparwyr am addasu i'r sefyllfa gan sicrhau'r gwasanaeth gorau i drigolion Gwynedd yn ystod cyfnod cythryblus o anodd.

Y prif beth sydd wedi'i amlygu gan yr argyfwng yw pwysigrwydd cydweithio agos rhyngom fel partneriaid i'r dyfodol. Mae'r angen i ni barchu'r system ofal yn ei chyfanrwydd, a chyfraniad pawb ati, ac rwy'n benderfynol fel Cyfarwyddwr fy mod am barhau i geisio cynnal a meithrin y math yma o weithio a rhwydweithio. Mae sawl ffrwd gwaith yn rhanbarthol hefyd lle rwy'n cyfrannu at y weledigaeth yma o fod yn bartneriaid hafal gan geisio'r gorau i'n poblogaeth.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn weithredol ers rhai blynnyddoedd bellach. Rwyf i ac Aelod Cabinet Oedolion, y Cynghorydd Dafydd Meurig, yn aelodau o'r Bwrdd hwn. Rydym hefyd fel partneriaid yn cyfarfod fel Grŵp Integredig Gofal ac Iechyd er mwyn sicrhau ein bod yn cytuno'r ffordd ymlaen ar lefel mwy lleol. Mae'r grŵp yma hefyd yn atebol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn sy'n cryfhau'r atebolrwydd lleol. Ers dwy flynedd bellach rwyf hefyd fel Cyfarwyddwr yn aelod cyswllt ar Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Mae fy rôl yma yn un sy'n ymwneud â chynghori a rhoi adborth i'r Bwrdd Iechyd ar faterion sydd yn ymwneud â'r maes gofal cymdeithasol, ac er nad oes gennyf rôl sydd â phleidlais ar y Bwrdd, rwy'n ei ystyried yn fuddsoddiad amser gwerthfawr o ran ceisio rhoi gogwydd gofal ar y trafodaethau hyn.

Rydym fel Cyngor yn rhan o Gyd-Bwyllgor Iechyd y Canolbarth sydd â'r nod o sicrhau bod gwasanaethau gofal ac iechyd yng Nghanolbarth Cymru yn effeithiol ar gyfer ei boblogaeth. Mae daearyddiaeth Gwynedd wrth gwrs yn golygu bod y boblogaeth yn ne'r sir yn defnyddio gwasanaethau iechyd Bwrdd Iechyd Hywel Dda gan fwyaf ac felly mae cynnal y berthynas yma ar lefel arweiniol yn hynod bwysig.

Mae'r Grŵp Cyswllt Trydydd Sector, sy'n rhoi trosolwg o'r maes ac sy'n annog a gwthio cydweithio effeithiol rhwng sefydliadau statudol a'r trydydd sector, yn symud yn ei flaen ac yn cryfhau. Mae cyflwyniadau ac ymweliadau yn cael eu trefnu drwy'r Grŵp Cyswllt sy'n sicrhau bod cyfleoedd i wella gwasanaethau i'r boblogaeth yn cael eu trafod a'u cytuno. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol fod archwiliad i'n gwaith wedi amlygu'r angen i ymgysylltu mwy gyda'r trydydd sector, gan sicrhau mwy o gyfleon iddynt gyfrannu at yr agenda lles. Mae'r archwiliad hefyd wedi amlygu'r angen i ni sicrhau cysondeb rhwng cymunedau mewn perthynas â chydweithredu rhagweithiol gyda'r sector. Byddwn yn rhoi sylw i'r materion hyn yn symud ymlaen, ac mae'n debygol y bydd argyfwng Covid-19 wedi cael effaith bositif ar y ffordd yr ydym yn cydweithio i gefnogi'n cymunedau. Bydd dal ein gafael ar hynny'n hollbwysig.

Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd

Rhan o'r Ddeddf sy'n bwysig imi dynnu eich sylw ati yw Rhan 8, sy'n nodi'r gofynion sydd arnaf fel Cyfarwyddwr Statudol am Wasanaethau Cymdeithasol. Mae Cabinet Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo 'Protocol y Cyfarwyddwr'. Dogfen yw hon sy'n amlinellu sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfarch y gofynion deddfwriaethol. Mae'r protocol yn sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn ynghyd â llinellau atebolrwydd cryf. Mae'r protocol ar y wefan, ac mae'n bwysig fod staff ac aelodau hefyd yn ymgyswngwyo eu hunain â'r gofynion.

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu mewnol cadarn i gefnogi rheolaeth effeithiol o wasanaethau cymdeithasol. Yn ogystal â chyflwyno adroddiadau i bwyllgorau craffu, mae gennym hefyd strwythur herio perfformiad adrannol sefydlog. Rydym hefyd yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r Arolygaeth i sicrhau bod ein gweithdrefnau'n gadarn. Mae'r Pwyllgorau Craffu wedi cyfrannu'n helaeth eto eleni wrth graffu meysydd arbennig a chynnig persbectifau pwysig inni er mwyn gwella'n barhaus.

Mae'r Cyngor wedi pennu dau o aelodau'r Cabinet ar gyfer y meysydd o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol, sef y Cynghorydd Dafydd Meurig ar gyfer y meysydd Oedolion, Iechyd a Llesiant, a'r Cynghorydd Dilwyn

Morgan ar gyfer y meysydd Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Dysgu a Datblygu

Mae dysgu a gwella yn rhan allweddol o'n model gweithredu os am wella ein perfformiad a chyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd. Mae timau'n cael eu dysgu bellach i gychwyn gyda'r cwestiwn o beth sydd yn bwysig i bobl Gwynedd a cheisio gwneud popeth yn eu gallu i sicrhau bod ein trefniadau gwaith yn cyflawni hyn lle bo'n bosib.

Rhan allweddol o'r broses ddysgu hon wrth gwrs yw i ddysgu o gwynion. Mae trefniadau'n eu lle i adrodd yn ôl yn gyson ar gwynion sy'n codi o'r maes gofal, a gwneir pob ymdrech i ddatrys, ymateb, a dysgu ohonynt cyn gynted ag y bo modd. Cyhoeddir adroddiad blynyddol penodol ar gwynion, sy'n cynnig trosolwg o'r holl gwynion a dderbyniwyd ar draws holl adrannau'r Cyngor yn ystod 2019/20.

Trwy ymateb yn bositif yn ystod y camau cynnar hyn, gall rhai materion gael eu datrys yn effeithiol heb fod angen dilyn y Drefn Gwynion ffurfiol gan fod hwn yn gyfle i ymdrin ag unrhyw gamddealltwriaeth neu ymateb i ymholiadau. Heb os, dyma'r canlyniad gorau i bawb. Un o'r themâu amlwg wrth ddelio ag ymholiadau a chwynion anffurfiol ydy camddealltwriaeth rhwng pobl oherwydd diffyg cyfathrebu clir a chyson.

Yn ystod 2019/2020, derbyniodd yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd tri cais i uchafu cwyn i Gam 2 o'r Drefn Gwynion Statudol. Cafodd un cais hefyd ei gyflwyno gan achwynydd i gŵyn gael ei hymchwilio o dan drefniadau Cam 2 yn syth heb fynd drwy brosesau Cam 1 yn gyntaf. Mae'r Adran wedi bod mewn cyswllt gyda Swyddfa'r Ombwdsman ers rhai blynyddoedd bellach ynglŷn ag un achos penodol - mae'r Ombwdsman wedi cynnal un ymchwiliad ffurfiol yn 2018/19 ac ym mis Ebrill 2019 penderfynwyd agor ymchwiliad pellach. Mae'r Adran wedi derbyn sawl argymhelliad gan yr Ombwdsman, ac mae un yn parhau i fod angen ei gwblhau ond mae llithriad wedi bod yn y gwaith o ganlyniad i argyfwng Covid-19. Mae'r Adran wedi ymrwymo i gwblhau'r argymhellion cyn gynted a'i bod yn ddiogel a phriodol i wneud hynny. Mae'r Adran yn parhau i fod mewn cyswllt gyda'r Ombwdsman ar yr achos hwn.

Yn ystod 2019/2020, cafodd 14 o gwynion yr Adran Oedolion ymateb yng ngham 1 y drefn gwynion. Ni dderbyniwyd unrhyw gais i symud cwynion ymlaen o gam 1 i gam 2. Ar ddiwedd 2019, derbyniwyd canlyniad un ymchwiliad a oedd yn cael ei ystyried gan yr Ombwdsman ers 2018/19 a cyhoeddwyd yr adroddiad ar wefan y Cyngor gyda chopïau caled ar gael yn Siop Gwynedd, yn unol â chanllawiau'r Ombwdsman. Mae'r Cyngor wedi derbyn

argymhellion yr Ombwdsman, ond mae'r broses o'u gweithredu wedi ei ohirio oherwydd effaith Covid-19 ar waith yr Adran. Mae bwriad i gwblhau'r gwaith yma cyn gynted a phosib.

Yn gyffredinol, mae trefniadau effeithiol yn ei le gan y ddwy adran i sicrhau bod pob cwyn yn derbyn y sylw haeddiannol a phriodol. Serch hyn, er mwyn dysgu o'r cwynion hynny oedd yn fwy cymhleth ac sydd wedi cael sylw pellach gan yr Ombwdsman, rydym fel Cyngor wedi rhoi trefn pellach yn ei le fel y gallaf fel Cyfarwyddwr fonitro yn agosach ein rhaglenni gweithredu a chyrhaeddiad y ddwy adran yn erbyn rhain i'r dyfodol. Rwy'n gobeithio y gallwn, drwy wneud hynny, sicrhau ein bod yn glir ynghylch yr hyn sydd angen ei weithredu a'u bod yn cael eu gweithredu'n amserol a chyflawn.

Digidol

Rydym yn byw mewn byd sy'n newid ac addasu i dechnoleg newydd yn rheolaidd. Mae argyfwng Covid-19 wedi dangos pa mor bwysig ac effeithiol yw technoleg i ni gyd os am barhau i allu gweithredu mewn rhai sefyllfaoedd. Ni fyddem wedi gallu rhagweld y byddai'r Cyngor wedi gallu addasu mor sydyn i'r sefyllfa, gan sicrhau fod canran uchel o'n staff yn medru gweithio o adref i barhau i ddarparu gwasanaethau o safon.

Fel rhan o'r ymateb i'r argyfwng, rydym wedi cydweithio'n rhanbarthol gyda'r

Bwrdd Iechyd a'r Awdurdodau Lleol i ddatblygu system dros dro ar gyfer *profi, olrhain a diogelu*, gyda'r system yma'n cael ei defnyddio tra bod system genedlaethol yn cael ei datblygu. Er bod y system genedlaethol bellach mewn defnydd, mae elfennau o'r datblygiad a wnaethpwyd gan Gyngor Gwynedd dal mewn defnydd ar gyfer llwyfannu a rhannu gwybodaeth. Mae'r system wedi derbyn canmoliaeth mawr gan swyddogion blaenllaw yn y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdodau Lleol a hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch o galon i'r swyddogion hynny wnaeth ddatblygu'r system yma ar fyr rybydd.

Rydym fel Cyngor yn ychwanegu'n rheolaidd at y gwasanaethau sydd ar gael yn ddigidol. Mae ein system hunanwasanaeth ar-lein yn golygu gall trigolion Gwynedd wneud cais am wasanaethau'r Cyngor unrhyw adeg o'r dydd. Mae gwasanaethau ar-lein Gwynedd yn saff, cyflym a hawdd eu defnyddio - sy'n golygu y gallwn ni gyflymu'r broses o ymateb i geisiadau gwasanaeth pobl leol.

Mewn partneriaeth gyda chanolfan arddio Fron Goch rydym yn peilota technoleg 'Wandersafe'. Technoleg sydd fel arfer yn cael ei defnyddio yn y sector gofal ydi o, a dyma'r tro cyntaf iddi gael ei defnyddio mewn safle masnachol. Y nod yw i roi rhyddid i berson sy'n byw â dementia grwydro o amgylch y ganolfan arddio yn annibynnol, gan roi tawelwch meddwl i'w gofalwr. Mae'r system yn gweithio drwy ddarparu synhwyrdd i'r unigolyn, a math o larwm neu 'pager' i'r gofalwr. Bydd y larwm yn canu i hysbysu'r gofalwr pe bai'r unigolyn yn cerdded tuag at y brif fynedfa. Mae Arloesi Gwynedd Wledig yn monitro defnydd o'r dechnoleg yn Fron Goch. Os yw'r peilot yn llwyddiannus bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu gyda busnesau eraill yng Ngwynedd i'w hannog i fuddsoddi.

5. Blaenoriaethau 2020/21

Dyma brif flaenoriaethau Gwasanaethau Cymdeithasol am y flwyddyn 2020/21:

- Parhau gyda'r gwaith o ymateb yn briodol i argyfwng COVID-19
- Cyfrannu i'r gwaith rhanbarthol fydd yn digwydd i sicrhau bod gennym wasanaethau cymdeithasol cadarn wrth symud ymlaen
- Sicrhau ein bod yn dysgu gwersi sydd wedi eu hamlygu yn ystod argyfwng COVID-19 gan adolygu ein trefniadau fel sydd angen. Bydd hyn yn cynnwys sut yr ydym yn gweithio gyda'n partneriaid allweddol megis y sector gofal, y bwrdd iechyd a'r trydydd sector
- Sicrhau bod timau o fewn gwasanaethau gofal i oedolion yn gweithio oddi mewn i'r model gweithredu newydd yn unol â'r disgwyliad
- Paratoi trefniadau comisiynu ar gyfer y model darparu gofal cartref newydd, gyda'r bwriad o fod yn barod i fynd allan i dendr i'r farchnad erbyn diwedd y flwyddyn
- Edrych ar y trefniadau/strwythurau gweithredu rhwng yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Addysg yn dilyn gwaith casglu data a ddigwyddodd ddechrau 2020, a threialu ac asesu ffordd newydd o weithio rhwng y ddwy adran.
- Sicrhau gweithlu addas ar gyfer y maes gofal i'r dyfodol drwy gydweithio gyda phartneriaid allweddol, fel darparwyr allanol, gan geisio ymateb yn rhagweithiol i'r rhwystrau systemig sy'n bodoli ac edrych ar unrhyw gyfleoedd / dysgu sydd wedi codi oherwydd argyfwng Covid-19
- Parhau i adeiladu ar y gwaith mae'r Panel Rhiantu Corfforaethol wedi ei sefydlu er mwyn edrych ar lesiant a ffyniant ein plant mewn gofal drwy eu llygaid hwy a pharhau i fonitro ac adlewyrchu ar ein trefniadau cyffredinol o ran ein plant mewn gofal
- Gweithredu ar argymhellion Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n codi o weithgareddau ffocws gwahanol ar draws y ddwy adran
- Parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o beth fyddai'r trefniadau gorau i gefnogi llesiant pobl Gwynedd
- Parhau gyda'r gwaith o ddeall modelau cost gwahanol agweddau o wasanaethau oedolion a phlant er mwyn sicrhau bod y cyllidebau sydd eu hangen yn wybyddus i arweinwyr
- Parhau i ddysgu o gwynion a sicrhau bod argymhellion sy'n cael eu gweithredu'n amserol a chyflawn

Atodiad 1: Mesur Perfformiad 2019/20

| | Mesur | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|--|---------|---------|---------|---------|---------|-------------------|
| 1 | Nifer y defnyddwyr gwasanaethau oedolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol | 121 | - | 121 | 139 | 142 | 132 |
| 2 | Canran o bobl hŷn a phobl sydd ag anableddau corfforol lle gweler cynnydd mewn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy ⁵ | - | - | 88% | 80.5% | 98.80% | - |
| 3 | Canran o bobl hŷn a phobl sydd ag anableddau corfforol neu synhwyrdd sydd wedi adrodd ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn llawn neu'n rhannol | - | - | - | - | - | 96% ⁶ |
| 4 | Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd | 1.05 | 2.38 | 3.40 | 4.9 | 5.23 | 3.46 ⁷ |
| 5 | Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli | 100% | 96.7% | 97.9% | 97.6% | 91.50% | 91.2% |

Tud. 172

⁵ Penderfynwyd cynnwys y mesur hwn er cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol. Nodwyd fod y dull o fesur wedi newid yn ystod 2019/20 ac felly mesurau rhif 3 a 4 sy'n bodoli bellach.

⁶ 76% wedi nodi ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig yn llawn, ac 20% wedi nodi ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig yn rhannol

⁷ Nodwyd oherwydd oedi o ganlyniad i argyfwng Covid-19 nad yw data mis Mawrth ar gael, felly data yn adlewyrchu 11 mis o'r flwyddyn sydd yma

| | Mesur | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|----|--|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| 6 | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli (gan eithrio'r rhai sydd wedi gwrthod ymyrraeth) | - | 99% | 100% | 99.4% | 93.10% | 97.4% |
| 7 | Y nifer o ddyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl | 316 | 271 | 281 | 204 | 211 | 242 |
| 8 | Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill 2019 a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | 5.7% | 5.13% | 3.68% | 4.82% | 4.7% | 8.56% |
| 9 | Y nifer o ddyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi grant 'Galluogi' i Bobl Anabl | - | - | - | - | - | 77 |
| 10 | Nifer o bobl a gynorthwywyd drwy ddileu peryglon o gartrefi wedi eu rhentu | - | - | - | - | - | 734 |
| 11 | Nifer o unedau tai fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd | 144 | 48 | 71 | 77 | 87 | 89 |
| 12 | Canran plant 2 oed sy'n bresennol yn Dechrau'n Deg | 82% | 83% | 84% | 81% | 79% | 74% |
| 13 | Nifer o'r pecynnau cymorth uwch rhiantu sy'n arwain at deithio pellter cadarnhaol | 38% | 48% | 89% | 76% | 89% | 88% |

| | Mesur | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|----|---|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| 14 | Cynllun trosiannol wedi ei gytuno ar gyfer plant anabl 16 oed | 100% | 100% | | 100% | 100% | 100% |
| 15 | Cynllun llwybr wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal | 100% | 100% | 100% | 99% | 97% | 99% |
| 16 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth | 18.7% | 18.1% | 17.1% | 10% | 16.7% | 14.20% |
| 17 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | 6.2% | 7.7% | 6% | 7.5% | 5.9% | 8% |
| 18 | Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn | 93.8% | 91% | 91% | 89% | 85% | 84% |
| 19 | Canran yr adolygiadau amddiffyn plant wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn | 95.7% | 85.5% | 92.0% | 90% | 94% | 80% |
| 20 | Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn | 89% | 86.9% | 90% | 92% | 93% | 90% |

| | Mesur | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|----|---|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| | ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | | | | | | |
| 21 | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd wedi cael cynghorydd presennol wedi'i ddyrannu iddynt | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| 22 | Canran o gynadleddau achos lle bu clywed llais/barn y plentyn (ac eithrio plant o dan 7 oed) | 93% | 95% | 94% | 92% | 99% | 94% |
| 23 | Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol (a'r ateb wedi ei gofnodi) | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| 24 | Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau | 98% | 97% | 94% | 96% | 99% | 99% |

Atodiad 2: Gwybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd fel nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014)

Safon Ansawdd 1

Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y maent am eu cyflawni

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- sicrhau mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth clir, dealladwy i gefnogi pobl i gynnal eu lles a gwneud penderfyniadau gwybodus
- gweithio gydag unigolion, eu gofalwyr a sefydliadau sy'n bartneriaid, i gefnogi a chynnal annibyniaeth unigolyn heb yr angen am ofal a chymorth
- cwblhau asesiadau lles mewn modd amserol
- sicrhau bod penderfyniadau'n parchu amgylchiadau unigol ar draws yr ystod gyfan o anghenion a'u bod yn rhoi sylw priodol i gonfensiynau ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer plant, pobl hŷn a phobl anabl
- sicrhau bod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch
- galluogi pobl i gael rheolaeth dros gynllunio a darparu gofal
- hyrwyddo ffyrdd o fyw iach a'u cefnogi
- galluogi mynediad i wasanaethau a gweithgareddau sy'n cynnal iechyd meddwl a lles emosiynol
- annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, i fod yn actif ac elwa o ofal a chymorth ataliol rhagweithiol
- trefnu eiriolaeth annibynnol lle bo angen neu gyfeirio at fathau eraill o eiriolaeth i alluogi pobl i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad wrth adolygu a diwallu anghenion
- trefnu enwau cyswllt a rhannu gwybodaeth berthnasol gyda phartneriaid er mwyn caniatáu trosglwyddo gofal a chymorth yn llyfn ar draws y gwasanaethau
- hwyluso cynlluniau gofal a chymorth aml-ddisgyblaethol
- rhoi trefniadau ar waith ar gyfer asesu anghenion a phenderfynu ar gymhwysedd
- egluro heriau yn ogystal â chyflawniadau
- mesur effaith y gofal a'r cymorth, a chymorth i ofalwyr ar fywydau pobl a'u canlyniadau lles
- sicrhau bod pobl yn ymwybodol o dalu am ofal a threfniadau codi tâl

Safon Ansawdd 2

Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol pobl

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- hyrwyddo a chefnogi ffyrdd o fyw iach
- cefnogi gwasanaethau mynediad i gynnal iechyd meddwl a lles emosiynol
- annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles, bod yn actif ac elwa o ofal a chymorth ataliol rhagweithiol

Safon Ansawdd 3

Diogelu ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- ymateb yn effeithiol i amgylchiadau sy'n newid ac adolygu cyflawniadau canlyniadau lles unigolion yn rheolaidd
- darparu gofal a chefnogaeth i gwrdd ag anghenion a aseswyd i amddiffyn pobl rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu niwed arall
- datblygu trefniadau amddiffynnol ar gyfer y rhai sy'n rhoi eu diogelwch eu hunain mewn perygl i atal camdriniaeth ac esgeulustod.
- rheoli risg mewn ffordd sy'n grymuso pobl i deimlo mewn rheolaeth sy'n gyson ag anghenion diogelu
- gweithio mewn partneriaeth i ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth neu esgeulustod er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed
- darparu eiriolaeth mewn perthynas â diogelu

Safon Ansawdd 4

Annog a darparu cefnogaeth i bobl ddysgu a chyfranogi mewn cymdeithas

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- darparu cefnogaeth i bobl wneud y pethau sydd o bwys iddynt hwy
- helpu pobl i ennill y sgiliau a'r cyrhaeddiad addysgol sydd angen arnynt i gymryd rhan yn y pethau sydd o bwys iddynt hwy
- annog pobl i fod yn aelodau gweithredol o gymunedau a chefnogi'i gilydd i leihau ynysu cymdeithasol.

Safon Ansawdd 5

Darparu cefnogaeth i bobl er mwyn iddynt ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasau iach yn y cartref, gyda'u teulu ac ar lefel bersonol

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- darparu cefnogaeth i bobl gynnal perthnasau sydd o bwys iddynt, yn gyson ag anghenion diogelu
- helpu pobl i gydnabod perthnasau anniogel ac i ddiogelu eu hunain rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- lle bo'n briodol, rhoi ystyriaeth i farn teuluoedd, gofalwyr a pherthnasau personol eraill wrth asesu anghenion gofal a chymorth

Safon Ansawdd 6

Gweithio gyda pobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni'u hanghenion

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- darparu cefnogaeth i bobl gyfranogi fel dinasyddion gweithgar yn economaidd ac yn gymdeithasol
- darparu cefnogaeth i bobl gael gwaith ystyrion a chynnal y gwaith hwnnw

- darparu cefnogaeth i bobl gael cyngor a chymorth ariannol a help gyda budd-daliadau a grantiau
- darparu mynediad i wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill o ddewis
- darparu cefnogaeth i bobl gael llety sy'n diwallu eu hanghenion ac i hwyluso byw'n annibynnol

Eitem 14

CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---------------------|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | 1af Hydref 2020 |
| Teitl yr Eitem: | Adolygiad blynyddol o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor |
| Swyddog Cyswllt: | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) |

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyngor:

- fabwysiadu'r rhestr o bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol fel a nodir yn **Atodiad A**, ynghyd â mabwysiadu'r dyraniad seddau a nodir yn yr atodiad.
- ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol
- mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Pwyllgor Craffu Cymunedau
Pwyllgor Craffu Gofal

Grwp Plaid Cymru
Grwp Annibynnol
Grwp Annibynnol

2. CEFNDIR A RHESYMEG

2.1. CYFLWYNIAD

2.1.1 Yn unol â gofynion statudol, mae'n ofynnol cynnal adolygiad blynyddol o gydbwysedd y Cyngor, a gwneir hyn yn y cyfarfod blynyddol.

2.1.2 Adroddwyd yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar **yr 18fed o Orffennaf, 2019** fod cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|--------------------------------|-----------|
| Plaid Cymru | 41 |
| Annibynnol | 22 |
| Llais Gwynedd | 6 |
| Grwp Annibynnol Unedig Gwynedd | 3 |
| Aelod Unigol | 3 |
| Cyfanswm | 75 |

2.1.3 Ers hynny, mae newidiadau wedi bod fel a ganlyn:

- Mae'r Cynghorydd Dylan Bullard, Ward Pwllheli (Gogledd), wedi gadael y Grŵp Annibynnol.
- Mae'r Cynghorydd Peter Read, Ward Abererch, wedi gadael Grŵp Plaid Cymru.
- Mae Grŵp y Blaid Genedlaethol wedi ei ffurfio dan arweiniad y Cynghorydd Peter Read. Mae'r Cynghorydd Dylan Bullard yn aelod o'r grŵp yma hefyd.

2.1.4 Bellach, felly, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|--------------------------------|-----------|
| Plaid Cymru | 40 |
| Annibynnol | 21 |
| Llais Gwynedd | 6 |
| Grwp Annibynnol Unedig Gwynedd | 3 |
| Aelod Unigol | 3 |
| Y Blaid Genedlaethol | 2 |
| Cyfanswm | 75 |

2.2 DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

(a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.2.2 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2.1 uchod hefyd.

2.3 NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.3.1 Mae'r tabl yn Atodiad A yn cadarnhau pa bwyllgorau sydd i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol. Mae'r tabl hefyd yn cadarnhau'r uwch-gyflogau sydd i'w talu.

2.3.2 Mae'r newidiadau i'r cydbwysedd gwleidyddol fel a ganlyn:

- Mae'r Blaid Genedlaethol yn ennill un sedd ar y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar draul Grŵp Llais Gwynedd.

- Mae'r Blaid Genedlaethol yn ennill un sedd ar y Pwyllgor Craffu Gofal ar draul Aelod Unigol.
- Mae'r Blaid Genedlaethol yn ennill un sedd ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar draul y Grŵp Annibynnol.
- Mae'r Blaid Genedlaethol yn ennill un sedd ar y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ar draul y Grŵp Annibynnol.
- Mae'r Blaid Genedlaethol yn ennill un sedd ar Bwyllgor CYSAG ar draul y Grŵp Annibynnol.

2.3.3 Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r dyraniad seddau yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol fel a nodir yn **Atodiad A**.

2.4 CADEIRYDDIAETHAU AC IS-GADEIRYDDIAETHAU

2.4.1 Er mwyn ymateb i ofynion Mesur Llywodraeth Leol (2011) o ran dyrannu'r cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau, rhennir y pwyllgorau i flociau ar wahân.

2.4.2 Yn unol â gofynion adrannau 66-75 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n ofynnol dyrannu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod cydbwysedd gwleidyddol yn cael ei adlewyrchu yn y cadeiryddiaethau hynny, a bod y grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y weithrediaeth yn cael cyfran deg o'r cadeiryddiaethau.

2.4.3 Yr unig bwyllgorau y mae eu cadeiriau i'w dyrannu ar sail cydbwysedd gwleidyddol yw'r Pwyllgorau Craffu. Mae'r adolygiad blynyddol yn cadarnhau fod Cadeiryddiaeth dau o'r pwyllgorau craffu i'w dynodi i'r Grwp Annibynnol ac un o'r Cadeiryddiaethau i Grwp Plaid Cymru.

2.4.4 Yn unol â chytundeb Grŵp Busnes y Cyngor, awgrymir parhau gyda'r dyraniad i'r cadeiryddiaethau fel a ganlyn:

| | |
|-----------------------------------|------------------|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | Grwp Plaid Cymru |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | Grwp Annibynnol |
| Pwyllgor Craffu Gofal | Grwp Annibynnol |

2.4.5 Yn unol ag adran 83 o'r Mesur, ni chaiff cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fod yn aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth.

2.4.6 Nid oes unrhyw ddarpariaeth statudol na chyfansoddiadol yn rheoli'r penodiadau i'r is-gadeiryddiaethau nac i gadeiryddiaethau gweddill y pwyllgorau (heblaw na chaiff aelod o'r weithrediaeth gadeirio'r Pwyllgor Trwyddedu).

2.4.7 Y pwyllgorau eu hunain fydd yn ethol eu cadeirydd yn yr achosion hyn yn amodol ar y rheolau gweithdrefn sy'n cyfyngu tymor Cadeirydd i 2 flynedd.

3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

Swyddog Monitro:

Rwy'n fodlon fod yr amodau statudol sydd yn gofyn am adolygiad o'r cyd-bwysedd gwleidyddol yn weithredol. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn cyfarch y gofynion yn Neddf Llywodraeth Lleol a Thai 1989 (ac is ddeddfwriaeth) ar gyfer cyfrifo y cyd-bwysedd gwleidyddol.

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

ATODIAD A – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU

| A | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Y Blaid Genedlaethol | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|-----------------------------------|-------------|------------|----------------|----------------------|---------------------------|----------------|----------|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 10 | 5 | 1 (i lawr o 2) | 1 | 1 | 0 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 10 | 5 | 2 | | 0 | 1 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 10 | 5 | 1 | 1 | 1 | 0 (i lawr o 1) | 18 |
| Archwilio a Llywodraethu | 10 | 5 | 1 | | 1 | 1 | 18 |

| B | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Y Blaid Genedlaethol | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|----------------------------|-------------|----------------|---------------|----------------------|---------------------------|--------------|------------|
| Gwasanaethau Democraataidd | 8 | 4 (i lawr o 5) | 1 | 1 | 1 | | 15 |
| Cynllunio | 8 | 4 | 1 | | 1 | 1 | 15 |
| Trwyddedu Canolog | 8 | 4 | 1 | | 0 | 2 | 15 |
| Iaith | 8 | 5 | 1 | | 1 | | 15 |
| Penodi Prif Swyddogion | 8 | 4 (i lawr o 5) | 2 | 1 | 0 | | 15 |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 2 | 1 | | 0 | | 7 |
| Nifer y seddau | 84 | 43 | 12 | 4 | 6 | 5 | 154 |

| C | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Y Blaid Genedlaethol | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|------------------------------------|-------------|----------------|---------------|----------------------|---------------------------|--------------|----------|
| Pensiynau | 4 | 2 | 0 | | 0 | 1 | 7 |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 3 | 1 | | 1 | | 11 |
| CYSAG | 4 | 2 (i lawr o 3) | 0 | 1 | 0 | | 7 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd | 5 | 2 | 1 | | 0 | | 8 |

| | | | | | | | |
|--------------------------|------------|-----------|-----------|----------|----------|----------|------------|
| Cyfanswm y seddau | 103 | 52 | 14 | 5 | 7 | 6 | 187 |
|--------------------------|------------|-----------|-----------|----------|----------|----------|------------|

Yn unol â phenderfyniad blaenorol y Cyngor telir yr uwch gyflogau a ganlyn:

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd

- 8 aelod arall o'r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf
- Cadeiryddion Pwyllgorau
 - Pwyllgor Craffu (x3)
 - Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
 - Pwyllgor Cynllunio
 - Pwyllgor Trwyddedu (Canolog a Chyffredinol yn cael ei gyfrif fel un Pwyllgor)
 - Pwyllgor Pensiynau

CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod: 1af o Hydref, 2020
Teitl yr Eitem: ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR
Swyddog Cyswilt: GERAINT OWEN, PENNAETH GWASANAETHAU
DEMOCRATAIDD

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Argymhellir bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Charles W Jones o gyfarfodydd y Cyngor am gyfnod o 6 mis o ddyddiad y cyfarfod hwn oherwydd amgylchiadau personol, yn unol ag Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan ei alluogi i barhau i fod yn aelod o Gyngor Gwynedd.

2. CEFNDIR A RHESYMEG

CEFNDIR

- 2.1 Mae Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi os yw aelod o awdurdod lleol yn methu mynychu unrhyw gyfarfod o'r awdurdod am gyfnod o chwe mis yn olynol o ddyddiad eu presenoldeb diwethaf, yna ni fyddant yn aelod o'r awdurdod mwyach. Mae'r rheolau ynghylch absenoldeb wedi eu haddasu yn sgil y cyfnod covid-19, ac fe ystyriwyd yr adroddiad yma yng nghyd-destun yr addasiadau hynny.
- 2.2 Yr unig eithriad i hyn yw os y cymeradwyir yr absenoldeb gan yr awdurdod.

SEFYLLFA PRESENNOL CYNGHORYDD YNG NGHYNGOR GWYNEDD

- 2.3 Mae'r Cynghorydd Charles W Jones yn wael ar hyn o bryd ac felly mae hyn yn effeithio ar ei allu i fynychu cyfarfodydd ffurfiol o'r awdurdod.
- 2.4 Mae gofyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Charles W Jones o gyfarfodydd yr awdurdod er mwyn ei alluogi i barhau i fod yn aelod yn unol â'i ddymuniad.
- 2.5 Os na roddir cymeradwyaeth i'r absenoldeb, yna byddai cyfnod y Cynghorydd Charles W Jones fel aelod o'r Cyngor yn dod i ben 6 mis ar ôl ei bresenoldeb diwethaf mewn

cyfarfod o'r Cyngor. Noder fod y cyfnod wedi ei addasu yn unol â'r newidiadau i'r rheoliadau covid-19.

- 2.6 Awgrymir, o dan yr amgylchiadau, y dylid cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Charles W Jones.

3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

Swyddog Monitro:

Rwyf wedi cynorthwyo gyda paratoi yr adroddiad yma . Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.